

# LLYDAW

GAN

W. AMBROSE BEBB

LLUNDAIN:

DEPÔT CYMRAEG FOYLE,  
121 CHARING CROSS ROAD

W.C.2

1929

LLYDAW

# LLYDAW

GAN

W. AMBROSE BEBB

LLUNDAIN:

DEPÔT CYMRAEG FOYLE,  
121 CHARING CROSS ROAD

W.C.2

1929

CYFLWYNIR Y LLYFR HWN

I

MR. TIMOTHY LEWIS, M.A.

A'R

DR. T. H. PARRY-WILLIAMS, M.A.

FY ATHRAWON CYMRAEG

YN

ABERYSTWYTH

O WIR BARCH AC EDMYGEDD

GWNAETHPWYD AC ARGRAFFWYD YM MHRVDAIN FAWR GAN PURNELL A'I FEIBION  
FAULTON (GWLAD-YR-HAF) A LLUNDAIN

## RHAGAIR

YR wyf yn ei deimlo yn fraith cael y cyfle i gyflwyno i'r darlennydd Cymraeg lyfr newydd fy nghyfaill AMBROSE BEBB, a gallaf ei sicrhau fy mod wedi ei fwynhau yn ddirfawr fy hun. Mewn gwirionedd, y mae yn waith diffuant dyn diffuant, llydanfarn, sy'n cydymdeimlo a Llydaw am ei fod yn ei hadnabod yn dda. Ac efallai ei fod yn briodol i Lydaw'r a gâr nid yn unig ei wlad ei hun ond hefyd Gymru, roi y dystiolaeth yma ar riniog y llyfr a ysgrifennwyd mor ofalus ac mor ddestlus; a gwahodd yn galonnog y cyhoedd i'w ddarllen gan addaw iddo lawer o bleser a pheth sy'n fwy ac yn well, lawer o fudd.

Y mae ysgrifennwr y llinellau yma yn caru Cymru am yr un rhesymau ag y mae AMBROSE BEBB yn hoff o Lydaw. Y mae wedi byw ynddi i'w hastudio yn y man a'r lle; mi geisiasom ein dau ddeall cyn inni farnu; ac y mae yn hollol gywir dweud mai ychydig sydd yn deall Llydaw fel y mae awdur y llyfr yma yn ei wneud. Mae wedi bod ym mhob lle, wedi cyfarfod arweinwyr y mudiad cenedlaethol, wedi siarad a'r bobl gyffredin ac wedi llwyddo yn rhagorol am ei fod wedi defnyddio nid yn unig ei ddauylgad a'i ben ond, yn anad dim, ei galon: ac y mae calon AMBROSE BEBB yn y lle iawn.

Wrth gwrs, yr oedd ganddo lawer o fanteision; medr siarad y Ffrangeg, a pheth sydd yn well yn Llydaw, y Llydaweg hefyd. Metha llawer o Ffrancod, ac ysywaeth o Lydawiaid, ddeall Llydaw, o achos eu bod yn anwybodus o'r iaith Lydaweg. Nid oes, mewn canlyniad, ddim cysylltiad rhyngddynt ag enaid y wlad; fe glywant ond ni ddeallant, fe welant ond dim ond y mater; ni sibrwd wrthynt ysbryd y cenedlaethau a fu a'r pethau gynt, ysbryd sy'n byw ac yn fflamio o hŷd, gyfrinach y bywyd cenedlaethol.

Fe fydd y llyfr yma nid yn unig yn ddiddorol dros ben, ond hefyd yn fuddiol. Peidiwn ag anghofio cyn nesed ydyw ein dwy wlad; chwiorydd ydynt o ran gwaed ac ysbryd ac ill dwy yn wledydd bychain sydd yn rhaid iddynt ymladd yn galed yn erbyn dwy genedl fawr i achub eu henaid. Gan hynny, mae'n briodol ac yn angenrheidiol hefyd iddynt gynorthwy y naill y llall ac i wneud hynny yn dda, dylasant adnabod y naill y llall yn well.

Yn ddiamau, nid oes dim crystal a all y Cymro gwlatgar sydd eisiau arno wybod rhywbeth cywir am Lydaw wneud na dilyn yn ôl traed fy nghyfaill AMBROSE BEBB.

PIERRE MOCAÉR.

*Brest.*

## CYNHWYSIAD

	TUD.
RHAGYMDRODD . . . . .	ix
I. Y DAITH . . . . .	19
II. GWYL GWENGAMP . . . . .	34
III. TRANNOETH YR WYL . . . . .	46
IV. YMWELED Â BARDD . . . . .	64
V. GADAEI GWENGAMP . . . . .	78
VI. BYWYD TREMEL . . . . .	95
VII. BYWYD Y WLAD O GWMPAS . . . . .	105
VIII. YMDDIDDAN AG OFFEIRIAD TREMEL . . . . .	131
IX. GUILL AR C'HOAT . . . . .	151
X. O DREMEL I WERLISKIN . . . . .	163
XI. GWERTHU LLYFRAU YN LLYDAW . . . . .	189
XII. TRO ARALL GYDA'R GWERTHWR BEIBLAU . . . . .	207
XIII. GADAEI TREMEL . . . . .	234
XIV. YM MRO LEON . . . . .	247
XV. YM MONTROULEZ . . . . .	258
XVI. EGLWYS ARDDERCHOG . . . . .	270

## RHAGY MADRODD

YN ffodus neu'n anffodus y mae i'r llyfr hwn fymryn bach o hanes. Fe'i hysgrifennwyd bron i gyd, ar wahan i bennod neu ddwy ar y diwedd, mewn ysbaid pythefnos o amser, ym Mis Mehefin 1923. Hawdd imi yw cofio, a dymuno cofio, am y dyddiau dedwydd hynny yn Nhremel, man y deuthum gyntaf oll i ymgydnabod a'r bywyd cyfoethog ei lawenydd y sydd yn Llydaw. Codwn bob bore tua chwech o'r gloch, gan ysgrifennu dwyawr neu dair cyn disgyn i'r gegin am goffi aroglog. Yn y modd hwnnw, a hi'n haf digymar yn Llydaw, a'r bywyd o'm cwrpas yntau'n haf ei orohian ysgafn, yr ysgrifennais y llyfr hwn bron i gyd.

Fe'i cedwais yna am flwyddyn, heb gael hamdden i'w ail-ddarllen, ond gan ei roddi, yn y diwedd, i Mr. Gwynn Jones. Yn ôl ei garedigrwydd arferol, bodlonodd i'w edrych, a rhoddi i minnau, yna, ei farn amdano. Cefais ganmoliaeth haelach o lawer nag a ddisgwyliwn, ac awgrym i'w gyhoeddi. Am flwyddyn arall bu yn fy meddiant, heb fod yn nes i'w gyhoeddi. Awn i Lydaw bob gwyliau haf, a chael felly, yr unig hamdden a feddwn i feddwl am y llawysgrif. Ysgrifennais bennod arall yn haf 1926, ac eto

un wedyn. A dyna'r cyfan. Nid oedd yn aros yna ond yn unig ei gyhoeddi,—yn un arall at y gormodedd y sydd ohonynt!

Gwn yn dda am feiau'r gwaith, a diau y bydd y darlennydd—os darlennydd a fydd iddo—yn gwybod am fwy fyth. Fe'i hysgrifennais, yn wir, am fod yn hoff gennyf ysgrifennu pan fyddo amser gennyf, ac yn enwedig ar hirddydd haf, pan fo haul yn dawnsio egni i bob gwythien, a golau a gloywder i foddau dyn a'i feddyliau. Yn fwy na dim rheswm arall fe'i hysgrifennais o barch i'r wlad a ddisgrifiaf, o wir ddiolch i adeiladwyr y niferoedd rhyfeddol o gampweithiau celfyddyd sydd yno, mewn Eglwysi a Chestyll, Capelau, Croesau, Calfariau, ac na wn i ddim ba faint o geinderau eraill; mewn dyled drom i offeiriad ac offeren, a roes agwedd pererinfia i wlad gyfan, a gorymdaith a gŵyl, a phardwn a phader, a gwisgoedd gosgeiddig, a moesau mirain, mwynion, a pha faint mwy o bethau eraill, bethau annwyl, gorhoff, na welir yng Nghymru mwy. Eu diffyg hwy a roes i'n gwlad ni ddrych bedd a mynwent yn rhy fynych o lawer.

Onid gweddi llawer bardd yng Nyhymru ydyw

Mynwent a nef i minnau!?

Ac oni pherant i blant bychain, "tlws eu twf," os oes rhywbeth yn dlws, ganu—

Wyf iach o bob afiechyd  
Ac yn fy medd, gwyn fy myd!?

Ar ddydd ffair yn unig, a'r rheini wedi dirywio i ddrychiolaeth o'u hunain gynt, y clywir heddiw, yng "ngwlad y gân," lawen-ganu, a difyr-byncio. Efallai i Biwritaniaith wneud i Gymru lawer o ddaioni, ond yn sicr, nid digon yn dâl am ein "puro" o bob llawenydd, o bob ymfwynhau mewn a fo dlws i lygad, hyfryd i'r corff, ardderchog ac ysblennydd i'r meddwl. Y mae gennym eto i ddysgu bod i feddwl ei wrthrychau, ac mai eu hardded hwy, a'u ceined, a'u gwyched, a rydd gyfle i'r meddwl yntau ymharddu, ac ymurddasoli.

Dyna'n ddiâu un o gyfraniadau mawr Llydaw, a'i Heglwys, sydd hithau'n Eglwys Cred, i wareiddiad Iwrop. Yno, gall y Cymro heddiw eto fynd megis i lygad y ffynnon, i weled arddunedd a gogonedd yn y man y mae; ac yn wir, yn y drych hwnnw, ei weled ei hun fel yr oedd yntau gynt, ac ymfalchïo mai cenedl o'r un gwaed ag yntau a berchen y rhinweddau hyn.

Ond, y mae Llydaw yn ofergoelus? Ydyw; cyfaddef hynny, ac yn hael. Eithr ple y mae wlad nad yw felly? Nid Cymru'n ddiâu.

Ac y mae Llydaw yn dlawd, yn llawn rhai'n cardota? Ydyw eto, er nad mor dlawd a Chymru, am nad oes yno ddim i gyfateb i drueni di-enw a di-enaidd y manau cêl hynny yn ein dinasoedd, nad oes enw Cymraeg amdanynt, ac y buasai'n rhagorach pe na byddent, nid mewn enw, ond mewn gwirionedd.

Ac y mae yno glefydau, ac yno drueni, ac yno aifendid? Diau eto. Yr un pryd y mae'r cyfan yn



y golwg, y cyfan yn amlwg, a'r cyfan, gan hynny, yn atgoffa pawb o'i fod, ac yn peri iddynt geisio ei wella, a'i ddileu. Clefydau cudd, fel y pechodau cêl, yw'r rhai na ddadwreiddir.

Ond, na ddadleuwn ddim, am nad oes diben i hynny ar destun fel hwn, ac am nad amcan y llyfr hwn ydyw ceisio profi Llydaw'n rhagorach na Chymru. Os llwydda i argyhoeddi rhywun fod honno'n fro dêg, wridog, hoffed o wîn ag o wên, ac yn ddiddorol, yn arbennig i Gymro, bydd yn ddigon gennyf i. Gormod o bwyslais a fu ar dristwch Llydaw, gormod o sôn am ei phobl fel pobl y gwyll a'r cyfnos, y pruddglwyf heintus a'r hiraeth anesgor. Fe'i disgrifid yn drist o genedl, yn byw mewn breuddwyd na ddiwedddai fyth, yn meddu ar chwaeth am angau, ac yn anadlu allan ei hiraeth am y tu-hwnt yn ei cherddi a'i chaneuon. Ac am y wlad ei hun, yr oedd yn dorcalonnus o drist hithau, o dan amdo tew o niwl a tharth, yn ymestyn yn eithindir anial, undonog, o afon lonydd, leddf, i afon arall, lonyddach, leddfach, ac, amdani, y môr na ostegai fyth ei gynddaredd, na thewai fyth a'i fygwth, nad oedd ganddo eddi ond i wylo, nac ewyn ond yn unig i feichio wylo, i ochain, ac i riddfan. Ac, yn wir, ysgrifennwyr Llydewig eu hunain oedd gyfrifol am y chwedl hon, gan i'r Ffrancwyr, o'u blaen, a Madame de Sévigné yn arbennig, weled yno lawenydd lawer, gwleddoedd gwin, gwenau gwridog y gruddiau iach, difyrrwch a dawns ar lawr gwesty neu gynted priffordd.

Yna daeth Chateaubriand, fel gwîr Ramantydd, i

ddychmygu ei hiraeth ei hun, a'i bruddglwyf, yn y fro a'i magodd, yn ochain fel ing coedwig yn nhyrau Castell Chambord. Ac ar ei ôl Renan o Landreger, lle y mae gloyw afon, ac aur ar eithin a meysydd banadlog, i sôn am fro heb haul, ac wybren niwlog, yn amdo nad oedd fyth yn "wenwisg" fel yn angladd Dafydd ab Gwilym. Rhamantydd arall ydoedd Michelet yn ei deithiau ef trwy Lydaw, a pharod i weled yn unig greigiau noethion, a meysydd yn tyfu "llafur" a lliwiau heb raen.

Yn eu dwylo hwy aeth Llydaw yn wlad y gorffennol, y bedd a galar. Ysgrifennodd Émile Souvestre am *Les Derniers Bretons*, cystal a chyfaddef mai perthyn i'r pethau a fu ydoedd y trigolion hyd yn oed. Onid, yn ein dyddiau ni, i'r *Pays du Passé* y cysegrodd Anatole le Braz ei ysgrif-bin hawdd, gan gymysgu dagrau ag inc?

Diau bod tristwch yn Llydaw, fel y mae'n rhaid iddo fod ymhob gwlad tra bo i ddyn ei drueni fel ei fawredd. Ond y mae yno fwynder ddigon a digrifwch calonnau di-ofidiau, a chwerthin a chwarae meddyliau diniwed, heb eu handwyo gan addysg arwynebol. Fin nos, ar faes, ar ffridd, ar lwybr yr *Ankou*,<sup>1</sup> ar fuarth tyddyn, ar uchaf y Mynydd Du, ar fyrddydd Gaeaf fel hirddydd Haf, ar ddiwydrwydd cynhaeaf ac ar lonyddwch Saboth, ym mhobman, y mae canu *son* a *gwerz* i'w glywed yn rhwygo'r awyr ac yn disgyn yn ddiliau mêl ar y neb a'i clywo. Yn fynych y mae'r

<sup>1</sup> Angau. Yn Llydaw, fe'i personlir, a'i gwrrd ar gyrrau'r gweunydd, a gwarr gellydd, gyda diwedd dydd ac ymdaith nos.

canu hwnnw yn hanner-cwynfannus, ond y mae hefyd bob tro yn hanner-gorfoleddus.

Y mae tristwch yn Llydaw. Ond arall yw'r tristwch hwnnw. Tristwch dadfeilio hen wareiddiad ydyw, tristwch cwmp diwylliant sy'n cwyno megis gan raib angau, tristwch pobl yn colli eu gafael ar eu hiaith am na ddysgir hi yn yr ysgolion.

Peth ofnadwy i ddyn neu i genedl golli eu hetifeddiaeth genedlaethol, a'u disgyblaeth gymdeithasol, pethau gwerthfawrocach na gwaed,—mewn gair, holl etifeddiaeth meddyliol ac ysbrydol y meirw. Canys am y dyn a ddadwreiddiwyd, ac a dorrwyd oddiwrth ei ddosbarth, ac am y genedl a gollodd ei gorffennol, y maent yn wannach nag eraill i wrthwynebu galluoedd twyll a drwg. "Mân lwch y cloriannau" ydynt bellach, ac at drugaredd pob chwyth o gelwydd a geudeb.

Un ffordd i gryfhau dyn ac i'w ddiwygio ydyw diogelu'r doniau cenedlaethol, a rhoddi i'w genedl gyfundrefn gref ac iach. Y mae'r neb a etifedda rinweddau ei bobl, ac a'i gosododd ei hun tan ddisgyblaeth genedlaethol, eisoes ar y ffordd i fod yn ddyn, yna yn arwr, ac, yn olaf, yn Sant. Awdur *Cartrefi Cymru* a ysgrifennodd hefyd *Er mwyn Iesu*. Fel yn Ffrainc yr aeth awdur *Jardin de Berenice* yn apostol *Grand Pitie des Eglises de France*, felly yng Nghymru yr aeth perffeithydd yr iaith Gymraeg un dydd i ddarlithio ar werth Williams Pantycelyn. Onid heddiw yr aeth un arall a osododd arno'i hun y ddisgyblaeth genedlaethol yn ddadleuydd gofalus yr un Williams Pantycelyn? Ac eto, am rai o dueddiadau gwamalf

llynyddiaeth y dydd yng Nghymru, onid yr un ddisgyblaeth a ddwg inni iachawdwriaeth? Dysgu grym a gwerth disgyblaeth genedlaethol a'i diwylliant a wna'r tristwch hwnnw a gyfyd o'r manau yn Llydaw lle y mae'r ddisgyblaeth hon leiaf, a'r lle y clywir dadfeilio o ganlyniad. Un gallu'n unig a erys yno heddiw yn ddigon cadarn ac yn ddigon effro i rwystro'r dadfeilio i fyned rhagddo hyd ddistryw pur. Yr wyf yn cyfeirio, wrth reswm, at yr Eglwys Gatholig, a fu, er ei holl wendidau,—sydd yn wendidau dynol yn hytrach na gwendidau y sefydliad ei hun,—yn adeiladydd gwareiddiad Llydaw, yn anadlu anadl egni a grym a hyder i mewn i'w holl fywyd, a'i goroni a gorohian. Ei gweled hithau ar dro yn gwegian, ar dro yn gwingo, ydyw ffynhonnell arall y tristwch a deimlir yno, ac a glywir weithiau fel trwst taran yn torri. Ei pheryglu hi, yn wir, fydd peryglu un o'r colofnau cryfaf y saif gwareiddiad arno yno. Y mae megis llifio'r gangen yr ydych yn eistedd mor gysurus arni.

Yma, onid ydym ninnau'n gyfrifol? Onid oes gennym ni yno genhadon, yn dadlau yn deg ac yn druan, fel Rhiannon, ac yn amlach yn druan nag yn deg? Onid ymladdant a hi fel gafr M. Segur yn erbyn y blaidd, yn un o straeon Alphonse Daudet?

Ar y pwnc hwn ni ddywedaf weithian onid hyn:—mai gwael o beth ydyw ar y gorau, a gwaith na ddylai fod gennym ni ddim ag ef. Gadawer eraill i ddistrywio, os distrywio a fynnir. Distrywiwch, a bydd rhaid ail-gychwyn o'r dechrau. Ni bydd dim yn aros, ond yn lle hynny, bydd y cwbl i'w

godi o'r gwaelod, a gwaith canrifoedd i'w ail-wneud o'r sail i fyny. A fynnw'n ni ynfydrwydd felly? A fynnw'n ni—er bod yn Brotestaniaid, ac er parhau i fod felly—gau ein llygaid i'n dyled ni, hyd yn oed, i'r Eglwys Gatholig? A fynnw'n anghofio i'n llenyddiaeth fore ninnau, a'n bywyd am ganrifoedd, a'n meddyliau am yr un ysbaid canrifoedd, ein celfyddyd—a'r nefoedd a wŷr fel y mae'n dlawd arnom heb yr olaf un!—a phopeth a berthyn inni gael eu suo i ieuencid a mawredd gan yr un Eglwys Gatholig?

Ni ddymunaf wneud cam a'r cenhadon sydd gennym yn Llydaw. Canys fe'u hadwaen, ac y mae gennyf barch mawr iddynt. Yn unig, dywedaf nad yno y mae eu lle, am resymau a ddatblygaf mewn cyfrol arall. Yn unig, eto, awgrymaf iddynt hwy, fel i arweinwyr crefydd yng Nghymru, ac, yn wir, i lenorion ein gwlad, ystyried y geiriau hyn gan un o'r disgleiriaf<sup>o</sup> feddylwyr Ffrainc,—M. Georges Bernanos:—

*“L'antique discipline catholique se fonde sur une expérience si profonde, si intime et si vivante du cœur humain que l'artiste, le critique, ou le moraliste qui y cherchent une règle de vie, y trouvent encore s'ils veulent, la méthode, et l'inspiration de leur art.”*

Yma, ynteu, y mae ystyried y tristwch sydd yn Llydaw yn ein harwain. Yno y mae problem drychinebus tynged dyn yn cael ei gosod yn gyson, a'i gosod yn daer i ddynion heddiw.

Yn y llyfr hwn, ni cheir ymgais i wynebu'r pwnc, llai fyth i'w ddadrys. Ni wneir yn unig ond adrodd

ar a welir ac a glywir, a deimlir ac a ddëellir. Hanes taith yw yn fwy na dim arall a'r daith honno'n unig yn y Gogledd. Fy mwriad eto fydd adrodd yn gyffelyb am y Dehau, ac yn olaf yn unig sôn am egluro ac esbonio. Yr adeg honno y ceir manylion ar lenyddiaeth, am na ddaeth neb o lenorion mawr Llydaw o'r Gogledd. O'r De y daeth Villemarqué, Brizeux, ac ar lawer cyfrif y mwyaf ohonynt oll—Jean Calloc'h.

Dyfynnwyd ychydig yn hwn, a hynny bob tro gan gadw at orgraff yr awdur ei hun. Wrth gyfieithu, cedwais mor agos ag y gallwn, lle'r oedd modd, at y gwreiddiol, er dangos mor agos yw'r ddwy iaith i'w gilydd.

Fy hyfrydwch ydyw cael cyflwyno'r gwaith hwn i'm hathrawon Cymraeg yn Aberystwyth, ac ymddiheuro am na fyddai'n deilyngach ohonynt. Y mae fy niolch yn fawr i'r Athro T. Gwynn Jones, am ddarllen y llawysgrif, ac am eirida iddi. Dyled drom ydyw honno sydd arnaf i'r Athro Ifor Williams, am ddarllen y profenni a'u cywiro, ac am awgrymiadau lawer. Yma hefyd, dylwn fynegi mor ddyledus y mae Cymru oll iddo fel darllenwr profenni,—darllenwr perffaith o bu un erioed,—gwaith a fydd amynedd lawer, ac amser mawr iawn. Diolchaf wedyn i'm cyfaill M. Mocaer am ei eiriau caredig—rhy garedig o un rheswm—yn ei Ragair, ac i Mr. John Hughes, Adran Gymraeg y Meistri Foyle am ei amynedd pan oeddwn yn rhy hamddenol, ac am bob trafferth a gymerodd gyda'r holl waith.

## LLYDAW

### I

Mon enfant, ma soeur,  
Songe à la douceur  
D'aller là-bas . . .

—BAUDELAIRE

### Y DAITH

Y SADWRN cyntaf yng Ngorffennaf 1922 ydoedd hi. Y nos cynt, buaswn yn pacio gyferbyn a'r daith o Baris i Wengamp.<sup>1</sup> A thrannoeth yr oeddwn ar fy nhraed, chwedl y bobl dda yng Nheredigion, am bump o'r gloch y bore. Yn gyntaf oll, yr oedd yn rhaid myned o Sceaux, tref ychydig i ffwrdd o'r Brifddinas, i Baris. Cymerai hynny amser go dda, gan gymaint yr hamdden sydd ar ein trenau ni yma. A chan mai boregwaith o haf ydoedd hi, nid oedd le i gwyno wrthynt am grwydro'n araf rhwng y perthi teg a'r perllannoedd, y pêffrwyth aml o geirios cochion, a'r lleiniau tir gyda'u llawnder o fefus a mafon. Wedi dirwyn felly am awr namyn ychydig, yr oeddwn ym Mharis, ac ymhen ennyd ymhellach yn gadael honno, hithau, mewn tren gwyllt am Lydaw.

Canys am Lydaw y cyfeiriwn. Yr oedd hud imi yn yr enw, ac yn y bobl. Onid Cymry oeddynt?

<sup>1</sup> Yn Ffrangeg, *Guingamp*.

Onid pobl o'r un gwaed a ni, wedi eu gorfodi i ymfudo o Gymru ac o Gernyw? Onid o'r un bru a'r Cymry sydd ar wasgar ym Mhatagonia, yng Nghanada, yn Awstralia, ac yn na wn i ddim ple wedyn? Onid yr un eu bonedd a'r Crynwyr a orfodwyd, hwythau, i ymfudo i Bensylfania, a'r lluoedd y bu raid iddynt ffoi i'r cyfandir newydd y ganrif ddiwethaf, a chyn hynny? Onid pobl oeddynt fel y lleill, y bu tynged yn galed wrthynt? Yr unig wahaniaeth ydoedd iddi ddangos ei dannedd miniog iddynt hwy ddeg canrif a mwy o flaen yr ymfudwyr diwethaf hyn. Ag eithrio hynny, yr un yn union oedd eu gwreiddyn. Ac onid oedd henaint wedi gosod hud mwy ar eu hanes?

Oedd; yr oedd y cwbl hyn wedi gweithio Llydaw yn annwyl i'm bryd. At hynny, wedyn, buaswn o'r blaen dro byr yno. Eithr nid yng nghanol y wlad y waith honno. Yn unig yn Rennes. Ac nid Rennes mo Lydaw. Ni bu erioed, hyd yn oed pan oedd yn Brifddinas llys a llywodraeth annibynnol Llydaw. Llai fyth heddiw. Yno y mae'r Brifysgol, yr unig un a fedd Llydaw; yno yr hen Senedd-dŷ gwych ei emwaith, a champ ei addurn a'i gelfyddyd yn arwyddo llwyddiant Llydaw gynt; yno yr ysgolion, ac yno yr ysgolorion. A dyna'r cwbl. Am enaid y genedl, rhaid mynd tu hwnt i Rennes filltiroedd lawer. Eithr ni buaswn i hyd berfedd y wlad yr ysbaid hwnnw. Caeth oeddwn i Rennes, ei Phrifysgol a'r Llyfrgelloedd, i droeon ei hafon fudr, i lwybrau ei gerddi heirddion. Ond gwybum ryw ddyhead angerddol am dreiddio draw i'r Gorllewin a gweled

y Llydawiaid, fel y maent, yn noeth heb y rhisgl Ffrengig.

Dyna oedd amcan y daith yr oeddwn ar ei chychwyn o Baris. Yr oedd weithian flwyddyn a hanner er pan adawswn Rennes, ac yn y cyfamser, dysgaswn innau gryn lawer o'r Llydaweg. Yr oedd yn rheol gennyf, ers tro, ddarllen pennod o'r Efengylau ynddi yn gyntaf gorchwyl bob bore, gan na wn i am un ffordd well i ddysgu iaith, yn ol dechrau cyfarwyddo peth a hi, na darllen eich Beibl ynddi. Ffordd gampus ydyw. Ond, yn unig at iaith lyfr. Amdani fel y llefarir hi gan y bobl, y mae'n rhaid myned i'w plith hwy, i fyw yn eu mysg, ac i ymddiddan a hwy. Ni wnaethwn i hynny a'r Llydaweg eto, ond yr oeddwn a'm bryd arno. Bwriadwn hefyd fyned i mewn i ddirgelion bywyd y bobl, i deimlo fel y maent hwy yn teimlo, i gyd-fyw â hwy, a chyd-chwedleua a chyd-grefydd â hwy. Yr oeddwn am ddeall beth oedd yn annwyl yn eu golwg, beth yr oedd yn gas ganddynt amdano, beth oedd yn dwyn eu bryd ac yn ennill eu calon. A oedd Ffrainc yn fawr ei dylanwad arnynt? A oeddynt, fel mwyafrif y Ffrancod, wedi colli ffydd yn eu crefydd? A wyddent eu hanes arbennig eu hunain? Ai credu yr oeddynt na buont erioed yn annibynnol ar Ffrainc? A deimlent heddiw eu bod yn genedl wahanol i Ffrainc, gyda gorffennol gwahanol, traddodiadau amgen, moesau eraill, a dyfodol annhebyg? A oedd eu *gwerziou* a'u *soniou* yn fyw ar eu cof? A gadwent goffa am Luzel, Brizeux, Prosper Proux, Villemarqué, a Souvestre? A oeddynt yn cydsymud

a'r arweinyddion cenedlaethol diwethaf,—Taldir, Berthou, Ar Garrek, Le Crocq, Lemennik, Vallée, Ar Moal, Charles Rolland, Mocaer a Gourvil?

Wele rai o'r pethau y gobeithiwn allu dysgu amdanynt wrth fyned i blith y bobl. Yr oedd, o leiaf, beth mantais gennyf. Nid ofer ydoedd fy llafurio ar yr iaith; a lles ydoedd byw yn Ffrainc am flwyddyn a hanner cyn myned i ysbïo Llydaw. Daethwn felly i gydnabod ffurfiau newyddion o feddwl, a theithi nad oeddynt gyfarwydd imi o'r blaen. Dysgaswn barchu credo cenedl arall, a gweled gwerth eu crefydd, er mor annhebyg i'r un y'm dygwyd i fyny ynddi. Ni pheidiaswn a bod yn Brotestant, wrth reswm; ond yr oedd yn dueddach gennyf gydymddwyn a Chatholig na'i gondemnio. Cam bras yn y blaen ydoedd hwn i un a fynnai ddeall y Llydawiaid, sy'n bobl mor ddefosiynol a chrefyddol. Gwyddwn mai dyma dramgwydd yr enwocaf o'm cymrodyr a fu yno, ac nid oedd yn amcan gennyf lithro, minnau eto. Nid y lleiaf o'm manteision ydoedd mai o Ffrainc yr awn i mewn i'r wlad, ac nid o Gymru, o Baris ac nid o Dregaron. Mantais ydoedd ymgydnabod â bywyd y Brifddinas honno, a'i moesau hi a'i harferion, a gwybod am ei llyfrau a'i phapurau, am ei thefyrn gwin a'i heolydd trystiog, am ei dawnsfeydd ac am ei llawenydd, am ei phrysurddeb bob dydd ac am ei digrifwch dydd Sul.

Yn goron ar y cwbl, yr oedd gennyf gyfeillion amryw o Lydawiaid ym Mharis, a'r rheini a minnau wedi arfer cyd-ymddiddan llawer am Lydaw. Gyda

hwy y bum i'n dysgu'r Llydaweg, a deuent hwythau i ddosbarthiadau a gynhelid gennyf i ddysgu'r Gymraeg. Yn eu plith yr oedd amryw nad ydynt anenwog yn eu bro eu hunain, gwyr fel Gros, Weisse, Carhoff, Regnier, heblaw rhai iau wedyn, Bricler a Mordrel. Am un o honynt, M Weisse, cymerasai ddiddordeb arbennig yn y daith yr oeddwn ar fedr ei gwneuthur, gan awgrymu cynllun imi, pa le i fyned, a pha beth yn arbennig i'w weled. Rhoisai hefyd fenthyg llyfr defnyddiol ddigon ar gyfer ymwelwyr. Yn olaf, fy nghyflwyno i gyfeillion oedd ganddo yma a thraw, a rhoddi imi eirida i'w ddwyn iddynt ar ei ran ef. Nid oedd dim a arbedodd ei garedigrwydd ef, ac yr oedd ei eiriau byr yn fy nghymeradwyo i sylw ei gyfeillion, yn bell o fod yn brin. Yr oeddynt, yn wir, yn hael iawn. Dyma enghraifft o un ohonynt, ac yr oeddynt yn gymharol debyg bob rhai. Wele:—

*"Minion Ker—Kas a ran dit an Aotrou Bebb, eur C'heumro (Gallois) iaouank hag en deus c'hoant da weled Breiz. Ni a gar anezan kalz, dre-aman, rak eur potr mat eo, mad distinget, hag esper hon deus e vo digemeret mad gant hor minioned du-hont er vro. Dit a galon bepred.*  
"L.W."<sup>1</sup>

Trwy'r cyfan nid oeddwn yn gwbl ddiarfog ar gyfer y daith. A thaith hyfryd ydoedd hi. I ddechrau,

<sup>1</sup> YN GYMRAEG: "Annwyl Gyfaill, Danfon a wnaif atat, Mr. Bebb, Cymro ieuanc, sydd arno chwant gweled Llydaw. Ni a'i hoffwn ef lawer yma, canys bachgen da, da iawn, ydyw, a gobaith sydd gennym y derbynir ef yn dda gan ein cyfeillion hwnt yn y wlad. Atat o galon fyth!  
"L.W."

myned heibio Sevres, gyda'i dai a'i goed yn gymysgfa ryfedd o goch a glas. Yna dyfod i Fersái,<sup>1</sup> priflys y brenhinoedd gynt, gyda'i Blastŷ cwmpasog, a'i erddi amryfal, ei lyn a'r bercydd, ei ddau Drianon a'i fwthyn Marie Antoinette, yn un o'r manau godidocaf yn Ffrainc. Ei gwneud hi am Chartres yr oeddem wedyn,—am Chartres, dinas yr eglwysi hen, a'r Eglwys Gadeiriol sydd yn rhyfeddol ei gwaith Gothaid. Y mae rhyw urddas i'w ryfeddu ynddi, fel y gwelwn hi o bell, ac y mae'n hen, canys rhwng y blynyddoedd 1194-1260 yr adeiladwyd hi. Am arddunedd, nid yw'n ail i nemor un. A ni'n gadael Chartres, yr ydym ysbaid trigain milltir o Baris, ac y mae'r tren yn gwylltio tipyn bellach. Allan a ninnau weithian o gynteddoedd y Brifddinas a'r dinasoedd sydd ar ei chyfyl. Canol gwlad ydyw hi mwyach, a bro wastad lefn. Gwlad amaethyddol ydyw, gwlad yn llawn caeau breision—breision eu heangder, breision eu daear. Caeau llydain, heb ffin iddynt, heb glawdd, heb sietin, heb wrych. Gweithiai'r amaethwyr yn ddiwyd ar y tir, yn torri'r gwair, rai; yn ei gywain, eraill; yn ei drin a'i drafod, ei ffusto a'i godlo, drachefn eraill. Ac yr oeddid yn gweithio! Nid oedd onid crys tenau, a llodrau ysgafn, amdanynt. Dim cot, dim gwasgod, dim arall, namyn y macyn poced i sychu chwys pan geffid munud i hynny. Y mae amrywiaeth lawer yn eu dulliau o weithio, ac, i un, sy'n gyfarwydd ei hun a gweithio gyda'r gwair, nid oes dim mwy diddorol na sylwi arnynt. Ymaith

<sup>1</sup> Versailles.

a'r llyfrau yn awr; ymaith a'r darllen. Weithiau, o fydylau mawrion—ddwywaith cymaint a'n rhai ni yng Nghymru—y codid y gwair i'r ddwy gambo letchwith, lydan. Weithiau, o rai bychain, bychain, oedd, yn wir, nid yn fydylau ond yn stacau yr un fath a'r stacau yd a wneir yng Nghymru. Yr oedd eangderau o gaeau felly, gyda miloedd o'r stacau pedair ysgub hyn—neu "fychod," chwedl yr amaethwyr ym Maldwyn—a gweithio diwyd iawn i'w cywain. Yn fynych iawn, byddai'r gwair hadau a'r meillion yn cael eu clymu'n ysgubau crynion, lond cofl ohonynt, cyn eu tafu i'r gertwain. Bob yn ysgub felly y byddid wedyn yn eu rhannu, y gaeaf, i'r gwartheg. Ysgub fydd cyfran un am y dydd. Caled o waith ydyw'r cywain, yn ôl y ddefod hon, ac nid oedd modd gwneud llawer ohono. Yn hytrach, yn araf bach iawn. Felly y llafurid gyda'r gwair. Am y ffin â'r rhain, yr oedd llafurwyr eraill, y rhain yn gweithio ar gaeau tatw, a maip ac erfin. Yr oeddynt yn hofio, hofio, gyda'u hofiau ysgeifn, hwylus, neu'n chwynnu'r betys ar eu penliniau, fel y gwybum innau ganwaith ei wneuthur. Yn y modd hwn yr amrywai bywyd yn rhywiog ar y meysydd, gyda llafurwyr eraill wedyn yn glanhau'r "afalau daear," chwedl y Ffrancod a'r Llydawiad am datw, ac yn cymryd munud o hamdden bryd arall i godi'r botel win yn uchel uwch eu swch, neu i dorri eu telpyn bara a'u cylllell boced. Mor rhydd yw bywyd y llafurwr diddichell!

Gwastad a noethlwm ydoedd y wlad, gan mwyaf; ond deuai perthen goed a pherllan i'w gweddnewid

weithiau, i gyfnewid llun, ac i harddu. Daliai'n undonog er hynny, oni ddaethom at Le Mans, dinas hen hithau, un o ddinasoedd pwysig Gâl gynt, ac yn ddiweddarach, yn amser Siarl Fawr, un o'r mwyaf ei llwydd trwy Ffrainc. Gwybu ei distrywio gan y Norman, a'i chymryd gan Wilym Orchfygwr, a dioddef llawer mewn ymrysonau cledd hyd y Chwyldro Mawr. Nid oedd arwyddion y brwydrau hyn i'w gwled bellach; yn eu lle, gwelid amryw o eglwysi, ac arwyddion bywyd masnachol, a diwydiant. Laval oedd y ddinas nesaf, hithau eto yn fawr, ac wedi gwybod oddiwrth y rhyfeloedd, yn arbennig y Rhyfel Can' Mlynedd, a rhyfeloedd crefyddol yr unfed-ganrif-ar-bymtheg, heb son, wrth reswm, am helyntion y Chwyldro Mawr.

Yr oedd yn amlwg erbyn hyn fod Llydaw yn nes atom. Yr oedd hynny i'w weled yng ngwedd y wlad. Newidiai ei ffurf fwy-fwy, a myned yn llai tebyg i'r maestir llydan, gwastad, a geir gymaint yn Ffrainc. Nid oedd y meysydd mawrion diberthi, digysgod, mwy, ond yn eu lle, y caeau crynion, bychain, yn llawn gwenith hirdwf, a haidd a cheirch, a gwair hadau a gwair gwyndwn. Coediog ydoedd ym mhobman. Nid gan goedwigoedd, ond gan goed yn y perthi o gylch caeau cyfer, dau gyfer, a mwy a llai, coed yng nghanol y maip a'r yd a'r gwair—coed afalau, coed perantau, coed derw, ynn, cyll, gwerni. Coed meinion, hirion, sythion oeddynt, coed a'u cangau wedi eu torri ymaith i'w gosod ar y tân ar aelwydydd tyddynnod Llydaw, coed heirdd yn

prydfferthu cyfeiriau cyfain. Tlws ydoedd y cyfan, a thelediwr a swynol. Nid oedd o gwbl yr un fath a Ffrainc o gylch Paris a Fersái, Fontainebleau, neu i'r gogledd i Galais. Yn lle'r lleiniau mafon a mefus, yr oedd erwau gwair ac yd; yn lle'r gerddi ceilys a'r ceirios, caeau erfin ac afalau daear; yn lle'r glysin a'r sitis, y planwydd a'r pefrwydd, derw ac ynn, cyll a gwernenni; yn lle'r planhigfeydd llawn blodau, meysydd yn berllannoedd bob un. Nid newid gwell am waeth ydoedd, na gwaeth am well, canys y mae Llydaw, ar y gororau yn gyfoethog ddigon ei daear, ac mor ffrwythlon a Ffrainc. Yn unig, o'r ddwy, y mae Llydaw'n brydfferthach. Nid ydyw mor wastad ac undonog, y mae'n cyfnewid llun a lliw, yn codi'n fryn yma, yn ffurfio dyffryn draw. Felly, amrywiaeth mwy. Ac amrywiaeth ydyw hanfod prydfferthwch bob amser, gyda daear yr un fel a chyda dyn. Wele paham y llefarwn fod yn dlysach Gymru na Rwsia, Yswistir nag Arabia.

Hawdd fuasai i Gymro, pe na buasai erioed yn Llydaw, ddeall ei bod yn ymyl. Ped agorai ei lygaid a gweled, ni byddai raid iddo onid gadael y gweddill i'r greddfau sydd ynddo. Fe ddeallai fod rhywbeth yn unwedd yn y fro i honno sydd hygaraf o bob un iddo. Rhaid mai yn y fro hon y ceid y Cymry a aethai gynt o'u gwlad eu hunain. Byddai hi yn llefaru wrtho. Yr un fel hefyd am y dinasoedd. Y mae Laval a'i chastel yn ei atgofio am yr amddiffyn a fu rhag rhuthr y Llydawiaid i'r dwyrain. Fe ddywed castell cadarn Vitre wrtho i'r dref hon fod yn



farwniaeth a berthynai i Lydaw. Cofiai mai hi ydoedd un o'r rhai yr ymleddid daeraf amdanynt yn y rhyfeloedd rhwng Catholig a Phrotestant. Yno hefyd y cyfarfu Seneddau Llydaw droeon o 1655 i 1706; yno y bu Madame de Sévigné yn byw lawer, ac yno y ganed hanesydd Llydaw, Arthur de la Borderie.

Y ddinas nesaf ydoedd Rennes, a hi ydyw prifddinas Llydaw, fyth wedi'r ddegfed ganrif. Y mae hanes rhyfedd wedi ei gyfrododdu amdani hithau, o'r adeg y daeth yn gartref priflys Llydaw i'r dydd y gwelwyd hi'n aelwyd dysg a diwylliant iddi. Llawn troeon ac anffodion fu ei hanes lawer gwaith hyd yr awr y gwrthododd ufuddhau i Senedd y Chwyldro yn 1789, ac yna dyfod i delerau a hi, a'i hamddiffyn yn erbyn brenin a breyr. Colli rhyddid a wnaeth hi yr amser hwnnw, ac nid enillodd mohono fyth yn ol.

Gan nad oedd gennyf ormod amser i'w afradloni, a chan imi fod o'r blaen yn Rennes, ni ddisgynnais yno. Cofiw'n yn dda am y tro cyntaf y cyraeddaswn iddi. Pedwar o'r gloch y bore ydoedd, ddiwedd mis Hydref, a minnau newydd osod fy nhraed ar ddaear Ffrainc y dydd hwnnw am y waith gyntaf. Yr oeddwn ym Mharis ryw ddeng awr cyn hynny, yn disgyn yn ddieithryn unig i orsaf oedd a nifer-oedd diddiwedd bron yn llifo'n gyson allan ohoni. Tair wythnos cyn hynny y dechreuaswn ddysgu Ffrangeg, ac, er cymaint fy ymdrech, nid oedd nemor ddim a ddeallwn, na dim ar a ddywedwn i a ddeallid gan eraill, y rheini, hwythau, yn rhuthro trwy'i

gilydd yn llif cyflym y Brifddinas. Gallaswn, er hynny, fyned i barth arall o'r ddinas i gael gafael yn y trên oedd yn gadael Paris am Rennes tuag wyth o'r gloch. Cofiw'n yr awrhon yn burion am y cwmni a gefais yn y trên hwnnw—y gŵr bychan, byrbwyll, diolwg, a siaradai ychydig Saesneg a mi, ac a'i tybiai ei hun yn dipyn o athronydd; y tri milwr llawen yn eu glaswisg, a'r ddau arall, yn ŵr ac yn wraig, oedd, hwythau, yn Llydawiad. Mwyn oeddynt hwy, a thirion a thyner. Yr oedd geiriadur bychan gennyf, a thrwy ei ddefnyddio'n helaeth, dangos y gair a ddefnyddiwn pan nad oedd ddealladwy heb hynny, a gofyn iddynt ddangos imi y gair na swnid yn debig i'r fel y dysgaswn i ef, gallem ymddiddan. Cofio'r cwbl hyn yr oeddwn i yn Rennes yr awrhon, a chofio gyrrwr yr unig gerbyd oedd yn yr orsaf yn gweiddi "Hotel Continental", yn fy nerbyn i'w gerbyd ac yn fy nwyn i'r lle hwnnw drwy heolydd a oleuid yn ddisglair gan loer loywlan. Cawn ryw flâs annedwydd wrth alw'r cwbl i'm cof, a myfyrio arno; ac ond odid nad oedd rhyw awydd arnaf gerdded unwaith eto'r llwybrau a droediais gynt. Ond llawenach gadael y dref honno, a dilyn ymlaen i'r berfeddwlad, lle'r oedd bywyd ag amdo dlos anwybod drosto, a breuddwyd wedi ei lunio'n annwyl. Gyda gadael Rennes, yr oedd y wlad yn cymryd fwyfwy arni y ffurf a ddechreuasai ei ddatblygu cyn cyrraedd ati. Y caeau bach o hyd; y perffrwyth a'r perthi, y trwch coed a'r gwrychoedd. Cloddiau hefyd, bethau gorhoff i Gymro. Y mae rhyw anwydeb

yn perthyn iddynt, rhyw santeiddrwydd cyfrin, yn enwedig o fyw mewn gwlad lle nad ydynt. Y mae'r cloddiau mawr mor brin yn Ffrainc; ac yr oedd eu hail-weled yn Llydaw wedi'r misoedd meithion, megis ail-weled darn o fywyd Cymru imi. Tebygwn o hyd weled rhywbeth a'm hatgofiai am Gymru. Y peth cyntaf a'm hatgofiodd ydoedd clywed canu gan fagad o filwyr yn union wedi eu dyfod i mewn yn Le Mans. Un o nodweddion y Celt i'r dim. Ni bydd y Ffrancod nemor fyth yn canu. Ymddiddan a fyddant hwy ar draws ei gilydd, a llawenychu a chellwair ac ymgomio'n gyflym ac yn findlws eu hiaith gerddgar, dæg. Am y Saeson, eistedd yn llonydd a distaw a fyddant, fel caseg eira, neu ynteu yn tyngu ac yn rhegi. Profion? Croeswch o Lundain i Baris, o Baris i Lundain; teithiwch yn Llundain ac ym Mharis. Yna cymerwch drên o Lundain i Gaerdydd, neu o Baris i Rennes. A chewch weled drosoch eich hun. Canai'r Llydawiaid hyn gyda hwyl anarferol, er nad yn fedrus iawn. Un dôn neu ddwy yn unig a fedrent, ac yr oeddynt yn gyrru'n gyson arnynt, ac yn undonog ryfeddol eu pruddglwyf llawn o drwst ac o dristwch. Ffrancod o Baris oedd yn yr un man a mi, ac yr oedd yn ddigrif ganddynt glywed cathl y Llydawiaid. Gwrandawent, a gwenu'n foddhaus. Codais i o'm lle, a myned at y cerddorion, a siarad a hwy. Yr oedd yno Lydawiaid eraill yn eu hymyl, ac yn eu plith un a fedrai'r iaith. Bu ymgom hir rhyngddo ef a mi. Ond er gwybod ohono yr iaith yn dda, ni fedrai na'i darllen na'i hysgrifennu.

Peth ydoedd hwnnw a'm synnodd yn ddirfawr ar y pryd, ond y deuthum ar ei draws yn fynych iawn yn Llydaw. Nid oes na thref na phentref na cheir degau o bobl felly. A'r rheswm? Y rheswm ydyw na ddysgir y Llydaweg yn yr ysgolion. Fe ddysgir darllen y Ffrangeg a'i hysgrifennu, ond y mae llawer iawn o Lydawiaid yn rhy ddifater i ddefnyddio'u medr ysgrifennu a darllen at eu hiaith eu hunain. Y maent hwy i'w beio yn nesaf at Lywodraeth Ffrainc.

Yn Saint Briec daeth Llydawiaid eraill atom, ac nid ychydig a ddaeth y waith hon, ond llond gorsaf ohonynt. Yr oeddynt, fel minnau, a'u hwyneb ar Bardwn Gwengamp. Canys "*pardon*" yw gwyl bennaf y Llydawr. Nid oes nemor dref na phentref hebddi; ac, am bardwn Gwengamp, y mae'n un o'r rhai mwyaf yn Llydaw. Bydd pererino yno o bob rhan o Dreger, ac o bellach, yn aml, nes cael pymtheng mil o bobl ynghyd. Tra buaswn i yn cyfeirio tuag yno yn y tren, yr oedd cannoedd yn cerdded yno filltiroedd lawer, rai ddeg, rai ugain, a rhai fwy fyth. Ni thebygaf fod gweithio yn unman yn ymyl, y dydd Sadwrn hwnnw. Oherwydd nid da hynny, fel y dywed y ddwy linell hyn am Wyl Saint Andre:—

*Hag o néza e ma Oc'h-u c'hoaz?  
Goel Sant And réa zo warc'hoaz.<sup>1</sup>*

<sup>1</sup> Ai yn nyddu yr ydych chiwi eto?  
Gwyl sant Andre sydd yfory.

Sicr gennyf fod pob amaethwr a phob tyddynnwr yn cynnal bwrdd agored i bawb drwy'r dydd, a'r dydd cynt. Gymaint ydyw gafael y gwyliau hyn ar y Llydawiad! Os oedd arnaf eisiau prawf arall, yr oedd yno o'm blaen, yn y tyrfaoedd a lanwai orsaf Saint Briec.

Daethwn, o'r diwedd, yn wir i Lydaw. Wele, bellach, Lydawiad mewn difrif, dorf aneirif ohonynt. Gwragedd oeddynt, gan mwyaf, ac yn hên ac aflun-iaidd, gyda'r wisg Lydewig amdanynt. Yr oeddynt, ar yr olwg gyntaf, ar unwaith yn rhyfedd ac yn arw, yn wrthun ac yn hagr. Dyna'r peth cyntaf a deimlwn wrth edrych arnynt yn lluosydd annhrefnus. Gan mai gwragedd oeddynt i gyd braidd, ac yn hen aflawen yn gyfangwbl bron, nid oedd ryfedd imi deimlo felly tuag atynt. Ac yna, yr acen arw, gras, a'r dull aflednais, diaddurn. Y cwbl hyn, a chwithau newydd ddod o Brifdinas y moesau mirain, a'r arferion gwisgi, bonheddig! Onid oedd yn gyfnewid ofnadwy? Yr oedd megis eich gosod eich hun ar amrantiad yn y Canrifoedd Canol, megis symud o'r ugeinfed ganrif i'r ddegfed. Ac, yn wir, dyna ydoedd. Yr oedd y gwisgoedd a welwn yn rhai a wisgid gynt yn yr Oesoedd Canol, a'r moesau y rhai a arferid gynt. Pobl a welwn oedd wedi cadw nodweddion canrifoedd o'r blaen, cenedl a gadwai at ei thraddodiadau cyn-tefig. Awn ar unwaith o blith y genedl fwyaf gwareiddiedig i ganol y genedl a lŷn lwyr af wrth ei gorffennol; o blith cenedl sy'n cyfrif cyfnewid a symud yn bennaf daioni, i blith un arall nad oedd

dim yn fwy annwyl iddi na'r dyddiau gynt, gyda'u hofergoel a'u credo.

Ni allai fod gwahaniaeth mwy rhwng dwy genedl, nag oedd rhwng y ddwy hyn a osodasai tynged i fyw am y ffin a'i gilydd. Gwyddai'r Ffrancod a gyd-deithai a mi weled cenedl arall mor sicr ag y gwyddwn innau. A phan ddaeth rhai o'r dieithriaid i mewn atom yr oedd edrych garw arnynt, ac efallai, yn y gwaelod, ryw ddiystyru arnynt. Canys, onid oeddynt mor drwstan? Onid oeddynt gwbl amddifaid o fireinder? Yna, ar ol dyfod i mewn i'r trê, yr oeddynt yn trin a thrafod ei gilydd am rywbeth neu'i gilydd, â'r cwbl mewn iaith na ddëallai'r Ffrainc yr un sillaf ohoni. Eisteddodd yr hynaf yn y canol, yn batrwm iawn o wraig yn byw yn nyddiau Sant Louis, ac ymddiddan yn dymhestlog yn yr iaith hynafol hon. Yr oeddwn i'n llawn trueni trosti, ac efallai'r Ffrancod hwythau, ond nid oedd ddim i'w wneuthur onid gwranddo ar ei brygaldian aflafar. Ni ddeallwn innau ddim ohoni er a weithiaswn ar ei hiaith ac er medru darllen honno yn ddigon rhwydd. Cadwai hithau o hyd at ei hymadrodd, onid oeddem yng ngorsaf Gwengamp. Yr oeddwn bellach wedi cyrraedd pen y daith.

## II

"Lle'r oedd cerddor a Christ mynor,  
A chain allor a chanhwyllau."

### GŴYL GWENGAMP

DA imi ydoedd gweled pen y daith, canys, er mor ddfyfr a fu, yr oedd yn faith iawn, ac yr oedd yn ddywenydd cael troi allan o'r trê'n. Yr oedd golygfa ryfedd ar yr orsaf. O bu fawr y nifer yn Saint Briec,<sup>1</sup> yr oedd yn fwy fyth yma yng Ngwengamp. Yr oedd y stesion yn berffaith lawn drosti, o Lydawiad eto, ond yn wŷr a gwragedd y tro hwn, ac i gyd yn eu gwisgoedd gwladaidd, geirwon. Yr oedd yn dorf mor anferth o fawr onid oedd yn anodd ryfeddol symud. Ni fedrwn eto ddeall dim ohonynt, na'u hoffi ychwaith. Ymhen tipyn, llwyddo i lwybreiddio allan, i'r heol sydd yn union o flaen yr orsaf. Un digon llydan a phrydferth ydoedd, gyda dwyres o goed castan amdani. Cerddais i lawr trwyddi, ac i'r dref.

Yr oeddwn weithian yng Ngwengamp, prifddinas Goello gynt, a thref y buasai'r Saeson a'r Cymry'n ymladd llawer amdani o 1342 i 1345. Heddiw yr oedd yn Feca i bererinion o bob ardal yn ymyl, ac i ardaloedd pell iawn hefyd. Hwynthwy oedd yn llond y lle ym mhob cyfeiriad. Nid oedd na heol na llwybr nad oedd yn ddu ganddynt, na'r un llecyn

<sup>1</sup> Sant Brieg, mewn Llydaweg.

### Gŵyl Gwengamp

35

na bryncyn yn ymyl nas cuddient. Yr oedd y tai gwŷn a'r tefyrn yn llawn ohonynt, ac eisteddent hefyd yn deuluoedd cysurus o gylch byrddau bychain a mawrion, ar gadeiriau a meinciau o flaen y tai bwyd a'r lletyau. Yno y bwytaent o'r basgedi a ddygasent ganddynt o'u cartrefi ymhell yn y wlad. Torrai'r mamau docynnau o'r torthau crynion mawr o fara gwenith neu fara rhyg, a gosod trwch o ymenyn blasus arnynt. Tynnai'r gwŷr eu cyllyll cryfion o'u pocedi, a thorri, hwythau, ac estyn at eu genau. Yna, arllwys o'r *jist*,—y seidir afalau,—diod genedlaethol y Llydaŵr, ac yfed yn hael ohoni. Ba fwyta! Ac yfed! Gyda blas hefyd! ar ôl cerdded y pum milltir, neu'r dæg, neu'r pymtheg neu'r ugain, ac, yn fynych, fwy na hynny.

Melys yw awch y gweithiwr, a mwyn i minnau ydoedd cerdded i lawr heibio iddynt, gan sylwi ar eu harferion, a chraffu ar eu moesau. Cerddais lawer felly, braidd heb yn wybod imi fy hŷn, gan fwynded oedd. Yna dechrau siarad a bagad ohonynt yma, a bagad hwnt dan ymdrechu i lefaru'r Llydaweg, iaith eu calon, a llwyddo rhyw gymaint. Yn ôl fel yr ymdrechwn i, ac y llwyddwn, deun i ddeall y bobl. Peidient a bod yn wrthun a garw; deuai'r gwaelod tlŵs, swynol, i'r golwg fwyfwy; tynnid ymaith y gorchudd a guddiai'r golud oedd odditano. Yr oedd, wrth reswm, amryw o offeiriaid oddiamgylch, gan mai tan eu harweiniad hwy y deuai'n aml y pererinion o'r naill gwmwd a'r llall. Hawdd deall eu bod yn fawr eu bri gan y bobl, gan fel y perchid hwy. Gwelwn fam yn dangos ei phlant

iddynt, a sôn am y dyfodol yr oeddid yn ei fwriadu ar eu cyfair. Ymddiddanai'r offeiriaid, hwythau, yn rhydd a'r bobl, gan gerdded yn eu canol, a rhodio'n gyson trwyddynt megis bugeiliaid da yn caru eu praidd. Bum yn ymddiddan â dau neu dri ohonynt, ac fe'u cefais bob un yn garedig a hawddgar, yn falch o weled Cymro a chael ymgom ag ef. Yr oeddynt hefyd yn Llydawiaid eiddgar, ac yn daer am amddiffyn yr iaith. Cymerent ddiddordeb mawr ynddi, gan ddangos imi "Feiz a Breiz" (Y Ffydd a Llydaw), cylchgrawn yr Eglwys Gatholig yn Llydaw, ac un sy'n gweithio'n dda ymhlaid pob da cenedlaethol. Hoff oedd ganddynt ddeall fy nyfod yno i ddysgu'r iaith, a mynnent fy nwyn i weled yr Eglwys. Edmygwn honno'n ddiiddiwedd a'i gweled yn brydferth fel y dim prydferthaf. Yr oedd wedi ei haddurno'n wych erbyn yr ŵyl, a gwych ydoedd goleuadau gloywon yn rhesi têt o gylch yr allorau, yn gadwyni lluniaidd yn hongian o golofn i golofn, ac yna'r canhwyllau canwelw hirion. Yr oedd yr Eglwys yn gannaid ddisglair drwyddi, megis y grisial gloywaf. Gwelid y gwragedd hên yn cerdded o gapel i gapel, o ddelw i ddelw, o Grist i Fair, ac yn myfyrio'n ddwys gan bwyso ar y cadeiriau isel. Nid anwiw ychwaith y gwŷr, oedd galed oddiallan, yn dyfod, hwythau, i grefyddda'n groyw, gyda'r *boutou koat*,—y clocs pren,—am eu traed, yn gwneuthur sôn hygryw, ond nad oedd anhyfryd, ar lawr yr Eglwys. Eisteddais innau, a myfyrio ac addoli—addoli wrth garu'r Llydawiaid, a'u hedmygu yn eu defosiwn. Canys yr oedd ysbaid

byr o gymuno â hwy, wedi fy ngorfodi i'w caru. Yr oedd yr olygfa yn un na ellid ei disgrifio'n wir, ond hefyd yn un nad hawdd ei anghofio fyth. Yr oedd ynddi ddwyyster fel na wn i ddim ba beth dwys, tawel, tyner; a rhyw santeiddrwydd na ellid lai na'i deimlo.

Trois allan o'r Eglwys yn y diwedd, gan sylwi ar yr olygfa ofnadwy ar y grisiau at y porth. Yr oeddynt yn eang a llydan, ac arnynt garn o gleifion ac anafusion. Nid oedd nemor anaf ar ddyn nas gwelid yno yn ei gyhoeddi ei hun. Yr oedd yno gloffion a deillion, mudion ac efryddion, a rhai'n glaf o'r parlys ac o bob haint y gallech feddwl amdano. Pe bai'r Eglwys yn llŷs y Gwyrthiau, ni byddai'r cleifion yn amlach, na'r olwg uthr a dychrynlyd oedd arnynt, yn eu gwae a'u gofid, yn fwy truenus. Oddiwrthynt, codai llef druan megis o burdan, neu'n wir, o "Uffern" Elis Wyn, a chardotent yn daer. Yn Llydaw, yn unig, y gellid gweled peth felly,—mewn gwlad lle mae gwangalonni'n beth mynych, a'r man y mae parchu ar gardotyn megis ar gyfaill gwir. Tebygwn weled holl anhwyldebau'r greadigaeth yn y cyrif oedd yn gwingo y tu allan i borth yr Eglwys. Daethant yno'n ddiamau i gardota, ac i ddymuno cael cyffwrdd a hwy, a chael iachad. Oherwydd cyffredin o beth yw gwyrrth yn Llydaw, ac fe'i ceisir ym mhob pardwn, fel yr eddyf y cwpled:

*Ann den klanv houlen yec'hed, an den kamm ar c'herzed,  
Ar paour eun tammik bara, hag an dall ar gweled.*<sup>1</sup>

<sup>1</sup> Y claf a gais ieched, y cloff ei gerdded,  
Y tlawd damaid bara, ar dall gael gweled.

Yn ôl sylwi ar werthu'r canhwyllau, a'r creiriau, a delwau a lluniau yn ymyl, gadewais yr Eglwys, a rhodio i fan agored yn y dref. Yr oedd nifer o bobl yno eto, a'r "ceffylau bach," a'r sŵn a'r saethu, y campau a'r cytgam, a dangos rhyfeddodau a thorri pen Landru. Sylwai'r bobl yn ofalus ar y cyfan hyn, a chaent eu synnu'n fawr ganddynt a barnu oddiwrth ystumiau eu hwynebaw awyddus, a adroddai benodau o deimladau a digrifwch. Ffrancwyr oedd wrth y castiau hyn, ac wedi dyfod yno i dwyllo arian y trigolion disyml. Er na lwyddent i'w rhwydo i ymgodymu a'r campau, llwyddent i dynnu eu bryd arnynt. Ymgylchent yma ac acw am y gamp hon ac am y llall, a rhyfeddu at y cyfan. Cefais gyfle i dynnu siarad a rhai ohonynt. Sôn y buom am addysg Llydaw, ei hiaith, a'i hanes. Yr oeddynt awyddus am gael dysgu eu hiaith yn yr ysgolion, a dywedent fod argoel am hynny. Ni fodlonai'r campau hwy, ac yr oeddynt yn llawn sêl mawr dros Babyddiaeth. Clywsent am y rhai a ddeuai i ddysgu crefydd y Protestaniaid iddynt, ond ni fynnent hwy wneuthur dim â'r rheini. "Ofer fydd pob ymgais" meddent. "Iawn yw'r Gatholig, ac iawn cael un pen ar grefydd megis ar genedl." Yr oedd awydd arnynt wybod i ba amcan y daethwn i i'r fro.

"I ddysgu'ch iaith chwi" meddwn innau.

"I ddysgu Brezonek?" "Nage?"

"Ie; i ddysgu Brezonek" meddwn drachefn, ond nid oeddynt ebrwydd i'm coelio. Methent yn lan a gweled dim diben yn hynny i "ŵr bonheddig!"

Mynnwn innau fod ganddynt iaith dlos, a bod hanes hen iddynt hwythau. Ond, o fesur ychydig ac ychydig y gallent fy nghredu. Eithr, yr oedd canmol eu hiaith yn peri codi peth balchter ynddynt, a dechreuent ddirnad y gallwn fod yn dywedyd y gwir wedi'r cwbl. Hyd y gwelwn i, y dwthyn hwnnw, nid oedd ganddynt ddim balchter ynddynt eu hunain, nac yn eu hiaith. Gwelais ddengwaith wedyn mai tebyg oedd pawb braidd drwy bob rhan o'r wlad. A chreu'r balchter hwnnw fydd gwaith cyntaf yr adwaith yn Llydaw. Y mae elfen bywyd mewn balchter; ac y mae mor anhepgor i genedl ag i ddyn.

Rhodio felly, crwydro trwy'r dref, gan graffu ar y dygyfor oedd ym mhob cyfair y bum i am oriau rai. Yr oedd yn ymyl naw o'r gloch erbyn hyn, ac yr oedd datblygiad newydd ar ddigwydd yn yr ŵyl. Pennaf peth mewn pardwn ydyw'r orymdaith. Ac y mae gorymdaith Gwengamp yn odidog ymhlith y gorymdeithiau. Er parch i'r Wryf Fair y cedwir hi a'r Ŵyl. A'r dydd hwnnw, fe gaiff y Ddelw i Fair bob rhyw wrogaeth ar law y ffyddloniaid. Yr hwyr am naw o'r gloch, y cychwyn yr orymdaith allan o'r Eglwys, ac fe ddygir y Ddelw allan ar ei blaen, a'i dwyn drwy'r dref i'r lle y cynheuir tân i ddiwedd yr orymdaith. Gorffennir gwaith y dydd gydag Offeren yn yr Eglwys am hanner nos.

Yr oeddwn i o flaen porth yr Eglwys ennyd bach cyn cychwyn y gorymdeithio. O'r braidd y gellid cyrraedd hyd yno gan luosoced y niferoedd. Ni

fedrai na'u hanner na'u traean fyned i'r Eglwys, ond gallent orymdeithio i gyd. Yr oedd yn dechrau briwlan glaw ar y pryd, ac yn darogan gwaeth. Ond nid oedd hynny yn oeri brwdfrydedd neb ohonynt. Gwelwn hwy'n rhes hirfaith yn troelli allan o'r Eglwys, gan ffurfio'n gorff sarffaid, diderfyn. Ar y blaen yr oedd Archesgob Rennes, esgobion yng ngwisgoedd eu hurdd, ac yna'r offeiriaid, a'r bobl, yn dlawd a chyfoethog, yn hen ac yn ieuainc, yn wŷr ac yn wragedd. Yr oedd gwisgoedd yr offeiriaid yn wych gyda'r gwychter yn amrywio yn ol amryfal urddau'r Eglwys; a gwychter ei hun ydoedd Delw'r Wryf Fair ar yr elor loyw, euraidd, urddasol. Yna'n nesaf ati, ysgriniau esgyrn y saint, a'r creiriau santaidd yn cael eu dwyn, hwythau, gan flaenoriaid y bobl a'r diaconiaid. Tu ol iddynt, y dorf ddiderfyn, yn wŷr a gwragedd; y gwragedd gyda'r amryfal wisgoedd gwynion am eu pennau, yn amrywio yn ôl yr ardaloedd; y gwŷr â hetiau llydain gyda rhubanau melfed duon am eu pennau, a gwasgodau duon cwta am eu canol. Dywedid y byddai trefn ar eu troelli allan, gyda'r tad yn y canol, a'r fam a'r ferch o'r dde a'r aswy, ond nid yn aml y cedwir at y ddelfryd honno. Dygent bob un naill ai'r baneri lliwiog, neu'r canhwylau a'r tyrs. Mewn rhyw gyflwr dedwydd, a'r gyfyl gorfoledd yr oeddwn i, yn edrych a chraffu a synnu. Ni welswn ddim mor wirioneddol ardderchog erioed, er cynefino llawer â gweled gorymdeithau a gwyliau'r eglwys ym Mharis a Sceaux a Bourg-la-reine. Ond nid y rheini

a ddaliai gannwyll i'r orymdaith ryfedd hon. Yr oedd megis cenedl gyfan yn troi allan o'i theml, neu eto megis Eglwys ar y ddaear yn teithio tua'r tragwyddoldeb. Ba gyfoeth! Cyfoeth moesoldeb, cyfoeth cymeriad, cyfoeth enaid. Yr oedd angerdd tawel yn y cyfan, a dwyster eithriadol. Nid oedd fodd amau gwirionedd crefydd na bywyd y genedl, a ddirwynai yn y dull hwnnw yn gadwyn hirfaith, gan ymgorddeddu am heolydd y dref. Dyma'n ddiau'r man i weled y Llydawiaid, fel yr oeddynt. Un oeddynt, heddiw a ddoe. Ymdroellent fel y gwnaethai eu tadau am ganrifoedd lawer, a phrofi undeb eu bod, undeb eu hanes, undeb eu gorffennol a'u presennol. A fu erioed arddangos mwy arddunol ar enaid cenedl? Ple bu byddin a chad yn taeru'n gadarnach na dwyster a thawelwch y dorf drefnus hon? Methwn feddwl am ddim mwy effeithiol, am ddim mor wreiddiol. Datguddid yn amlwg yr egni a'r glynau oedd yn y genedl. Glynai wrth ei gorffennol megis i honni mai un yw enaid cenedl, o bob oes. Glynai'n gadarn wrth y seintiau hen a fu, hwythau, yn taenu eu dagrau a'u gweddïau yno; a glynai wrth y pendefigion a'r tywysogion a fu'n parchu'r Wryf yr un fel a hwy heddiw. I genedl fel hon, yr oedd yn rhaid bod gwaelod fel y gloch; i genedl oedd a synnwyr glynau a chadw mor gryf ynddi nid oedd dim yn annichonadwy.

Yr un peth yn union ydoedd tystiolaeth yr emynau a ganent. Canys canent hwy wrth grwydro yn eu gorymdaith. Tystio cadernid y genedl a wnai'r

orymdaith; tystio tlyzni ei henaidd, a dwyster ei dyfnder a wna'r emynau. Tlws oeddynt fel emynau Cymru, er mor wahanol. Tybed a oes yn holl emynau ffurfwasanaeth yr Eglwys Gatholig, un neu ddwy sy'n brydferthach na'r rhain sy'n etifeddiaeth y Llydaŵr? Y maent bob amser yn brudd, weithiau'n fawreddog, weithiau'n dyner neu'n deimladwy. Trosglwyddwyd llawer ohonynt i lawr tros y canrifoedd bron yn ddigyfnewid, heb gollu dim o angerdd crefydd a gefir yn nyfnderoedd enaid dyn gyfnod ei febyd cyntefin. Teimlwn innau rywbeth na wn i'n iawn ba beth, rhywbeth rhy ddwys i eiriau ei fynegi, rhyw felyster mwyn, rhyw wynfyd dienw, yn sŵn cerddi calon cenedl. Yr oedd yn soniarus; yr oedd yn gelfydd fel delw gerfiedig, neu dlysiheb gerddi blodau. Yr oedd yn fwy; yr oedd yn fuddugoliaeth ar ddrygioni, ar natur, ar bob gwendid a hagruch. Am ddwy awr gyfan y bu'r bobl ryfedd hyn yn dirwyn, dirwyn, allan o Eglwys ei Duw, o Aelwyd ei Saint. Am ddwy awr gyfan y safwn innau mewn syndod syml i'w gwyllo, ac i deimlo braidd bob hyfrydwch y gwyr dyn amdano. Ac yna bu lonyddwch a thawelwch. Yr oeddid bellach wedi gorymdeithio o gylch heolydd y dref, ac wedi cyrraedd man teirongl ynddi. Yno, ffurfio'n fodrwyau heirddion, megis dolenni blodau Fersái. Ym mhob congl i'r lle agored hwnnw yr oedd carn uchel o goed brâs a brigau, gyda baner ar ben pob un, i Grist un, i Fair ddwy arall. A'r funud nesaf, yr oedd un ohonynt yn goelcerth wenfflam ofnadwy, yn llosgi'r crinwydd ar frys, yn goleuo fry

i'r wybren, ac yn ymdaith i fyny'n oddaith onid oedd y faner wedi ei chyrraedd, a'i llosgi. Yna coelcerth arall, ac eto'r drydedd, yr un modd. Hynny oedd coron y gorymdeithio, diwedd glo'r deilliad. Coron ardderchog hefyd! Yr ugain mil pererinion, y "Crist Mynor" a'r delwau cerfiedig, y canhwylau canwelw, y goleuadau gloywon, y gwisgoedd a'r gynau ar ddiwedydd llwyd yng Ngorffennaf. Onid oedd megis ffurfafen haf ar y llawr, neu dylwyth teg ar dwmpath chwarae?

Os oedd diwedd ar yr orymdaith, nid oedd ar y defosiwn a'r crefydd. Cerddodd pawb i mewn eilwaith i'r Eglwys i lanw pob capel ohoni, pob cadair, pob cornel. Troedio trystfawr am ennyd gan drwr mwyn y *boutou koat*,<sup>1</sup> ac yna eistedd yn llongydd. Yn nesaf, caed pregeth hyawdl yn y Llydaweg gan un o'r offeiriaid y buaswn yn ymddiddan â hwy; ac ar ol honno, canu cerddi i'r Arglwydd, Offeren Canol Nos, a Chymun.

Yr oedd wedi hanner nos, weithian, ond o'r braidd y gallwn i ymadael. Byddai pyrth yr Eglwys yn agored drwy'r nos, a sicr gennyf y byddai'n weddol lawn drwy'r amser. Am bump o'r gloch, byddai ail gychwyn ar yr offerennau, a pharhau arnynt hyd ddeg, awr yr Offeren Fawr. Hoffwn innau dreulio'r nos gyda hwy yn moliannu yn yr Eglwys, ond anodd ydoedd hynny wedi hirdaith yn y trêr a maith gerdded wedyn. Cyfeiriais allan, o'm gwaethaf bron, a hwylio am y llety y cawswn afael ynddo

<sup>1</sup> Esgidiau pren.



gwedi trafferthu tipyn. A meddwl yr oeddwn o hyd am y rhyfeddodau a welswn yr hwyr hwnnw yng Ngwengamp. Y bore yr oeddwn ym Mharis, ac oni welswn olygfeydd eithriadol mewn cyn lleied o dro? Newidiaswn fy mynd yn hollol mewn ychydig oriau. Yr oeddwn wedi croesi'r ffin rhwng dwy genedl, rhwng dau draddodiad, rhwng dau enaid, rhwng dau gyfnod. Gadawsw'n yr ugeinfed ganrif am y drydedd ar ddeg, oes amheuaeth oer am oes ddiogel Sant Thomas.

Yr oedd y Llydawiaid na fedrwn eu caru wrth edrych yn ddiiddeall arnynt ar orsaf Sant Brieg, wedi dyfod yn destun edmygedd imi. Yr oeddwn wedi dechrau eu deall, ac wedi dechrau eu caru. A mi'n symud yn araf i'm llety, yr oeddwn barod i gyd-gathlu a hwy:—

*An hent a ya da Wengamp zo hent ar Baradoz,  
Karget a belerined hag en de hag en noz ;  
Mont a reont 'n eur gana d'ar Werc'hez meuleudi,  
Meuleudi da Vamm Jezuz, gloar, enor da  
Vari.<sup>1</sup>*

Onid oedd yr ail bennill yn dwyn i'm cof y gorymdeithiau gynt, nes imi fy nheimlo fy hun, yn rhodio nid gyda Llydawiaid un cyfnod, ond pob cyfnod?

<sup>1</sup> Yr hynt a â i Wengamp yw hynt Paradwys,  
Llawn o bererinion, liw dydd, liw nos ;  
Mynd a wnant gan ganu i'r Wryf foliant,  
Moliant I Fam Iesu, gogoniant, anrhydedd i Fair.

*An hent a ya da Wengamp zo hent ar Baradoz ;  
Dre an hent-se tremene gwechall hon tadou koz,  
Gant fe, nerz hag esperans, 'n o dorn o chapeled.  
Da welet o fatronez, Mamm ger ar Vretoned.<sup>1</sup>*

Gwelwn hwy'n gorymdeithio i gyd o'm blaen, a Seintiau annwyl eu gwlad yn eu harwain, ac yn gwyllo trostynt:—

*Dré'n hent a ya da Wengamp e tremenas gwechall  
Sant Gwenole, Sant Eflam, Sant Brieg, Sant Tual,  
Sant Erwan, Sant Kaourantin ha Franseza Amboaz,  
Santes Pompeia, Seva, Sent ha Sentezed c'hoaz.<sup>2</sup>*

<sup>1</sup> Yr hynt a â i Wengamp yw hynt Paradwys,  
Drwy yr hynt hon y cerddai gynt ein tadau hen,  
Gan ffydd, nerth a gobaith; yn eu dwrn (llaw) eu Paderau  
I weled eu noddwraig, Mam hoff y Llydawiaid.

<sup>2</sup> Drwy'r hynt a â i Wengamp, y cerddodd gynt  
Sant Gwenole, Sant Eflam, Sant Brieg, Sant Tual,  
Sant Erwan, Sant Korantin, a Franseza Amboaz,  
Santes Pompeia, Seva, Saint a Santesau eraill.

### III

"Ac wedi elwch, tawelwch fu."

#### TRANNOETH YR WYL

CYRHAEDDAIS i'm llety yn fuan wedi hanner nos, ac, yn union yn ddiweddarach, yr oeddwn yn fy ystafell. Yn ol fel y dywedwyd wrthyf, yr oedd gŵr arall i gysgu ar wely arall yn yr un ystafell. Ac yr oedd ef yno, yn gorffwyso'n gysurus, ac yn cysgu, am a wyddwn i. Agorais y ffenestr, ac edrych allan i'r heol lle'r oedd bwrlwm bywyd o hyd, a cherdded araf y Llydawiaid tawel hamddenol yn ol a blaen, yn cynganeddu'n hyfryd â siffrwd awel beraidd yn nail y castan cedym. Canys nid oedd na'r gwindai na'r tefyrn, na'r lleoedd cyhoeddus na'r Eglwys a allai eu cynnwys am y nos. Heblaw hynny, yr oedd eraill yn dyfod i mewn o holl barthau'r fro. O ddwndwr distaw y rhodio hwn y perais fy ngosod fy hun ar y gwely, gan ddisgwyl am gŵsg i ddyfod i gloi emrynt fy llygaid â'i agoriadau hudol. Nid oeddwn namyn wedi tynnu'r dillad trosod, a diffodd y gannwyll, nad oedd y cyfaill ar y gwely arall yn codi'n ddisymwth. Aeth at y ffenestr yn frysiog, megis gan natur ddrwg. Caeodd hi'n dynn, a'i daflu ei hun yn ol i'w wely. Awgrymais iddo'n addfwyn y dylai ei gadael yn gil-agored. Ond yn ofer. Ni fynnai efô hynny, ac yr

#### *Trannoeth yr Wyl*

oedd ganddo hawl i gysgu fel y mynnai. Dyna'r cwbl. Tawodd ef, tewais innau. Ni chawn gysgu yn swm troedio'r pererinion; and cawn gysgu er hynny; a da y cysgais.

Y Sul ydoedd hi weithian, a chodais innau'n weddol fore. Gadawsai'r cyd-letywr fi ar fy mhen fy hun, ac ni bum faith cyn bod eilwaith ar yr heol. Cerddais o gwmpas y dref beth amser, a myned i'r Hotel de France am fy mhryd bore. Cyfeirio am y wlad a wnaethum wedyn yn ddisyfyd, a dringo bryncyn banadlog, eithinog, yn ymyl capel bychan. Bore cymylog ydoedd hi, wedi'r glaw lawer a ddisgynnodd yn ddafnau diwyd yn ystod y nos. Ond yr oedd yn dyner ac yn dirion, fel y mae hi, gan amlaf, yn Llydaw. Wedi cyrraedd y clogwyn bychan, gwelwn y wlad o gwmpas, o bell ac agos, er nad yn eglur iawn, am nad oedd imi lygaid barcut nag ysbieddrych y Bardd Cwsg. Cymharol wastad ydoedd hi, ond yn amrywio digon gan lawnder y coed a'r tai, y caeau a'r trefydd. Yr oedd llw o bentrefydd heb fod ymhell oddiyno, a threfi weithiau; a mwynhawn innau borthi fy llygaid ar olygfa oedd yn wir eithriadol. Yr oedd min mwyn yn awel y bore, a theimlwn yn hoyw a gwisgi wrth rodio ar lawr y clogwyn gwllithog, glas, a gweled pebau pell, ac Eglwysi lawer yn codi eu tyrau uchel, yn saethu gweddi dawel, a litani leddf, lonydd, i entrych awyr. Mewn mawl, hwythau, i'r Pardwn? Ai bendith eu paderau pŕr oedd hwnnw—dirioned o wlithyn gloyw!—ar fanadlen ac eithinen?

Deuthum yn y diwedd i lôn gul, yr oedd bachgen yn

gyrru tair buwch a gafr o'i flaen hyd-ddi. Dechreuais ei holi, a gofyn iddo am y gwaith a wnai, ac am yr Ŵyl yng Ngwengamp. Ond yr oedd braidd yn rhy ofnus i ateb nemor ddim ond i'e a nage. Ceisiais lefaru wrtho yn ei iaith, a gwenai gyda hynny, megis pe bodlonid ef. Deuai'n hyfach fymryn, ac ymddiddan yn rhyddach. Gadawodd fi yn y man, a myned a'i wartheg i gae yn ymyl. Parheais innau i ddilyn y lôn gul. Hoff imi y lonydd culion, ceimion, gyda golygfa newydd bob gafael, a'u medr i'ch swyno a'ch synnu. Am y clawdd a hi, gwelwn gaeau bychain, gyda'r bylchau a'r clwydi i fyned i mewn iddynt, a chyda haidd a cheirch a gwair yn tyfu'n hael oddimewn. Perthyn yr oeddynt i dyddynnod mân, oedd yno'n agos i'w gilydd. O fyned heibio i un ohonynt, gwelwn y cloc mawr yn addurn prydferth gyferbyn a'r drws, a'r gwragedd yn gweu trwy'i gilydd i hwylio gwaith erbyn gadael am yr offeren ddêg o'r gloch. Yr oedd y tyddyn nesaf yn fwy ei faint, ac yr oedd cadlas o'i flaen yr un fel ag yng Nghymru. Agorais y drws, a symud i mewn yn araf ddigon, ac yn wylaidd. Prysurdeb oedd yno, eilchwyl. Yr oedd y gŵr, fel y tybiwn i, yn diddori plentyn bach oedd yn ei law. Yr oedd un arall, hŷn nag ef, ei dad fel y tebygwn, yn eillio yn ymyl carreg y drws. Y gwas ydoedd y trydydd, ac ymolchi yr oedd efô ar ganol y buarth. Clocs oedd am draed y tri, ac nid oedd hosan gan yr un ohonynt. Troisant eu golygon arnaf, yn ôl cael eu rhybuddio gan y ci a gyfarthai'n huawdl, ond yn llai cynddeiriog na'r cŵn

yr arferais a'u cyfarthiad ym maestrefi'r Brifddinas. Aethom i ymgom a'n gilydd ar unwaith, a dëallais mai paratoi am yr offeren yr oeddid yno eto. Dywedwyd wrthyf mai yn y Ffrangeg y byddai'r cwbl ar wahan i'r gwasanaeth Lladin; ac ni thybient fod dim allan o'i le yn hynny. Fel arall y tybiwn i, ac yr oedd yn rhyfedd ganddynt hynny. Wedi ymdrin a'r tywydd a'r cnydau, ymadael.

Dilynaeis drachefn ar y llwybr cyfyng, oni ddeuthum i fan arno oedd yn union uwch ben y dref. Yno, eisteddais i lawr, a darllen y "Ouest d'Eclair," un o bapurau dyddiol Llydaw. Erbyn imi orffen darllen y newyddion o Baris, a'r ychydig hynny oedd ynddo am Lydaw, yr oedd yr ardalwyr yn tynnu tua Gwengamp. Yn gyntaf, y gwragedd hên yn cyfeirio yno a basgedi ysgeifn am eu breichiau, a'r wŷau i'w gwerthu, a'r bara a'r ymenyn. Yr oeddynt barod i ymddiddan a mi, a minnau mor ebrwydd a hynny. Cefais fod rhai ohonynt yn gyfarwydd a "Buhez ar Sent" (Buchedd y Saint) a fu i Lydaw y peth yw'r Beibl i Gymru. Holwn a oedd yn arfer ganddynt ei ddarllen fin nos wrth y tân. Addefent nad oedd, waethaf y modd, ond cofient ei ddarllen felly'n gyson gynt.

Symudais wedyn, onid oeddwn allan ar y ffordd fawr. Yr oedd gefail gof yno, a gwraig yn ymyl. Yr oedd hithau a hwyl siarad arni, a deuthum i gasglu bod y Llydawiaid hwythau'n genedl gegog. Ni fedrai hi ddarllen Llydaweg, er medru ei pharablu'n rhydd; ond medrai ei gŵr, peth r'wy'n meddwl,

a roddai glod ofnadwy iddo yn ei golwg. Yr oedd gofyn bod Llydaw'r yn ysgolhaig go wych i fedru darllen ei iaith ei hun! Am y Ffrangeg, medrai hi, hyd yn oed, ddarllen honno, a'i hysgrifennu. Gofynnais iddi a gefnid pregeth Lydaweg yng Ngwengamp y bore hwnnw, a sicrhodd fi na cheid ddim. "Na chanu? Nac emynau?" "Na cheid ddim!"

O'r gorau! A oedd eglwysi yn ymyl lle y cawn glywed pregeth yn y Llydaweg? Oedd; O oedd! Yr oedd pregeth Lydaweg yn y wlad bob Sul.

"Ewch ymlaen i bentref o'r enw Pabu, ac fe fyddwch yn sicr o gael pregeth yn ein hiaith ni. Y mae'r offeiriad yn un ohonom, ac y mae'n ddi-os y cewch eich bodloni."

"Faint o ffordd sydd hyd yno?" ebr finnau.

"*N'eo ket pell.*" (Nid yw bell). "Byddwch yno ymhen hanner awr." I'r dim. Dyna'r peth oedd yn fy nharo'n gymwys. Ond, yr oedd yn dechrau bwrw glaw, ac ofnwn fwy ohono. Nid oedd genyf na chap na chôt-fawr na glawlen. Gwelai hithau, a chynigiodd lawlen imi, ar unwaith, heb betruso dim. Ni wyddai ddim amdanaf, ac ni'm gwelsai erioed. Yr oedd ei pharodrydd yn fy synnu. Cymerais innau'r llen, a myned i'm ffordd.

Fel y gadawsw'n y llwybr am y ffordd fawr, yr oedd nifer y pererinion wedi amlhau'n ddurfawr. Aent heibio yn ddi-daw pan oeddwn i'n ymddiddan o flaen gefail y gof. Deuent o'r cyfeiriad yr oeddwn innau am gyrchu iddo. A dyna beth oedd dyfod! Dyfod mewn cerbydau, dyfod ar geffylau, dyfod ar geffylau

heyrrn, a dyfod ar draed. Cyfarfyddwn yn gyson a'r cerbydau hyn yn cyrchu'n llaweroedd i'r Wyl, gan ddwyn, bob cerbyd, ei ddeg a'i ddwsin. Byddai'r teulu'n gyfan mewn cerbyd felly, dad, a mam, a llond tŷ o blant ac weithiau gymdogion neu gyfeillion. Yr oeddynt yn llawen yr olwg arnynt, yn arbennig y merched a'r bechgyn a wna'r daith ar y "*marc'h houarn.*"<sup>1</sup> Cyfarchwn innau hwy, a chael "*Ya, ya,*" a "*merçi*"<sup>2</sup> yn ol. "*Ya, Ya*" ydoedd hi wedyn pan ddwedwn mai "*brao eo an amser*" a chwarddai ambell un, gan ychwanegu hefyd imi golli fy nghap. Pererinio yr oeddid o bobman a phererinion a lenwai'r ffordd. Ni bu imi weled y fath bererinio erioed, a meddyliwn, yn awr, am y Mahometaniaid yn cyrchu i Feca, eilwaith am yr Iddewon i Gaersalem, ac wedyn am y Cymry i Langeitho. Yr oedd y rheini bob rhai ohonynt yn dda, ond darllen yn unig a wneuthum amdanynt. Am bererinio'r Llydawiad i'w Gwyliau, fe'i gwelwn a'm llygad fy hun. Dioer, iddynt hwy:—

*An hent a ya da Wengamp zo hent ar Baradoz.*

Ni bu fy llygaid erioed yn dyst o gymaint cyrchu i grefyddau yn unlle a'r fyddin pererinion hyn, yn y cerbydau, ar draed ac ar geffylau, yn hen ac ieuainc, yn fechgyn a merched. Byddin ydoedd, yn cael ei chyffroi gan un syniad, yn gwrhau i Grist, yn plygu glin i'r Wryf Fair:—

<sup>1</sup> March haearn, ceffyl haearn.

<sup>2</sup> Defnyddia'r Llydawiad y gair Ffrangeg bob amser am "ddiolch."

*War ho telennou aour glan, sonet, Barzed ma bro,  
Sonet gant kalon ha fe, sonet meulodio!  
Itron Vari Wir-Zikour a roi d'ec'h he bennoz,  
An hent a ya da Wengamp zo hent ar Baradoz.<sup>1</sup>*

Pa un a fedrent hwy ei wybod a'i peidio, myned yr oeddynt yn llawn o'r un ffydd yn Nuw a'u "tadou koz," eu tadau hen. Yr un un eu ffydd a ffydd eu beirdd, yr un un eu ffydd â ffydd y geiriau hyn:—

*Kerzet, Breiziz, ma breudeur, Kerzet, Kerzet gant fe,  
Gant an hent a ya da Wengamp, Kerzet, en han' Doue,  
Hent ar fe, hent an enor hag hent hon tadou koz,  
An hent a ya da Wengamp zo hent ar Baradoz.<sup>2</sup>*

Yr oedd llawer ohonynt yn dwyn eu bara a'u hymenyn ganddynt i'w bwyta o gylch y byrddau yn y dref, ar y meinciau, ac ar y cadeiriau, ar graig neu glogwyn yn ymyl, ar y garnedd ystyllod wrth yr orsaf, ar y glas ar ffordd fawr neu ffordd haearn, ar fin ffordd neu dalar cae. Nid oedd y cwbl hyn onid elfen ddibwys yn y *pardwn* a'r *pardona*. Y gamp ydoedd moli Mair "mam ar Gristenien" a "Mam d'ar Vretoned," a gweddio arni ddadlau eu dadl o

<sup>1</sup> Ar eich telynnau aur, glan, cenwch, Feirdd fy mro,  
Cenwch gan galon a ffydd, cenwch gerddi mawll!  
Y Wryf Fair, Wir-Swecwr a ry i'ch ei bendith,  
Yr hynt a â i Wengamp yw hynt Paradwys.

<sup>2</sup> Cerddwch Frythoniaid, fy mrodyr, cerddwch, cerddwch gyda ffydd,  
Hyd yr hynt a â i Wengamp, cerddwch, yn enw Duw;  
Hynt y ffydd, hynt anrhydedd, a hynt ein tadau hen,  
Yr hynt a â i Wengamp yw hynt Paradwys.

flaen Crist. Canys nid yw'r Llydaŵr yn beiddio gweddio Duw yn ddigyfrwng. Y mae'n rhy ostyngedig, ac yn rhy wylaidd. Medd ef ar luosydd o seintiau; y mae yn fwy cyfarwydd a hwy, ac yn fwy hyf arnynt. Eiddynt hwy eiriol o flaen Duw. Y mae rhyw lareidd-dra yng nghrefydd y Llydaŵr, a honno'n frodwaith cain am ei holl fuchedd. Wele paham y mae ei Seintiau mor annwyl iddo, a'i Fair yn Fam, a'i Dduw yn Dduw yn wir. Y mae gweled tŵr cys-egredig ei eglwysi yn peri iddo fyned ar ddeulin yn nwyster ei barch iddynt:—

*An tour santel p'o deus gwelet,  
War an douar int daoulinet,  
War an douar int daoulinet,  
Ha d'o chapeled deus poket.<sup>1</sup>*

Dyna'r arwyddion a welwn innau o boptu, wrth nesu at Babu. Rhyw ddwy filltir neu dair o daith ydoedd hi, ac yr oeddwn yno cyn pen yr hanner awr. Yr oedd ymhell braidd arnaf, ac nid oedd neb i'w weled y tu allan i'r Eglwys. Euthum i mewn heb ohirio'n hwy. Eglwys fechan ydoedd hi, ond yn ddigon tlos. Nid oedd yno lawer o blwyfi a chefais innau gadair imi yn ddiraffferth. Yr oedd yr Offeiriad yn ei wisgoedd rhwysgfawr ar ganol ei ffregod, a gwrandawai'r gynulleidfa denau arno ef yn myned rhagddo

<sup>1</sup> Y twr santaidd, pan welont ef,  
Ar y ddaear penliniant hwy,  
Ar y ddaear penliniant hwy,  
A'r gleiniau a gusanant.

ar yr offeren, ac ar blant y côr yn canu yn ol y rheol. Ar ol gorffen cododd pawb, a myned allan. Arefais innau i grwydro trwy'r Eglwys, gan edrych ar y lluniau a'r darluniau'n hongian oddiar y muriau. Gwelais hefyd enwau tua hanner cant o fechgyn a fu farw yn ystod y rhyfel. Mewn pentref cyn lleied! Nid oedd yno bedwar tŷ i gyd, ac nid oedd yr ardal yn fawr. Eto i gyd, hanner cant wedi eu colli! Do, fe ddioddefodd Llydaw yn annisgrifiadwy yn y rhyfel diwethaf. Bu ei thrigolion farw dri am bob dau o'r Ffrancod, ac ymladdasant yn daeraf ar dir, ac yn flaenaf ar fôr.

Er hyn i gyd yr oedd yr ysgrifen yn gwbl mewn Ffrangeg, a'r un fath yr ysgrifen ar y cerrig beddau. Euthum i siarad â'r offeiriad, ac yr oedd yn hawddgar a hoffus, yn fy ngwahodd i'w dŷ, hefyd. Cyfeiriai amryw o bobl yno, ac erbyn imi gyrraedd y tŷ, gwelwn y gwragedd yn paratoi cinio. Eisteddais innau yn y gegin i ymgomio â hwy tra bu'r offeiriad yn chwilio am lyfr yr emynau a genir yn yr Eglwys. Ceisio siarad y Llydaweg yr oeddwn; chwarddent hwythau'n iach wrth fy nghlywed. Am yr offeiriad, yr oedd yn dda ganddo gyfarfod â Chymro, ac yr oedd yn falch o fod yn Llydaŵr. Soniodd wrthyf am Abad a drigai yng Ngwengamp, ac a fuasai unwaith yng Nghymru.

"Yr wyf yn sicr y bydd yn falch o'ch gweled. Efallai ei fod yn medru eich iaith, ac y mae'n o debyg o fod. Pa wedd bynnag, ewch i'w weled. Dyma ei gyfeiriad i chwi."

Diolchais innau, a phrynu'r llyfr emynau. Cerddais trwy'r fynwent oedd yn ymyl gan ddyfal edrych eilwaith am ysgrifen nad oedd wedi ei hysgrifennu yn y Ffrangeg. Ofer oedd fy nghais, ac felly, trois ymaith, a cherdded yn ol i Wengamp eilwaith. Crwydrid tuag yno o hyd er nad mor gyson a'r bore. Yr un fath yn union o'r ffyrdd eraill a gyfeiriai am y ddinas. Gwir oedd y geiriau:—

*An henchou holl a zo karget,  
Tro-war-dro a belerined,  
O vont da Wengamp d'ar pardon,  
Fe, karante en o c'halon.<sup>1</sup>*

Yr oedd yr heolydd erbyn hyn yn drwch o bobl, ac felly'r llecynnau amlwg oddiallan i'r dref. Yr oedd rhai cerbydau ar eu hymylon, a llawer yn y caeau wrth law. Eisteddai'r bobl hwnt ac yma ar gyffiniau'r dref i dorri'r bara o'r torthau gwastadgryniion mawr, ac i'w fwyta'n awchus. Hawdd oedd cael fy hysbysu ym mhle'r oedd tŷ'r Abad. Holwn hwy yn y Llydaweg, a thebygwn wneuthur cynnydd mawr wrth fedru deall eu hateb braidd yn gyfangwbl.

Clywais daeru weithiau y gallai Cymro a Llydaŵr ddeall ei gilydd ar y waith gyntaf. Chwedl ydyw honno nad oes dim gwir ynddi. Dim yw dim. Y mae y peth yn amhosibl. Nis medrir heddiw. Nis

<sup>1</sup> Yr hyntoedd oll sydd lawnon,  
Tro ar dro o bererinion,  
Yn mynd i Wengamp i'r pardwn,  
Ffydd, cariad yn eu calon.

medrid ddoe. Ar y pen yma, y mae fy mhrofiad fy hun yn bendant. Gweithiaswn ar yr iaith am flwyddyn, ac ni ddeallwn nemor air o ymgom y Llydawiaid yn Sant Briec. Medrwn ddarllen eu hiaith yn hwylus, ond nid oedd modd imi wneuthur na rhych na rhawd o'u llafar y nos gyntaf honno yng Ngwengamp. Y mae degau o eiriau yn gyffelyb i'n dwy iaith. Gallwn rifo a chyfrif gan gyd-ddeall a lfaru'r geiriau sy'n gyffredin gennym. Ond dyna'r cwbl. Mor bell ag yr â'r brawddegau a'r ymadroddion fel y lleferir hwy, y mae'n fwy na champ i neb eu dilyn. Yr unig sail i'r chwedl ydyw bod geiriau cyffelyb i'w cael gan y naill bobl a'r llall. Ac i ddieithrddyn diofal, y mae hynny'n ddadl i nyddu chwedl ramantus, a chelwyddog. Brysia i daeru bod Cymro yn deall Llydaw'r, ac yn medru ei wneuthur ei hun yn ddealledig iddo. Y mae hynny'n beth a ddigwyddodd dro ar ôl tro fel y tystia Carnhuanawc, yntau, pan oedd yn Llydaw, a M. Gros, ŵr ieuanc, dysgedig, o Lydaw, pan oedd efô yn Llundain. Yn gymwys yr un fel, fy mhrofiad innau. Yr oeddwn yn ddigon siomedig ar y dechrau, ond pan fedrwn ddeall ateb y Llydawiaid y prynhawn hwn yr oeddwn ar fy llongyfarch fy hun. Ond, yn rhy fuan, fel y gwelais wedi hynny. Oherwydd, wedi'r cyfan, brawddegau byrion ydoedd y rhain, ac nid ymddiddan cyflym, cyson. Gallwn lunio brawddegau fel y deallid fi, a hawdd i minnau ydoedd deall yr ateb. Gorchest ddigon di-orchest ydoedd, wedi'r cwbl.

Deuthum o hŷd i dŷ'r Abad, a myned i mewn.

Yr oedd efô gydag amryw eraill, yn bwyta eu cinio ar y pryd. Ond cododd o'i le, a dyfod i'm gweled. Dëallais yn y man mai gŵr llednais ydoedd, ac yr oedd yn groesawgar. Medrai Saesneg yn lled dda, a'r Almaeneg hithau, y mae'n debyg. Ond am y Gymraeg, nid oedd ganddo fawr o grap arni. Buasai yng Nghymru, fel y mynnai offeiriad Pabu, ond cawsai amser i anghofio'r cymaint o'r iaith ag a ddysgasai yno. Nid oeddwn i am ei gadw'n faith am mai ar hanner ei ginio yr oedd. Fodd bynnag, ymddiddanasom ennyd ac yn fwyaf arbennig am gyflwr yr iaith yn Llydaw. Cwynais na fedrai'r werin ddarllen ac ysgrifennu eu hiaith, a chwyno rhag caledi'r Llywodraeth. Awgrymwn fod ganddynt hwy, abadau ac offeiriad, afael gref ar y bobl ac y gallent eu deffro i ddysgu eu hiaith o ddifrif. Ba ryfig!

"Yr ydym wedi methu'n lan" meddai yntau'n ôl wrthyf.

"Tybed na ellwch eto gydag ymdrech fwy?"

Ac efô:—"Gellwch ei gymryd oddiwrthyf i na allwn ddim. Ofer yw pob ymgais. Yr ydym wedi ceisio popeth. Ond, i ddim diben. Y mae'r Llydawiaid yn ddifater hollol."

Dyna'r geiriau trist a ddeuai tros ei enau. Ni fynnwn innau ei gredu, er mor onest ydoedd. Llefarai megis un yn tybio bod tynged i'w herbyn. Llydaw'r ydoedd yntau i'r dim, ac yn tawelu mal pe bai tynged yn tynnu'n groes. Pobl ydynt sy'n gwangalonni'n gynnar, ac yr oedd y nodwedd hon mor amlwg ynddo

ef ag ydyw yn y morwr ar draethau Douarnenez a Roscoff, neu'r tyddynnwr ar ffiniau Tremel neu Huelgoat. Pwy fel y Llydawr am ymostwng i drefn rhagluniaeth? Pwy fel efô am ymddiried i droeon na bydd yn eu deall, ond y bydd yn coelio mai felly y bwriadwyd iddynt fod? Pa un ai gwerinwr a fo, ai uchelwr, ai Catholig ai Protestant, dyma un o'i nodweddion amlycaf. Y mae'n un o elfennau ei gryfder; y mae hefyd yn un o elfennau ei wendid. Nid damwain mohoni, ond cred ddyfnaf y galon.

Wrth droedio i lawr oddiwrth yr Abatŷ, cyfarfyddwn â llaweroedd o Lydawiaid, a chael ymddiddan byr gan rai ohonynt. Yr oeddynt yn wylaidd i'w gwala wrth lefaru eu hiaith, fel pe bai ganddynt gywilydd ohoni, neu ynteu megis yn gwybod mai anghynefin o beth ydoedd bod dieithrddyn yn ei llefaru. O'r haid a holais, ni thebygaf i nemor un ddywedyd wrthyf y medrai ddarllen ei iaith. Yr esboniad ydyw na ddysgir hi yn yr ysgol, ac nad oes fyth na llyfr na cherdd yn y tŷ gartref. Dyna'r gwir. Eithr nid felly i'r Llydawr. Iddo ef y rheswm ydyw bod ei iaith yn anos o beth dychrynlyd na'r Ffrangeg!

"*Ar Brezonek a zo dies*" meddid gan eu hepau ei gilydd.

"*Nan: n'eo ket dies*"<sup>1</sup> ebr finnau. Ond i ddim diben onid i gael ateb mwy cytûn a phendant:—

"*Ar Brezonek a zo diesoc'h eged ar Gallek.*" *Diesoc'h kals eo*"<sup>2</sup>. Ac nid oedd symud ar y syniad hwn. Cerddais innau rhagof yn syn at gasgliad mor

<sup>1</sup> Y mae'r Llydaweg yn anodd.    <sup>2</sup> Y mae'n anos lawer na Ffrangeg.

anghywir i Lydawiaid. Felly yr esgorai yr ysgolion ar ddysgu'r bobl i amharchu eu hiaith eu hunain. Da yr ymladdasai'r Lydawiaid o blaid llywodraeth Paris!

O ddisgyn i lawr trwy'r dref, deunw i weled agwedd arall ar y Gwyliau yn Llydaw. Nid i grefydd i gyd y cysegrir hwy. Gwelwn y gwrthwyneb. Gwelwn gyd-rodiana'n gyplau diddan draws y dref, a mwynhau cytgam ym mharlyrau'r dail. Llwenydd oedd yma, ymddigrifo, a bod yn garŷiaidd. Melys oedd rhawd meinwen a mab tan haul gorawenus, a mwynach fyth y cusanu ym mro cynefin y Wryf Fair. Os oedd Gwengamp yn dda i bererinio iddi i addoli, da hefyd i santeiddio serch, a bendithio cwlwm cariad. Yna aent yn ddeuoedd diddan i rodio'r dref gan sôn am y bywyd newydd, ac am baratoi gyferbyn ag ef. Yr oedd yn y dref gryn nifer o bethau i dynnu eu sylw. Yr oedd un lle agored helaeth yn ddwndwr peiriannau newyddion. Peiriannau amaethyddol, amllder mawr ohonynt—erydr dwygast ac ungast, erydr trydan ac erydr tân; peiriannau nithio a dyrnu, hwythau i'w gweithio gan ddwfr neu geffyl neu dân; peiriannau lladd gwair; ogedi heyrn ac ogedi cadwyni; a sawl math ar beiriant gwahanu hufen oddiwrth y llaeth. Crynhoai'r amaethwyr o'u cylch i edrych arnynt yn gweithio ac i'w beirniadu. Yr oedd gormod o awydd bwyta arnaf i aros yno yn hir canys ni fwytaswn er y bore, ac yr oedd weithian tua dau o'r gloch. Euthum i'r Hotel de Commerce, ac yn ol gofyn amdano i'r morwynion cefais a fynnw.



Yn eistedd wrth fwrdd arall yn yr un neuadd yr oedd gŵr bychan, byr. Gweithiai ar bapurau a llyfrau, ac ysgrifennu, hyd oni chododd ei ben pan glywodd fi yn siarad Llydaweg â'r rhai a wasanaethai arnaf. Yna gofyn imi o ble'r oeddwn, a dywedyd fy mod yn siarad yn debyg i drigolion Morbihan. Wedi amlygu iddo mai o Gymru y daethwn, cododd o'i le, a dyfod i eistedd i'm hymyl i gydymddiddan a mi. Andreu Mellac ydoedd efô, ac un o olygyddion *Dihunamb* (Dihunwn), cylchgrawn Morbihan. Gweithio dros *Dihunamb* ydoedd, ac hefyd o du *Unvaniez Arvor*, (Undeb Llydaw) neu'r *Federation Regionaliste de Bretagne*. Am Lydaw y buom yn siarad, ac am braidd bob gwedd arni. Adroddais iddo fy mhrofiad er pan gyrhaeddais y fro, ac nid heb sôn am y trychineb mawr, na wyddai'r bobl ddarllen eu hiaith, na'i hysgrifennu. Bu amcan *Dihunamb* a'r *Unvaniez* dan sylw, a'r cysylltiad rhyngddynt â chylchgronau eraill, fel y *Buhez Breiz*, *Arvorig*, *Feiz ha Breiz*, a *Breiz Atao* ac a'r undebau sy'n llafurio gyda'r *Buhez Breiz* a'r *Breiz Atao*. Yr oedd yr ymddiddan yn fuddiol iawn imi am gael ohonof, felly, farn un o arweinyddion bywyd Llydaw am y *Breiz Atao*. Fe adwaenwn i'r cylchgrawn hwnnw er ei ddechrau cyntaf bron, gan wybod am ei olygyddion, a'u hadnabod. Cefais gan Andreu Mellac syniadau'r mudiadau eraill, llai eithafol a llai tanlyd, am waith *Unvaniez Yaouankiz Vreiz* (Undeb Ieuencid Llydaw); a chanfûm nad hawdd oedd gweithio'n un a chytûn er codi Llydaw.

Ond nid oedd ef ŵr cul, ac ni ddangosodd na chamfarn lawer, na rhagfarn. Eithr hoffi'n ddewisach glebran am waith y *Dihunamb*, ac am y darllên oedd arno, am lafur *Unvaniez Arvor* ac am y gobaiith a oedd ganddo ynddo. Byddid, ym mhen tair wythnos, yn chwarae drama fechan, *Tog Janni*, mewn Gŵyl Genedlaethol, hithau eto yng Ngwengamp, ac yr oedd yn fawr ei awydd am imi fod yno. Caffwn, fel hynny, glywed canu *Bro Goz ma Zadou*, a gweled dangos *Penherez Kastel Derok* mewn tair act. Yn y modd hwnnw, yn gymysg ag amryw eraill, y gweithient o blaid yr iaith. Yr oedd ef yn llawn ffydd yn eu cenhadaeth ac yn bwriadu llwyddo, er gwaethaf y llywodraeth. Yr oedd yr Offeiriaid, gan fynycaf, o'u plaid, meddai, ond bod rhai o'r Esgobion yn Ffrengig. Gweithient nid yn unig er hyrwyddo'r iaith—er mai hwnnw ydoedd y gorchwyl pennaf, ac arwydd y cwbl arall—ond hefyd er gwella cyflwr eu mamwlad. Yr oedd llawer i'w wneuthur, ac ym mhlith pethau eraill, yr oedd pwnc yr ymfudo. Buom amser maith ynghyd, onid oedd yn bell yn y prynhawn pan ymadawsom a'n gilydd.

Troi allan a wneuthum eilwaith i fysg y pererinion, i dynnu siarad a hwy, i'w holi, ac i geisio cael gafael ar eu meddwl a'u deall. I mi, pobl oeddynt yn dwyn eu bryd ar y byd y tu hwnt i'r llen. Yr oedd yn eu llygaid ryw dristwch rhyfedd ac yn eu hwynebau ryw hiraeth annirnadwy. Byw yr oeddynt nid i'r ddaear a'i phethau, ond i'r trysorau na ddarfyddant, yn y "lle nid oes na gwyfyn na rhwd yn llygru."

Mewn difrif, tragwyddoldeb oedd testun eu meddyliau dyfnaf. Ni bu Sainte Beuve erioed yn nes i'w le na phan ddywedodd amdanynt; "*Cette race veut l'infini*", dyhëa'r genedl hon am yr anfeidrol. Gwelwn, yng ngwedd eu hwynebaw, yr un hiraeth enaid, yr un duedd am y diderfyn ag yn *Les Mémoires d'autre tombe* Chateaubriand, *Les Paroles d'un Croisant* Lamennais, a *Souvenir d'Enfance et de jeunesse* Renan. Gwiw y gallai Renan amau duwdod Crist, ond yr oedd ei synnwyr at y tragwyddol yn llyffethair ofnadwy arno. Ni bu neb a garai Grist yn fwy, nemor un, efallai, a'i dyfalodd yn well.

Crwydro o le i le, sylwi'n fanwl ar y cwbl a welwn, ymgomio â hwn ac ag arall, holi ynghylch yr iaith, ymgolli yn y dorf ryfedd o baderwyr, megis un ddeilen unig yn nhwîf tew coedwig ym Mai, drwy'r prynhawn. Yr oedd yn ymyl saith o'r gloch pan ddigwyddais gyfarfod a bachgen ieuanc newydd droi'r ugain oed. Wrth ymorol, deuthum i ddeall bod ganddo ef ryw gymaint o ddiddordeb yn ei wlad, yn ei iaith a'i hanes. Soniodd wrthyf am ddau fardd yr oedd yn eu hadnabod—Charles Rolland ac Ar Moal, a phan wnaeth hynny, yr oeddwn awyddus am wybod mwy.

"A oes un ohonynt yn byw rywle yn ymyl yma?" meddwn wrtho.

"Nac oes. Y mae Rolland ymhell iawn oddiyma; ac y mae Ar Moal ryw wyth milltir o'r dref hon."

"Wyth milltir? Nid yw hynny yn bell iawn. Fe hoffwn i fyned i'w weled. A ddeuwch chwi yn gwmni imi hyd ato?"

"Na, nid wyf yn awyddus. Y mae'n saith o'r gloch, ac y mae yntau'n trigo wyth milltir o'r fan hon. Y mae'n rhy hwyr inni gerdded yno heno. Dyna drueni! Oblegid yr oedd ef yma y bore heddiw.

"Ie, trueni mawr na buaswn wedi ei weled. Ond, a ydyw hi'n rhy bell i gerdded i'w gartref? Efallai y deuwch chwi gennyf, wedi'r cyfan?"

"Y gwaethaf yw imi fod ar fy nhraed drwy'r dydd heddiw er y bore bach. Ac yr wyf wedi blino tipyn. Ond yr wyf yn adnabod Ar Moal yn dda iawn. Eithaf da, ynteu, fe ddof, er hynny."

Diolchais iddo, a heb golli nemor amser, wedi iddo gydio mewn pastwn go gryf a dadlau dadl a'i fam, ymaith a ni.

#### IV

Nous venons tous de la charrure.

#### YMWELED Â BARD

CERDDED fuom am yr oriau nesaf a cherdded gyda chyflymder da. Ymgomiai ef mor ddiwyd a hynny, gan na bu well ymddiddanwr nag ef. Yr oedd yn Llydawr i'r carn, ac er na fedrai onid mymryn bach o'i iaith, cymerai ddiddordeb mawr ynddi. Yr oedd yn fawr ei ganmoliaeth iddo ef ei hun, ac i'r gwaith a dybiai ei wneuthur gydag ieuencid Gwengamp, o du eu gwlad. Hoffai bwysleisio iddo ef ffurfio Undeb ohonynt yn y dref, ac iddynt weithio'n ddiwyd. Ef a'r Undeb ydoedd testun ei ymadroddion am ran gyntaf ein cydgerdded. Ac yn wir, pan newidid y testun, fe arhosai ef yn gyson yn gampwr mewn pob gwrhydri. Nid bob dydd y gwelir neb a ymddigrifa'n fwy mewn ymhelaethu am ei orchestion ei hun. A gorchestion o bob math oeddynt. I ddechrau, gorchestion gyda gwŷr ieuainc Gwengamp, i hyrwyddo Llydaw a'i llwydd, yna gorchestion cerdded a rhedeg a phrancio. Yr oedd efô'n gerddwr gorau'r gororau. Onid oedd brawf gennyf yn ei fedr i gerdded ein hirdaith ni wedi diwrnod diwyd yn y siop? Yr oedd medr arbennig ganddo i ddal cwningod heb ddim ond darn o bren yn ei law. Dangosai imi fan

#### Ymweled â Bardd

ar ein cerdded lle y buasai moch daear, ac ni wn i ba anifeiliaid gwylltion eraill. Ac ni fentraï neb y ffordd honno pan ddelai'r nos. Nid felly efô. Ni bu erioed ofn arno. Ni wyddai ba beth ydoedd. Cawsai'r gwylltfilod eu hunain brofi o'i ddewrder, a phrofodd yn angau i heidiau ohonynt, o dro i dro. Gwyddai pawb am y gorchestion a wnaethai. Nid oedd undyn yn yr holl wlad nad adwaenai ef. Gallai gerdded i mewn i bob tŷ yn yr holl gymdogaethau, ac fe gai ei groesawu megis tywysog, ym mhob un. Nid hwyrach mai honno ydoedd y bennaf o'i gampau afrifed. Ac yr oedd y prawf yno ar y pryd. Oni welwn mai gwir a lefarai? Yr oedd y cerbydau yn dirwyn ei gilydd adre o'r Wyl, linyndiderfyn ohonynt. Ac onid oedd pawb yn ei alw wrth ei enw, ac yn cyfarch gwell iddo? Ni allwn wadu ei eiriau, pe bai awydd arnaf. Yn wir, yr oedd ei ymddiddan yn ddiddorol i minnau; a pha un ai gwir ai peidio, yr ydoedd yn gwmniwr diddan. Ni ddywedaf imi ddilyn ei holl ymffrost. Onid oedd gogoniant y dyffryn yr aem drwyddo yn fy swyno? Gwlad dlos ydoedd hi, gain, firain, heb fod nac yn rhy wastad nac yn rhy fryniog. Bencydd bychain, isel oedd o bob tu inni, a dyffrynnoedd yn cyfeirio ymaith oddi wrthym i'w canol. Tlws ydoedd y grug a'r banadl, yr eithin a'r mieri, a hoffed y persawr a hofranai'n donn amdanom. Yr oedd mor debyg i ambell ddyffryn yng Nghymru. Yr un ydoedd y coed, yn dderw ac ynn, yn gyll ac ysgaw, ac yn tyfu megis yno, hyd gloddiau isel ac uchel, dros lethrau

banc neu ddyfnder dól. Troellog ydoedd y ffordd a gerddem, yn newid lliw a llun bob gafael. Fin-fin a hi yr oedd afon loyw deg yn llifo'n "fferf, fwy fwy" a chyfrodeddent am ei gilydd gyda'r dim mwynaf ar a fu. Hawdd oedd teithio trwy leoedd mor hyfryd. Gadawai fy nghyfaill ei orchestion ei hun, weithiau, i ganmol godidowgrwydd y fro, ei theithi a'i chynnyrch. Buasai'n byddino ac yn gweled y byd a'i beuau, ond gwlad gyn dlysed a honno nis gwelsai erioed. Yn bennaf dim, hi ydoedd yn codi seidir gorau Llydaw. "Yn ymyl Koadout, cartref y bardd, y mae'r seidir gorau yn yr holl fröydd. Fe gewch weled cyn hir. Y mae sôn am ei glod ym mhobman."

"Dewch, fe awn i mewn i'r ffarm hon," meddai yn y man "Yr wyf i'n adnabyddus yma, wrth reswm. Fe gewch brofi'r seidir drosoch eich hun. Cerddwch i mewn gennyf i, a byddwch yn berffaith gysurus."

Yr oedd pobl y tŷ yn gwybod ein dyfod, gan fod y ci yn cyhoeddi hynny ers munudau, bellach. Myned at y drws, ac, yn ol curo wrtho, cerdded i mewn ar unwaith, fy nghyfaill megis tywysog y tyddyn, a minnau'n dilyn yn ei gysgod. Gwir a ddywedasai. Yr oeddynt yn gyfarwydd ag ef, a llefarai yntau yn hwyliog wrthynt hwy. Gwrandawn innau tra'r oedd yn fy nghyflwyno iddynt yn fachgen a ddaethai i'r fro i ddysgu'r iaith. Yna, gweled y gegin, y gyntaf a welais yn Llydaw, a gwrthrych cywreinrwydd imi. Llawr pridd anwastad oedd iddi, fel i braidd bob cegin a welais wedyn yn Llydaw. Yr oedd palis

yn ymestyn oddiwrth y drws, ac yna, y tu ol iddo, ar y chwith, y bwrdd mawr, hwnnw eilwaith yn anwastad, fodfeddi lawer yn is ei ganol na'i ymylon, a dwy fainc hir bob ochr iddo. Yn union o'n blaen yr oedd y simdde fawr, a'r lle tân eang ôdditani. O bob ochr i hwnnw eto yr oedd mainc, ac yn ymyl un ohonynt, ystôl fechan isel. Ar honno yr eisteddai gŵr y tŷ, gan dynnu mygyn o'r bibell glai gota a ddaliai yn ei enau. Gŵr heibio'i ganol oed ydoedd ef, yn anhrefnus ei ddillad, ei farf yn ddiotal am ei ddwyrudd, a'i hat ddiraen o felyn mwsogl yn dynn am ei ben. Ni ddywedai nemor air, eithr gwrando ar y bachgen o Wengamp a chydsynio ag ef trwy droi ei gern weithiau, a nodio a llefaru "Ya Ya"<sup>1</sup> ddistaw, a phoeri'n gawodydd i'r tân o'i flaen, neu i gynted y llawr. Yr oedd yn aflednais braidd ei ymarweddiad, eto ni allwn lai na theimlo bod rhyw falchter yn perthyn iddo, a rhyw bersonoliaeth annibynnol. Gwelwn gadernid yn ei olwg hamddenol, a bonedd yn ei eiriau anfyfnych, tawel. Dyn yn teimlo urddas ei sefyllfa? Wedi'r cwbl, ef ydoedd pennaeth y tŷ, ac ef oedd yn cynnal y teulu. Ar ei aelwyd ef y caem ninnau'r croeso. Cansys croeso ydoedd, yn wir. Nid oeddem ond newydd ddyfod i mewn, nad oedd hwylio torth anferth i'r bwrdd. Yn ol honno, y cig "sal" (hallt) yr oeddid mewn hwyl wrth gyfeirio ato; ac yna'r seidir a ganmolasai fy nghydrgerddwr. Yr oedd yn rhaid inni droi at y bwrdd, ac eistedd ar y meinciau o'i gylch. Tynnodd fy nghyfaill

<sup>1</sup> Ie, ie.

ei gyllell allan o'i boced, a dechrau ei ddigoni ei hun a'r bara ac a'r ymenyn. Yr oeddwn innau i wneuthur yn gyffelyb, ond gan nad oedd gennyf gyllell boced at fy ngwasanaeth, fe roed un imi. A bwyta o'r cig ac o'r bara. Ac yfed o'r seidir. Profais ef, ac er na chefais ef yn gwbl gystal a'r gorganmol, nid oedd le i gwyno rhagddo. Bara gwenith cartref ydoedd y bara, ac yn galed fel haearn, ond yn dda er hynny. Yr oedd y cig yn llawn gwell na dim. Rhwng y chwant oedd arnom, a chwaeth difai popeth, gwnaethom bryd gwiw ei wala. Wrth ei fwyta, parhai'r ymddiddan yn ddiaros. Cyfle i minnau edrych oddiamgylch imi. Yr oeddwn mewn tyddyn yn Llydaw am y waith gyntaf ac nid oedd yno y dim lleiaf nad oedd yn ddiddorol. Gyferbyn a'r bwrdd, o'r ymyl arall i'r gegin, yr oedd gwely caeadig. Dyma fo, y gwely "clos" y darllenaswn lawer am dano. Gwely ydyw mewn math ar ddodrefn, sydd, weithiau, o waith celfydd a graenus. Yr oedd dillad gwynion glân y gwely i'w gweled o'r lle'r oeddwn i, ac yn lân fel y camrig. Ychydig ohonynt oedd yn y golwg, gan fod caead ar y gwely yr un fel a phe bai gwpwrdd. Yn wir, cwpwrdd ydyw, gyda'r caead yn agor o un pen i'r gwely i'r llall. Unwaith y byddys oddimewn iddo, gellir cau amdanoch yn gyfangwbl, o bydd raid. Honno yw'r arfer, hefyd, o leiaf y gaeaf.

Y mae'n hawdd dringo i fyny i'r gwely, am fod godre'r dodrefn megis math ar fainc a chefn iddi, neu ysgiw, yn ol ymadrodd Ceredigion. Esgyn i'w

phen hi, ac yna y mae'n hawdd esgyn fry i'r gwely. Amdani hi, y fainc, fe'i defnyddir i eistedd, ac y mae mor ddefnyddiol ag un fainc arall yn y tŷ. Gan eistedd arni, fin nos, yr adroddir rhai o gerddi Llydaw, ei hofergoledd a'i hanesion difyr. Yno y diwedd yr dydd cyn troi i gysgu'r oriau rhwng "cyfnos a gwawr." Nid oes dim mor annwyl yng ngolwg y Llydawr a'i *wele clos*<sup>1</sup> na dim, 'chwaith, a glymwyd yn dynnach am droeon ei yrfa. Ef yw'r prydferthaf o'i ddodrefni, ac y mae'n fwy defnyddiol na'r un. Prydferthwch a defnyddioldeb—pa ddau gymhwyster rhagorach y gellid eu disgwyl oddiwrth ddodrefnyn?

Yn ol sylwi'n fanwl ar y gwely, a'i ganmol er bodlonrwydd amlwg ein gwestywyr, aethom rhagom. Bwrw ein traed yn y tir wedyn gyda brwdfrydedd newydd, a brasgamu'n gyflym oni ddaethom ar fyr o ysbaid hyd ben ein taith. Yr oeddem, weithian, ar ennill ein gwobrwy. Yr oedd cartref Ar Moal yn y golwg, a chaem minnau ei weled, a bod yn ei gwmmi. "Dyma fo. Yr ydym i droi yn y fan yma. Dilynwch fi. Fe af i mewn ar unwaith. Y maent yn fy adnabod, bob un. Sylwch chwi fel y mae pawb yn gyfarwydd a mi. Yr wyf yn adnabyddus fel hyn yn yr holl wlad—yn yr holl wlad." Ac i mewn ag ef, a minnau ar ei ol. I'r gegin yr aeth, ac ymddiddan a gwraig y bardd. Gwraig ddeheuig, glân ei philyn ydoedd hi, ac yn groesawgar i'w ryfeddu. Ymddangosai'n eithriadol o falch o

<sup>1</sup> Gwele clos yw gair y Llydawr am y gwely cwpwrdd hwn.

weled Cymro, ac yn arbennig wedi deall iddo gerdded yr holl ffordd o Wengamp yn unig er mwyn gweled ei gŵr. Ar y gair, fe ddaeth ef yno ei hun, o ryw le arall yn y tŷ. Ysgwyd dwylo, a chyfarch gwell.

"Ond," meddai ef, "arhoswch chwi. Gadewch inni fyned i'r gegin arall." Ac felly y bu. Yr oedd honno'n gegin glen, yn gymen, hi, a glanwaith. Nid oedd nemor addurn arni, ond yr oedd yn drefnus, ac yn daliaidd. Ar ganol y llawr, yr oedd bwrdd ac eisteddasom o'i gylch. Ymddiddan a fu rhyngom wedyn am na wn i ba bryd, gan mor felys ydoedd. Mwynder ei hun yw'r Moal. Nid ydyw'n ddeniadol ei wedd, nac yn ddysgedig yn ystyr gyffredin y gair hwnnw. Ond y mae gwir galon yr awen ganddo, a dawn ysgrifennu, i raddau helaeth. Fel rhyddieithwr y mae, yn ei symlrwydd a'i lyfnder rhwydd, ar y blaen ar bawb yn Llydaw. Fe ysgrifenna'r Abad Perrot, golygydd y "Feiz ha Breiz" iaith gywirach yn ddiamau. A gwiw cyfaddef bod mwy o dân ac o angerdd yn rhyddiaith byw Le Crocq. Eithr am felyster a swyn, ni chura neb Ar Moal. Beth sydd fwynach na'r "Pipi Gonto" (Pedr a Edrydd), y chwedlau chwêg a rhugl a gyhoeddodd ef? I Loth, dyma'r llyfr gorau o ryddiaith a ysgrifennwyd yn yr iaith; a gwn am eraill, gwŷr dysgedig hwythau, yn tybio'n gyffelyb. Fe edrydd ef ei chwedlau yn iaith Treguier, ac y mae rhai megis y Tad Vallée ei hun, braidd yn anfodlon ar hynny. Dyweder a fynner, da y gwnaeth Ar Moal, am nad yw Llydaw

eto yn wlad y gellir rhoddi yn nwylo ei phlant lenyddiaeth sydd ar unwaith yn ddofn ac yn anodd, yn rhydd o'r priod-ddulliau lleol. Dechrau deffro y mae hi, ac y mae nifer y rhai a *fedr* ddarllen y Llydaweg o gwbl yn ddychrynlyd o fach. Un o bob ugain? Llai fyth, r'wy'n meddwl. Ac o'r rheini, nid oes nemor un sydd yn darllen. Y mae pentrefi cyfain heb yr un llyfr Llydaweg, nac un llyfr arall, o ran hynny. Y mae teuluoedd cyfain na welsant yr un llythyr erioed wedi ei ysgrifennu yn eu hiaith. I'r rheini, ac y maent yn filoedd, y mae cyfodi i ddarllen Ar Moal ei hun yn gam bras iawn.

Fe brydydda ychydig hefyd, ac fe ddwg yr enw barddonol, *Dir na Dor* (Dur na Thyrr). Yr un mwynder eto, a'r un melyster mad. Un gostyngedig ydyw; ni ddywed lawer; ni chyfyd ei gloch. Y mae ei ddyfnder yn ormod, ei ddwyster yn rhy ddwys. O'r braidd y mynnai sôn dim am ei waith. Nid oedd ganddo ddim ohono yn y tŷ, onidê buasai'n rhoddi imi gyfran. Yn lle hynny, mynnai imi gymryd llyfrau bychain o gerddi, yn dwyn yr enw *Soniou Feiz ha Breiz* (Cerddi Ffydd a Llydaw). Bu raid arnom hefyd yfed têt, oedd yntau yn dê da, mewn gwlad lle na chynefinir ag ef. Yna, buwyd yn canu, efô a'i ferch. Canu mwyn i ganol nos. Canasant, yn gyntaf, *Bro Goz ma Zadou* ar dôn *Hen Wlad fy Nhadau*. Un o gerddi Taldir ydyw, a chyfieithiad fwy na heb o "Hen Wlad fy Nhadau." Dyfynnaf y pennill cyntaf ohoni:—

*Ni, Breiziz a galon, karomp hon gwir Vro!  
Brudet eo an Arvor dre ar bed tro-dro!  
Dispont kreiz ar brezel, hon tadou ken mad  
A skuilhaz eviti o gwad.<sup>1</sup>*

Cyfleai llais tyner Ar Moal a'i ferch gryn ddarn o'r angerdd sydd yn y gerdd. A mwy fyth wrth ganu, wedyn, y gytgan:—

*O Breiz! Ma bro! me gar ma bro;  
Tra ma vō mor 'vel mur'n he zro,  
Ra vezo digabestr ma bro!<sup>2</sup>*

Yna canu'r gerdd dlos "Kousk Breiz Izel" gyda'i chytgan annwyl hithau:—

*Kousk, kousk, Breiz-Izel, bro dispar,  
Setu an noz o tond var an douar.  
Kousk, Breiz-Izel, bro ker mad,  
Trouz ar mor bras a zav d'az luskellad!<sup>3</sup>*

Yna'r gerdd drist a thlos "Silvestrik" yn adrodd hiraeth tad ar ol ei fab yn y rhyfel; ac, ar ol honno,

<sup>1</sup> Ni, Lydawiaid o galon, carwn ein gwir fro,  
Enwog yw Arvor (Llydaw) drwy y byd i gyd;  
Dewr yng nghraidd y rhyfel, ein tadau anwylaf  
A gollodd, erddi, eu gwaed.

<sup>2</sup> O Lydaw! Fy mro! Fe garaf fy mro;  
Tra fyddo môr fel mur yn dro am dani  
O bydded yn ddigebystyr (rhydd) fy mro.

<sup>3</sup> Cwsg, cwsg, Breiz Izel, fro ddigymar,  
Welé'r nos yn dyfod ar y ddaear.  
Cwsg, Breiz Izel, fro deg, fad  
Cyfyd trwst y môr mawr i' th suo.

y gerdd ddigrif "Yan ar Paotr Mad" (Ioan y Bachgen Da). Yr oedd encyd wedi hanner nos arnom yn troi allan o'r tŷ—o dŷ un o gyfeillion gorau Llydaw. Gweithiodd yn galed er ei mwyn. Cyn y rhyfel, yr oedd yn Olygydd "Arvorig," cylchgrawn i blant, nid annhebig iawn i "Gymru'r Plant." Bu ddiwedd arno, gyfnod y rhyfel, ond y mae wedi ei ail gychwyn eto ddeufis neu dri yn ol. Ni ellid yn hawdd ddymuno am ddim gwell ar gyfer plant, ac y mae dawn "Dir na Dor" yn ddawn arbennig ar eu cyfer hwy. Gweithiai hefyd gyda'r "Kroaz ar Vretoned" (Croes y Llydawiaid), ac eto gyda "Feiz ha Breiz." At hyn oll, y mae'n awdur amryw lyfrau bychain heblaw "Pipi Gonto," megis "Potr e vragou berr,"<sup>1</sup> "Bue Jeanned Ark kontet d'ar vugale,"<sup>2</sup>—a "Buez an Den eürus Charles Bleiz,"<sup>3</sup> lle y cyfuna hanes a chwedl yn rhugl i'w ryfeddu. Eto i gyd, tyddynnwr ydyw, yn gweithio ar ei dir ei hun, yn hau ac yn medi, fel pob tyddynnwr arall yn Llydaw, yn tyfu ceirch a gwair, gwenith du a haidd.

Yr oeddwn wedi fy modloni. Yn llawen fy nghalon y troediais yn ôl i Wengamp wrth ochr fy nghyfaill fnyddlon. Yr oedd yn llawen yntau, ac yn llefaru o helaethrwydd y galon. Gallai ei ganmol ei hun gymaint ag a fynnai. Yr oeddwn yn annhueddach nag o'r blaen i rwgnach rhagddo. Canmolwn fy ffawd fel yr oedd yn ddyled arnaf. Cerdded cyflym

<sup>1</sup> Hogyn y llofrau byrion.

<sup>2</sup> Buchedd Jean d'Arc wedi ei adrodd i blant.

<sup>3</sup> Buchedd y dyn llawen Charles Bleiz.

oedd ein cerdded ni y nos honno, ac, er gwaethaf hynny, yr oedd yn ddau o'r gloch y bore arnom yn cyrraedd cyrrau'r ddinas santaidd. Yna ymadael, efô i'w gartref, a minnau i'm llety. Ond? Diogel yr âi efô i'w dy. Eithr amdanaf i, nid oedd fy llety yn agored imi. Curo wrth y drws droeon, ac yn ofer. O'r diwedd gwaeddodd rhywun o'r llofft:—

"Pwy sydd yna?"

"Fi sydd yma."

"Ond, pwy, chwi?"

"Fi, a gymerodd ystafell y chweched."

"Ym mhle y mae'ch agoriad chwi?"

"Ni chefais i mohoni. Ni roes neb mohoni imi."

"Eich bai chwi oedd hynny. Y mae'n rhy ddiweddar bellach. 'Does dim disgwyl i neb godi, yr amser hyn o'r nos." A dyna'r cyfan. Curo wedyn, dro neu ddau. Ac aros, a gwrando. Ond nid oedd codi i fod. Nid oedd onid aros allan amdani. Ond na! Gobaith! Ffydd! Yr oedd dwndwr yn rhywle yn y dref gŵsg. Cerdded i'w gyfeiriad. Oedd, yr oedd dwndwr, a llais dyn. Gobaith, ynteu! Ymlaen a mi nes gweled mymryn goleuni mewn ffenestr fechan. Yr oedd y sŵn yn amlycach weithian, a dëllais mai tafarn oedd yno. At y drws a mi. Curo, curo dro a dau dro. Ac wele ateb. Adroddais fy helynt mewn deuair byr, ac atebwyd fi nad oedd dim lle i'w gael. Yr oedd pob ystafell yn llawn.

"Ond fe ofynnaf, i gael gweled yn sicr, serch hynny. Efallai y cewch ryw damaid o le yn rhywle." Gobaith! Un funud faith wedyn, ac wele ateb:—

"Na, nid oes dim lle yma. Dim o gwbl." Gobaith? Anobaith? Pa un? Gobaith. Yr oedd dyn ieuanc ym mhlith y rhai a yfai win oddimewn, a sibrydodd ef y gallai gael gafael ar le. "Dewch i mewn funud. Eisteddwch." Myned ac eistedd. Gobaith oedd piau hi wedi'r cwbl. Yr oeddwn yn flinedig erbyn hynny, fy nghefn yn llesg, fy nghoesau'n anystwyth a dolurus. Aeth heibio funudau hirion blinion, meithion, cyn iddo ymadael â'i win. Yna, dywedodd ei fod yn barod, a cherddasom allan ein dau. Ni bu faith cyn ein cyrraedd i ryw le anial, i ryw gornel anniben yn y dref. O flaen y tŷ yr oedd byrddau amryw, a meinciau. Yr oedd yn dywyll fel na ellid eu gweled ond eu teimlo'n unig, a chael mynych ergyd. Goleuodd ef gannwyll, a dringo'n araf o fainc i fainc nes cyrraedd hyd ymyl y drws.

"Os na chewch le yma, ni wn i beth i'w wneud."

"Dowch inni gael gweled" ebr finnau, yn obaith ac yn anobaith i gyd. Yna galwodd—"Marchall." Ac eilwaith a thrachefn. A galw, a galw. A thyciodd, cyn iddo roddi i fyny yr ysbryd. Addawodd hwnnw ddyfod i lawr. Yr oedd dŵch y nos yn drwch o'n deutu, a'i thawelwch yn amdo amdanom. Medd-yliwn y gallwn deimlo i'r dyfnderoedd—i ddyfnderoedd y pethau—pe cawn dreulio'r nos yn eistedd yn y distawrwydd mawr hwnnw ar y bwrdd.

Ac yr oeddwn barod i hynny. Bron nad oeddwn yn dyheu amdano. Ond nid felly y mynnai tynged iddi fod. Y mae Marchall yn datgloi'r drws. Eto ennyd bach, ac y mae wedi ei agor, ac yn ei ddangos



ei hun i ni, gan ddal y golau kannwyll yn ei law, a'i amddiffyn rhag awel lonydd canol nos.

Eglurwyd ein helynt wrtho, ond nid oedd yn sicr bod yno le.

"Fe allwn i feddwl bod pob man yma'n llawn. Wn i ddim faint sy'n cysgu yma heno, gan gymaint ydynt. Ond fe âf i ofyn, ac i edrych." Ffydd! Gobaith! Ond nid oedd hynny yn fy mlino mwy. Yr oeddwn fodlon i aros allan gydol y nos. Ni wneuthum erioed, ac yr oedd rhyw fymryn o swyn ynddo. Munudau mwynion, mudion, eto. A daeth Marchall yn ei ol. Lle? Ai nage?

"Oes, y mae yma un gwely'n rhydd, yn un o'r rwmydd ar y llofft uchaf. Fe gaiff hwnnw, os bydd yn fodlon arno. Yn unig, y mae tri gwely arall yno, a rhai'n cysgu yn y rheini."

O'r gorau! Nid oedd dim arall amdani. Euthum i mewn, ac yn ol diolch i'm cyfarwyddwr, dringais i fyny i'r llofft, nes dyfod i'r ystafell yr oeddwn i gysgu ynddi.

"Dyma hi, a dacw fo'r gwely. Y mae'r tri arall yn cysgu."

"Ydynt: y mae eu huawdledd yn taeru hynny. Ond, y mae'n rhaid agor y ffenestr yma. Onidê, ni allaf i gysgu."

Ffenestr fechan, fechan, ydoedd hi, tua chymaint arall a chleddr eich llaw. Agorodd yntau hanner modfedd ohoni, megis pe gwnaethai orchest o agor.

"Rhaid agor mwy na hynny. Agorwch hi'n llawn. Nid ydyw'n ddim wedyn." Ac euthum ati, a'i

hagor led y pen—y cymaint o led a allai fod i rywbeth fel torr y llaw. Ac aeth Marchall ymaith. Ymddi-hetrais innau, a myned i'r gwely. O wely anniben! Ac yn dynn uwch ei ben, to'r tŷ, fel mai o'r braidd y gellais fy ngwthio fy hun iddo. Ni ddiffoddais y gannwyll eto. Erbyn hyn, yr oedd un a gysgai ar wely arall wedi deffro. Dëallodd fod y ffenestr yn agored. Ac os do, dyna'r lle bu beswch a chowtan, nes imi dybio mai ei ladd ei hun a wnai. Paham? Y ffenestr oedd yn agored, ac ofnai y byddai farw gan annwyd cyn y bore! Ond tawelu fu raid iddo, a chysgu hefyd. Felly finnau, er gwaethaf y gwely cul, a'r to a'r trwch papur rhydd a bwysai i lawr oddiwrtho. A phan godais, nid oedd sôn am y pesychwr.

V

C'est là que j'ai vécu dans les voluptés calmes.

—BAUDELAIRE

GADAEI GWENGAMP

CODAIS yn fore, drannoeth, gan deimlo'n galonnog fel y gôg. Cerddais y dref am dipyn cyn myned am enllyn. Yn yr Hotel de Commerce, y tu hwnt i'r Eglwys, y cymerais hwnnw, a phan oeddwn wrtho, dëellais ddyfod gorymdaith y ffordd honno. Yn y man, yr oedd arwyddion ei hagosáu. Codais i ben y drws, i gael golwg arni. Fe'i gwelaf yr awr hon, orymdaith fechan, fer, fel yr oedd. Yr oedd mor effeithiol a dim a allai fod. Symudai'n araf, araf, gydag offeiriad yn arwain. Plant oedd ynddi bron i gyd, a chydganent yn ddeniadol. Ni allaf obeithio cyfleu cyfanwaith cerddoriaeth anobaith a gorfoledd y canu hwnnw. Yr oedd yn undonog, ond yn gyfoethog o deimlad. Llifai rhyw dristwch annisgrifiadwy allan ohono ac ymunai ei dristwch a'i unrhywiaeth i wneuthur cân buddugoliaeth ohono. Fe'm tynnodd allan o'r tŷ i wrando arno. Ni allwn feddwl colli'r miwsig hwnnw onid oedd wedi darfod. Ac fe'i dilynais hyd at yr Eglwys, ac oni thawodd yno. Ond, imi ni bu daw arno. Fe'i clywaf o hyd. Daw'n donnau dyfnion o gerdd ac o hedd i'm clustiau bob tro y meddyliaf amdano. Cyfyd y gytgan a glywn

Gadael Gwengamp

ryw hiraeth i'm calon. Gwn garu'r funud yma, y plant a'i canai; a'r offeriad hirdal, tenau oedd ar eu blaen:—

*Ave, Ave, Ave, Maria,  
Ave, Ave, Ave, Maria.*

Un funud mynegai orthrymder y byd, a'r nesaf fuddugoliaeth dyn arno yng ngrym y cynhorthwy a ddeuai iddo trwy Fair. Yr oedd ffydd yn eu geiriau, a sŵn sicrwydd:—

*C'houi zo Mam da Jezuz,  
Mam d'ar gristenien,  
Refuj trugarezus,  
An holl bec'herien.<sup>1</sup>*

Yr oedd Mair yn berchen yr holl rinweddau, ac yn ei lloches hi y teimlent hwythau ddiogelwch mewn bywyd. Taeru hynny oedd pob gair yn y gerdd, a phob acen yn eu canu. A diwedddai gyda mynegi ffydd a gobaiith ynddi hi:—

*Ennoc'h hon holl fianz,  
Epad hon bue;  
Ennoc'h hon esperanz,  
Er maro ive.<sup>2</sup>*

<sup>1</sup> Chwi sydd Fam i Iesu  
A mam i'r Cristionogion  
Noddfa drugarog,  
Yr holl bechaduriaid.

<sup>2</sup> Ynoch ein holl ffydd,  
Gydol ein buchedd,  
Ynoch ein gobaiith,  
Ym marw hefyd.

*Llydaw*

Ac, yn cynganeddu a'r cwbl hyn, y lleisiau mwyn yn peri codi i'r nef fel persawr arogldarth yr allor, y geiriau:—

*Ave, Ave, Ave, Maria,  
Ave, Ave, Ave, Maria.*

Y prawf bod effaith yng nghathl y plant hyn ydoedd gweled pawb yn nesu o'u tai i bennau'r drysau i wrando arnynt mewn astudrwydd a fynegai edmygedd a mwynhad. Gymaint gwyrth eu gorymdaith fach! Yn y meddwl amdani y gadewais Wengamp, ac o droi allan ohoni, yr oeddwn ebrwydd i lefaru gyda'r Llydawiad:—

*Kenavo d'it, Gwengam,  
Kenavo d'ec'h, ma Mamm,  
Gwir-Zikour venniget,  
Mamm vad ar Vretoned.<sup>1</sup>*

Wrth ymbellhau o'r ddinas, edmygwn olwg urddasol yr Eglwys hynafol, a golwg dëg gwlad dlôs o gwmpas. Gwlad goediog ydoedd hi, ond gyda daear yn llai ei braster na honno o Rennes i St. Brieuc, yr ydau'n waeth eu graen, a'r caeau pori'n llymach. I gyfeiriad perfedd y wlad, codai bryn yn araf ac yn llyfn. Menez Bre ydoedd, un o fynyddoedd bychain Llydaw. Arno ef y cynhelir tair o'r marchnadoedd mwyaf yn y wlad, un ym mis Mai, y llall ym Mehefin, a'r drydedd ym

<sup>1</sup> Hawddamor it', Wengam,  
Hawddamor i'weh, fy Mam  
Wir swewr fendigaid  
Mam fad y Brythoniaid.

*Gadael Gwengamp*

Medi. Bydd yno bob tro gannoedd o ddynion a channoedd o anifeiliaid. A'r un dydd, bydd offeren ddeg o'r gloch yn y capel bychan a welaf ar y copa uchaf. Gorffennir yr offeren gyda chusanu dwyrudd delw Sant Herve sydd yno!

Gwelwn, weithian, agwedd ar Lydaw oedd gynefin i Gymro. Atgofiai'r Menez Bre ef am fryniau ei fro ei hun. Deuai'r atgof yn fwy byw gyda gweled, yn y man, flaen creigiau'n torri i'r wyneb trwy groen y ddaear. Yna, cyfoedion cartref, yn amllder y derw, y cyll a'r ynn a'r ysgaw, yr eithin euraidd a'r banadl penfelyn. Bro'r derw ydyw Llydaw. Yr oedd y profion o bob tu. Yn nesaf, deuai crimp creigiau'n fwy-fwy i'r golwg. Gwir a ddywedodd Louis Page amdani:—

*Bro ar rec'hier hag an dero.<sup>1</sup>*

Yn ymyl Plouaret yr oeddem yr awrhon. Daear santaidd ydyw daear Plouaret, canys yno y ganed Luzel—Luzel, y mae Llydaw yn fwy dyledus iddo nag i nemor un o'i phlant. Bu am fynyddoedd maith yn casglu pob *son* a *gwerz* y gallai ddyfod o hyd iddi. Nid oedd dim aberth yn rhy fawr ganddo at gyflawni'r gwaith y gosododd ei galon arno. Cafodd yn un o'i chwiorydd, un i gyd-lafurio'n frwdfrydig ag ef. Rhyngddi hi a Marc'harit Phulup, cafodd fwy o gymorth nag y gallai yr un ysgolhaig ei roddi iddo. Gwyddent gannoedd o gerddi ar eu cof, a chwiliant yr holl fröydd am ragor ohonynt, ac am chwedlau, hen

<sup>1</sup> Bro y creigiau a'r derw.

arferion ac ofergoel, y cwbl er mwyn hyrwyddo Luzel yn ei gynnull ar gerddi o bob math.

Pentref gwledig ydyw Plouaret, un bychan, prydferth. Saif yr eglwys ar le uchel yn ei ganol, ac y mae'r holl dai megis yn troi tuag ati. Gyda cholli golwg arni, brysiem heibio i greigiau, oedd, o'r diwedd, yn rhai ysgithrog ac uchel, ac yn peri, yn y man, orfod tyllu trwyddynt i gael ffordd i'r trên. Yr oedd yr elfennau'n gyflawn weithian. Ai yng Nghymru yr oeddwn? Ai teithio o Ystrad Fflur i Drawsgoed? Yr oedd y ddwy fro yn hynod o debyg, yn gefn-noeth y ddwy, y ddwy a'u daear yn duo gan eu tyweirch mawnog. Am ennyd yn unig. Canys nid dyffryn tirion Trawsgoed oedd nesaf, ond gwastadedd go lwm gydag eithin a rhedyn, gwair cwta gweunydd, ac yd yn gwysi culion fel ar amryw o fryniau Cymru.

Yr oeddwn yn awr yng ngorsaf Plounerin, man lle'r oedd yn rhaid imi ddisgyn, er mwyn gwneuthur am Dremel. Yr oedd gennyf dair milltir neu fwy i'w cerdded o'r naill le i'r llall. Cefais gyfarwyddyd cyn gadael yr orsaf, a dechreuais gerdded y fro wastad ar unwaith. Nid oedd gennyf onid troi i'r chwith, ac yna dilyn y ffordd o hyd yn ei blaen. Yr oedd cloddiau uchel am ddeutu'r ffordd honno, ond nid oedd dwf arnynt, ag eithrio mân lwyni eithin yma ac acw. Yr oedd amaethdai bychain yn gyson i'w gweled, a gerddi llawndwf, yn eu hymyl. Fel yr ymbellhawn, amrywiol gwedd y wlad fwy, oni ddeuai'n goediog ac ymgyfoethogi. Yr oedd y cloddiau wedyn yn wrych-

oedd uchel o gyll a derw, a minnau'n teimlo'r awyrgylch yn debyg i'w ryfeddu i Geredigion. Dringo dernyn uwch na'i gilydd rai prydiau, nes cael golwg eang i bell. Yr oedd yr olwg a welwn bron yn unwedd â honno y bum gyfarwydd a'i gweled ar y ffordd o Dregaron i Langeitho. Yno, hefyd, yr oedd rhiw, ac, oddiarni, olygfa yr un fel yn union ag a agorai o flaen fy llygaid wrth gyfeirio at Dremel. O'r braidd na thebygwn gael cip ar Lwynpiod a'r ardal oddiyno i lawr hyd Langeitho. A ellid tebygrwydd fwy rhwng dwy wlad? A mi'n aros yn y meddwl hwnnw, gwelais blant yn chwarae o flaen eu cartref. Ymddidenais fymryn a hwy, ac yn ol holi pa hyd o ffordd oedd yn aros imi, gwelem gerbyd yn cyflymu hyd atom, yntau o Blounerin. A meddai'r rhai bach:—

“Y mae'r dyn yma yn mynd i Dremel.”  
 “Ydyw? A gaf i fynd gydag ef?”  
 “Cewch. Fe ofynnwn iddo 'nawr.”

Ac yn ol y geiriau y bu. Bodlonodd yntau'n rhwydd, ac esgynnais i fyny i'w gerbyd. Gŵr anghymen iawn ydoedd ef, yn aflu ei wisg, ac yn fawlyd ei wyneb. Anwyd ei gerbyd hefyd, ac nid oedd ol ceirch lawer ar ei geffyl ychwaith. Ond bu ddiddorol o ymgom rhyngom,—am y gwaith ar y ffarm, am dwf yr yd a'r gwair. Hynny ydoedd ei fyd ef, ac ni fedrai ddim Ffrangeg. Trwy ymdrech, gan hynny, y dëallem ein gilydd. Fe ddeuai i hynny gyda phob brawddeg, gan bwyll bach. Ymhoffai yn egluro

enwau'r coed a'r blodau, gan bwyntio atynt y naill ar ol y llall. Yma *radenn* neu *lann*, acw *foenn* a *melchon*, eilchwyl *kerc'h* a *gweniz*, a *gweniz du*; ac ymhellach col a'r *patatez*.<sup>1</sup> Felly hyd yn ymyl diwedd y daith, pan ddaeth Tremel i'r golwg, ac y dywedodd yntau *Tremel eo*.<sup>2</sup> Yr oeddem wedi cyrraedd y pentref gwledig hwnnw, a'i dai cerrig, glân. Ac o edrych arnynt, ar y waith gyntaf, yr oeddynt bertach fyth. Tai wedi eu gwyngalchu oeddynt bob un. Ond yn unig bod y cylch am y ffenestr heb ei gyffwrdd. Cerrig mawr ydoedd y rheini ac wedi eu gosod gyda'r peth destlusaf. Edrychent yng nghanol y gwyn yn ymyl-waith du perffaith. Ac yr oedd gwe y du hwnnw gyda'r gwyn am y gweddill o wyneb y tai yn swynol odiaeth. Y swyn hwnnw oedd nodwedd bennaf pob tŷ, ac o'i weled mewn rhestr ohonynt yr oedd yn dlysach fyth. Wele, i'r dim, un o bentrefi bychain Llydaw, yng nghanol y wlad. Yr un fath yn union y maent drwyddi oni bydd celfyddyd ddiweddarach wedi eu dileu yn y pentrefi mwyaf a'r trefi. Anffawd yw hynny, canys nid oes dim sy'n cynganeddu'n well a natur y Llydaw'r na'r tai lliwiog hyn. Daeth eu swyn trosaf ar unwaith, ac yr oeddwn yn falch o'm cael fy hun mewn pentref a addurnid mewn modd mor gartrefol a gwmp.

Disgynnodd gyrrwr y cerbyd o flaen tŷ gwin, a disgynnais innau. Wedi diolch iddo, a'i dalu, euthum i'm ffordd. Yn gyntaf dim, yr oedd yn rhaid cael

<sup>1</sup> Rhedyn, eithyn, gwair, meillion, ceirch, gwenith, bresych, tatw.  
<sup>2</sup> Tremel yw.

gafael ar rywbeth i'w fwyta. Ac, wrth reswm, yn Llydaw y mae'r dorth a'r ymenyn ar y bwrdd drwy gydol y dydd. Y mae'r coffi hefyd mor gyfleus a hwy. Ni bu raid i minnau fod nemor dro cyn cael a geisiwn. Dangoswyd imi dŷ yn ymyl, lle y gwneid bwyd i'r neb a'i mynnai. Myned yno, a churo wrth y drws. O'r diwedd, daeth rhywun i'r drws, a gofynnais innau:—

“*Roit d'in café, mar plich, gant aman ha bara?*”<sup>1</sup>

Anystwyth gan naws llyfr a gramadeg ydoedd fy Llydaweg, ond fe'm dëallwyd ar unwaith gan y wraig wyneb-agored, garedig, a ddaeth i'r drws. Yr oeddid yn fodlon, ac fe'm gwahoddwyd innau i mewn, a gofyn gennyf eistedd ar y fainc o'r tu pellaf i'r bwrdd mawr. Dwy wraig oedd yn y tŷ, ac un o honynt yn cwyno'n glaf. Holais beth oedd yn bôd, a dywedodd mai poen oedd yn ei dannedd. O'r braidd y torrai air, gan fel yr oedd yn drist. Eisteddai a'i chefn at y tan, yn ymddangos fel pe rhoddasai i fyny'r ysbryd. Tybiai nad oedd gwella iddi, ac ymfodlonai'n dawel i'r dynged a fynnai ei dwyn arni ei hun. Oni welwn ynddi hi y Llydawiaid i gyd megis mewn drych? Onid hwyntwy, o bawb, ydyw'r bobl sydd yn ymostwng i dynged? Y maent yn dawel yn ei hwyneb. Nid ei hoffi y maent, yn fwy na rhyw genhedloedd eraill. Hoffi dioddef? Y mae'n annichonadwy, hyd yn oed i'r Llydaw'r. Nid hoffi, ond ymddiried i ddaioni

<sup>1</sup> Rhowch imi goffi, os gwelwch fod yn dda, gydag ymenyn a bara.

a wêl y tu ôl iddo. Medr ei ddisgyblu ei hun nes ymostwng yn ddigwyno i ffawd a thynged. Nid ymladd efô yn erbyn tynged. Iddo ef, ni byddai na budd o hynny, nac ystyr. Canys:—

*Ouz ar red . . .  
Neuz nemet kouez a greiz redek.<sup>1</sup>*

Dyn ydyw sy'n gwbl gaeth i'w amgylchedd, i'w gloffni ac i'w glefydau, i'r glaw ac i'r niwl. Bydded ei gyflwr mor galed ag y bo, nid ar frys y cwyna ef. "Fel hyn y mai hi" meddai, "ac ni allwn ni gyfnewid dim. Peidiwn a chwyno ar y byd, ac yna fe fyddwn yn gysurus bob amser." Bydd raid iddo weithio deunaw awr y dydd, yn aml, ond nid eiddo ef yngan gair o gwyn am hynny. "Yr wyf yn gryf; bwytaf lawer, ac y mae gwraig a phlant gennyf. Y mae'n rhaid gweithio. Yr ydym yn bwyta; y mae'n rhaid gweithio." Dyna'r geiriau a glywswn gan Lydaw'r tlawd, eiddil, cam, na fedrai godi ei olygon i'r nef mwy na'r anifail a ddilynai, ac a weithiai ddeunaw awr ar ei leiniau tir yn ymyl Paris. Nid oedd nemor frawddeg a lefarai na ddiweddaï gyda'r geiriau "Y mae'n rhaid gweithio." Er byw ohono hanner canrif allan o'i fro ei hun, yr oedd ei ymostwng i'r drefn wedi ei ddilyn ar hyd ei daith, ac wedi glynu wrtho fel eiddew am goeden.

Bydd caledi ei fywyd, weithiau'n codi awydd ynddo wrthyfela yn ei erbyn. Ond, tynged! "Tawn," meddai,

<sup>1</sup> Wrth y rhaid.  
Nid oes namyn cwmpo yng nghraidd (canol) rhedeg.

*tavomp*, a thewi a wna, ac ymfodloni'n ddirwgnach. Y mae eu gwlad yn llawn cloffion a deillion ac efryddion, ond cwyno ydyw'r peth olaf a wnaï pob un ohonynt. Gwelais lawer ohonynt yn ddiweddarach yn eistedd yn fy llety. Cwyno? Dim un gair. Yn lle hynny, eistedd i lawr oriau lawer heb symud dim. Mor dawel a'r gwllith pan gyfodo; mor gytun a'u clefyd a dau flodyn ar yr un brig. Ymgawdoliad o dawelwch; ymgorfforiad o ymostwng! A'r wyneb yn llonydd, gyda'r wedd arno yn heddi i gyd. Tynged sy'n cyfrif am y cyfan. Credu y maent mai felly y trefnwyd pethau. Pa les gwingo ynteu? Dim. Y mae'r diwedd mor agos. Y mae Parawys mor hoff. Mwyned marw ei hun fel cyfaill i ddyn! Y mae meddwl amdano yn tangnefeddu popeth. Marw? Onid ydyw'r meddwl amdano yn ffaith wastadol? Onid efe ydyw halen bywyd? "Nid wyf i'n gweled dim mewn bywyd" meddai un gŵr wrthyf, "ond paratoi gyferbyn a'r lle arall." Pwy sy'n nes at y Llydaw'r na'r meirw? Y mae eu hysbrydion ym mhobman. Y mae eu beddau yn allor iddo weddio arnynt bob bore Sul. Fe gynnal offeren iddynt ym mhen yr wythnos wedi'r claddu, a'r un fel ym mhen blwyddyn. O bydd ei foddion yn caniatâu hynny, cânt ganddo offeren unwaith bob wythnos yn ystod y flwyddyn. Ac nis anghofir wedyn, ychwaith. Y mae eu beddau yng nghanol y dref, neu'r pentref, ac yn gyfeillion agos i'r byw.

Hawdd ydyw gormesu ar genedl felly. Canys ymfodlona hi i weled tynged yn yr holl ormes.

Eithr, pes deffroid, byddai'n ddirfawr ei chynddaredd. Gwelsant y Chwyldro Ffrengig yn wrthryfel yn erbyn eu rhyddid, ac yn erlid ar eu hoffeiraid. Ac nid ychydig fu eu dewrder hwy yn dilyd ar y gelyn. Pan gyffroir Llydawr, nid oes neb yn gyndynnach mewn galanas. Tybiai llawer ohonynt mai yn erbyn "*eur Zaoz*" (y Sais) y brwydrent yn y rhyfel diwethaf, ac ni buont yn ôl o ymladd gyda'r dycnaf. Y mae gwrthryfela mor naturiol, felly, ag ymostwng. Yn unig, profwch iddo gael cam, a dioddef yn annheg, ac fe dry yntau'n wrthryfelwr. Felly Renan ac Abelard, Lamennais a Chateaubriand. Y mae'r Llydawiaid oll o'r un defnydd â hwy.

Y wraig a'r dannedd a barodd imi feddwl am y nodwedd hon ar ei chydwladwyr. Ceisiais fy ngorau i'w chysuro, ond ni fedrais. Sugnai swyn o angau ei hun. Ni wn a wellhaodd a'i peidio, ond yr wyf yn dirgel gredu mai marw fyddai orau ganddi. Nid oeddwn i am synied yn gyffelyb, ac euthum allan heb oedi ar ol fy nigoni a'r ddysglaid hyfryd honno o goffi a llaeth, ac a'r bara cartref a'r ymenyn blasus.

Ymhén ychydigyn byr, gwelais ŵr o Brotestant yn y pentref. Y mae ganddynt hwy genhadaeth o fewn rhyw filltir, ac i ymweled a hwy y deuthum i Dremel. Perthynai yntau iddynt, a theimlai'n falch o gael dywedyd cymaint a hynny wrthyf. Wedi ymddiddan ag ef, a cherdded yn ei gwmi i'r fynwent i weled bedd M. le Coat (Coed), cychwynnydd y genhadaeth yn Nhremel, gwneuthum

yn gywir amdani. Milltir o daith hudol ydoedd, gyda meysydd llawn ydau da, gwair hydiog a gwenith uchel, yn ymglymu a'i gilydd bob ymyl i'r ffordd. Cyrhaeddais yno'n fuan, a gwelais y wraig sydd yn gofalu ar ol y tŷ. Bu raid imi fyned i mewn am funud. Yna dangoswyd imi yr ysgol lle y lletyid ugain neu fwy o ferched, ac y dysgid hwy. Cerddai'r rheini yn rhydd, gan fwynhau chwarae wedi diwedd eu gwaith yn yr ysgol. Clocs pren (y *boutou koat*), oedd am eu traed, a symudent glinc-di-glouc yn ol a blaen tros y cwr. Gofynnais iddynt a fedrent ddarllen y Llydaweg, a dywedwyd y gallent. Yna, dangosasant imi y llyfrau emynau a ddefnyddid ganddynt at ganu. Nid oeddynt i gael ganddynt fodloni. Yr oedd digon o'r llyfrau hyn yno, a chymerasant un bob un. Yna'n wylaidd iawn, cynnull yn gylch at ei gilydd, a chanu. Sef oedd yr emyn a ddewisasant i'w ganu hwnnw a elwir "Anaoudegez ar Zalver" (Adnabyddiaeth yr Iachawdwr). Fe ddyfynnaf bennill neu ddau ohono:—

*O, anavezit ar Zalver,  
Hor Redemptor hag hor Barner.  
Rag red hen anaout er bed man  
Evit beza zalvet drez-han.<sup>1</sup>*

<sup>1</sup> O, adnabyddwch yr Iachawdwr,  
Eich Gwaredwr a'ch Barnwr;  
Canys rhaid ei adnabod yn y byd hwn  
Er mwyn cael eich achub drwyddo.

*O, selaouit mouez Jezuz,  
He lezen, he gomz prisius;  
Rag int eo komzou ar vuez,  
Kelou mad ar zilvidigez.<sup>1</sup>*

Y rhain ydyw'r ddau bennill cyntaf, a chanwyd hwy yn ddifai, a'r un fath y pum pennill arall, hyd y diwedd. Diolchais iddynt, ac ar ôl cael hanes eu gwaith yn yr ysgol, cerddais o gwmpas y lle i weled y cwm isel oedd yn ymyl, a'r berthen goed a'r caeau gwair ac yd. Dyfod yn ol wedyn, ac i mewn eilwaith i'r tŷ. A phan oeddwn yn ddiwyd gyda darllen, agorwyd y drws, a daeth gŵr i mewn. Gŵr canol oed ydoedd, yn debycach i Gymro na'r un a welswn yn Llydaw. Gwisgai'n raenusach o gryn ffordd, a gwisg fel Cymro oedd amdano, yn arwydd allanol o'i grefydd newydd. Yr oedd yn wylaidd, mor bell ag y gwelwn, ac efallai, yn tueddu i fod, os dim, yn ofnus. O leiaf, honno oedd yr argraff a roddai arnaf. Gosgo un felly oedd ar ei gorff, a mynegi gwleidd-dra a wnai ei ddau lygad glas. Codais i ysgwyd llaw ag ef, ac yna eisteddasom ein dau yn ymyl ein gilydd. Cefais wybod ei hanes, yn y man. Ef ydoedd Beibl-gludydd y genhadaeth, a'i orchwyl ydoedd gwerthu cerddi crefyddol a Beiblau draws y wlad. Llydawr ydoedd, a medrai ddarllen yr iaith. Ond ni chymerai fawr ddim diddordeb yn ei wlad

<sup>1</sup> O, gwrandewch ar lais yr Iesu,  
Ei gyfraith, ei air gwerthfawr;  
Can's hwy yw geiriau'r fuchedd,  
Newyddion mad yr iachawdwriaeth.

a'i hanes, ac un llyfr yn unig a ddarllenasai yn y Llydaweg ar wahan i lyfr emynau'r genhadaeth. A'r llyfr hwnnw ydoedd "Buez ar C'hristen" (Buchedd y Cristion), sef "Taith y Pererin" John Bunyan. Holais ef yn fanwl iawn am ei brofiad gyda gwerthu llyfrau. Ai llyfrau Llydewig a werthai? Ai rhai Ffrengig? A werthai lawer ohonynt? Cefais atebion gofalus i bob un o'm holion. Gwerthai lyfrau yn y ddwy iaith, ond llyfrau Ffrengig a werthai fwyaf, o beth difesur. Fel arall yr oedd cyn y rhyfel; ond byth wedi hynny, y mae'r galw am lyfrau Llydewig yn lleihau'n gyson. Weithiau, gwerthai o leiaf dri llyfr Ffrengig am bob un Llydewig. Ambell waith, y pum cymaint, y chwe chymaint, a'r wyth gymaint, hyd yn oed. Nid siarad yn y gwynt yr oedd, canys, fel Cludydd Beiblau, yr oedd yn rhaid arno gadw cyfrif. Gallwn gael golwg ar hwnnw, a gweled tros of fy hun. "Y mae'r cwbl gennyf ar lawr wedi ei gadw, ac fe gewch ei weled pan fynnoch" eb ef, ŵr prin ei eiriau, a chysact ei ymadroddion. Gofynnais iddo ba ddydd yr âi gyntaf eto am daith i werthu llyfrau. "Tua dydd Iau neu ddydd Gwener" meddai yntau.

"O'r gorau, a gâf ddyfod gennych? Fe hoffwn eich gweled wrth y gwaith. Bydd yn gyfle iawn hefyd i weled y bobl yn eu tai, a chael ymgom a hwy. A ydych yn fodlon?"

"Ydwyf, yn berffaith fodlon. Cewch ddod yn y man. Byddaf yn falch o'ch cwmni. Ac fe wn y bydd wrth eich bodd."



Yr oedd y cwbl wedi ei benderfynu. Nid oedd onid aros o ddydd Llun i ddydd Gwener, a chawn wybod llawer iawn am fywyd y gwerinwr yn Llydaw. Yr oeddwn yn dechrau edrych ymlaen at y dydd Gwener. Weithian, myned rhagom a'n hymddiddan. Ond cyn sôn mwy, bu raid myned i'w gartref ef, oedd yn ymyl. Yno y diweddwyd yr ymddiddan diddorol oedd rhyngom. Holi yr oeddwn i o hyd, onid oedd ddigon i'w flino. Eithr nid oedd blino arno ef. Yr oedd yn Gristion cywir. Ac nid oedd dywedyd hynny wrtho, yn peri iddo namyn ateb mai hynny oedd ei ddyletswydd. "Y mae Crist wedi marw trosom ni, ac wedi colli ei waed fel y byddom ni byw. Dyletswydd Cristion ydyw caru ei gyd-ddyn. 'Cerwch eich gilydd,' meddai Iesu Grist, ac y mae'n rhaid inni wneuthur hynny, hyd yn oed a'n gelynyon. Y mae Ef yn ein dysgu ni i fod yn dda at bawb." Wele rai o'r geiriau mwynion a syrthiai oddiar ei wefusau mor naturiol a di-ymgais a'r gwylithyn gloyw ar flodeuyn haf. Teimlwn fy mod yng nghwmni un o'r Cristionogion boreaf. Yr oedd mor barod gyda'i adnodau a phe bai Gymro; ac, yn wir, gweled a wnawn ynddo un o'r Crynwyr Cymreig, Richard Davies, Cloddiau Cochion, fel y darluniai ei hun yn ei Hunangofiant. Yr un y ffydd yn Nuw; yr un mwynder melys; yr un athroniaeth ffyddiog; yr un cymwynasgarwch hael; a'r un dyfynnu o'r Beibl. Daeth ei dad i mewn, rywbyrd, ac yr oedd mwy melyster yn ei lais ef nag yn un llais a glywais erioed. Wr hen, annwyl, yn groen-glir, foch-goch iach, yn dirion ei eiriau, yn

hawddgar ei fryd! Yntau eto yn drefnus ac yn drwsiadus, mor anhraethol ddeheuach na'r Llydawiaid, ei bobl. Da a wnaethai'r Protestaniaid, os hwy oedd gyfrifol am y glanweiddra hwn, ac am y cymhendod a oedd ar bawb a welwn yn y genhadaeth, ac a berthynai iddi. Dysgasent Lydaweg i'r plant; a rhoddi pris ar fuchedd lân, ac arferion mirain i'r rhai mewn oedran.

A oedd rhagor rhyngddi a'r Grefydd Gatholig? Onid bendith i Lydaw achlân fyddai dyfod tan ei dylanwad? O bu gystal ei gorchwyl yn Nhremel, oni fedrai effeithio yr un ffunud yn y parthau eraill? Eithr nid oeddwn am redeg mewn gormod brys i un casgliad heb gael gweled mwy. Nid teg barnu'n unig yn ol yr hyn a welswn mewn ychydig oriau. Yr oeddwn am adael hynny hyd yn ddiweddarach. Beth bynnag, teimlwn yn hynod o gartrefol ar aelwyd y Beibl-gludydd, a bu trin a thrafod ar lawer gwedd ar y bywyd Llydewig cyn imi droi oddiyno.

Nid oeddwn eto wedi cael lletŷ. Ond mynnai M. le Quere<sup>1</sup>—canys wele enw'r cludydd—ddyfod yn gwmni imi i'r pentref, a dywedai y gwyddai am le na chawn ei well yn yr ardal. Codasom o'r diwedd, a myned allan ein dau, gan dynnu eto at Dremel. Wedi cyrraedd y pentref, dangosodd imi dŷ cymharol newydd, a dywedyd:—"Dyma fo'r tŷ. Yr wyf yn adnabod y bobl yn dda. Nid oes eisiau eu gwell. 'Rwy'n siwr y cewch yma letŷ da. Dowch inni gael gweled."

<sup>1</sup> Cymraeg: Crydd.

Ac felly y bu. Curodd wrth y drws, a chafodd ateb ar amrantiad, a'i wahodd i mewn. Ymddiddanodd ysbaid a hwy, onid oedd popeth wedi ei gytuno, a minnau a lle gennyf am y nos honno beth bynnag. Nid arhosodd ef yn hir wedyn, ond myned i'w ffordd. Yr oeddwn innau'n eistedd gyda'r teulu newydd, ac yn cael fy holi ganddynt. Pedwar o deulu oeddynt, y gŵr a'r wraig, mab a merch; efô y gŵr yn dwmpath tew yn llefaru'n drafferthus drwy ei drwyn gwingoch, hi'n wreigdda fechan addfwyn, gyda thrwyn main, ag acen ddigrif ar ei Ffrangeg. Nid oes i'w ddywedyd am y ddau arall onid bod y mab yn ddiog ei olwg, a'r ferch yn fer ac yn dew. Arhosais gyda hwy am ymyl wythnos o amser, ac ni chefais le i achwyn arnynt mewn dim. Nid oeddynt yn bopeth dymunol gyda glendid, am nad ydyw honno'n rhinwedd a berchir yn ormodol yn Llydaw mwy nag yn Ffrainc. Eithr, i ba beth cwyno rhag hynny, a ninnau bawb i fwyta'r pecaid baw rywbyrd? Yn unig, ofnwn ei bod yn berigl weithiau gael y pecaid gyda'i gilydd!

## VI

"Yf win, cans yma ni ddychweli di."

## BYWYD TREMEL

Ni bum yn Nhremel y tro cyntaf hwnnw ond yr wythnos a ddywedais, ac er nad oedd hynny, wrth reswm, yn ddigon i dreiddio i ddyfnder ei bywyd, nid oedd yn rhy fyr i graffu ar ryw gyfran ohono, o leiaf. Er mai dieithrddyn oeddwn i, ymunwn innau a'r bywyd oedd yno. Yr oedd y trigolion y rhai olaf o bawb i gadw'n bell oddiwrthyf. Wedi deall bod arnaf awydd gwybod am eu helyntion, ac i ddysgu eu hiaith, yr oeddynt mor rhydd gyda mi ag efo'r rhai oedd agosaf atynt. Ac os oeddynt rydd, nid oeddynt barod i gamddefnyddio'r rhyddid, a'i wneuthur yn benrhyddid. Ni allai neb ddymuno ei barchu'n fwy: ac yr oedd yn rhyfedd eu hedmygedd ohonof am geisio gwybod eu hiaith. Clyŵn hwy'n aml yn sôn am y *pot mad*<sup>1</sup> a ddaethai atynt i *ziski Brezonek*. Yr oedd yn fwy ddwywaith eu syndod am iddynt hwythau dybied bod y Llydaweg yn anhraethol anos na'r Ffrangeg, ac, ond odid, na nemor iaith arall. Helpent fi ymlaen, bob yn ail a chwerthin yn iach am fy mhen. Byddwn innau'n cymryd traferth i ofyn y gair am bopeth mewn tŷ a heol,

<sup>1</sup> Bachgen da.

am yr offeryn hwn a'r offeryn arall gan fyned i mewn i'r efail at y gof, ac i'r gweithdŷ at y saer.

Y saer a'r gof oedd y ddau weithiwr pennaf trwy'r pentref. Y cyntaf peth a darawai ar fy nghlustiau'r bore ydoedd tinc morthwyl y gof yn taro ar yr eingion neu ar ryw haearn arall. Tinc ysgafnach morthwyl llai yn bwrw'r hoelen i'r bedol ydoedd un o seiniau diwethaf y dydd. Byddai'n brysur drwy'r dydd, ac ato ef y deuai'r ceffylau o'r holl blwyf poblog. Y saer fyddai'n gwneuthur y certi a'r certweini i'r un bobl, yn cyweirio olwynion iddynt, ac yn gwneuthur clwydi at fylchau'r caeau, a drysau at y beudai, a'r bingoes. Felly, cedwid y ddau yn brysur o lās y bore hyd dywyll diwedydd. Yr unig seibiant iddynt ydoedd yr awr ginio. Ac am honno, fe sugnid pob melynster ohoni, wrth gyd-eistedd ar foncyff enfawr yn ymyl yr efail. Eisteddai'r ddau yno, ac nid hwyntwy yn unig, ond dwsin o rai eraill. Yna tynnu mygyn, ymddiddan yn ffraeth, a chwerthin. Yn eu mysg yr oedd dau a fuasai yn y fyddin, y naill yn y Congo a'r llall yn yr Almaen. Pan na byddai rhywbeth yn nes atynt i sôn amdano, cai'r ddau hynny dynnu ar eu dychymyg i adrodd eu helyntion yn y gwledydd pell. A gwrandedid yn astud, gan lyncu'r gwir a'r gau. Yna, gair i gyfaill a ddigwyddai fyned heibio, naill ai ar ei draed neu ar gefyl neu eto ar gefyl haearn. Codi llef wedyn at y gwagedd a'r merched a fyddai, hwythau, o'r tu arall i'r ffordd, yn eistedd ar foncyffiau cyffelyb neu ar gadeiriau bychain. Yn y modd hwn y treuliai

rhai o'r rheini eu dydd braidd yn gwbl fel pe bae'n ddiwedd ŵyl arnynt. Wedi *leina*, bwyta, yn y bore, a golchi'r llestri, fe gymerent eu lle o flaen y drws, gan osod eu pwys i lawr i weu hosanau, i gyweirio dillad neu i fagu'r baban, bob un yn ol ei rhaid ei hun. Ni ddarllenent ddim. Darllen? Nid oedd modd. Naill ai ni fedrent, neu nid oedd ganddynt ddim i'w ddarllen. Onide, nid oedd amser.

Yr oedd yr unig rai a feddai hamdden yn yr ysgol wrth gefn yr heol. Sŵn cloncian eu clocs pren ydoedd un arall o'r pethau cyntaf a glywn wedi diuno yn y bore. Deuent yno o holl barthau'r plwyf, ac weithiau o'r rhai nesaf ato. A dyfod yn fore hefyd, dyfod erbyn wyth o'r gloch yn ôl yr awr newydd, *gant an amzer nevez*. Yno y byddent hyd unarddeg, pan gaffent ddwyawr o ryddid i odli eu dwy glocsen ar balmant y cwrt, neu hyd lawr y ffordd fawr. Yn ôl eilwaith am un, yr un pedwar ugain ohonynt, i'w cau drachefn hyd bedwar o'r gloch.

Wedi hynny, ymadael bob un i'r un ffordd a'r bore. Byddent yn yr ysgol hyd ddeuddeg oed, yn dysgu pob dim yn y Ffrangeg, yn gwranddo arni hi yn unig o adael cartref y bore hyd adael ysgol y nos. Y rhai bach, ni chaent yngan gair yn eu hiaith eu hunain, nac yn yr ysgol, nac oddiallan iddi. Byddent yn y man wedi diweddu a hi, yn medru'r nesaf peth i ddim o Ffrangeg, a heb ddysgu na darllen nac ysgrifennu eu hiaith gysefin, yn gwybod digon o un i'w hanghofio, yn gwybod rhy fach o'r llall i fedru ei darllen fyth, na'i hysgrifennu!

Byddai dwndwr drwy'r pentref o un pen i'r dydd i'w gilydd. Canys ni byddai nemor funud na ddeuai ceffyl i'w bedoli, neu gambo i ymofyn am rywbeth oddiwrth y saer neu'r crydd neu'r melinydd. Onide, dyfod y byddid i grasu bara. Oblegid yn Nhremel y credid y bara i bawb yn y gymdogaeth. Yr oedd dau fan yno lle y credid ef, ac i'r naill ohonynt neu i'r llall y dygid holl fara'r bröydd. Fe'i dygid, gan amlaf o naw i ddeg y bore, fore Sul fel pob bore arall. Fe'i dygent yno yn does mewn ffetanau, y rheini, weithiau, mewn trwmbeli, bryd arall ar geffyl, ac eto waith arall drachefn mewn berfa. Ei adael felly yn y lle y credid ef. Byddai rhywun yno wedi poethi'r ffwrn yn barod, a'i gwneuthur yn eirias. Am ddeg, deuai'r gwagedd yno, un o bob tŷ a ddanfonodd y toes. Cymerai pawb ohonynt afael yn eu toes eu hunain, a'i osod mewn man arbennig ar un o'r tri bwrdd oedd o drithu'r tŷ ffwrn. Yr oedd tair gwraig wrth bob bwrdd, a gorffennent faeddu'r toes â'i gymysgu am y waith olaf. Yn ol hynny, ei osod mewn pedyl pwrpasol, yn dorthau anferth eu maint. Yna arllwys y cwbl ar bren crwn gwastad, gan nodi pob torth a nôd y perchennog. Am y teclyn crwn, gwastad, hwnnw, yr oedd iddo dair llathen neu fwy o goes, ac ef a ddefnyddid i estyn y torthau toes i mewn i'r ffwrn eirias. Byddai tua deg-ar-hugain ohonynt i'w hestyn felly bob pobiad. Felly bedair gwaith yn yr wythnos, yn y tŷ y lletŷwn i ynddo. Yr oedd un pobydd arall yn y pentref, a gwnai yntau'n gyffelyb bedair gwaith yr wythnos! Nid oes dim bara na

phobir mohono yn y pentref, olion olaf y canrifoedd canol a'u bywyd cymdeithasol. Bara gwenith ydyw i gyd, ac er yn galed, yn odiaeth o flasus. Afraid mynegi bod rhagor rhyfeddol rhyngddo a bara gwyn y trefi. Y mae maeth y gwenith ynddo, am na wahanwyd ymaith yr eisin na dim o'r amryw rinweddau sydd yn y gwenith gwryf. Nid ydynt hwy eto bobl annoeth yn ysgaru maeth a moeth oddiwrth ei gilydd.

Fin yr hwyr, byddai'r lle'n ddistaw am ennyd, wedi troi'r plant adre o'r ysgol. Am ennyd yn unig, oherwydd yn union, fe'i llusgai'r llafurwr ef ei hun yn ôl o'i gaeau at ei gawl. Fe'i gwelwn yn dyfod bob amser a hôf drom ar ei ysgwydd, neu ynteu gaib, neu bicwarch. Symudai'n araf, glinc-di-glenc, dwmp-di-damp, ei ddwy glocsen bren yn hyawdl, a'i aelodau'n flinedig. Cyrhaeddai ei aelwyd cyn hir, ac ar ôl bwyta ei bryd olaf, ymhoywai wedyn, a throi allan i'r heol. Eilwaith am y boncyff, ef a'r saer a'r gof, y plant ysgol, ac amryw o'r gwagedd a'r merched. Hwn ydoedd y munud a ddewiswn innau i ddisgyn o'm hystafell, ac i fyned i'w plith. A byddai ddiddorol o ymgomio rhyngom. Fy amcan i, gan fynychaf, fyddai eu holi am eu crefydd ac am eu gwleidyddiaeth, ac, yn fwy na dim arall, am eu darllen a'u diwylliant. A fedrent ddarllen Llydaweg? A wyddent am gerdd neu'i gilydd? A adwaenent ryw fardd, o gwbl? Neu, a glywsent siarad am un? Nid oedd dim i orfoleddu o'i blegid yn yr atebion. Un neu ddau yn unig a fedrai ddarllen ei iaith, ac nid oedd i neb ohonynt na llyfr, na cherdd, na chân. O bu iddynt ddysgu

rhywbeth erioed ar eu cof, Holwyddoreg yr Eglwys ydoedd y peth hwnnw. Ond yr oedd y cludydd llythyrau yn llawer dysgedicach na'i gyd-bentrefwyr. Adwaenai ef Charles Rolland, a gwyddai ychydig am ei waith. Gwyddai fwy am Brosper Proux, a medrai rai o'i gerddi ar ei gof. Iddo ef, Prosper Proux oedd y bardd mwyaf a gododd Llydaw, ac fe'i cyfrifai yn gyfuwch ag un o feirdd Ffrainc. Llwyddais i gael ganddo ganu un neu ddwy o ganeuon Proux, ac nid gwaith anodd ydoedd deall i hynny fodloni pawb oedd yn y cwmni hwnnw er mor amrwd y canu. Cynullent fwy-fwy, oni byddai yno rywun o bob tŷ yn y pentref. Holwn hwy wedyn am "Fuchedd y Saint." A oeddynt yn ei ddarllen? Nac oeddynt. Fe'i darllenid gynt pan oeddynt blant. Ond ni wneid bellach, ag eithrio yn rhai o'r ffermydd oddiallan. Cofiai yr hynaf am y darllen y dyddiau a fu, ac am y gweddio yr un pryd.

Parchent bawb y rheithor, gan ddywedyd ei fod yn deilwng o'i broffes, a'i fod yn ŵr dysgedig dros ben. Yn unig, cwynent rhagddo ef, fel rhag yr holl offeiraid, am ei hoffter o arian. "Y mae'n cael ei dalu" meddent, "am briodi ac am gladdu. Heblaw hynny, y mae'n cael casgliad o wenith ac o ymenyn bob blwyddyn. Caiff, felly, ddigon o ymenyn heb brynu'r un pwys. Bob Sul, derbynna arian y seddau, y ddimai y mae pob un ohonom yn ei thalu.

"Yr un dydd, bydd tri o gasglyddion yn rhoi iddo yr arian a gasglasent yn ystod yr wythnos. A welwch

chwi'r dyn yna? Fe fedr ef ddywedyd wrthyich. Y mae ef yn un o'r tri sy'n casglu."

"A ydyw hyn i gyd yn wir?" meddwn wrtho.  
"Ydyw; ydyw. Yr wyf i'n casglu can' ffranc bob wythnos. Ac y mae'r ddau arall yn casglu yr un gymaint."

"I bwy yr â'r holl arian hyn?"

"I Fair y Forwyn, i Grist, i'r Saint, ac i'r Esgobion."

"O; ie, yr Esgobion sydd yn eu cael yn y diwedd." Cwynai rhai fod y casgliad yn eu cadw rhag mynd i'r Eglwys bob Sul. "A chwithau nad oes raid i chwi dalu namyn dimai am eich sedd bob Sul?"

"Ie, ond deallwch chwi fod pawb sydd yn mynd i'r Eglwys yn rhoddi rhyw gymaint i'r tri chasglydd bob wythnos. Nid oes raid rhoddi dim, y mae'n wir. Ond fe ddyry pawb, a rhai lawer iawn."

"Pegement?"

"Hanner ffranc, ffranc, a dwy a rhagor, yn ôl eu gallu. Ni allem ni fforddio gwneuthur hynny. A phed aem i'r Eglwys, ni byddid yn gwneuthur cyfrif ohonom, oni chyfrannem ninnau'n gyffelyb."

Am y rheswm hwn, yr oedd amryw o boblogaeth y pentref nad aent fyth oddimewn i'r Eglwys ag eithrio adeg priodas neu angladd. Ymfalchient yn eu galw eu hunain yn feddylwyr rhyddion, a chyfrifent hynny'n brawf pendant o ddiwylliant. Yr oeddynt ddisgyblion i Jaurés, ac ef ydoedd eu Duw. Ebr un ohonynt wrthyf, brynhawngwaith, ar ei ffordd o'r pentref i'w ardd oddiallan:—

"Wyddoch chwi? Y mae Jaurés ar gymryd lle'r Duw da, *le bon Dieu*. Y mae'r Duw da wedi mynd yn rhy hen bellach. Y mae wedi marw ers 1922 o flynyddoedd, ac y mae ei henaint yn effeithio arno. A Jaurés sydd i gymryd ei le."

Ni chlywswn y fath syniad âm clustiau o'r blaen. Nid yn ddigrif o gwbl, ond o ddigrif y llefarai'r geiriau hyn. Felly yr esgorai troi cefn ar ddisgybliaeth yr Eglwys ar yr anhrefn mwyaf. Ceisiais fy ngorau i gael ganddo newid ei farn am Jaurés. Dangoswn iddo fel yr oedd y gŵr huawdl hwnnw yn ddisgybl i Garl Marx ac i'w ddamcaniaethau economig. O ganlyniad, yr oedd ei ddylanwad yn anfad. Arweiniai i ryfel dosbarth, ac i gymdeithas y byddai cynhyrchu ynddi,—ac yna byw,—yn annichonadwy. "Nid amheuaf nad oedd ei galon yn iawn. Ond nid digon i ddyn ddymuno'n dda er gosod trefn ar gymdeithas. Rhaid bod ganddo syniad cysact, cyflawn ar adeiladu cymdeithas; onidê nid arweiniai ei ddymuniad da i ddim ond i ddistryw. Enghraifft? Lenin a Robespierre, os mynnwch." Gwrandawodd yn ddistaw hollol, ond ni choelias iddo gael ei argyhoeddi. Nid mewn dadl, fel rheol, yr argyhoeddir dyn. Ac nid oedd yntau ŵr i feddwl yn ddwys uwchben y pwnc.

Cyflwr Llydaw a'r iaith ydoedd un arall o'r pynciau a drinid yn aml gennym. Iddynt hwy, yr un oedd Ffrainc a Llydaw. Nid oeddynt hwythau bobl ar wahan, ac nid oedd arnynt awydd bod. Ofer fyddai honni bod y Parisiaid yn wahanol i'r Ffrancod.

"Yr un fel amdanom ninnau. Yr ydym yn Llydawiaid, os mynnwch, ond yr ydym yn Ffrancod hefyd. Llydawiaid y gelwir ni am fod gennym nodweddion arbennig. Er enghraifft, clywsoch ddywedyd, 'Y mae pen fel pen Llydaw'r ganddo,' 'Y mae'n bengryf fel Llydaw'r.' Ni ddywed hynny ddim ond ein bod yn bobl sydd yn cadw'n gyndyn at ryw syniad fydd wedi mynd i'n pennau. Unwaith y byddwn wedi ei gael, nid ymadawn ag ef ar un cyfrif."

"Yr oeddynt ryddion. Yr oedd y Ffrancod yn rhyddach na phob pobl arall. Nid oedd gaethiwo arnynt rhag yfed gwin, megis yn y Taleithiau Cyfunol. Ni osodai neb ei law i gyffwrdd a hwy yn y rhyfel, fel y gwneid â milwyr gwledydd eraill. Nid oedd neb haelach na'r Ffrancod. Bu un neu ddau o fechgyn y pentref mewn porthladdoedd ym Mhrydain, ond nid oedd ryddid iddynt i ddim yno. Fel arall yn Ffrainc. Y mae hi'n bodloni i bawb ddyfod i mewn."

Awgrymwn innau ei bod yn hael at y gwledydd eraill am ei bod yn wan. Ond i Lydaw, i Brofens, i Alsas a'i thaleithiau ei hun, nid oedd yn hael, o gwbl. Chwerddid am ben y Llydawiaid yn ystod y rhyfel; dirmygid eu hiaith; ni ddysgid yn yr ysgolion na'u hiaith na'u hanes. "Ond," meddent yn ôl wrthyf, "yr ydym yn gwybod ein hiaith. Yr ydym yn ei siarad bob dydd, a pha ddiben ei dysgu yn yr ysgol? Heblaw hynny, ni bydd y Vrezonek farw fyth. Na bydd—fyth."

"Gobeithio na bydd hi. Ond oni ddysgir hi i chwi yn yr ysgolion ni bydd dim arall amdani. Nid oes

*Llydaw*

yr un ohonoch braidd yn medru na'i hysgrifennu na'i darllen. Sut y disgwyliwch iddi fyw? Rhaid i chwi fedru ei darllen. Rhaid i chwi gael llyfrau ynddi. I gael hyn oll, rhaid ei dysgu yn yr ysgolion. Gŵyr y Parisiaid y Ffrangeg, ond fe'i dysgir iddynt yn yr ysgol, er hynny."

Eu hargyhoeddi? Am funud! Ac efallai. Breued a breuddwyd yw dadl.

## VII

"Man y mae meillion  
A gwlith ar dirion."

## BYWYD Y WLAD O GWMPAS

FELLY am y pentrefwyr. Nid oedd un math ar ysgariad rhyngddynt a'r tyddynwyr y tu hwnt i'r pentref. Ymddibynnent y naill ar y llall, a byw'n gytun fel dau beran ar bren. O'r wlad y cai'r saer a'r gof eu gwaith, ac yn y pentref y pobai'r amaethwyr eu bara. Nid oedd nemor bellter o'r pentref i ddegau o'r ffermydd. I ba gyfeiriad bynnag y cyfeiriech eich camre, deuech mewn amrantiad ar draws fferm, ac yna, ddeg cam ymbhellach, fferm arall. Troi wedyn i lôn gul, ac wele un arall drachefn, ac am y ffald a hi, y nesaf hithau. Felly bob cynnig, i bob cwrr. Rhai bychain iawn oeddynt, tua deg erw, neu bump *devez arvez*<sup>1</sup>, yr un. Yr oedd dwy neu dair yn cyrraedd yn ymyl yr ugain cyfer, ac hwyrach hyd y deugain, ac fe'u hystyrid yn rhai mawr iawn. I ffermydd bychain fel hyn, yr oedd yn rhaid i'r caeau fod yn llai fyth. Caeau cyfer, cyfer a hanner, dau gyfer, ac weithiau dri, oeddynt. Tyfai ynddynt gnydau campus o wenith neu o

<sup>1</sup> Dydd o aredig, felly erw.

wair, o geirch neu o haidd, tatw a maip. Tyfid llawer iawn o feillion ar eu pennau eu hunain, heb ddim gwair yn gymysg a hwy. Fe'u torrid yna yn gynnar yn y gwanwyn, i'w rhoddi i'r buchod neu i'r ceffylau gwaith. Tyfai amryw o'r ffermydd wenith du, ac o hwnnw y gwneid rhyw fath ar fwyd i'r anifeiliaid. Gwneid hefyd fath at gramwyth, *Kram-poez*, ohono. Nid oedd yr un fferm heb berllan dda, y ceid llawnder o afalau ynndi, a pheranau ac, yn llai aml, eirin Mair a cheirios. Byddai ganddynt erddi ffrwythlon, yn llawn *col* (bresych), tatw, moron, pys a ffa. Gwelid cywarch yng nghongl maes, ac ohono y gwneid cortenni a rhaffau, cebustr a leiniau. Nid oedd yr un amaethŷ heb ei dâs, neu ei deisi, coed. *Bern coat* (tas goed) neu *bern keuneut*, (tas gynnud) y gelwid un o'r rheini, a oedd mor anhepgor a'r dâs fawn i dyddyn yng nghanol Sir Aberteifi.

Byddai'n aml gymaint a dwy neu dair o'r teisi hyn yng nghadlas llawer fferm, ac yr oeddynt, yn ddiethriad, yn gymen ac yn gelfydd. Torrid y coed hyn o gangau'r prennau a fyddai ar y tir. Yna eu gadael yno i sychu, a'u trefnu, ar ôl hynny, yn fath ar ysgubau wedi clymu amdanynt a'u gosod yn fon-fon. Pan ddelai hamdden yn ddiweddarach, fe'u cyweinid tua'r tŷ. O byddai lwythi llawer ohonynt, deuai'r cymdogion i gynorthwyo yn y gwaith hwn. Dygid y llwythi at ymyl y dâs, ac esgynnai pedwar gŵr neu bump i ben y dâs, ac un i ben y llwyth i ddadlwytho. Dadlwythai ef bob yn ysgub, bob yn *fagodenn*, fel y dywedid, ac

adeilai'r gwŷr eraill y das, bob un gyfair arbennig ohoni, gan ofalu bod bonion yr ysgubau tuag allan, a'r brigau yn y canol. Gwaith caled ydoedd fel y cefais brofi fy hun, gan fod pwysi mawr ym mhob ysgub; a byddai yfed cryn alwyni y dydd hwnnw. Gwnai chwe llwyth *jern* go fawr, ond yr oedd rhai ohonynt yn cynnwys y gymaint arall. Yr oeddynt yn ddefnyddiol iawn haf a gaeaf, yn gyfleus bob amser, ac yn llosgi fel crinwydd. Hwynthwy ydoedd unig ddefnydd tân yr ardal. Nid oedd yno na mawn na glo, yn yr haf na'r gaeaf.

Y peth arall a dynnai sylw dyn wrth rodio heibio'r ffermydd ydoedd amllder eu dodrefn. Wynebai'r drws ar y ffordd, a gwelech y dodrefn yn union ar eich cyfer. Cloc yn cyrraedd o'r llawr hyd y llofft, sef o dderw melyn gloyw, gyda phendil disglair, ydoedd un o'r harddaf o'r holl ddodrefn. Ac yr oeddynt braidd bob un ar unwaith yn gelfydd ac yn gadarn, o dderw pur, a gedwid yn dda ac a berchid yn fwy. Yr oeddynt yn hen, yn fynych yn etifeddiaeth hynaf y teulu. Ynglymai traddodiad wrthynt, a chydag ef, hanes eu hynafiaid, doethineb y teidiau *koz* a greddf gadw'r mamau.

Pan gurid wrth y drws, fe wahoddid i mewn wedi tawelwch o funud neu ddau. Ambell dro, codai rhywun i weled pwy oedd yno, ond y rheol ydoedd peidio a chodi o'r lle yr oeddynt, a galw i mewn. Caech gyfle, yna, i weled cegin y Llydaŵr, a phrofi o'i garedigrwydd. Byddai palis yn ymestyn ymlaen ddwy lath oddiwrth y drws yn ddigon tebyg i'r tyddyn



hwnnw y tu allan i Wengamp. Am y palis a'r drws yr oedd y bwrdd, hwnnw beunydd yn un gweddol ei faint, gyda dwy fainc, un o bob tu iddo, Pryd bynnag yr aech i mewn, byddai'r dorth gron enfawr yn sicr o fod arno, a phlatiaid o ymenyn melyn. O eistedd ar y fainc nesaf at y palis byddech yn wynebu'r lle tân, hwnnw yntau yn dân ar lawr tan y fantell eang, y gallai'r teulu cyfan eistedd odditani. Ni byddai yno y nesaf peth i ddim o dân ym mis Mehefin; ac, weithiau, ni byddai o gwbl, oherwydd gorfod rhoddi lle i'r ci a ymdreigiai yno, yn gysurus yn y gwres a adawsai'r tân yn y cerrig. Pa un a fyddai yno dân a'i peidio, byddai'r aelwyd yn llawn ffyrnau, a theglau, a sospanau. Fin nos, caech weled y *tad koz*, y tad cu, yn eistedd ar stôl isel wrth ymyl pentan, ac yn tynnu mygyn o bibell glai, gan fwynhau gwranddo ar y gweddill o'r teulu yn brygawthan o gwmpas y bwrdd wrth fwyta eu *soubenn avalou douar*, potes tatw, o'r crochan oedd arno, ac yfed seidir a choffi.

Pe troech eich wyneb i'r tu oedd ar y dde i chwi, gwelech y rhes dodrefn derw, gyda llestri'n llawn ynddynt, y *gwele clos* a darn o'i ddillad glân yn y golwg. Lawr pridd oedd i'r tai, a hwnnw, ond odid, ydoedd y deunydd tlotaf yn yr holl dŷ. Ni byddai fyth yn wastad, na byth yn sych, na byth yn lân. Yn lân? Sut y gallai fod ag yntau'n llaith beunydd, a llonaid tŷ o blant yn cerdded arno drwy'r dydd? Nid camp fechan ydoedd cadw tŷ felly'n gymen. Yn enwedig, pan ystyrier yr holl ddefnydd a wneid o'r gegin. Nid yn unig ynddi hi y gwneid

y bwyd, ac y bwyteid ef, ond ynddi hi hefyd y byddid byw drwy'r dydd. Ac nid digon hynny. Hi ydoedd yr ystafell wely. Yno yr oedd y *gwele clos*, ac efallai, ddau neu dri ohonynt. Yno, gan hynny, y cysgai cyfran da o'r teulu bob nos. Ac y mae'r teulu yn Llydaw yn lluosog. Nid ydyw hi eto, fel Ffrainc, yn lleihau ei phoblogaeth. Lle bynnag yr awn, yr oedd rhif uchel ar y plant. Eu hamlder hwy, i raddau, a gyfrifai am anghymendod y tai. Byddai digon o waith magu arnynt a'u bwydo, gweu hosanau iddynt a'u dilladu, heb sôn am y gorchwylion eraill fyddai gan eu mam bob dydd. Yr oedd y gwartheg i'w godro, ddwywaith yn y dydd; yr oedd y beudy i'w garthu allan, a'r moch i hwylio bwyd iddynt. Byddai ganddi helpio'r gŵr i godi'r tail i'r certi, i arwain ei geffylau wrth droi a hau, i drin y gwair a'i drafod, ac i'w lanw i'r gertwain ar y cae, a'i ddadlwytho i'r dâs. Oblegid y mae'r merched yn llafurio'n galed ar y tyddynnod yn Llydaw. Nid oes nemor orchwyl ar y tir na fedrant ei wneuthur, ac na wpant, o ran hynny. Y maent gryfion fel y dynion, ac yn llawn mor hylaw gyda thrin yr arfau. Y mae llanw tail neu wair, medi ŷd a'i rwymo, chwynnu tatw neu deneuo maip, yn orchwylion a wneir mor aml ganddynt hwy a chan y dynion.

Y maent yn fawr eu parch gan y gwŷr. Ni ddeuai i fryd Llydaw'r nad yw ei wraig yn gydradd ag ef. A hithau'n medru pob gorchwyl a fedr efô, ac yn gwybod rhai na wnai efô, druan, ond lletchwithdod ysmala ohonynt! Byddai'r peth yn annichonadwy.

Heblaw hynny, onid cenedl fenywaidd ydyw'r Llydawiaid? Felly y tybiai Renan, oedd ei hun yn un ohonynt. Ac y mae llawer o wir yn hynny. Arfer y Parisiaid ydyw dywedyd "pengaled fel Llydawr." Iawn yw cyfaddef y gall fod yn gyndyn, yn glynu wrth biniwn a fo yn ei ben. Cyndynrwydd menywaidd, yr un pryd. Y galon ydyw'r cwbl iddo. Ynddi hi y mae yn byw, ac yn bod. Gyda hi y meddylia, a chyda hi yr ymresyma. Wele paham y mae mor grefyddol. Calon Jaurés, nid ei ben, oedd yn apelio at y gŵr a enwais gynnau. Calon y Llydawr a barodd iddo lynu wrth y Frenhiniaeth. Yr un galon a'i gwna heddiw yn edmygydd pybyraf y Werinlywodraeth. Iddo ef, y mae gan y galon resymau na wŷr y deall ddim amdanynt. Rhesymau'r galon a wnaeth werinwr o Chateaubriand, gelyn y grefydd Gatholig o Lamennais, ac amheuw'r o Renan. Yn Llydaw y llwyddodd syniadau'r Chwyldro gyntaf yn y ddeunawfed ganrif; ac o Lydaw y daeth y Jacobiniaid.

Y mae hon yn un o elfennau ei gadernid. Y mae'n amlach o lawer yn achos ei aflwyddiant. Dyna un o'r elfennau sydd wrth wraidd anfodion ei holl hanes. Yr oedd ei barch i ferch yn peri rhoddi iddi hi yr un hawl i lywodraethu ag i wŷr. Ac, o hynny, y cafodd brenhinoedd Ffrainc eu cyfle i ymyrru â bywyd Llydaw. O hynny wedyn, y bu'r ymrysonau rhwng pendefigion Llydaw, dro ar ol tro, am deyrnwialen y wlad. Dau o brif achosion colli annibyniaeth!

Un agwedd yn unig ar gymeriad y Llydawr ydyw ei gyndynrwydd. Y mae ei feddalwch, meddaf eto, a'i ddoniau benywaidd, yn nodwedd amlycach o beth anferth. Y mae ynndo galedwch fel ym mrynau ei wlad. Ond meddalwch ychwaneg, i gynganeddu â'r mwynder mwy sydd yn naear ei fro. Bro lefn, dyner, dirion, ydyw hi, ac felly y dynion a gododd ohoni. Cynghanedd berffaith dyn a daear.

Yr un mwynder eto wrth drin y gweision, lle byddont. Nid oeddynt niferog yno. Eithr, lle'u cefid, fe'u gwelid yn cael eu trin yn gwbl gyfartal i bob aelod o'r teulu. Bwytaent ar yr un bwrdd, a thorri bara o'r un dorth. Byddent byw'n gywir fel aelod o'r teulu, yn ystod eu blwyddyn gyflog, gan gysgu yno'r nos. Yng Nghymru ac yn Llydaw, ac yn unig, efallai, ymhlith llafurwyr y ddaear, y ceir cymdeithas sydd bron yn berffaith, rhwng perchennog a gwas. Yno'n unig, y parheir i fyw'n debyg i gydradd fel y gwneid gynt ym mhobman cyn dyddiau'r Chwyldro Diwydiannol a'r Chwyldro Ffrengig. Ysgarasant hwy yr arglwydd oddiwrth y gwas, ac arwain i ddysg anfad Rhyfel Dosbarth.

Cyflog y gwas fferm yn Llydaw (Haf 1922) oedd mil o ffranciau, neu rywle yn ymyl; h.y. £14 yn ôl y cyfnewid ar hynny o bryd. Cyn y rhyfel, tri chan ffranc ydoedd, neu £12! I wybod pa beth y mae hyn yn ei olygu, byddai'n rhaid cyfrif pris dillad a bywyd yn gyfiredin. Ymddengys £14 yn swm fechan iawn, ond i ddyn sydd yn cael ei gynhaliath o ddechrau'r flwyddyn i'w diwedd, nad oes raid iddo

brynu onid clocs pren, a phâr o ddillad, y mae, efallai, yn ddigon iddo fyw mor rhydd a'r amaethwr ei hun. Ni ddywed hynny lawer, canys byd hwnnw, yntau, ydyw llafurio o bedwar y bore hyd ddeg y nos. Os ydyw'n galed fywyd y gwas, y mae bywyd yr amaethwr yn galetach fyth, ei bryderon yn amlach, a'i oriau'n hwy.

Y mae bywyd y ddau yn galed, ond y mae eu henny yn iach. Bwyânt bedair gwaith yn y dydd, yn gyntaf am wyth, yn ail, hanner dydd, yn nesaf am bedwar, ac yn olaf, o'r wyth i'r naw. Coffi a bara ydyw hi'r bore, cig a chawl i ginio, coffi wedyn yn y prynhawn, a chawl a chig y nos. Nid oes ryw lawer o amrywio arno, ond y mae'n gynhaliaeth dda. Oblegid y mae yno fwyta llawer o fara cartref iach, hwnnw'n cynnwys y maeth a roes y ddaear ynddo, ac yn cael ei guddio'n drwchus gan ddigonedd o ymenyn. Nid oes gynilo ar ymenyn, ac y mae heb eithriad yn flasus iawn. Bwyteir yn hael, hefyd, o gig, yn arbennig o gig moch, ac o gig cwningod. Mynych yw'r bwyta ar yr uwd ceirch, ac ef a fyddai eu cinio o dro i dro. Nid oedd lawer o le i foethau ychwaneg. Ni wŷr y tyddynnwr am y moethau meddal a ddaw o'r trefi. Digon ganddo weithio cramwyth, ddydd Gwener, i gymryd lle'r cig y mae ei grefydd yn gwarafun iddo ei fwyta y dydd hwnnw. Ac er nad yw'r rheini i'w cael mor aml a chynt, nid oes nemor dyddyn na cheir hwy ynddo unwaith yr wythnos. Pan na byddont hwy yno, bydd wyau ddigon wrth law, a defnyddir hwy yn helaeth.

Eithr "nid ar fara'n unig y bydd byw dyn," na Llydaw'r o bawb. Gafaela yn ei grefydd, hyd yn oed yn yr oes galed hon; ac er nad yw poblogaeth Tremel mor ddefosiynol a'u brodyr yn Leon, glynant yn llêd gadarn wrthi. Wedi cael llaeth mewn tyddyn untro, a chael yr ateb nad oedd dalu i fod, meddwn i wrth y wraig:—

"*C'houi a zo re goant,*" yr ydych yn rhy garedig. Ebr hithau'n ôl: "*Evit gounnid ar Baradoz!*" er mwyn ennill Paradwys! Yr oedd gŵr yr un tŷ yn peidio a myned i'r Eglwys yn fynych. Ond ni chollodd yntau ei gred yn ei Dduw. Tybio yr oedd bod yr offeiriaid yn casglu cyfoeth ormod. Cŵyn yw honno a glywir fyth a hefyd, gan y tyddynnwr fel gan y pentrefwyr. A oes sail iddo sydd bwnc arall. Digoned dywedod mai dyna dyb y bobl. Y mae'n amlwg, o leiaf, fod eu crefydd yn tynnu arian yn lled hael oddiwrthynt. Nid oedd gladdu heb dalu trigain ffranc am yr offerennau, a gellid parhau'r rheini unwaith bob wythnos am flwyddyn, nes codi pris yr offerennau i ddeucan' ffranc a mwy. Telid yn hafal am briodi. Ond odid nad ydyw'r tyddynnwr, yntau, fab anniddigrwydd y tymhorau, yn or-barod i gwyno. Nid oedd neb ychwaith i egluro iddo i ba le yr â'r arian, ac i ba amcan y cesglid hwy. Cymerai gelyn yr Eglwys Gatholig afael ar y parod-rwydd hwn i'w niweidio yn ei olwg. Ac y mae'r Werinlywodraeth y meddylia'r Llydaw'r gymaint ohoni, yn elyn yr Eglwys, ac yn erlid arni bob cyfle, yn llai penboeth na'r blynyddoedd o'r blaen, ond yn barhaus,

ac mewn llawer modd, cyfrin, cudd. Onibai bod y Llydawr yn geidwadol, byddai berigl iddo o'r cyfeiriad hwn. Heb ei Eglwys, darfuasai amdano ers llawer dydd. Hi a amddiffynnodd ei grefydd. Hi a ddiogelodd ei iaith. Collodd ef ei arweinwyr cenedlaethol ers canrifoedd, ond yn rhinwedd ei ddawn werthfawr i gadw, fe lwyddodd i draddodi ei etifeddiaeth genedlaethol i lawr hyd yr oesoedd. Y mae'n amheus a fu'r mwyaf o frenhinoedd Llydaw, Nominoe, yn llefaru'r Llydaweg, ac y mae'n ddiamaethueth mai Ffrengig oedd llys y wlad fyth wedi ymosodiadau'r Norman ddechrau'r ddegfed ganrif. Gorchest ydoedd i genedl gadw ei nodweddion ei hun dan yr amgylchiadau hyn, a byw ei bywyd arbennig. Gorchest na allai onid cenedl geidwadol, yn glynu'n daer wrth ddoniau ei henaid. Go brin y mae i genedl yr un anffawd sydd waeth na cholli ei harweinwyr ei hun. Eithr hynny a ddi-gwyddodd i Lydaw Lydewig yn y ddegfed ganrif. Rhannwyd y wlad yn ddwy ran yr adeg honno, ac ni welodd y rhan orllewinol wedi hynny arweinwyr oedd yn ei deall i'w dyfnderoedd.

Deil y Llydawr yn geidwadol o hyd. Y mae mor geidwadol gyda'i amaethu ag ydyw gyda'i grefydd. Ac yno, nid oes wadu nad drwg yw'r canlyniad. Ni fynn amaethu ond yn ôl dull y tadau. Ni ddewis arfau ond arfau y tadau. Nid da ganddo gelfi na welodd yn nwylo ei dad, na pheiriant nad oedd ganddo ef. Saif wrth yr hen ddull o aredig, o hau y naill gnwd yn ol y llall. Yr un dull o drin y ddaear; yr un

dull o droi'r caeau heibio. Yn unig, y mae wedi bodloni o'r braidd i gyfnwid y "brabant"<sup>1</sup> hwylus am yr aradr bren. Y mae wedi mynnu peiriant i wahanu'r hufen oddiwrth y llaeth. Eithr rhaid, ac nid awydd, a barodd hynny, bob cynnig. Ofer yw ymbil y mab am newid; ofer ei brofi bod amaethu'n wyddonol yn talu ar ei ganfed. Yn ôl addefiad rhai ohonynt, y mae'r "hen bobl" bron a cholli dagrau wrth orfod ymadael ag un o'u hanifeiliaid ar ben ffair! Aethai'r creadur direswm ei hun yn rhan o'u bywyd!

Llydaw yw crud pob hen ofergoel. Yma y siglwyd hwy o gyfnodau di-gyfnod: ac yma y siglir hwy heddiw. Y mae i bob bro ynddi ei lleoedd santaidd, ei ffynhonnau cysegredig, a'i mannau annwyl. Pa sawl croes sydd ym mhlwyf Tremel? A pha sawl credo hoff amdanynt? Pa faint o wyrthiau a gyflawnwyd yno? A pha faint, o hyd? Y mae Saint-Jean-du-Doigt bymtheng milltir i ffwrdd, ac yno y mae'r "bys" yn cyflawni'r gwyrthiau afrifed bob blwyddyn. Yno y cyfeirir camre ar y pedwerydd-arghugain o Fis Mehefin, cyn sicred ag y delo. Ymgynnull y deillion yno i osod y bys ar eu llygaid. A roddir eu golwg iddynt? O'r braidd y byddai'n ddoeth i chwi ofyn. A fydd ateb i chwi? Ie? Ai nage? Na, ni bydd ateb. Neu, yn well, bydd ateb yn yr edrych a wneir arnoch. Nid amheuwch chwithau wedyn. Y mae'r wyrth yn y llygaid fydd yn edrych arnoch. Gŵyl Sant Ioan? Ni fedr pawb o Dremel fyned yno,

<sup>1</sup>Aradr ysgafn, wedi ei gwneuthur ym Melgium, ac a ddefnyddir yn gyffredin yno, ac yn Ffrainc.

nac o'r pentref, nac o'r tyddynnod. Ond dathlant yr ŵyl, yr un fath. Ni bydd na chroesffordd, na chnwc bychan, na bydd yno frigau wedi eu crynhoi yn ddefnydd tân. Ac yna, fin nos, peri eu cynnau fel crinwydd yn arwydd o fuddugoliaeth ofergoel, o lawenydd cymdogaethau. Tra parhao'r llosgi, bydd y cynulliad gwŷr a gwagedd yn eistedd yn ymyl, a'r plant yn dawnsio, ac wedi diwedd y llosgi, gweddiir cyn gwahanu. Coelcerthi felly yn codi eu fflamau cochion i fyny o bob man amlwg yn y bröydd cyfagos. Ofergoel ai crefydd? Ai buddiol eu hysgaru? A fu ofergoel heb grefydd? A fu grefydd heb ofergoel? Onid oedd ofergoel yng nghrefydd ein mamau? Dangoswch imi wraig nad yw'n ofergoelus, a dangosaf innau fod annynol ichwi. "Nid yw gwraig heb goelion ofer namyn anghenfil" meddai Charles Maurras, un o feddylwyr craffaf yr oes hon.

Nid yw'r Beibl gan Lydawr, ond y mae ganddo ei Feibl ef. Bu ef mor ffodus yn hyn a'i gymrawd o Gymro, er iddo ei gael ganrif bron yn ddiweddarach. Albert le Grand yw ei awdur, ac fe gysegrodd ei amser i'w ysgrifennu. Y mae'n un o'r llyfrau mwyaf ei swyn y sydd, ac er nad ydyw'n hanes cywir, y mae'n hanes hudol. Y mae'n fwy na hynny. Y mae'n gerdd hanes. "Y Gododdin" ydyw cerdd hanes y Cymry a aeth i Gatraeth; "Buhez ar Zent" ydyw cerdd hanes y Cymry a aeth i Lydaw. Hanes eu hymfudo yno ydyw; hanes eu gwladychu ar y wladfa newydd. Yr oedd Albert le Grand yn fardd fel awdur y "Gododdin." Yr oedd eto yn gynhullydd

llên gwerin, fel Luzel ddwy ganrif o'i flaen. Gellir cwyno rhag ei baroted i gredu coel, ac, yn wir, rhag ei anghywired. Ond fe'ch swynir ganddo, yr un pryd, ac fe'ch hudir gan hudlath ei hanes. Gellir dywedyd gyda hanesydd mwyaf Llydaw, La Borderie:—"Dylid canmol ei wybodaeth a pharchu ei gydwybod." Cyhoeddwyd ei lyfr yn ystod y blynyddoedd 1634-1636, a chafodd y croesaw a haeddai. Rhoisai Alfred Fawr ei Feibl i'r Llydawr. O bydd gan hwnnw lyfr o gwbl heddiw, "Buchedd y Saint" ydyw. Ac yn y ffermydd oddiamgylch i Dremel, y mae i'w weled o hyd. Nid ym mhobman y darllenir ef, am nad ym mhob lle y mae rhywun a fedr ei ddarllen. Lle medrid, y gaeaf yn unig y darllenid ef, a'r adeg honno fin nos. Ni byddai amser yr haf; byddai'r gwair a'r yd yn galw ynghyd. Ond, am nosweithiau hirnos gaeaf, trefnid hamdden i ddarllen pennod ohono braidd bob nos. Y gwŷr neu'r wraig fyddai yn myned ynghyd a'r gorchwyl am mai hwyntwy yn unig a fedrai. Byddai'r plant oedd ar adael yr ysgol, neu newydd ei gadael, yn methu a darllen yr un sillaf o'u hiaith eu hunain! Felly y collid dysg o'r tŷ. Felly y lladd yr ysgolion y diwylliant a ffynnai gynt, ac y cadwant y plant rhag etifeddu o addysg a doethineb y tadau! Y maent hwy yn llai eu dysg na'r rhai a'u dug i'r byd. A ninnau'n tybio bod y byd yn gwella, a bod datblygiad yn ddeddf ddigynfnewid! Datblygiad? Nid ydyw nac yn gyson, nac yn orfodol. Oni bydd dyn neu genedl yn ufuddhau i reolau bywyd, a'i gadwedigaeth, nid datblygiad

ond dirywiad ydyw deddf hanes. Bum yn dyst i hynny yn Llydaw. Y mae'r perygl yn fwy am fod y Llydawiaid, bobl freuddwydiol, gyfriniol, ddelfrydol, yn ddiamddiffyn yn erbyn dysg y neb a fydd ormesu arnynt. Y maent at law y cyntaf a ddaw i'w gynnig ei hun iddynt, ac y mae'r gweilch sydd yn eu galw eu hunain yn feddylwyr rhydd ac yn gynllunwyr chwyldroadau, yn ennill tir yn eu plith. Un oedd y meddyliwr rhydd y cyfeiriaais ato o'r llawer cyffelyb a dwyllir i dybied y gellir iachawdwriaeth trwy chwyldro Marx a Lenin. Dydd trist, yn wir, i Lydaw fydd hwnnw pan dry ei chefn ar ei Seintiau a'i Heglwys, ar ei "Buhez y Zent," a'i "Holwyddoreg." I hynny yr arwain gwaith yr ysgolion yn dirmygu ei hiaith. Am hynny y gweithia'r unig bapurau a ddaw i'w ddwylo. Peri hynny ydyw un o amcanion y Werinlywodraeth y mae ef mor ffyddlon iddi. Fel y mae'n orau'r modd, geill y Llydawiaid eu twyllo eu hunain a thwylo eraill hefyd. Gwnaethant cyn hyn, ac ond odid na wnant eto. Nid da fyddai eu gweled yn gadael yr Eglwys Gatholig a'i disgyblaeth fanwl, heb gael rhywbeth arall mor gadarn ei ddisgyblaeth a hithau. Nid ar ddamwain y cant o hyd i hwnnw, ac nid fyth yn rhengoedd rhyfelwyr y faner goch.

Darllenid "Buchedd y Saint," ynteu, yn rhai o'r ffermydd hirnos gaeaf. Peth arall a wneid yno fyddai canu ac adrodd cyfranc. Treulid nosweithiau cyfain yn y ffordd lawen hon. Pan na byddai na chanu na darllen, byddai bwrw ar y gwaith a wedda i'r oriau tywyll hyn. Byddai cannwyll neu ddwy yn cadw'r

gegin rhag bod yn dywyll, a goleuai'r tanllwyth tân, yntau, yn ôl i ganol y llawr. Oddiamgylch iddo y byddai'r teulu wedi crynhoi—y plant i ymddigrifo ac i dwymo eu traed cyn troi i'r gwely, a'r rhai hyn i weithio yng ngolau'r gannwyll a'r tân, neu, efallai, y tân yn unig. Byddai'r fam yn *ober stamm*, yn gwrio ac yn gweu, a'r gŵr, yntau, yn naddu coes i forthwyl, neu i fwyall, neu i ordd. Bryd arall, byddai ef yn gwneuthur cordennau a rhaffau o'r *canap*, y cywarch, a dyfir yn y meysydd, fel yr yd. Yna, allan dro gyda'i lusern fechan, i dafu ei olwg tros yr anifeiliaid, i wrando'r da yn cnoi eu cil, i sylwi ar y gasg fyddai'n cnoi'r preseb ac yn trefnu ei gwely gwellt neu eithin neu redyn, cyn gorwedd arno. Wedyn, taro ei ddwy gloesen bren hyd y palmant cerrig oni chyrhaeddai'r tŷ i gael ei holi am bob creadur gan ei wraig. Odid na byddai wedi gweled ysbryd neu rywbeth, a diweddai'r dydd yn adrodd am ysbrydion, am angau ei deidiau, ac am "yr haf diddiwedd sydd iddynt yng ngwaelod y bedd." Cysgu yna, a bwrw blino yn y *gwele clos*.

Yr addeg honno y byddai ei wraig yn tynnu ei phenwisg glân am y tro cyntaf wedi'r bore. Canys y mae gwragedd Llydaw i gyd yn dwyn gwisg lân am eu pennau. Fe ddwg yr hên hi, bob amser, yn y tŷ ac oddiallan, ond y merched ieuainc, yn unig ddydd Gŵyl neu ddydd Sul. Y mae o liain main, ysgafn yn cuddio'r pen bron yn gyfan, ac, o'r tu ôl iddo daw dau bigyn hir, ymlaen tros y gwddwg hyd ymyl y ddwy gern. Nid yr un ydyw'r "*Koef*"

hyn trwy Lydaw. Amrywiant o dalaith i dalaith, o ardal i ardal, a hyd yn oed o blwyf i blwyf, oblegid:

*Kant bro, kant iliz,  
Kant parres, kant kis<sup>1</sup>.*

Yr un rhai ydynt a'r rhai a wisgid gynt drwy Ffrainc achlân. Cadwodd Llydaw atynt, a hwyntwy ydyw testun gorhoffedd ei merched. Cystadleuant a'i gilydd yn eu gwneuthur am y glanaf, am y gwynnaf. A gwyn a glân ydynt bob amser. Y mae balchter y galon i'w weled yn y cymhendod sydd arnynt, a gosodant swyn a hud ar y merched. Y mae gweled llond Eglwys ohonynt fore Sul yn olygfa na ddileir o'r meddwl. Hyfryted y gwyn llachar yn amdo teg i hanner yr Eglwys! A'r gwyn hwnnw yn gymysg a melyn golau'r colofnau, ac, yn nes ymlaen, â rhudd fflamgoch y ffenestri lliw, â'r glâs glasaf, â'r gwyrdd ac â'r melyn yn yr allorau gloywon, y darluniau, a'r delwau. Ba emwaith godidog! A'r haul tanbaid oddiallan yn disgleiro'r cyfan a'i belydr treiddgar. Gorchestwaith lliwiau yn wir! Enfys ar bader mewn eglwys.

A'r Sul? Y Sul ydyw'r dydd blaenaf yn Llydaw. Bydd offeren am chwech y bore; ac oni bydd yr Eglwys yn cynnwys lluoedd yr adeg honno, bydd yn llawn am ddeg o'r gloch. Nid oes golli ar yr ail offeren honno, a'r unig ddiffyg arni yn nhyb y Llydaw'r ydyw ei bod yn gyfangwbl mewn Lladin iaith. Caiff bregeth yn ei iaith ei hun, a rhaid

<sup>1</sup> Can bro, can eglwys  
Can plwyf, can arfer.

iddo fodloni ar hynny. Wedi myned allan o'r Eglwys, ânt bawb, yn hen ac yn ieuainc, yn garpiog ac yn gyfoethog, yn wŷr a gwragedd, i benlinio, bob un ar fedd ei deulu. Ac o bu gladdu ar rywun yn ystod yr wythnos, fe â pawb i ben y bedd hwnnw, i daenu dwfr bendigaidd arno. A fu ddim prydfertnach erioed? A fu ddwyster mwy? Llond mynwent yn penlinio ar y beddau! Coel? Crefydd? Pa un? Onid un ydynt yma? Yno gweddient ennyd, y dynion cyn daweled â deiliaid y derw islaw. Wedi gorffen y ddefod ddiddorol hon, ânt allan i'r ffordd sydd o flaen mynwent Tremel ac ni ellid dychmygu am gymaint o gyfnewid llwyr. Yn nesaf, esgyn cyhoeddwr y dref ar garreg wrth borth y fynwent. Ffurfiar bobl yn gylch amdano a pheri'ch synnu â'r gweddnewidiad disyfyd o'r ddefosiwn ddwyfol i'r llawenydd nad yw o'r llan. Cyhoeddai yntau, gan ddarllen rhaglenni arwerthiant yr holl blwyfi. Gwerthid dodrefn a chlociau *bern koat<sup>1</sup>* a *c'horden koat<sup>2</sup>*, *devez-arvet<sup>3</sup>* *gweniz<sup>4</sup>*, *tri devez arvet kerc'h*, *devez arvet ei*, *pever kezeg<sup>5</sup>*, *diou vuoc'h<sup>6</sup>*, a llu o bethau eraill. Felly mewn rhai llefydd. Mewn ffermydd eraill *eur penmoch<sup>7</sup>*, *eur brabant<sup>8</sup>*, *kirri<sup>9</sup>*, *joenn<sup>10</sup>*, *kals a mobilier<sup>11</sup>*, *dek loenn bihan<sup>12</sup>*, *ed du<sup>13</sup>*. Cyhoeddi

<sup>1</sup> *Bern-koat*—tas o goed. <sup>2</sup> *Korden-koat*—tas o brennau cryfion, wedi eu hollti, ac yn dwyn mesur arbennig; Ffrangeg, *corne de bois*. <sup>3</sup> *Kezeg*—ceffylau, <sup>4</sup> *vuoc'h*—buwch, <sup>5</sup> *devez-arvet*—dydd o aredig, h.y. y cymaint ar a ellir ei aredig mewn un dydd,—felly cyfer, erw. Y mae dau *ddevez arvet* yn cyfateb i *hectar* y Ffrancwr. ei <sup>6</sup> *heiz*,—haidd. <sup>7</sup> *Eur penmoch*—mochyn; <sup>8</sup> *eur brabant*, aradr hwylus o le o'r enw; <sup>9</sup> *Kirri*—cerbydau; <sup>10</sup> *joenn*, gwair, <sup>11</sup> *Kals a mobilier*—llawer o ddodrefn, <sup>12</sup> *dek loenn bihan*—deg ebol bychan, <sup>13</sup> *ed du*—yd du.

hefyd bethau nid heb berthynas a'i gilydd, megis "dansiou," "pardonïou." Yn ôl hynny, cydymddiddan a wnai pawb a myned i gyfeddach. Byddai dau gerbyd yno, un i werthu da-da, *gwestel*, a chacennau, y llall, bysg y môr, a phob un yn dwyn serch y bechgyn a'r merched. Yn raddol bach y torrai'r cwmni er mwyn ymweled a'r ddau win-dŷ, ac yfed ychydigyn ym mhob un.

Nid cyn hynny y cychwynnai pob un i'w ffordd, i ymofyn am ei ginio. Wedi dyfod y prynhawn, byddid yn ail grynhoi i Dremel. Nid i'r Eglwys y waith hon, ond i'r mannau chwarae. Yno y byddid yn *c'hware boulou*, chwarae pelau, rywbeth yn debyg i wŷr Cyngor Tref Aberystwyth! Yr hen fyddai fwyaf gyda'r chwarae hwn. Byddai'n ddewisach gan y meibion a'r merched rodio'r ardal, neu ddawnsio i fwsig piano, neu hwylio ymhell ar y march haearn. Chwarae fyddai'r plant, hwythau, haid yna a haid hwnt, bawb ohonynt yn *c'hware korden*, neu sgipio, fel y dywed plant Tregaron. O byddai pardwn yn y cyffiniau, byddai mawr y cynnull hyd yno, yr hen i addoli'n ddefosiynol, a'r ieuainc i ymlawenhau yng nghwmni ei gilydd. Oblegid dyna ydyw'r gwyliau hyn iddynt hwy, cyfle i'w gweled ei gilydd, ac i ymgyfathrachu. Dirnedais hynny yng Ngwengamp, ond, yn Nhremel argraffwyd hynny arnaf mewn dull rhyfedd. Yr oeddwn yn ymddiddan â'r teulu lle'r arhoswn ac yn holi iddynt a wyddent am fachgen ieuanc yn ymyl Tremel a awyddai fod yn offeiriad. Na wyddent ddim, ac nid oedd yr un.

Cofio yr oeddwn i am Souvestre yn sôn am fechgyn felly, ac yn disgrifio fel y dygid hwy i fyny yn hollol wahanol i bawb arall o'r teulu. Nid yr un peth eu bwyd, na dim. Bwytaent ar wahan i'r lleill, ac fe'u hystyrid yn fodau uwchraddol. A oedd hynny'n wir heddiw? "O, nac oedd ddim," oedd yr ateb pendant. "A oes rhyw wahaniaeth rhyngddynt a'r gweddill o'r teulu?" "Nac oes. Os nad ydynt yn fwy mwyn. Ac, wrth reswm, nid ydynt yn mynd i Bardon." "Ddim yn mynd i Bardon? Pam hynny, ag yntau i fod yn offeiriad?" "Wel"—a'r wên yn goleuo'r wyneb—"caru mae'r bechgyn a'r merched mewn Pardwn." Prawf pendant! Mewn gwirionedd y mae, ymaith fymryn o Dremel, bardwn sy'n unig yn wyl mwyniant i'r ieuainc, lle na bydd nac offeiriad nac offeren, na phader na pheden. Caru? Paham na ddylai hwnnw fod yn gyfran o fywyd y Llydaw'r? Yn hytrach, beth sydd dueddach iddo, ag yntau yn fenywaidd ei hun? Os bydd ef yn cymryd y lleoedd blaenaf yn ei Eglwys yn Nhremel, gan eistedd yn y ddwy aden o flaen yr allorau, a gadael gweddill yr Eglwys i'r gwragedd, nid ydoedd lai menywaidd am hynny. Ac y mae priodas yn ddigwyddiad dedwydd yn ei hanes. Ni byddai na'r anfyddwyr na'r meddylwyr rhyddion nad aent i'r Eglwys y dwthwn hwnnw. Bydd yn llawn bob cwrr ohoni a bydd hwyl ar yr offeren. Gwedi gorffen a hi, troir allan i'r pentref. Nid oedd yr un gwindŷ ynddo, na'r un tafarn, nad eid iddo i yfed gwin a seidir. Bydd pawb yn y pentref mewn elwch, a bydd ddiddan y



gyfeddach o dafarn i windŷ. Y pâr ieuanc fydd yn talu am y cwbl a yfir, a bydd symbylu ar bawb i yfed yn ddibrin. Yn ôl cerdded felly trwy'r tefyrn oll, cyfeiria'r cwmni diddan i gartref y ferch ieuanc. Yno y byddys yn ciniawa o'r cinio gorau. Âr prynhawn yn gyfangwbl at gampio a champro, at ymorchestu ac ymddigrifo. Cyn dyfod yr hwyr, byddys yr tynnu llŷn pawb. Yna gwasgar pawb i'w gartref. Ond am ysbaid yn unig. Nid oedd y wledd ar ben eto. Cyrchid yno drachefn gyda'r hwyr ac ymroddid eto i yfed ac i ymddifyrru. A dawnsio yn gylchau llawen fel Tylwyth Teg hyd oriau'r hanner nos, a heibio. Bum mewn dwy o'r priodasau hyn yn Nhremel, ac yr oedd rhyw drigain ym mhob un ohonynt. Nid yw eu nifer yn ddim nemor, wrth briodasau rhai rhannau o'r berfeddwlad, neu yn enwedig dueddau'r De.

Y mae Plougastel, yn ymyl Brest, yn blwyf lle y priodir pawb gyda'i gilydd unwaith yn unig mewn blwyddyn. Diwedd Chwefror y bydd hynny, a bydd dwsin neu bymtheg o'r priodasau hyn yn cael eu dathlu yno yr un adeg.

Aml o beth yw gwyliau yn Nhremel. Canys y mae bedyddio plentyn yn wledd i bawb a ddaw i'r Eglwys i weled y bedyddio. Dwg y tad a'r fam hwy o windŷ i dafarn, gan yfed rhyw gymaint ym mhob un. Yr un fath gyda'r claddu. Try pawb ymaith y dydd hwnnw, heb oedi nemor ddim, na blysio am ysbleddach. Ond, ymhen yr wythnos, y mae offeren arall i'r marw. Ac fe ddiolchir i bawb a ddél yn

trwy eu diodi, o dafarn i dafarn yn y pentref. Gwledd fwy fyth ymhen mis. A'r wledd ymhen y flwyddyn yn wledd yn wir!

Nid haelioni siawns ydyw haelioni'r priodasau, ond un agwedd ar garedigrwydd y Llydaw'r. Nid oes neb yn fwy croesawgar, na neb yn fwy cymwyn-asgar. Os digwydd iddo eich gweled yn cerdded heibio'i dyddyn, ni thybia hi'n ormod i'ch gwahodd i'r tŷ. Cofiaf gerdded heibio un o'r tyddynnod hyn un hwyr, a gofyn *ped eur eo?* i'r gŵr oedd yn sefyll o flaen y drws. "*C'hwec'h eur hanter?*" meddai; ac, a'r un anadl "*deuit da'r ger*", dewch i'r tŷ. "Fe yfwn seidir gyda'n gilydd" meddai wedyn, "a bwyta bara." Diolchais iddo, gan ychwanegu bod yn rhaid imi barhau ar fy ngherdded. Dywedodd wrthyf y byddai'n well imi beidio a myned y ffordd honno, gan ei bod yn fudr iawn dipyn ymhellach. Ond mynd a wneuthum i, oni ddeuthum i fan arni na allwn ei ddilyn yn hwy. Gyda hynny, clywn sŵn traed rhywun yn rhedeg hyd ataf. Yr un dyn oedd yno, wedi ail feddwl, a dyfod i'r casgliad na byddai modd imi ymbellhau. "Dowch yn ôl. Dowch yn ôl," meddai. "Rwy'n sicr, wedi ystyried, na ellwch fyned rhagoch. Dowch, fe yfwn seidir gyda'n gilydd." Cerddasom yn ein holau, a minnau'n holi iddo am y fferm a'r gwaith. Mynnodd ddangos imi y beudŷ, yr ysgubor a'r tŷ torion. Ac ym mhob un o'r ddau le yr oedd *gwele clos*, un i'r forwyn a'r llall i'r gwas. Yno y cysgent hwy. Ac, am y gwas, yr oedd ynddo

<sup>1</sup> Faint o'r gloch ydyw?

<sup>2</sup> Hanner awr wedi chwech.

ar hynny o bryd yn tyngu ac yn rhegi'n wallgof mewn cynddaredd ofnadwy. Yr oedd dillad ei wely yn fudr aflawen. Yr oedd yntau yn feddw gaib, a'i wyneb yn gleisiau cochion drosto, ei lygaid yn glwyfau na ellid eu gwled. Holais ei feistr amdano, ond nid i ddim diben heblaw clywed nad oedd yno i gyd. Ni welai ddim yn anwiw ei fod yn cysgu yn y fath anialwch anniben, ac aflêr. Bu raid imi wedyn fodloni i fyned tros y trothwy i'r tŷ. Cawdel o le oedd yno hefyd, ond rhaid oedd yfed y seidir, a bwyta cremrog gydag ef.

A'r peth sydd wir am y tyddynnwr hwn sydd wir am y gweddill ohonynt. Yr oedd cyfarfod ag un ohonynt yn ddigon i'm croesawu i mewn. Unwaith y byddid i mewn, nid oedd modd gwrthod nac yfed na bwyta. Byddai hynny yn gystal a dianrhydeddu syniad Llydaw'r am groeso. Gwelais dyddyn arall. Canol y prynhawn ydoedd hi, ac yr oeddwn yn awyddus am fowlennaid o laeth. Wedi curo wrth y drws, a symud i mewn yn ôl y gorchymyn a ddeuai oddiwrth y bwrdd oedd am y palis a mi, gofynnais am laeth. Nid oedd dim i'w gael. Bachgen deunaw oed, a chwaer iau, oedd yno, a dyma'r gair nesaf: "Mi âf allan i odro un o'r gwartheg." A chystal imi dewi na pheidio. Mynd oedd raid. Godro a fynnid. Ac aeth y chwaer allan, i ddyfod yn ôl yn union ar ôl hynny, a llefrith ardderchog gyda hi. "Pegementi?" Talu? Ni dderbynnid tâl. Bum mewn tai, y cefais fy ngwahodd i fyned iddynt bob dydd i yfed o'u laeth, "Dewch bob dydd. Yr ydych yn sicr o

ddyysgu'r Vrezonek gyda ni. Dyna'r ffordd i chwi. Fe ddysgwch yn well gyda ni nac yn nhŷ Fustec."

Pan oeddwn yn y dull hwn mewn tyddyn, nid oeddwn fyth yn ôl o holi am y bywyd oedd yno gynt, ac am fywyd y gaeaf o hyd. Byddwn yn ymorol am enwau y pethau a welwn yn y tŷ, a'r celfi a ddefnyddid allan.

A chawn hwy, restr faith ohonynt weithiau'n enwau na cheir mewn geiriadur. Wele rai enghreifftiau:—

roched<sup>1</sup>; bragou bihan<sup>2</sup>; tog<sup>3</sup>; penmoc'h<sup>4</sup>; patatez<sup>5</sup>; betravez<sup>6</sup>; mencjerien<sup>7</sup>; sker leor<sup>8</sup>; skeud<sup>9</sup>; klasker vara<sup>10</sup>; eid, eit du<sup>11</sup>; col, col glas<sup>12</sup>; ervin<sup>13</sup>; marechal<sup>14</sup>; dornices<sup>15</sup>; troc'heres<sup>16</sup>; machin da dyrna<sup>17</sup>; ar wentirez<sup>18</sup>; blasaden<sup>20</sup>; bren, bren hisken<sup>21</sup>; spilien<sup>22</sup>; ei<sup>23</sup>; arpon<sup>24</sup>; isken<sup>25</sup>; geno<sup>26</sup>; mekanik leiz<sup>27</sup>; mecanic avriet<sup>28</sup>; ffals<sup>29</sup>; falc'h<sup>30</sup>; blous, toen blous<sup>31</sup>; toen broen<sup>32</sup>; rasc<sup>33</sup>; banc<sup>34</sup>; taol<sup>35</sup>; troat an daol<sup>36</sup>; fin<sup>37</sup>; genouek<sup>38</sup>; pariplu<sup>39</sup>; fisilen<sup>40</sup>; korden<sup>41</sup>; poesou<sup>42</sup>; balans<sup>43</sup>; pot<sup>44</sup>; bobinen a neut<sup>45</sup>; bescen<sup>46</sup>; gwesten<sup>47</sup>; ceif, coef<sup>48</sup>; paner<sup>49</sup>; kalondrien<sup>50</sup>; leun<sup>51</sup>; merez<sup>52</sup>; luneden<sup>53</sup>; trwka<sup>54</sup>; klet<sup>55</sup>, klae<sup>55</sup>;

<sup>1</sup> crys; <sup>2</sup> llodrau bychan; <sup>3</sup> cap; <sup>4</sup> un mochyn; <sup>5</sup> tatw; <sup>6</sup> betys; <sup>7</sup> amathwr; <sup>8</sup> goleuni'r lloer; <sup>9</sup> cofgolofn; <sup>10</sup> cardoty'n bara; <sup>11</sup> yd, yd du; <sup>12</sup> bresych; <sup>13</sup> erfan; <sup>14</sup> gof; <sup>15</sup> bowlyn gafael; <sup>16</sup> peiriant lladd gwair; <sup>17</sup> peiriant dyrnu; <sup>18</sup> peiriant nithio; <sup>19</sup> clwyf; <sup>20</sup> eisin; <sup>21</sup> ysglodion pin; <sup>22</sup> haidd; <sup>23</sup> llawlif; <sup>24</sup> llif fer, llawlif; <sup>25</sup> genau; <sup>26</sup> peiriant laeth; <sup>27</sup> peiriant gwnio; <sup>28</sup> cryman; <sup>29</sup> pladur; <sup>30</sup> gwelt, to gwelt; <sup>31</sup> to brwyn; <sup>32</sup> cylllell at bilio coed; <sup>33</sup> mainc; <sup>34</sup> bwrdd; <sup>35</sup> coes bwrdd; <sup>36</sup> medrus; <sup>37</sup> un trwstan ei lafar; <sup>38</sup> glawien; <sup>39</sup> corden; <sup>40</sup> rhaff; <sup>41</sup> pwysau; <sup>42</sup> tafal; <sup>43</sup> mab; <sup>44</sup> edau wnio; <sup>45</sup> nodwydd; <sup>46</sup> blwch; <sup>47</sup> penwisg; <sup>48</sup> basged; <sup>49</sup> almanec; <sup>50-52</sup> borefwyd; <sup>53</sup> sbectol; <sup>54</sup> blwch cae; <sup>55</sup> clwyd; <sup>56</sup> clawdd;

coc, cicin<sup>56</sup>; ara<sup>57</sup>; raja<sup>58</sup>; sac'h<sup>59</sup>; silhaten<sup>60</sup>; kamisaten<sup>61</sup>; kasketen<sup>62</sup>; paloro<sup>63</sup>; brit<sup>64</sup>; torc'h<sup>65</sup>; bas<sup>66</sup>; tretou<sup>67</sup>; freis<sup>68</sup>; pei<sup>69</sup>; nelin<sup>70</sup>; pen ar'hlin<sup>71</sup>; gar<sup>72</sup>; boutou lér<sup>73</sup>; boutou koat<sup>74</sup>; bern teil<sup>75</sup>; bern skilio<sup>76</sup>; bern koat; tach-on<sup>77</sup>; poantenou<sup>78</sup>; morzol<sup>79</sup>; troat morzol<sup>80</sup>; leroun<sup>81</sup>; orz<sup>82</sup>; gevel<sup>83</sup>; pentoun<sup>84</sup>; sgubelen<sup>85</sup>; pigos<sup>86</sup>; souflez<sup>87</sup>; glou, gleou<sup>88</sup>; gleou koat<sup>89</sup>; gleou douar<sup>90</sup>; pioch<sup>91</sup>; pâl<sup>92</sup>; roazel<sup>93</sup>; neto<sup>94</sup>; alc'houez<sup>95</sup>; hazel<sup>96</sup>; notiliou<sup>97</sup>; eoliad<sup>98</sup>; sizer<sup>99</sup>; metr<sup>100</sup>; lin<sup>101</sup>; car<sup>102</sup>; bouc'hal<sup>103</sup>; forc'h<sup>104</sup>; rabot<sup>105</sup>; rastal<sup>106</sup>; frez<sup>107</sup>; houarn<sup>108</sup>; pourman<sup>109</sup>; gazeten<sup>110</sup>; loa<sup>111</sup>; sko<sup>112</sup>; dero<sup>113</sup>; koll<sup>114</sup>; halek<sup>115</sup>; mobilier<sup>116</sup>; foen<sup>117</sup>; marc'h<sup>118</sup>; kezeg<sup>119</sup>; kazeg<sup>120</sup>; lost<sup>121</sup>; carn<sup>122</sup>; ran<sup>123</sup>; moe<sup>124</sup>; troat rastel<sup>125</sup>; troat tol<sup>126</sup>; lez strenk<sup>127</sup>; krabest<sup>128</sup>.

Geiriau ydyw'r uchod a ddefnyddid bob dydd yn y pentref ac yn y wlad, ac y mae tua'u hanner wedi eu benthg o'r Ffrangeg. Geiriau ar gelfi diweddar neu ar beiriannau newyddion ydyw'r mwyafrif o'r

\*\*ceiliog; \*\*aradr; \*\*olwyn; \*\*sach; \*\*gwasgod; \*\*gwasgod wlanan; \*\*hat; \*\*mwnci (hòms) ceffyl; \*\*firwyn; \*\*mwnci ceffyl; \*\*ystrodur; \*\*cadwyni certwain; \*\*oged; \*\*pil coed, ysglod; \*\*penelin; \*\*penlin; \*\*coes; \*\*esgidiau lledr; \*\*clocs pren; \*\*tomen tail; \*\*tas o brennau hollt; \*\*hoelen; \*\*hoelen; \*\*morthwyl; \*\*coes morthwyl; \*\*maen hogi; \*\*gordd; \*\*pinsiwn; \*\*stond ddwr yng ngefel y go; \*\*ysgubell; \*\*y pren sydd yn dal yr eington; \*\*megin; \*\*glo; \*\*glo coed; \*\*glo daear; \*\*caib; \*\*rhaw; \*\*colrac; \*\*peiriant tynnu; \*\*allwedd; \*\*bocs celfi yn yr efall; \*\*cefn; \*\*blwch olew; \*\*sisiwrn; \*\*riwl; \*\*ffeil; \*\*car, cerbyd; \*\*bwyall; \*\*fforch, pigau, ffon ddwybig; \*\*plâm; \*\*rhaslt; \*\*oged; \*\*haearn, pedol; \*\*rhawd; \*\*papur newydd; \*\*llwy; \*\*ysgaw; \*\*derw; \*\*coll, cyll; \*\*helyg; \*\*dodrefn; \*\*gwair; \*\*ceffyl; \*\*ceffylau; \*\*caseg; \*\*cynffon; \*\*carn ceffyl; \*\*rhawn; \*\*mwng; \*\*coes rhaslt; \*\*coes bwrdd; \*\*llaeth enwyn; \*\*cebystr.

rhai benthg. Ond o'r Ffrangeg hefyd y caed gair am beth mor gyffredin a gwair, ac am declyn hen fel y cryman, a'r bladur. O'r tu arall, nid ydyw pob rhai o'r peiriannau diweddaraf heb eu bedyddio â geiriau hollol Lydewig. Pa enwau a allai fod yn fwy Llydewig na'r rhain: *troc'herez* am beiriant lladd gwair, "*ar wentirez*" am beiriant nithio? Nid drwg ychwaith "*mekanik leaz*"<sup>1</sup> "*mekanik avriet*," a "*machin da dyrna*" am y peiriannau gwahanu hufen a llaeth<sup>1</sup>, gwnio<sup>2</sup>, a dyrnu<sup>3</sup>? Y gwir ydyw bod yr iaith yn cadw'n hynod o dda rhag defnyddio gormod geiriau Ffrangeg. A hynny er gwaethaf yr ysgolion, ac er nad oes yr un dydd na leferir peth Ffrangeg hyd yn oed yn Nhremel. Byddai'r plant, o arfer yn yr ysgol, yn rhifo bob amser yn Ffrangeg, ac y mae'n anodd iddynt rifo yn eu hiaith eu hunain. Gyda'u cyfrif wrth chwarae'r *gorden*, fel y dywedant, neu rifo'r gwartheg a fugeilliant wedi myned adre'r nos, defnyddiant beunydd yr iaith ddiethr. Nid yr un fel yr hen. Cadwant hwy eto at rifo fel cynt. Yn unig, wrth brynu a gwerthu, ni ddefnyddiant yr enwau Llydewig fel cynt. Clywir enwi'r cyfrifon lleiaf yn fynych yn ôl "*gwenek*,"<sup>2</sup> ond anaml iawn y clywir defnyddio'r "*real*," un rhan o bedair o ffranc, y "*liur*"<sup>3</sup> a'r "*skuit*"<sup>4</sup> ond gan yr hen. Y mae llawer iawn o'r rheini heb fedru'r Ffrangeg, ac, o ran hynny, nid

<sup>1</sup> Llywyddwyd yn well fyth yn Leon. Clywais yno, *dienerex, koavenerx*, y ddau wedi eu ffurfio oddiwrth y geiriau am hufen, *dien, Koaven*. Felly hefyd, *diglovier* am lawlen a "*marc'h houarn*" am geffyl haearn.

<sup>2</sup> Dimal.

<sup>3</sup> Un franc.

<sup>4</sup> Tair franc.

ydyw'n anfynych gweled pobl o'r deg-ar-hugain i'r hanner cant, hwythau hefyd heb fedru llefaru dim o'r Ffrangeg. Merched fydd y rheini gan fynychaf neu ynteu ddynion y bu cloffni neu ryw glewri neu'i gilydd yn eu cadw rhag gwneuthur eu gwasanaeth yn y fyddin.

## VIII

"Chwi yw goleuni y byd."

## YMDDIDDAN AG OFFEIRIAD TREMEL

Ni bu ragorach dydd na hwnnw, er pan oeddwn yn Nhremel. Yr oeddwn newydd fwyta fy nghinio, a chododd awydd arnaf fyned i rod-di tro am yr offeiriad. Gwelswn ef o'r blaen ac yr oedd wedi fy ngwahodd i'w dŷ. Ond ni buaswn yn ymddiddan onid y nesaf peth i ddim ag ef cyn y waith hon. Cerddais hyd ymyl y drws coch dilun, sydd yn agor i mewn i'w dŷ ac i'w ardd, ef yn dŷ cymharol fawr, garw a diraen, hi yn ardd helaeth, lydan. Gyda chau'r drws, gwelwn yr offeiriad yn ei ddu arferol yn gweithio gyda'i ddwy forwyn. Gwelodd yntau fyfi:—

"Ai chwi sydd yna? Dowch i mewn. Gweithio yn yr ardd yr ydym ni. Heuwn bŷs bach yma. Yr wyf am hau rhai yn ddiweddar yn lle eu bod yn tyfu i gyd yr un pryd. Gwelwch fod gennyf rai eraill, ac y maent hwy eisoes yn fawr. Ond, yn anffodus, y mae'r hadau wedi dibennu, ac nid oes dim ohonynt yn Nhremel. Felly, y mae braidd yn drwstan arnom."

"Y mae gardd glên gennyf. Ac un fawr hefyd."

"Oes, y mae gardd dda yn perthyn i'r rheithordŷ yma. Ac y mae gennyf gae hefyd. Dacw fo, ac y

mae'n llond daear o wenith, un rhan ohono. Y mae gennyf fuwch, wedyn, a hi sydd yn pori'r rhan arall."

"Fe welaf eich bod yn gyfoethog! 'Does dim rhyfedd mai hynny yw cân pawb," gan chwerthin.

"Ni'n gyfoethog? Ni? Yr offeiriaid? Offeiriaid Llydaw yn gyfoethog? *A la la!* Ni'n gyfoethog! Pwy sy'n dywedyd hynny wrthych?" meddai, gan chwerthin yn llawen, a'm gosod yn gartrefol.

"Dyna'r wyf i yn ei glywed gan bawb. Nid yw wahaniaeth â phwy y byddaf yn siarad, y maent bawb yn unfarn ar hynny."

"Y tyddynwyr? Y ffermwyr? A, ffeia i hwyntwy! 'Does neb yn debyg iddynt hwy am achwyn beunydd. Peidiwch a rhoddi coel arnynt. Clywch. Y mae gennyf i ardd fawr yma. Ond ewch i edrych gerddi offeiriaid eraill, ac fe welwch ba faint o erddi sydd ganddynt hwy. Nid oes ganddynt ugain llathen ysgwar. Mi wn i am rai heb gymaint a llawr tŷ o ardd. Yr offeiriaid yn gyfoethog yn Llydaw? Ni'n gyfoethog? Ydym ni wir!"

"Dyna yw cân pawb. Ac, y mae'n rhaid gennyf eu bod yn iawn wrth y peth a glywaf. Er enghraifft, yr ydych yn cael eich talu'n hael am gladdu ac am briodi, ac am gant a mil o orchwyllion, i gyd."

"Ydwyf; fe gaf gyfran go dda am hynny."

"Wel, yr ydych yn gwneuthur casgliad ymenyn a gwenith unwaith bob blwyddyn."

"O'r gorau. Y mae hynny'n wir. Yr wyf felly yn cael digon o ymenyn fel na bydd raid imi brynu dim. Ac y mae'r fuwch yma yn rhoddi llaeth imi. Ie, ewch ymlaen."

"Eto y mae tri chasglydd yn dwyn rhyngddynt dri chant o ffranciau ichwi bob Sul."

"*A la, la!* Pwy sydd yn dywedyd hynny? Myfi yn cael y rheini? Na chaf, yr un ddimai ohonynt. I'r esgobaeth yr ânt bob ceiniog."

"I ddibennu. Dyna'r arian a gewch am y seddau wedyn."

"Nid i mi y mae dim o'r rheini ychwaith. Yr Eglwys biau hwy. Ânt i gyd i gadw'r cadeiriau mewn trefn, ac i'w cyweirio wrth angen. Na, nid wyf i'n cyffwrdd a hwy. Y gwir yw mai ychydig yw'r gyflog. Caf chwe chan' franc<sup>1</sup> oddiwrth yr Esgob."

"Bob mis?" meddwn, mewn digrif.

"Bob blwyddyn, os gwelwch fod yn dda! Yna caf ychydig am yr offeren chwech o'r gloch bob bore. A'r un fath am bob priodas ac angladd. Na, y gwir ichwi ydyw nad cyflog fawr mohoni o gwbl. A lle bo'r plwyfi'n fychain ac yn amhoblog, y mae'n waeth fyth."

"Dywedwch a fynnoch, y mae pawb yn tybied yn amgen. Bod yr offeiriaid yn gyfoethog ac yn casglu cyfoeth beunydd, yw'r gân gan bawb. Ac y mae rhai'n dywedyd mai'r casgliadau sydd yn eu cadw rhag myned i'r Eglwys."

<sup>1</sup>Tua wyth punt a chweugain.

"Ai'r tyddynwyr sydd yn dywedyd hynny wrthych? Edrychwch yma. Y mae'n amhosibl. Dimai yn unig a dâl pawb am eu seddau bob Sul."

"Ie; ond cwynant fod rhai'n rhoddi i'r tri chasglydd ryw gymaint bob wythnos—ai hanner ffranc, ai ffranc, ai mwy fyth."

"Sut y gall hynny fod? Gwrandewch eto. Y mae naw cant o bobl yn byw yn y plwyf hwn, ac, yn ôl addefiad y casglyddion i chwi, tri chan ffranc y maent yn gallu ei gasglu bob wythnos. Ffranc yr un, yn wir! Dywedwch hanner ffranc a llai na hynny. O na. Nid yw'r bobl yn y plwyf hwn yn rhyw grefyddol iawn. Neu, y maent yn grefyddol, efallai. Ond dim mwy. Nid ydynt ddefosiynol."

"Ydych chi'n tybied? Yr oeddwn i'n meddwl fel arall. O leiaf, ymddengys imi bod y Llydawiad, fel cenedl, yn grefyddol iawn."

"Nid amheuaf hynny. Dywedyd yr wyf, nad ydyw fy mhlwyfolion i yn ddefosiynol wrth eraill yn y wlad yma. Ewch i Finistere, ewch i dueddau Sant-Paol, a Morlaix, a llawer lle arall. Y mae'r bobl sy'n byw yn nes atom, yn Lannion, ac ym mhobman ar gyffiniau'r môr i'r gogledd inni yma yn llawer mwy defosiynol. Nid ydynt yma yn rhy grefyddol. Ac, o ran hynny, nid yw eu moesoldeb yn rhy uchel ychwaith."

"Pam? Sut y cesglwch hynny?"

"Dyma fo'r prawf: llawer o blant gordderch."

"Pa faint?"

"Un braidd pob blwyddyn."

"Un? Un allan o blwy naw cant? Ydych chi'n cyfrif hynny yn llawer? Y gwrthwyneb, allwn i feddwl. Onide?"

"Ie; wrth wledydd eraill. Ond o'i gymharu a pharthau eraill Llydaw, y mae'n rhy uchel o lawer."

"Beth sydd yn cyfrif, ynteu, fod pobl Tremel yn llai defosiynol na thrigolion y rhandiroedd eraill? Y rhyfel diwethaf? Ond yr oedd dylanwad hwnnw yr un fath ym mhobman."

"Y mae hwnnw'n gyfrifol, i raddau pell. Ond yr oedd yn gyffelyb cyn hynny. Fe ddywedaf wrthych beth sydd yn fwy niweidiol na dim,—lluestai gwerylloedd y fyddin. Y mae'r bechgyn yn myned yno'n ddiniwed o ganol y wlad, ac yn gweled pethau na freuddwydiasant amdanynt o'r blaen. Hynny sy'n gwneuthur y drwg."

"A dybiwch chi fod yr Eglwys Gatholig yn colli ei gafael yma am fod cenhadaeth y Protestaniaid yn ymyl?"

"Dim. Dim o gwbl. Nid oes ganddynt yr un dylanwad. Dim yw dim."

"Eithaf da. Fe adawn y testun hwn. Beth yw'ch barn chi am y pwnc cenedlaethol yn Llydaw?"

"Y pwnc cenedlaethol yn Llydaw? Yn Llydaw? Beth? Beth sydd yn eich meddwl? Llydaw? Darn o Ffrainc yw Llydaw. Yn Ffrainc y mae Llydaw. Yn Ffrainc yr ydym ni yma. *Voyons!*

"Nid ydych chi'n Llydaw'r, ynteu?"

"Fi'n Llydaŵr? Ydwyf. Paham nad ydwyf i? Llydaŵr? Ydwyf. Yr wyf yn Llydaŵr ac yn Ffrancwr. Yr wyf yn bob un o'r ddau."

"Ond, a ydych yn teimlo eich bod yn rhywbeth gwahanol i'r Ffrancwyr yn gyffredin?"

"Yn wahanol i'r Ffrancwyr? Onid Ffrancwyr ydym?"

"Wel, a fyddwch yn darllen llyfrau yn eich iaith eich hun, weithiau?"

"Yn y Llydaweg? I beth? Na byddaf i. Pam? Pam yr ydych am imi wneuthur hynny? Pa les sydd o hynny?"

"Onid oes ynoch duedd at hynny? A fyddwch chwi heb deimlo bod hynny'n ddyletswydd arnoch?"

"Na, 'rwy'n gofyn ichwi, i beth? Pam y gofynnwch gennyf ddarllen Llydaweg?"

"Eisiau teimlo oedd arnaf, eich bod yn cymryd diddordeb ynddi. Ac y mae'n ddyletswydd arnoch. Eich iaith chwi ydyw."

"Ond, i ba ddiben? A minnau yn ei gwybod hi? A minnau yn ei siarad hi? Pa ddiben? A phob llyfr sydd arnaf ei eisiau ar ddiwinyddiaeth, ac ar ddiwylliant i'w gael yn Ffrangeg? Pa les? Heblaw hynny, nid oes nemor lyfr o ddim o werth i'w gael yn y Llydaweg."

"Gwir. Ac am hynny y dylech chwi ddarllen eich iaith, a'i noddi. Fyddwch chwi ddim yn darllen y 'Feiz ha Breiz' neu 'Buhez Breiz'?"

<sup>1</sup> Yn llythrennol, "Ffydd a Llydaw", "Buchedd Llydaw", sef dau o'r prif gylchgronau.

"'Buhez Breiz!' Beth yw 'Buhez Breiz'?" Ni chlywais sôn amdano! Beth yw e?"

"Cylchgrawn ydyw, sydd yn cael ei gynnal gan arweinyddion bywyd Llydaw, gan ddynion fel Mocaer, y Golygydd, M. Gros, Le Berre, Dr. Picquenard, Gourvil, Le Moal a llawer o rai eraill."

"Na. Ni wyddwn i ddim amdano. Clywais sôn am 'Feiz ha Breiz.' Ond ni byddaf i fyth yn ei ddarllen. Pa raid imi ddarllen pethau felly? Darllen rhyw bapurau plwyf!"

"Nid papur plwyf mohono, chwarae teg iddo. Ac fe ddylech chwi ei ddarllen, ac ysgrifennu iddo. Y mae llyfrau Llydewig yn brin? Ydynt. Ac am hynny y dylech chwi eu prynu, a'u darllen. Am hynny y dylech ysgrifennu eich hun. Felly y ceir rhagor ohonynt, ac y cewch lenyddiaeth dda."

"Nid wyf i'n honni bod gennyf ddim i'w drosglwyddo i lawr ar fy ôl. Ac ni wela ddiben mewn darllen papurau plwyf a beirdd plwyf. Yr wyf yn gwybod am y 'Barzaz Breiz,' ac wedi ei ddarllen. Ond i ba amcan darllen beirdd plwyf?"

"A glywsoch chwi son am Daldir ac am Berthou a Jean Calloc'h?"

"Taldir? Do. Y mae Taldir, yn wir, yn fardd da. Ond Berthou? Calloc'h? Na: ni wn i ddim amdanynt. Fe wn am Le Moal, ond ysgrifennu i blant y mae ef. Ac i ba les darllen pethau felly?"

"Dylech ddarllen Berthou a Challoc'h, o leiaf. Y maent hwy'n llawn cystal beirdd a Thaldir, ac, fe

ddichon, yn well. Ac ni byddai darllen Le Moal yn ddim drwg ichwi, ar brydiau."

"Ond ysgrifennu straeon y mae ef. Nid wyf i'n darllen pethau wedi eu dychmygu. Rhowch ffethiau i mi. Ni wnaif i ddim â ffirwyth dychmyg."

"Syniad hen feirdd Cymru am lenyddiaeth i'r dim! Ni byddwch yn darllen Dumas, ynteu, na Balzac, na Stendhal."

"Dumas? Fi'n darllen Dumas? Ni byddaf yn darllen yr un nofel. Byth! Heblaw hynny, y mae Dumas yn anfoesol. Yr ydym yn cael ein gwahardd i'w ddarllen—er bod gennyf, pe mynnwn, hawl bersonol."

"A fyddwch yn darllen Barrés, ynteu?"

"Byddaf, ambell waith. Yr wyf wedi darllen rhai o'i bethau difrif."

"Ac Anatole France?"

"Dim. Ni ddarllenais i ddim o'i waith. Y mae ef yn medru ysgrifennu'n dda. Ond nofelau ydyw'r cwbl a ysgrifenna."

"Renan, ynteu? Dyna ddyn a ysgrifennodd ar ffethiau ichwi!"

"Renan? Renan wedi ysgrifennu ar ffethiau? Renan? Ag yntau yn gwadu dwyfoldeb Crist? Gan bwyll! Gan bwyll bach! Ac nid oes gennym hawl i'w ddarllen ef."

"Nid ydych yn darllen dim, ynteu, ond gweithiau offeiriad?"

"Nid gwir hynny, ychwaith. Byddaf yn darllen

llyfrau ar hanes. Darllenaf bapur neu ddau bob dydd, a darllen dau neu dri o gylchgronau."

"Pa bapur a ddarllenwch fwyaf?"

"'L'Action Française.' Dyna'r papur gorau y gwn i amdano."

"Chwi'n darllen 'L'Action Française'? Ai ie?"

"Pam? Beth sydd allan o'i le yn hynny? Yr wyf yn cyfrif mai Maurras ydyw ysgrifennwr gorau'r genhedlaeth hon. A'r gorau bron yn holl hanes Ffrainc."

"Wele ni yn ymyl bod o'r un farn o'r diwedd. Campus! Ond anffyddiwr ydyw Maurras."

"Ie, mi wn. Ond ni bydd fyth yn sôn gair am hynny, nac yn ei lyfrau nac yn ei ysgrifau beunyddiol. Heblaw hynny, y mae'n gyfaill cywir i'r Eglwys Gatholig."

"Ydyw: yn unig am iddo dybio mai hynny ydyw budd Ffrainc."

"Efallai. Ond 'rwy'n meddwl ei fod yn grefyddol yn y gwraidd. Y mae gwaelod crefyddol iddo. Ac am ei fam a fu farw'n ddiweddar, yr oedd hi yn santes."

"Oedd, y mae'n debyg. Ond nid yw ef."

"Na, nid yn hollol. Ond, nid hwyrach na ddau yntau'n ôl i'r Eglwys cyn y diwedd. Dyna'r duedd ar hyn o bryd. Felly Bourget sydd weithian yn Gatholig da. Bydd Maurras yr un fath, fe gewch weled."<sup>1</sup>

"Pa rai o lyfrau Maurras a ddarllenasoch?"

"'L'Avenir de l'Intelligence.'"

<sup>1</sup> Erbyn hyn y mae Maurras, a holl fudiad yr "Action Française," wedi eu condemnio gan y Pab ei hun, er, mi dybiaf, am resymau gwleidyddol yn y bôn.



"Dyna lyfr ardderchog. Un o'i rai gorau, yn ddiau. A ddarllenasoch rai o'i lyfrau eraill—*Enquête sur la Monarchie, Les Trois Idées Politiques, Kiel et Tanger, Anthinea?*"

"Naddo. 'Rwy'n meddwl mai *L'Avenir de l'Intelligence* ydyw'r unig un a ddarllenasais i."

"Beth am Baul Bourget eto? A ydych yn ei ddarllen ef?"

"Dim ond nofelau y mae yntau yn eu hysgrifennu."

"Wel, nage. Ysgrifennodd rai ar feddyleg ac ar athroniaeth."

"Do; mi wn. Ond ni ddarllenasais i ddim ohonynt."

Ar hynny, wele'r offeiriad caredig, cwrtais, yn fy ngwahodd i'r tŷ. "Dewch i mewn," meddai, "fe ddangosaf fy llyfrau ichwi. Dewch i weled fy llyfrgell."

Aeth rhagddo yn ei flaen, a pheri i minnau ei ddilyn. Myned i fyny'r llofft ac i mewn i ystafell helaeth, fawr. Yr oedd hi, fel y tŷ, bob rhan ohono, oddi mewn ac oddi allan, heb ôl na moeth na chyfoeth arni. Dim o'r meddalwch a'r esmwythter hwnnw a welir yn ein tai ni yng Nghymru. Dim ond muriau moelion, a pharwydydd gwyngalch. Ond yr oedd un ochr i'w ystafell yn orlawn o lyfrau. Yr oedd yno gannoedd ohonynt, a dywedyd y lleiaf. Ac yno, o flaen y ffenestr agored, fwrdd bychan, diaddurn yntau, fel pob peth oddi amgylch i'r offeiriad defosiynol hwn, ac yn cael ei guddio gan lyfrau a phapurau ysgrifennu.

"Dyma'r lle yr wyf yn gweithio. Dyma'r llyfrau sydd gennyf. Gweithiais yn galed wrthynt. Bum

chwe blynedd yn myfyrio ym Mharis, a chesglais lawer ohonynt yno. Deuthum ar draws cyfran dda ar y cei o bob ymyl i'r Seine. Dewch i weled. Y mae gennyf un ystafell fechan eto, hithau yn llawn ohonynt."

Agorodd ddrws diddestl yn ymyl congl gyfagos. Ac agorai ar rŵm gul, hir, hithau wedyn yn bentwr llyfrau i fyny ei dwy ochr, a'i silffoedd geirwon moelion. Cydiodd yn rhai o'r llyfrau a'u dangos imi. Ennyd yn ddiweddarach, ac yr oeddyd yn ôl yn ei ystafell yn ddiweddarach, ac yr oeddyd yn ôl yn ei ystafell ysgrifennu. Nid ystafell ddarllen ac ysgrifennu yn unig mohoni ond ystafell gysgu hefyd. Yr oedd y gwely syml yn drefnus yn ymyl y pared gyferbyn a'r ffenestr. Ac wrth ei erchwyn yr oedd math ar allor fechan, honno yr unig beth tebyg i foethus a drud oedd yn y lle. Yr oedd hi yn lliwiog, ac yn dlôs, gyda Christ ar Groes i fyny arni, a blodau wrth law, ac yna, ar y llawr, le esmwyth i benlinio arno. Y cwbl yn ateb ei gilydd, y lle llwydaidd a'r offeiriad ffyddiog! Cynghanedd berffaith rhwng gair a gweithred, rhwng gwers pregeth a gwaith bywyd. O'r braidd nad oedd mymryn o fraw yn gafael ynof, wrth deimlo bod mor agos i sylweddau'r pethau tragwyddol. Parasai parch y plwyfolion tuag ato imi ei edmygu o'r blaen. Yr oedd ei weled yn ei gyntedd tlawd ei hun, a bod galon wrth galon ag ef, yn peri imi ryfeddu ato, a synnu. Ymddiddanai'n gyson gan sôn am ryw lyfr neu'i gilydd, a dangos y rhai oedd hoffaf ganddo. Fel y daethom drachefn at y bwrdd bach, eb ef: "Dyma'r fan lle y byddaf

yn ysgrifennu. Yma y cyfansoddaf fy mhregethau. Fe ddywedais gynnau fy mod yn gwneuthur pregeth yn Llydaweg bob Sul. Gwelwch. Dyna sydd yn yr ysgrifen hon. Hon yw'r bregeth yr wyf ar hanner ei gwneuthur erbyn y Sul nesaf."

Tynnai, wedyn, lyfr oddiyma, ac un arall o fan newydd. Agorai hwy imi, a dangos y nodau a adawai arnynt. Ac ymlaen ag ef:—

"Y mae plŷg fan hyn. Arwydd yw hynny bod yna nodyn i'w gymryd ohono. Oes. Edrychwch. Yr wyf wedi ei farcio hefyd â'r ewin. Yr wyf yn marcio felly bopeth o bwys imi. Yna plygu'r ddalen i gael gwybod ym mhle y bydd. Yn nesaf, byddaf, pan fo hynny'n gyfleus imi, yn cymryd y nodyn i lawr ar bapur ac yn ei gadw. Dyna fy null i."

A chododd i fyny, a cherdded at gwpwrdd, a'i agor. Yr oedd dwy silff ohono, o ystyllod moelion, yn llawn o'r papurau gwynion hyn. Tynnodd rai ohonynt allan, a'u dwyn hyd ataf. Eilwaith yn ei flaen ag ef.

"Fel hyn, welwch chwi. Bwriwch imi ddyfod ar draws rhywbeth ar 'haelioni,' er enghraifft: byddaf yn ei ysgrifennu i lawr ar ddeilen o bapur. Yna ei osod gyda'r nodiadau eraill ar yr un gair. Yn nesaf, plygaf bapur gwyn amdanynt. Crŷs, 'chemise' fyddaf yn galw un o'r rheini. Sylwch chwi mor gyfleus ydyw. Pryd bynnag y byddaf am bregeth ar y testun hwn neu ar ryw destun arall, fel y bydd yn rhaid imi wneuthur yma ac acw, agoraf y cwpwrdd, edrychaf am y crŷs sy'n dwyn nodion ar y pwnc

hwnnw a bydd popeth gennyf heb ddim ond taro llaw wrtho. A welwch chwi mor hwylus ydyw?"

"Gwelaf. Y mae gennych drefn iawn. Pwy fu'n eich dysgu?"

"Neb. Myfi fy hun. Wedi rhoi cynnig ar fyrrdd eraill y deuthum i weithio yn ôl hon. Arferwn gymryd nodion ar lyfrau ysgrifennu, ond ni thalai hynny ddim. Ac yr oedd yn rhaid arnaf osod mynegai yn y diwedd. 'Doedd hynny ddim yn gweithio o gwbl. Ond yn ôl y cynllun hwn, y mae popeth yn barod, ac wrth law."

"Da chwarae chwi! Nid pob dyn sydd mor ddeheuig a chwi efo'i waith. Ac y mae'n rhaid gennyf ei fod yn talu ar ei ganfed ichwi. Y mae pob gwybodaeth y byddoch mewn angen amdani yn gyfleus. Ardderchog yn wir."

Yr oeddem ar droi allan o'r ystafell pan ddywedodd.

"Arhoswch funud: Bu agos imi anghofio. Y mae gennyf ddau lyfryn neu dri yn Gymraeg. Ac yr wyf am ichwi eu gweled."

"Llyfrau Cymraeg? Sut hynny? A fuoch yn dysgu Cymraeg?"

"Nage; nid hynny. Bum i yng Nghymru. Bum yn . . . yn . . . sut y dywedwch chwi? . . . yn Aberteifi. Bum yn aros yno unwaith am ychydig amser. Ac yno y cefais y ddau lyfr hyn. Medrwn eu darllen y pryd hwnnw. Dewch inni gael gweled."

Dau lyfr gweddi, a holwyddoreg oeddynt. Aeth i geisio darllen darn ohonynt. Holai'r ystyr i minnau. Darllenais iddo gan eu cyfieithu hefyd.

"O! do. Fe fum i yn eich gwlad chwi. Y mae yno rai Catholigion i'w cael. Dim llawer—ond rhai er hynny."

"Go denau ydynt yng Nghymru. Ond beth oeddech chwi yn ei feddwl am fywyd yng Nghymru? Dyna ichwi wlad benigamp! Y wlad orau yn y byd! Beth yw eich barn chwi?"

"I chwi . . . ie . . . ie, efallai i chwi. Ond y trueni ydyw mai Protestaniaid ydych chwi. Ac am Brotestaniaeth . . ."

Ni orffennodd ei frawddeg. Yr oeddwn innau am wybod beth oedd yn rhedeg trwy ei feddwl. Neu, yn hytrach, fe'i gwyddwn eisoes. Ond yr oedd swyn imi mwyach yn ei ddadleuon anhygar, ac yn ei glywed yn mynegi ei argyhoeddiad dyfnaf a sicraf, mor ddiymod a di-dwyll, ac annhirion hyd yn oed.

"A Phrotestaniaeth? Pa gŵyn sydd gennych i'w herbyn?"

"Go brin yr hoffaf ddywedyd wrthyich. Ond, o ran hynny, dyma fo. Lle bynnag y mae Protestaniaeth, y mae anfoesoldeb mawr. Ac, yn wir ni allai fod fel arall."

"Beth? Unwaith eto? Protestaniaid yn anfoesol? Ym mhle y mae moesoldeb uwch nag yng Nghymru? Fe wyddoch cystal a minnau fod Ffrainc gyda'r mwyaf anfoesol o'r gwledydd. Y mae sôn amdani. Ac am y rheswm hwnnw y mae'n marw allan. A ei phoblogaeth yn llai bob blwyddyn."

"Gadewch imi ddywedyd wrthyich chwi. Y ddwy wlad fwyaf anfoesol yn Iwrop heddiw ydyw Lloegr

a'r Almaen,—dwy wlad Brotestannaidd. Y mae'r Almaen, hithau, yn lleihau ei phoblogaeth."

"Ydyw, weithian. Wrth reswm! Y mae bywyd yn amhosibl yno bron!"

"Yr un fath cyn y rhyfel. Nid wyf yn cofio'r rhif. Ond yr wyf yn bendant nad oedd hi'n cynyddu. Na, nid felly'n union. Y peth 'rwy'n ei feddwl ydyw bod ei chynnydd yn lleihau."

"Ni wadaf hynny. Ond bychan o beth yw at y lleihau sydd yn Ffrainc. Y mae hi'n marw yn llythrennol, a gwlad Gatholig ydyw hi."

"Ydyw. Ond pam? Oherwydd iddi beidio a bod yn Gatholig! Am y rhannau sy'n glynw wrth yr Eglwys, y maent hwy'n foesol. Ac y maent hwy ymhell o leihau. Y mae Llydaw ac Alsas yn enghraifft."

Yna, wedi munud tawel, aeth eilchwyl at y ddadl yn erbyn Protestaniaeth.

"Ni allai fod fel arall. Nid ydych yn cyffesu. Pa fodd y gall y Protestaniaid gadw eu moes yn bur? Heb gyffesu, y mae moesoldeb yn amhosibl, ac y mae diweirdeb allan o'r pwnc. Y mae mor anodd," meddai, gan bwysleisio'r geiriau olaf ag acen arbennig o bersonol.

"Nac ydyw. Fe adwaen i, o leiaf rai, sydd yn byw mor ddiwair a neb. Ni ddeallaf sut y mae cyffesu yn gymorth o gwbl. A pheth arall, nid ydyw dynion yn cyffesu eu pechodau cêl, a'u drygau anniwair."

"Dëallwch chwi y cydnabyddaf fod eithriadau. Y mae ambell un yn gryfach na'i gilydd, ac yn gallu cadw

rhag cael ei demtio. Eithriadau yw'r rheini. Ond y ddadl arall: 'Dynion heb fod yn cyffesu eu haniweirdeb?' Nac ydynt, yn wir? Myfi sydd yn gwybod. Fe rof fy ngair ichwi am hynny. . . . Ond, dyna 'rwyf yn methu'n lân a'i ddeall ydyw eich bod chwi, sydd yn balchio cymaint mewn darllen yr Efengylau, yn gwadu cyffesu. Y mae yno mewn geiriau breision. Y mae fel golau dydd."

"Cyfeirio yr ydych at eiriau Crist wrth Bedr?"

"Ie, debyg iawn! Y mae ei eiriau'n bendant. 'Ar y graig hon' meddai, ac eto 'maddeuwch bawb i'ch gilydd.'"

"Ie, beth sydd well na maddau bawb i'w gilydd. Fe allwn wneuthur hynny, bawb."

"Ond nid dyna'r ystyr ddim. Siarad â *Phedr* y mae Ef."

"O'r gorau, ynteu. Wrth Bedr, ac nid wrthych chwi. Wrth Bedr, ac nid wrth yr Offeiriaid. Onidè, wrth Bedr, ac wrth *bawb* ohonom."

"Beth sydd yn bod? Clywch eto. Yr oedd Crist yn siarad â *Phedr*, a *Phedr* yw pen yr Eglwys. Caffai ei gydnabod felly gan ei gyd-ddisgyblion. Ac felly gan y Cristionogion bore bob un, ac i lawr hyd amser *Martin Luther*. Ond aeth ei nwydau'n drech nag ef. A dechreuodd ef gamp ddrwg arall. Yr oedd byw'n ddiwair yn rhy anodd iddo. Ac yna, torrodd allan o'r Eglwys a phriodi."

"Nid anghytunaf yn llwyr a chwi, am nad wyf edmygydd o *Luther*. Cydnabyddaf mai drwg, ar y cyfan, a fu ei ddylanwad. Colled i'r byd oedd ei ddyfod

ef i rwygo'r Eglwys Gatholig. Arweiniodd i ymrysonau ac i ymraniadau diderfyn. Ac i ryfeloedd ac i greulonderau. Gyda hynny, tlododd fywyd pob gwlad a ddaeth yn *Lutheraidd*. Aeth yr Almaen, rai gororau ohoni yn arbennig, yn wlad fwy diddysg a diddiwylliant na'r un ar y cyfandir. Nid anghyffelyb fu ei ddylanwad yng Nghymru, ar y cyntaf. Ac imi, weithian, nid ydyw'r Chwyldro Ffrengig namyn y wedd wleidyddol ar chwyldro *Luther*. . . . Er gwaethaf cyfaddef cymaint a hyn, ni welaf yr un drwg bod offeiriaid yn rhydd i briodi. Ac nid oes ysgrythur nac arall i warafun hynny iddynt."

"Nac oes. Ond yr oedd yr Eglwys yn gwrthod hynny o'r dechrau. A hynny oedd ei deddf hi hyd adeg *Luther*. Ond nid peth hawdd ydyw bod yn ddiwair. Arwydd o'r anhawster hwn ydyw gwrthryfel *Luther*. A chadwodd yr Eglwys rhag gorchymyn hynny i'w hoffeiriaid yn y Dwyrain hyd heddiw. Wele ddangos ichwi mor anodd ydyw."

A dynion anniwair, felly, ynteu, oedd y pregethwyr a'r offeiriaid yr arferaswn i eu hystyried yn batrwm o'r rhinweddau cyflawn! Syniad caled imi. Diau bod peth gwreiddyn gwirionedd yn namcaniaeth *Freud* ond y mae'n anobeithiol wrth ei hystyried yn ysgogydd pennaf meddwl dyn. Gadewais y wedd honno ar y pwnc a gofyn:—

"Ond fe all offeiriad priod wneuthur ei ddyletswydd lawn cystal a chwithau? Gall wasanaethu ei blwyfolion fel chwithau?"

"Na fedr, fyth. Y mae'n annichonadwy. Dyn

caeth ydyw. Y mae ganddo wraig i edrych ar ei hôl, a phlant i'w magu. Daw'r teulu o flaen y praid. O angenrheidrwydd! Y canlyniad ydyw bod yn rhaid iddo roddi ei fryd ar drysorau daear. Y mae'n casglu golud. Y mae am adael cyfoeth i'w blant. Nid felly gyda mi. Ni bydd raid imi adael yr un ddimai i neb. Gymaint o fantais yw hynny! Eto, nid ydyw ef yn rhydd i fyned i ymweled â chleifion ac â rhai gwahanglwyfus. Yr wyf rydd, fi, i fyned fel y mynnaf. Nid oes raid peidio a myned rhag dwyn haint yn ôl i'r tŷ. Dim. Yna am ein crefydd ni, y mae pen arni. Ni byddai reswm fel arall. Nid oes cymdeithas lle na bo pen. Y mae'n amlwg hynny."

"Y mae llawer o wir yn y peth a ddywedwch. Ond, ar wahan i ddigwyddiadau eithriadol, fel gyda'r heintiau y soniwch amdanynt, fe eill ein hoffeirriad ni wasanaethu ar eu plwyfolion yn gystal a chwi. Ac, ond odid na wnant. Gweithiant yn eu canol, a chynorthwyant yn eu goleuo a'u dysgu. Wele paham y mae sefyllfa addysg yn anhraethol uwch yng Nghymru nag yn Llydaw. Yma, nid oes nemor neb a fedr ddarllen, heb sôn am fod yn oleuedig a deallus."

"Diolch i Dduw am hynny! Pa ddiben fyddai iddynt ddarllen? Da iawn na fedrant. I Dduw y byddo'r diolch, meddaf eto. Darllen yn wir! I beth? Er mwyn iddynt wastraffu eu hamser ar lyfrau diwerth ac ar bapurau yn dwyn eu pwysau o aflendid?"

"Nage ddim. Gallech chwi ddylanwadu arnynt i ymorol am lyfrau da."

"Ni byddai hynny'n ateb un diben. Darllen llyfrau drwg a wnaent yr un fath. Y rheini a arferant eu gweled ym mhobman. Wrth fynd i wyl ac i ffair, nid oes onid llyfrau drwg yn cael eu cynnig iddynt ym mhob cyfair. Aent gyda'r trê, a'r un math ar lyfrau a phapurau sothach a ddena eu sylw drachefn. Diolch i Dduw, meddaf i. Medru darllen? Na fedrant, orau'r modd."

"Dywedwch a fynnoch, fe ddylech eu dysgu i ddarllen. Yr ydych yn eu hamddifadu o'r llawenydd sydd o hynny. Y mae ganddynt yr un hawl i'r llawenydd hwnnw â chwi a mi."

"Amddifadu o lawenydd? Nac ydym ddim. Nid ydych yn amddifadu neb ond o'r peth y gwyr ei fod. Am y tyddynnwr, ni wyr ef fod llawenydd o ddarllen. Y tyddynnwr? Ni fedr ddirnad bod diddanwch mewn darllen. Dim o'r fath beth! Dyna amser iawn ydoedd hwnnw pan na ddarllenai ddim o gwbl. Yr oeddynt yn ddiddan yr adeg honno. Yr oeddynt dda. Yr oeddynt ddefosynol. Ni buont erioed mor gysurus nac erioed mor ddefosynol. I mi, y mae'n rhaid darllen er mwyn gwneuthur fy nyletswyddau. Ond y tyddynnwr? Ni wnai ddim ond drygioni iddo. Perwch iddynt ddarllen, ac fe'u gyrrwch o'r wlad i'r dinasoedd. Eto, diolch i Dduw, meddaf i, *Dieu Merci!*"

Yr oedd yn anghymodlawn ar y pwnc hwn. Byddai gystal imi geisio'i grogi a'i argyhoeddi. Ac yr oedd

*Llydaw*

yn onest, yn gywir fel pader, yn bur fel Sant. Sant? A fyddai enw mwy cymwys iddo? Ef, a dynion o'r un difrifoldeb ag ef, er eu culni, ydyw halen y ddaear. Byddwn yn ei weled yn myned o'r Eglwys i'w dŷ am saith bob bore wedi bod yno ddwyawr. A gwelwn ynddo nodweddion gorau'r gwron a gyfyd, drwy'r gras nefol, i fod yn Sant. Duwioldeb? Defosiwn? Ie: a mwy. Yr oedd o'r un defnydd drud â phrif Seintiau'r Eglwys, megis Ffrawnsys o Assisi neu Santes Teresa; a'i fawredd ef ni ddyfalwn ar ddamwain.

## IX

"Ond ni dderfydd hirddydd haf  
Dinoswyl y byd nesaf."

## GUILL AR C'HOAT

GANED dau Lydawr enwog yn Nhremel. Y naill oedd hwnnw sydd a'i enw uwchben. Y llall ydoedd Guillom Ricou. O'r un teulu yr oeddynt; a merch hynaf Ricou ydoedd mam Guill ar C'hoat. Teulu ydoedd ag athrylith ynddo, o leiaf yn ystod y ganrif ddiwethaf. Ganwyd Guillom Ricou yn y flwyddyn 1778 a bu farw yn 1848 wedi gwneuthur cryn lawer o ddaioni i'w genedl. Fe wŷr yr hen yn Nhremel am ei enw, a gwybod iddo wneuthur cerddi; ond y mae'n hollol ddieithr i'r ieuanc. Yn anffodus, canys ef ydyw Aesop Llydaw. Gwnaeth iddi hi y peth a wnaeth La Fontaine i Ffrainc. Nid ar raddfa mor eang, na chyda chymaint camp, o lawer; oherwydd nid oedd ganddo nac athrylith na hamdden La Fontaine, y mwyaf awenyddol o feirdd Ffrainc, ar unwaith y mwyaf Celtaidd ohonynt a'r mwyaf clasurol. Da y gwnaeth Ricou, er hynny. Nid cyfieithydd mohono. Nid cyfieithu Aesop neu La Fontaine, ond eu cyfaddasu i'r Llydawiaid, cyfnewid arnynt, cwtogi weithiau, ymhelaethu bryd arall. Ond y drwg am ei chwedlau ydyw na buont fyth yn boblogaidd, ac ni

ŵyr neb yn Nhremel air o un ohonynt. Nid oeddynt ar fydr rhwydd ac ni ellid eu canu. A cherddi ar gân ydyw'r rhai a ddysg y Llydaŵr. *Gwerziou a soniou* felly, a fu ei bapur newydd ef ar hyd yr oesoedd. Felly y gwasgarai newyddion o gwrr i gwrr o'i wlad. Felly y cosbai'r ferch a bechai yn erbyn ei syniad ef am haelioni a sifalri. Felly y rhybuddiai ei gydwladwyr rhag yr haint a fyddai ar ledu dros y tir.

Coll Ricou ydoedd peidio a gosod ei chwedlau yntau ar gân, fel y byddai iddynt ddyfod yn rhan o fywyd ei gymrodyr. Y maent yn gelfydd ddigynnig, yn eu ffordd, yn gryno ac yn gynnil. Dyfynnaf un ohonynt, ac un yn unig.

#### AL LOUARN HA AR MERC'HED.

*Al louarn, o tremen tost da eur serten kaer,*

*A wel kalz a merc'hed a oa o tibri ier*

*Pere a oa ive lard hag ouspen rosted mad*

*Sioul en em regalont evelse dilikat,*

*Outhei o vea dizroet,*

*Evelhen hen deuz lavaret,*

*Pegement a glemmou hag a harzadek chas*

*Ma karfen—me ober eun dra a ve ken goas*

*Evel o'c'h eus-u groet aze,*

*Ne vefen ket lezet da vale*

*Eur serten hini goz d'ezan a respontaz:*

*Loenn bossen, emezhi, te zo ifrontet bras,*

*Ni, ar pez a zo deomp, a zebr gant pilzadur,*

*Mes te a zo eul laer, dre ze out diassur.<sup>1</sup>*

<sup>1</sup> Llywarn, (llwynog) yn cerdded yn ymyl tref arbennig,

A wel lawer o ferched oedd yn bwyta ieir,

#### Guill ar C'hoat

Yna y wers:—

*Neo ket permetet deomp, a ziskoe ar fablen*  
*Impliza an traou a bere n'omp ket perc'hen.<sup>1</sup>*

Y mae'n amlwg oddiwrth yr un enghraifft hon nad ydoedd damhegion Ricou yn debyg i gerddi Llydaw. O'r braidd, gan hynny y gallent ddyfod yn boblogaidd.

Wele paham y rhagorodd Guill ar C'hoat arno. Ychydig oddi allan i Dremel y ganwyd yntau, dair blynedd yn unig cyn marw ei dad-cu. Gwneuthurwr esgidiau pren ydoedd ei dad, a gŵr y bu yn rhaid arno weithio'n galed er mwyn ennill ei fara haidd, a'i fara rhyg a gwenith. Yr oedd cenhadon o Gymru wedi cyrraedd Llydaw tua deng mlynedd cyn geni

Y rhai oedd hefyd, dew, ac, am ben hynny, wedi eu rhostio'n fad  
Yn ddistaw yn eu mwynhau eu hunain fel hyn yn fawr,

Hwynthwy, o droi'n ôl,

Fel hyn y llefarodd wrthynt:

"Pa gymaint o gwynfannau ac o lefain cwn

Pe carwn i wneuthur un peth a fai mor bur

Fel y gwnaethoch chwj yna,

Ni adewid fi i rodianna!"

Un hen ohonynt a atebodd:

"Anifail drwg," eb hi, "wyt ddigywilydd iawn.

Ni, y peth sydd inni a fwytawn gan lawenydd;

Ond ti sydd leidr, drwy hynny yr wyt ansicr.

<sup>1</sup> Nid yw i'w ganiatau inni, a ddysg y chwedl,

Ddefnyddio y peth na bom yn berchen arno!"

Yn 1825 gwerthodd Ricou 125 o'r damhegion hyn i argraffydd ym Montroulez a thair blynedd yn ôl hynny, cyhoeddodd hwnnw lawer ohonynt. Ymhen ychydig wedyn, cyfieithodd Ricou gant a hanner arall o Aesop. Yn 1910 cyhoeddodd Guill ar C'hoat gant a thirgain o'i ddamhegion gyda'i gilydd yn gyfrol fechan ddestlus, gyda llun Ricou ar y dechrau. Gelwid y gyfrol "Fablennou Troet euz a Latin en Brezonek gant G Rikou" a gwerthwyd llawer ohonynt. Nid oes nemor gopi'n aros heddiw.

ei fab, ac y mae'n debyg mai'r tad ydoedd un o Brotestaniaid cyntaf Tremel. Cafodd Guill ar C'hoat, felly, ei ddwyn i fyny yn y grefydd honno. A daeth iddo yr un brwdfrydedd o blaid y grefydd newydd, ag y geill pob mudiad ei gynhyrchu yn nyddiau ei blentyndod yn arbennig. Cenhadwr ym mhllith ei bobl ei hun a fynnai'r mab bychan fod. Cafodd ei addysg fore yn ysgol Tremel. Yna, bu'n cerdded am rai blynyddoedd ddwy waith yn yr wythnos yr holl ffordd, bymtheg milltir ohoni, oddiyno i Fontroulez (Morlaix) i ysgol uwch yno. Y mae'r orchest hon wedi ei hysgrifennu ar gof pawb yn y gymdogaeth. Fe gofia pawb mewn oedran amdani, a chyfeirio ati mewn edmygedd rhyfedd. Dywedir nad oedd ganddo onid un *wennek*, un ddimai, yn ei logell yn myned i'r daith hon, ac mai prynu ychydig fara a wnai a hi. Ac yfed dwfr oer gyda'r bara! Yna, yn ôl gorffen a'i ysgol, ymgwymerodd a'r gwaith y cysegrodd ei holl fywyd iddo. Dechreuodd ysgrifennu tan yr enw Te Lako i bapurau'r dalaith, ac yna dechreuodd bapur misol ei hun. Efô ydoedd cychwynnydd y Genhadaeth sydd gan y Protestaniaid yn Uzel, filltir ymaith o Dremel. Cododd yno ysgol i blant tlodion, amddifaid, ac adeiladu ysbyty. Byddai yn eu cadw yno, yn eu magu, ac yn eu haddysgu hyd oni byddent mewn oedran i fyw ar eu helw eu hunain, ac i wneuthur eu ffordd yn y byd. Casglai ef y plant hyn o bob goror onid oedd ganddo bedwar ugain a mwy ohonynt yn gyson. Dechreuodd genhadaeth gyffelyb yn Huelgoat, a Brest, a llawer

lle arall nes bod tua phedair-ar-ddeg ohonynt cyn ei farw. Cafodd wraig o Wyddeles i'w gynorthwyo, a dysgodd hithau Lydaweg. Yr oedd haelioni'r ddau yn ddihareb, a chlywais ddywedyd na welai ef neb mewn angen yn unman heb roddi rhyw gymaint iddo i ysgafnhau ei faich. Y canlyniad ydyw bod enw Monsieur le Coat, fel y gelwir ef, mewn bri anghyffredin gan bawb. Nid gan y Protestaniaid yn unig. Y mae'r Catholigion yn cystadlu â hwy mewn moliant iddo, ac, i ddywedyd y gwir, gan Gatholigion y clywais y canmol mwyaf arno. Yr oeddynt yn unfryd yn ei glodfori. Ac am bob rhinwedd dda,—am gymwynasgarwch, am haeloni, am unplygrwydd, ac am garu Llydaw a'r Llydaweg.

Caru Llydaw? A fu neb erioed a'i carodd yn fwy? Un oedd Duw a Llydaw iddo, a gweithio dros y naill ydoedd gweithio gyda'r llall hefyd. Y mae rhai o Brotestaniaid Tremel heb deimlo bod yn ddyletswydd arnynt weithio o blaid yr iaith yn eu cenhadaeth. Ond ânt i hwyl wrth sôn am waith eu hathro erddi, ac am ei gariad ati. "Monsieur le Coat yn caru Llydaw? Ddaliaf ichwi ei fod. Ni bu neb yn ei charu'n fwy. O! yr oedd yn ei charu. Ei gân bob amser ydoedd:

'Dalc'homp da garet hon iez'<sup>1</sup>

Iddo ef, hi ydoedd bywyd Llydaw:—

"Rag te, iez koz, eo buez Breiz"<sup>2</sup>

<sup>1</sup> Daliwn i garu ein hiaith.

<sup>2</sup> Canys ti, iaith hen, yw bywyd Llydaw.



Yr oedd wrth ei fodd yn dysgu'r iaith i'r plant." Do: fe'i dysgodd hi i'r cannoedd plant fu yn yr ysgol ganddo. Am yr ychydig y sydd yn y cwmpasoedd yn medru'r Llydaweg, yr esboniad gan amlaf, ydyw iddynt fod yn ei ysgol ef. Nid oedd lafur a arbedodd er mwyn dadblygu'r iaith, ysgrifennu llyfrau ynddi, a gwneuthur ohoni iaith lenyddol. Y mae'r cwbl o'i waith ef ei hun yn cynnwys tua deg-ar-hugain o lyfrau bychain. Ac nid llyfrau bychain, bob rhai chwaith. Nid eiddil o orchwyl cyfieithu'r Ysgrhyth-urau, ac eiddo ef y gamp honno. Fe'i cyhoeddodd yn un llyfr *Ar Bibl Santel troet en brezonnek* a hefyd, rannau ar wahan, megis *An Destamant Nevez*, *Ar pevar Aviel*, a *St. Luc*. Gwerthwyd deng mil o'r Beiblau hyn a chan' mil Testament. Ei lafur ef fu gwneuthur i Lydaw y peth a wnaeth yr Esgob Morgan i Gymru; ac er nad ydyw ei Lydaweg ef gystal a Chymraeg yr Esgob Morgan, fe erys ei waith yn waith defnyddiol, ac, o ystyried popeth, yn orchest.<sup>1</sup> Llyfrau yn egluro'r Efengyl, yn disgrifio crefydd yr Eglwys Gristionogol ydyw llawer o'i lyfrau. Y mae eraill yn ymdrin â Llydaw, â'i hanes, ac â'i llên, ac yn dysgu, bob amser, mai cenedl uchel ei bonedd ydoedd, yn tarddu o'r Celtiaid oedd unwaith a'u tiriogaethau'n ddiderfynau, ond y bu tynged yn galed wrthynt. Edrydd y datblygiadau diweddaraf, a dengys fel yr oedd ganddynt frodyr yng Nghymru,

<sup>1</sup> Dylid dywedyd i Le Gonidec, "tad" yr iaith Lydaweg, ac awdur y ddau Eiriadur Llydaweg-Ffrangeg, Ffrangeg-Llydaweg, gyfieithu'r Beibl, yntau, o ben bwy gilydd. Fe'i cyhoeddwyd yn St Brieuc yn 1866 ond ni ddaeth fyth yn boblogaidd.

yn Iwerddon, yng Nghernyw, ac yng Ngogledd yr Alban. A dysg megis cytgan i'r cwbl:

*Miromp eta gant levez  
Euz ar brezonek ar gwir iez  
Rag ni a zo bet hak a vezo  
Tud kalet Bretoned atao!*<sup>1</sup>

Cyfieithodd lyfr Bunyan: "Taith y Pererin," i Lydaweg, gan ei alw *Beac'h ar C'hristen var zu an eurusted*<sup>2</sup>. Yn 1885 dechreuodd gyhoeddi'r *Almanak Mad ar Vretoned* ac fe'u cyhoeddodd bob blwyddyn wedi hynny hyd adeg ei farw yn 1914 a gwerthu tua saith mil ohonynt yn flynyddol. Fe'u casglwyd yn gyfrolau wedyn; ac yn y cyfamser, gwnaethai un gorchwyl da arall. Gwelsai, fel yr Archddiagon Prÿs a'r Ficer Prichard yng Nghymru, yr angen am osod dysg y Beibl ar gân i'w gyd-genedl. Gwyddai'n dda hoffter y Llydaw'r at ganu, ac aeth ati i gasglu cerddi pwrpasol ac i brydyddu rhai ei hun. Ac fel y dywed yn ei ragair:—

*"Goude ma eo bet komanset an Aviel da veza prezeget en 1834 d'ar Vretouned, gant misionerien deuet en Breiz-Izel, euz bro kymri; n'euz ket bet moulet, bete vrema en hon iez levr ebet gant kantikou brezounek a zivar an Aviel. Hag evel an holl boblou ho deuz komanset*

<sup>1</sup> Glynwn, ynteu, gan lawenydd  
Wrth y Frythoneg, y wir iaith,  
Canys ni a fuom, ac a fyddwn  
Bobl galed, Brythoniaid hyd fyth.

<sup>2</sup> Baich y Cristion ar du llawenydd,

kana araog skriva, ha ma eo, evit laret, pep Breton ganet bard, e zo en hon bro kalz a doniou koz pere a dal ar boan da veza dastumet ha moulet.<sup>1</sup>

Yr oedd llyfr enwog Villemarqué, "*Barzez-Breiz*" wedi ymddangos er 1839, ond wrth rai yn unig ohonynt y rhoes ef gerddoriaeth. Yn ddiweddarach dalm mawr, cafwyd gan M. Bourgault Du Courdray, yn ôl cerdded Llydaw achlân, y "*Trente mélodies populaires de Basse-Bretagne*," hwyntwy ar ffurf tonau i'w canu gyda'r piano. Felly eto y Docteur Bullinger, ddwy flynedd yn ddiweddarach, sef yn 1883. O blith y rhain y cymerth Guill Ar C'hoat lawer o'r cerddi a gasglodd. Ond ei waith ef ei hun ydyw'r gyfran fwyaf o lawer. Yr oedd ei gasliad yn cynnwys cant o donau, ac ef ydoedd awdur trigain a chwech ohonynt. Y casgliad hwn a ddefnyddir o hyd gan y genhadaeth yn Uzel, ac nid ydyw'n debyg y disodlir ef, am flynyddoedd, beth bynnag. Dwg y casgliad yr enw, *Kanaouennou kristen reizet ha groet gant G Ar C'hoat euz Tremel, ha Toniou koz Breiz-Izel, dastumet, rakskrivet ha Melodiet gant Rev. Dr. Bullinger, euz Londrez.*<sup>2</sup>

Yn 1889 y bu hyn, a chyhoeddodd hwy gan weddio bendith Duw arnynt fel y byddent foddion i'w ogoneddu

<sup>1</sup> Wedi dechrau pregethu'r efengyl yn 1834 i'r Llydawiaid gan genhadon a ddaethai i Lydaw o fro Cymru, nid oes wedi ei argraffu. hyd heddiw yn ein hiaith, lyfr yn y byd gyda chaneuon Llydewig ar yr Efengyl. Ac, fel y bu i'r holl bobloedd ddechrau canu cyn ysgrifennu, a bod pob Llydaw'r, a[siarad felly, wedi ei eni'n fardd, y mae yn ein bro lawer o donau'n hen a dâl y boen o'u casglu a'u hargraffu."

<sup>2</sup> "Caneuon Cristionogol wedi eu golygu a'u gwneuthur gan G. Ar C'hoat o Dremel, a Thonau Hen Llydaw-Isel wedi eu casglu, a'u hadysgrifennu a'u gosod ar gân gan yr Hybarch Ddocteur Bullinger o Lundain."

Ef, ac i beri dyfod ei deyrnas. Neu, a defnyddio ei eiriau ef ei hun:—

"*Ha brema e c'houlennomp degant Doue skul he vennoz var al levr bihan-ma evit ma hello servichi en kement ma eo posubl d'he c'hloar, 'ha da zonedigez he ren.*"<sup>1</sup>

Ac nid erys i ninnau onid dymuno'n gyffelyb. Yn iaith Treger yr ysgrifennodd hwy, ac ond odid na bydd hynny yn rhwystr iddynt ddyfod yn hyglod yng ngolwg y Llydawiaid eraill. Diau y cyfyngir eu poblogrwydd i gylch cyfyng y Protestaniaid, a dyrnaid go denau ydynt hwy. Haeddant well, ac fe'u gwerthir yn aml i Gatholigion. Haeddant eu darllen gan bawb a fedr hynny, nid yn Nhreger yn unig ond yn y tair talaith arall. Dyfynnaf un ohonynt fel enghraifft o'r gelfyddyd, ac o awen yr awdur. Nid oedd y naill ddawn na'r llall yn rhyw gref ganddo, ac y mae'n rhy hoff o eiriau Ffrengig.

*Bretonned ker dimeuz ar vro-ma,  
Kemeromp levr an Aviel  
He lennomp gant an evez vrasa  
Hag e tevio Emmanuel,*

A'r gytgan, *diskan*:—

*D'hon dasprena,  
D'hon c'hennerza,  
Evit ma sentjomp ni outhan brema*

<sup>1</sup> "Ac, yn awr, gofynnwn gan Dduw daenu ei fendith ar y llyfr bychan yma, fel y gallo wasanaethu'n gymaint ag y mae modd i'w ogoniant, ac i lwyddiant ei deyrnas."

*Ha ma vezo'r Vretouned  
Euruz, joauz meurbed.*

*Ra bellaſomp ni eta hirie  
Euz ar vrasa tevalijen  
Pa zeu Jezuz-Crist, hon gwir Doue,  
Da zigas demp ar sklerijen.*

Cytgan: *D'hon dasprena, etc.*

*Ra bedfomp ar zalver beniget,  
Da zigeri demp ho'n c'halon  
Ha ganthan ni vezo pardounet,  
Deud eo d'hon c'has beteg he dron.*

Cytgan: *D'hon dasprena etc.*

*Hag eun devez brema en envou  
Ni en em gavo asamblez,  
Rag Jezuz-Krist dre he holl boaniou,  
Zo deud da rei demp levenez.<sup>1</sup>*

Cytgan: *D'hon dasprena etc.*

<sup>1</sup> Frythoniaid annwyl y fro yma  
Cymerwn lyfr yr Eſengyl.  
Darllenwn ef gyda'r gofal mwyaf  
A deued Emanuel

I'n prynu ni  
I'n nerthu ni  
Fel yr ufuddhawn iddo'n awr  
Ac y byddo'r Brythoniaid  
Lawen, ddiddan iawn.

Pellhawn ni, ynteu, heddiw  
Oddiwrth y tywyllwch mwyaf,

Cyfieithu'r Beibl i'r Llydaweg, a chanu'r cerddi hyn ydyw cyfraniad Guill ar C'hoat i gyfoethogi bywyd ei bobl. Nid ymgadwodd, serch hynny, rhag ymyrryd yng ngwleidyddiaeth ei wlad. Credai'n ddiysgog yn naioni'r Werinlywodraeth, ac y mae amryw o'i lyfrau bychain yn dadlau'n daer drosti. Dëllir hynny'n hawdd oddiwrth eu henwau—*La Marseillaise*, yn y Llydaweg a'r Ffrangeg, a'r *Katekiz-Republican*. Yr oedd pobl y bröydd hyn, braidd yn ddieithriad yn frenhinwyr, a'r offeiriaid yn anad neb. Nid felly M. le Coat, a gweithiodd fwy na nemor neb i argyhoeddi ei bobl. Pa un ai da o beth ydoedd hynny sydd bwnc arall. Gellir dywedyd cymaint a hyn o leiaf—bod trigolion Tremel a'r cwmpasoedd, fel rheol, yn werinlywodraethwyr tanbaid erbyn heddiw. Iddynt hwy, dwy blaid y sydd, plaid y brenin a phlaid y werinlywodraeth. Adlais brwydrau'r ganrif ddiwethaf ydyw'r rhain, ac y maent yn fwy llafar yn Llydaw nac oddiallan iddi. Y mae'n weddol amlwg mai oddimewn iddi hi y caiff y Werinlywodraeth ei phleidwyr cyndynaf a'r diwethaf.

Pan ddél Iesu Grist, ein gwir Dduw,  
I roddi inni y goleuni

Gweddŵn ar yr Iachawdwr bendigaid  
I agor inni ein calon  
A chanddo, fe faddeuir inni.  
Daeth i'n gyrru hyd ei orsedd.

Ac, undydd yn awr yn y nefoedd  
Ni a fyddwn gyda'n gilydd,  
Canys Iesu Grist drwy ei holl boenau  
Ddaeth i roddi in' lawenydd,

Guill ar C'hoat, ond odid, yw un o'r rhai a gyfrannodd fwyaf i beri hynny. Ond dibwys o beth ydyw wrth ochr yr orchest a wnaeth gyda chyfieithu'r Beibl a "Thaith y Pererin," casglu cerddi Llydewig, cyfansoddi rhai ei hun, a gwreiddio, yn ei bobl, barch iddynt eu hunain, a ffydd yn eu bonedd a'u hanes. O ganol y gwaith da hwn y bu farw y flwyddyn y torrodd y rhyfel mawr allan. Fe'i claddwyd ym mynwent y Catholigion yn Nhremel, mewn congl gyfagos i un o'r Eglwysi prydferthaf y sydd mewn pentref mor fach. Y mae'r bedd yno i'w weled, a bedd ei wraig, a fu farw, hithau, yn 1917, dair blynedd ar ôl ei gŵr. Carreg fechan sydd ar bob un, a'r ysgrifen sydd wrthynt yn Ffrangeg, fel pob ysgrifen arall mewn mynwent mor wledig a hon. Iawn fyddai gosod ar ei fedd ef y pennill a osododd wrth waelod ei ragair i'w gasgliad o chwedlau Ricou:

*Hon bro ger, hon iez koz,  
Da viken ni garo.  
Ha c'hoas er Baradoz  
Brezonek ni gano.<sup>1</sup>*

<sup>1</sup> Ein bro hoff, ein hiaith hen,  
Hyd fyth ni a garwn.  
Ac eto ym Mharadwys  
Brezonek a ganwn.

## X

## O DREMEL I WERLISKIN

Y MAE Guerliskin (Guerlesquin y Ffrancwr) wyth milltir neu naw i ffwrdd o Dremel, a daethwn innau i ddeall mai yno yr oedd yn byw Charles Rolland, un o feirdd Llydaw. Daeth i'm meddwl yr un penderfyniad am fyned i'w weled ag am roddi tro am Le Moal. Yr oedd naw milltir o ffordd yn bell, ac o'u cerdded yn ôl ac ym mlaen, byddent ddeunaw. Eithr, lle bo ewyllys yno y bydd ffordd hefyd.

Bore dydd Iau ydoedd hi, y chweched dydd o Orffennaf, a'r pedwerydd er pan oeddwn yn Nhremel. Y dydd cynt y cawswn yr ymddiddan diddorol â'r Offeiriad. Pan ddaeth y bore, yr oedd hwyl fawr yn y pentref. Buasai priodas yno ddydd Mercher, a gwledda a dawnsio hyd ganol nos. A thrannoeth yn ieuentid y bore yr oedd gwesteion y briodas, yn ôl y ddefod, i gyd yn y pentref, er parhau'r gyfeddach, gan fyned eto o dafarn i windŷ, nes cerdded trwy'r deg ohonynt sydd yn ffurfio hanner tai'r pentref. Yr oeddynt newydd fyned i mewn i'r unig dafarn sydd a neuadd ddawnsio ynddi pan drois i allan o Dremel. Bore tirion ydoedd, yn dwyn "haul hirlfelyn tesog" yn y wybren denau. Yr oeddwn

innau'n teimlo o ireidd-dra'r bore wrth gychwyn fy nhaith. Ym mhen y filltir gyntaf, yr oedd y Genhad-aeth, a gwelais M. le Quéré, y tad a'r mab. Dywedai'r tad wrthyf i Charles Rolland gymryd diddordeb mewn crefydd gynt, ond iddo ddatblygu'n ddiweddar-ach yn ddifater. Ond bachgen da, *un bon garçon*, ydoedd er hynny, a dymunai gael ei gofio ato. Wedi cefnu ar y ddau gyfaill hyn, yr oedd mynd ar fy nghamre, a mynd ar fy ngherdded. A'r peth hawsaf yn y byd ydoedd, rhag rhagored awyr y bore, a rhag ceined y fro. Un o'r rhai mwynaf yn Llydaw ydoedd hi, yn wastad-lefn weithiau, yn fryniog aflonydd, bryd arall, yn dlos ddigynnig bob gafael, gan amrywiaeth ei hagweddau, yn addfwynder ei gwastadeddau, yn rhywiogrwydd ei dyffrynnoedd. Un tro, dyffryn mwyngoed gyda gweirgloddiau gwair yn dirwyn rhwng y poplys bonheddig; dro wedyn, bryncyn a'i lwyn o ffynidwydd yn unig ddulas amdano. Ac, yn gweu o'r naill i'r llall, yn ymglymu'n bert am ddyfnder dól ac yn ymestyn oddiwrthi hyd y bryncyn a'i lwyn, feysydd y meillion brasaf, y gwenith hirdal, a'r ceirch sythfryd. Ac, yn nes ataf, dwy ymyl y ffordd. Yr oeddynt yn gloddiau mawr, ac arnynt wrychoedd uchel. Braidd na thybygwn nad yng Nghymru yr oeddwn. Yr un un oedd celfyddyd y cloddiau; yr un un y tŵf arnynt. Yr un rhai y derw, y cyll, yr ynn, yr ysgaw, yr helyg, a'r masarn. Yr un un, eilwaith, y tŵf hyd ymyl y clawdd, yr un glaswellt, yr un dail poethion, yr un gosod tenau ar ysgall ac eithin, banadl a mieri, o fan i fan. Yn

unig, yn y bylchau yr oedd gwahaniaeth. Nid-oedd arnynt, fel gyda'r Cymry, y ddau bawl dechau hyd yr eithaf, a'r lliardiadau'n hongian, ac yn dirwyn yn rhwydd a rhugl o bawl i bawl. Yn lle hynny, eiddilyn o ddau bric bob pen, a chlwyd, *cléd*, yn lle'r lliardiard gelfydd.

Yr oedd llawnder o amaethdai o hyd, er nad oeddynt mor dynn am ei gilydd ag yn ymyl Tremel. Nid oeddynt mor dlawd ag y disgwyliwn oddiwrth â ddarllenaswn. Clywswn ddywedyd nad oedd na glanweithdra na chymhendod yn Llydaw. Hynny sydd byth a beunydd ar enau'r Parisiaid. Ond, mor bell ag y gwelaf i, nid oes gan Ffrancwr nemor ddim i'w ddannod i Lydaŵr mewn glendid. Hyd y gellais i sylwi, y mae ffermydd Llydaw yn llawn cystal ag eiddo'r Ffrancwr yn y tiroedd o Baris i Fersái, Saint Germain a Fontainebleau. A'r un gwir eto am y ddau weithiwr. Tueddir fi i roddi llawryf i'r llafurwr yn Llydaw yn hytrach nag i hwnnw yr wyf gyfarwydd a'i weled yn Sceaux a'r cwmpasoedd. Na chamddealler fi. Nid dywedyd yr wyf bod y Llydawiaid yn bobl ry gymen. Y maent yn ddigon pell o fod felly. Nid yw adeiladwaith eu tai, na'u dull o fyw, yn caniatáu hynny. Ni eill cymhendod mawr gydfyw ag arfer sydd yn gwneuthur o gegin, gartref yn ystod y dydd, ac ystafell wely y nos.

Am yr amaethdai a welwn ar fy nhaith, yr oeddynt braidd yn ddieithriad yn gymen oddiallan. Tai go fawr a go gryf oeddynt, weithiau wedi bod yn gestyll neu'n blastai i'r uchelwyr gynt, weithiau'n dai newyddion da.

Gwelwn "dai allan" newyddion yn ddigon mynych, a thai byw gyda tho newydd wedi ei osod arnynt. Gyda phob amaethdŷ yr oedd *bern koat* yn dâs drefnus yn y gadlas, *bern foenn* hefyd, neu, yn amlach na hwy y *berchenned foenn*, tas o wair, yn gron ar lun mwdwl, gyda phawl hir, y *berchen*, yn sefyll i fyny yn ei chanol i'w chadw rhag troi, a goleddu i ryw gyfeiriad neu'i gilydd. Byddai llawer o'r tai yn wynebu'r ffordd fawr, ac yn dangos i'r teithiwr y cloc mawr, disglair felyn, gyda'i bendil gloyw, glân; ac, yn ei ymyl ef, ddodrefn lawer, yn cadw eu llonaidd llestri. Yr oedd hyn mor wir am y bythynnod bach to gwellt ag am y tyddynnod. I osod swyn mwy arnynt, byddai gwraig y tŷ, yn hên neu'n ieuanc, yn gwrio neu yn gweu ar ben y drws gan eistedd naill ai ar stôl isel, neu ar y garreg. Yr oeddynt hwy'n barod eu hymadrodd, ac yn llefaru bob gafael "*brao eo*" "*tomm eo*"<sup>1</sup>—peth yr oedd meithter y daith, a gwrês yr haul yn peri imi ei wybod yn llawn gwell na neb ohonynt. Y plant ysgol oedd yr unig fforddion, a cherddent hwy yn eu blaen yn noeth eu coesau a'u traed, gan gymryd y ddwy gloesen bren yn eu dwylo. Aent hwy i'w cau amdanynt yn yr ysgol hyd yr awr y gollyngid hwy'n rhydd y nos, i redeg adre at fugeilio'r ddwy fuwch a'r tair dafad a'r afr flewog gyda min y ffordd, neu yng nghongl y cae ŷd, neu ar y dalar ynddo. Canys yng nghonglau'r meysydd gwenith a haidd, neu ar y dalar rhwng dau gnŵd, y pawr y gwartheg yma.

<sup>1</sup> Y mae'n deg: y mae'n boeth.

Eu bugeilio hwy yw gorchwyl y plant yr hwyr, a gorchwyl y merched y dydd gyda'r gwrio a'r gweu.

Y bywyd hwn a welwn ar fy nhaith am y milltiroedd cyntaf, bywyd mor dlws gyda dyn a chyda daear, ac mor ddiwyd gyda'r naill a'r llall. Cyd-lafuriai'r ddau i weddnewid y tir, ac i'w liwio â gwedd gyfoethog, a'i gwrio yn hud hyd-ddo. Dringo yr oeddwn, y milltiroedd hynny, oni ddeuthum i bentref, ef a'i eglwys brydferth, ei mynwent amdani, a'i cholofn i hanner cant o filwyr a gwmpodd yn y rhyfel mawr.

Yn ôl troi allan ohono awn heibio gwlad noethach, a'i phridd yn dlotach. Yr oeddwn weithian yn dirwyn i fyny hyd y *Mene Bihan*, y Mynydd Bychan, ac yn tynnu tua'i ben uchaf. Cymerai'r wlad o'm deutu rith newydd. Yr oedd yn llymach ac yn noethach, ac yr oedd y cloddiau'n is ac yn llai eu maint. Dim o'r gwrychoedd tewdwf bellach, dim o'r cyll, o'r derw, ac o'r ysgaw a'r ynn. Ond helyg o hyd, a mieri, rhedyn ac eithin, banadl, blodau'r ymenyn, a bysedd y cwn. Cuddid y mynydd â'r cnwd rhedyn, i gyd yng nglâs iraidd eu hieuenctid, ac a glâs tywyllach yr eithin mân a'r banadl. Glâs ydoedd drosto. Weithiau, glâs golau y rhedyn, weithiau glâs tywyll y banadl a'r eithin. Yr oedd ei lethrau'n llyfn, heb nemor graig yn torri i'r wyneb. Nid oedd iddo ddim o ysgithredd mynyddoedd Cymru, na dim o'u gerwinder, na dim o'u mawredd danheddog. Yr oedd y glaw a'r gwyntoedd ar draws tymhorau'r cyfnodau a'r canrifoedd hirion wedi llyfnu ei lethrau, ac yr oedd ei gopa'n wastad.

Nid oedd anodd i'w ddringo, ac yr oedd yr olygfa fel y codid yn uwch yn myned yn bellach, bellach, yn brydferthach, brydferthach. Nid cwmwd neu blwyf a welech, ond bröydd ac ardaloedd, bröydd breision, ardaloedd telediw. Parai eu gweled ryw orawen rhyfedd imi, a rhyw orfoledd na wn i ba fodd ei fynegi. Ond mynegi? Nid oes mynegi arno. Rhywbeth ydoedd y gŵyr y galon ei deimlo; a rhywbeth na wŷr geiriau ei ddywedyd. Ni byddai pentyrru ansoddeiriau yn ddim namyn anaf mawr. Yn unig, digoned dywedyd imi fyned i ganu heb yn wybod imi, i lefaru'n uchel, i bregethu, os mynnwch, ac i farddoni. Rhoi'r olygfa eneiniaid arnaf, a'm hysbrydoli, mal pe ar fy ngwaethaf. Calon a natur yn eu deall ei gilydd. Cyffelybwn y wlad a ymestynnai odditanaf i honno rhwng Llangeitho a Bronant. Ac yn wir, yr oedd ragorach, heblaw bod yn newydd, yn wir wlad barddoniaeth. Yr oedd yn firwythlonach. Yr oedd ei firwythlondeb yn amlwg yn lluosowgrwydd y tyfiant i bob cwr, ac eto yn y lliw cyfoethog oedd ar ei gwedd. Yr oedd yn lās tanbaid, yn lās arbennig, nes nad yw'n rhyfedd ei alw yn lās Llydaw. Denfyn y môr ei niwloedd a'i gawodydd hyfryd i'r wlad, nes adnewyddu ei firwythlonder yn gyson. Am gopa'r mynydd, hyd yn oed, nid oedd ei yn llwm fel copäon y mynyddoedd mawr yng Nghymru. Yr oedd meysydd ŷd, a gweirgloddiau, i fyny hyd ei frig, ac yno amaethdai, er nad am y cae a'i gilydd fel ar y gwastadedd islaw. Cuddid un rhan ohono gan goedwig o binwydd. Dioer orchuddio'r

holl eangderau unwaith gan fforestydd, cyn i wyddoniaeth Rhufeiniwr, a diwyd ddyfais yr ymfudwyr o Brydain osod bwyall arnynt. Nid erys onid cyfran gyfyng ohono dan goed heddiw, ac nid oes yno ddim i'ch atgofio am hanes hên y wlad, onid yr unig faenhir uchel ar y dde cyn dechrau'r goriwaered i lawr am Werliskin.

Yr oedd gennyf dair milltir i'w brasgamu o'r lle y safai hi hyd ymyl y dref. Yno, fel ym mhob pentref yn Llydaw, clochtŷ'r Eglwys sydd gyntaf yn tynnu sylw. Safai mewn dyffryn a ymagorai i bell yn wlad aflonydd, anwastad. Tai bychain isel oedd cyn myned i mewn, a gwragedd hên yn cydeistedd o'u blaen, gan frablan eu hacennau geirwon wrth gyweirio hosanau, a'u gweu. Yn union, troi ar y chwith, ac i mewn a mi i le agored, cul ond hir. Ar ei ganol yr oedd lle llai, hwnnw a dwyres coed bychain o bob ymyl iddo, ac yn arwain i lawr hyd at golofn go gelyydd. Bu ei gweled yn destun llawenydd imi—am fod yr ysgrifen arni mewn Llydaweg. Colofn i Prosper Proux ydoedd ac arni yr oedd yr ysgrifen gyntaf mewn Llydaweg a welais er pan ddaethwn i'r wlad. Fe'i darllenais i gyd, ac yna ei chymryd i lawr. Ar y wyneb nesaf ataf, yr oedd y geiriau:—

“D'AR BREIZAD MAD  
PROSPER PROUX  
1811-1873.”

Yr oedd yr ysgrifen ar y cefn yn fanylach, ac yn rhedeg fel hyn:—

BARZ; KANAOUENNOU EUR C'HERNEVAD,  
BOMBARD KERNE.<sup>1</sup> HA KALZ A SONIOU  
ALL DISPAR; A'R MEN MAEN A ZO BET  
SAVET:

GANT E GENVROIZ.<sup>2</sup>

AN 21 A VIZ GWENGOLO, 1919.

DA ZONIOU FENTUZ, LEMM A FRAO  
A LAKO C'HOARZ EN BREIZ ATAO;<sup>3</sup>

Iawn y gwnaethai Guerliskin godi colofn i Brospier Proux, gan ei fod yn un o feirdd mwyaf Llydaw yn y ganrif o'r blaen. Fe'i ganed ym Mhoullaouen, a derbyniodd ei addysg yng Nghastell Paol (St Pol de Leon) ac yn Oriant (Lorient). Ond bu byw y bedwaredd ran o ganrif yng Ngwerliskin, lle yr oedd yn swyddog tan y llywodraeth. Ym Montroulez y bu farw, yr unfed-ar-ddeg o fis Mai, 1873. Aethai i fyw yno yn ei ddyddiau diwethaf, ac yno y bu wedyn. Bardd poblogaidd ydoedd, ac efallai, y bardd gwlad gorau a welodd Llydaw. Y mae ei awen yn ysgafn

<sup>1</sup> Kerne yw enw ar un o daleithiau Llydaw.

<sup>2</sup> "I'r Llydaw'r Mâd . . . Prosper Proux . . . Bardd: cerddi un o Gernyw, Bombard Cernyw. A llawer o Gerddi Digymar eraill, y codwyd y maen hwn: Gan ei gydwladwyr.

<sup>3</sup> Dy gerddi digrif, llym a braf  
A bair chwerthin yn Llydaw fyth.

ac yn ddoniol, ac yn peri i'r Llydawiaid, fydd naill ai yn canu ei gerddi neu yn gwrandio arnynt, wenu. Am fyned i mewn i fyd ei gydwladwyr o bob cyflwr, ni bu guro arno. *Bombard Kerne* ydyw enw un o'i weithiau gorau, a hwnnw, gyda *Telen Arvor* Brizeux, *Bepred Breizad* Luzel, *Levr al Labourer* yr Abad Guillome, ydyw'r brydyddiaeth orau a gynhyrchodd Llydaw yn ystod y ganrif ddiwethaf. Ni wybu hi greu barddoniaeth i'w gymharu a'r rhain erioed yn ei hanes, a dydd dedwydd iddi ydoedd hwnnw a esgorodd ar Brospier Proux, Fanch Luzel, August Brizeux a Joachim Guillome. Am y Bombard Kerne, dywed Luzel:—

*"Proux eo skanv, fran, distaget mad e rimou, ganet int euz an douar, c'houez al lann gante. E flemmou a zo dous, dizrouk; e virou, skoet gant eun dorn zur, n'int nep-pred ampezonet."*<sup>1</sup>

Eraill o gerddi enwocaf Proux ydyw'r rhai a alwodd ef: "Kanaou-ennou gret gant eur C'hernewad," ac y mae ynddynt y ddawn rwydd, lefn honno, yr oedd ef mor fedrus arni. Dyfynnaf ddarn o un ohonynt am ei bod, efallai gystal a dim o'i waith. Wele'r tri phennill cyntaf o *An Amzer gwechall hag an amzer breman*.<sup>2</sup>

<sup>1</sup> Ysgafn yw Proux, agored, yn trefnu'n fâd ei odlau; fe'u ganed o'r ddaear, gan ddwyn arogl eithin ynddynt. Y mae ei ergyd yn dyner a diddrwg; ei ddireidi wedi ei wneud gan law sicr, nid ydynt un pryd yn dwyn gwenwyn.

<sup>2</sup> Yr amser gynt a'r amser sydd yn awr.



*Ar bed oll, eme Yan goz, a gemer eur stum fall,  
Neus chomet var an douar mann vel ma voa guechall.  
Paourkez Yan, c'hui zo chenchet dre moc'h deut da  
c'hrisa*

*Mes ar bed a zo chomet memeuz tra, memeuz tra.*

*Goude al loar, ar stered hag an devalijen,  
Gant an heol, bep mintin, e tarz ar sklerijen,  
Barz an oabl an alc'hueder a zao en eur gana,  
Vel en amzer dremenet, memeuz tra, memeuz tra.*

*Gant e chupen erc'h skornet pa deu c'hoaz ar goan  
kri*

*Da c'hourda hon bizied ha da ruia hor fri  
An eil demeus egile, daou bried a dosta,  
Vel en amzer dremenet, memeuz tra, memeuz tra.<sup>1</sup>*

*Nid hwyrach, er hynny, nad oes yr un o gerddi  
Proux mor annwyl yng ngolwg ei gydwladwyr  
a'r Kimiad eur Zoudard iaouank,<sup>2</sup> na'r un sy'n*

<sup>1</sup> Y byd oll, ebr Yan hen, a gymer ystum drwg;  
Nid erys ar y ddaear yma fan fel yr oedd gynnu.  
Yan druan, yr y'ch chwi wedi cyfnewid drwy'ch glâsu  
Ond y byd sy'n aros, yr yn fath, yr un fath.

Wedi'r lloer, y sér a'r tywyllwch,  
Gan yr haul bob bore y tardd y goleuni;  
Yn y wybren yr ebedydd a gyfyd gan ganu  
Fel yn yr amser a fu, yr un fath, yr un fath.

Gan ei ŵn eira a rhew pan ddelo eto'r gaeaf câs  
I galedu'n bysedd, ac i ruddo'n ffroenau,  
Y naill fel y llall, dau bried fydd yn neshau  
Fel yn yr amser a fu, yr un fath, yr un fath.

<sup>2</sup> Ffarwel y Milwr Ieuanc.

ddwysach. Yno y mae ei ddigrifwch a'i ysgafnder yn rhoddi lle i deimlad dwfn, ac i atgofion tirion bore oes. Dyn sydd yma'n llefaru o helaethrwydd y galon. Y mae ei lafar yn rhydd, a'i angerdd yn ddilyffethair. Ffarwel y milwr ieuanc yn gadael ei gartref am gadlys y fyddin ydyw ei gân, a dechrau trwy adrodd fel yr oedd yn drist ei fryd gyda dyfod y dydd i adael ei deulu hoff, y lle y bu "yn gware gynt," a'i wlad dlos:—

*Ma c'haloun a zo frailled dre nerz ma enkrejou,  
Ma daoulagad entanet n'ho deuz mui a zaelou  
Deud eo zioauz! ann devez ma renkan dilezel  
Lec'h kaer ma bugaleach, ma bro gaer Breiz-Izel.<sup>1</sup>*

Yna canu'n iach i'r tŷ bychan, oedd yn gudd yn y dyffryn, a'r man glâs y chwaraeai arno'n blentyn, ac y cysgai arnô yn nhês yr hafau:—

*Keno d'id, ma zi bian, kuzet barz ann draonien,  
Tachen c'hlaz var behini, bugel e c'hoarien;  
Gwez ivin ker bodennek, eu disheol a bore,  
En pad tomder ann hanvou, e kouskenn da greiz-de.<sup>2</sup>*

<sup>1</sup> Fy nghalon sydd friw drwy gymaint fy ngofid,  
Fy nau lygad tanlyd sydd heb ddagrau mwy,  
Wedi dod yw ysywaeth y dydd y mae'n rhaid gadael  
Lle hoff fy mebyd, fy mro bert, Breiz-Izel.

<sup>2</sup> Yn iach it', fy nhŷ bychan yn gudd yn y dyffryn,  
Ddaeaen lās, yn blentyn y chwaraewn arni;  
Bren eiddew, ei gangau prydferth, lle, yng nghysgod haul y bore  
Yn ystod tes yr hafau y cysgwn ganol dydd.

Yn iach i fam a thad! Na obeithiwch mwy imi eich cynnal yn eich henaint, nac ennill ichwi fara fel y gwnaethoch chwi a mi. Yn iach ichwi. Y mae'r Gyfraith yn ddirugaredd, a'ch gadael sydd raid imi, meddai.

*Keno! Keno! mamm ha tad, bremen n'esperit mui  
E chomfe ho mab kared da harpa ho kozni,  
Evit gounid d'hoc'h bara, vel m'oc'h euz great d'ezhan,  
Al Lezen zo didruez, ho kuitaat a renkan!*<sup>1</sup>

Ffarwel yna i feddrod y plwyf, y tir santaidd lle gorwedd fy ngheraint. Ni chaf daenu'r dwfr cysegredig ar eich beddau mwy, na'm dagrau.

*Keno! bered ar barrez, douarou biniguet  
Pere a guz ma c'herent gand ar Zalver galvet,  
Da wel an Ancou klemmuz, n'inn mui war ho  
peziou  
Da skuilla dour binniget mesket gant ma daelou.*<sup>2</sup>

Cofia yna am ei riain annwyl, a dymuna ffarwel iddi hithau, "ma muia Karet, ma dousik kouant Mari,"<sup>3</sup>

<sup>1</sup> Yn iach! Yn iach! fam a thad, weithian na obeithiwch mwy Yr erys eich mab hoff i gynnal eich henaint, I ennill ichwi fara, fel y gwnaethoch iddo ef, Y Ddeddf sydd ddirugaredd, a'ch gadael sydd raid imi.

<sup>2</sup> Ffarwel, feddrod y plwyf, ddaear fendigaid A gudd fy ngheraint a alwyd gan yr Iachawdwr, I weled yr Angau cethin; ni byddaf mwy uwch eich beddau I daenu dwr bendigaid yn gymysg a'm dagrau.

<sup>3</sup> Fy annwylaf, fy Mari dyner dlos."

gan i dynged galed ddyfod i beri galar a gofid iddynt. Ni wél ef ei llygad tanbaid mwy, na'i hwyneb llawen; ni chaiff edrych ar ei dwylo gwynion, na chlywed mwy ei llais tyner yn canu ei gerddi iddo:—

*Na welin mui da lagad ker lemm ha ker laouen  
O virvi gant pljadur, en ti pa erruenn  
Da zournik gwenn ker mibin o trei ar c'har en dro,  
Da vouez flour mui na glewin o kana va gwerzo.*<sup>1</sup>

Cofia am y dyddiau dibryder gynt pan oeddynt blant yn myned i'r Eglwys, eu calonnau'n llawen, a'u meddwl yn ddi-ofalon. Y dyddiau didrai o orfoledd iddynt hwy, y dyddiau nad oedd na Deddfau na Brenhinoedd, onid un Ddeddf, deddf cariad:—

*Evid omp ne oa, neuze, Lezenou na Roue,  
N'anveemp med eul Lezen, hini ar garante.*<sup>2</sup>

Ffarwel eto Iannik, ei gyfaill gwir, cwmni y chwarae, a brawd ei galon. Ffarwel i'r gaseg felen, ma c'hazek velen, addfwyn fel oenig; hawddamor y ci annwyl, ma c'hi keaz, Mindu, ei gyfaill ffyddlon. Y mae teimlad dwys yn ei sôn am ei gaseg a'i gi, a rhyw gyffyrddiad sydd ddealladwy i'r neb a wŷr

<sup>1</sup> Ni wela mwy dy lygad tanbaid iawn a llawen Yn berwi gan ddiddanwch i'r tŷ pan ddeuwn; Dy law wen annwyl, fabinaidd, wrth droi'r olwyn wau, Dy lais mwyn, mwy ni chlywaf yn canu fy ngherddi;

<sup>2</sup> I ni nid oedd, yna, na Deddf na Brenhinoedd; Nid adnabyddem un Ddeddf, onid eiddo cariad.

garu'r creaduriaid mudion ond annwyl hyn. Un a garodd, yntau, gi, a hoffi cael ei dafod ar ei law ydoedd hwnnw a lefarodd:—

*Ne glevin ken, er menez, da chilpaden skiltruz,  
War ma dourn mui ne zantin da deod karantezuz.<sup>1</sup>*

Ffarwel yna i wrthrychau ei lawenydd, i'r llyfrau newyddion, i'r nosweithiau difyrus, i'r gwyliau ac i'r carolau, i'r cerddi hoff ac i'r *biniou*, y crwth. Gadael popeth annwyl ydoedd gadael cartref, a hynny sydd yn ei feddwl yn y pennill olaf.

*Keno kemend a garan, keno da virviken;  
Pell ouc'h a Vreiz me varvo, mantret gant an anken,  
Vel eur blantén gizidik, evid ar vro krouet,  
A renk gwenvi pe vervel, kerkent m'eo divroet.<sup>2</sup>*

Yn y gerdd hon y ceir Proux ar ei orau. Yr oedd gwaelod telynegol i'w awen; medrai gynilo wrth ei fynegi ei hun, a dewisai iaith goeth a glân am y cyfnod. Yma y mae'r cwbl hyn ar eu puraf ganddo. Nid ydoedd ef yn ddiddiwylliant fel llawer o feirdd Llydaw ei gyfnod a chyn hynny. Bu'n fyfyrwr da, ac ni pheidiodd a bod felly ar ôl gadael yr athrofa. Er ei ddysg, yr oedd ganddo, yn anad neb, y reddf

<sup>1</sup> Ni chlywaf mwy, ar fynydd, dy gyfarth elir;  
Ar fy llaw mwy ni theimlaf dy dafod cariadlawn.

<sup>2</sup> Ffarwel i gymaint ag a garaf, ffarwel hyd fyth;  
Pell o Lydaw mi farwaf i gwedi'm gwasgu gan angeu,  
Fel y pren eiddil a dyfodd yn ei fro  
Y rhaid edwi neu farw, gynted ag y'm diwladeiddir.

i fyned i galon y Llydaŵr. Ni bu neb a ddaeth ar ei ôl a feddai hon i'r un graddau. Ei meddu a bod yn gelfydd ac yn gynnil, ydoedd y tair nodwedd a wnaeth ohono ef un o'r blaenaf ymysg beirdd Llydaw. Ysgrifennodd yn yr iaith oedd gyfarwydd iddo, ac heb arfer gormod haelioni gyda benthg geiriau o'r Ffrangeg. Drwg ydoedd ei feddiannu gymaint ar brydiau gan ysgafnder gormodol Ffrancod gwaelaf ei gyfnod: Beranger a'i dlotach yntau. Yn herwydd hynny, y mae amryw o'i ganeuon yn rhai nad ellid eu rhoddi yn nwylo rhai na ddysgasant eu disgyblu eu hunain. Dyna anaf mawr Proux—anaf a'i darostwng weithiau i fod yn ddim namyn rhigymydd rhwydd penillion pendramwnwgl ac afiach. Nid oedd Proux yn unfurf gyda'i orgraff, er iddo, ar y cyfan, fod yn weddol ffyddlon i orgraff Le Gonidec. Eithr nid un diffyg o'r natur hwnnw a bair na bydd ef yn boblogaidd. Y mae eisoes; ac fe fydd. Y mae ei ddigrifwch, pan fo ddiniwed, yn un sy'n taro'r Llydawiaid i'r dim. Y maent yn llawen, hwythau, er gwaethaf y degau a lefarodd yn bendant i'r gwrthwyneb. Prawf y Llydaŵr y geill defosiwn a digrifwch gydfyned a'i gilydd yn rhwydd.

Yn union y tu ôl i'r golofn yr oedd adeilad cadarn, hên, a fuasai unwaith yn garchardŷ. Yn ymyl, yr oedd yr Eglwys gyda'i cholofn i'r bechgyn a fu farw yn y rhyfel. Bum yn ei hedrych hi, ac yr oedd yn chwith gennyf feddwl i ni yng Nghymru golli'r enwau Celtaidd a gadwai Llydaw o hyd. Yr oedd ar y garreg hon, enwau a allai'n hawdd fod gynt ar gerrig beddau yng

Nghymru, enwau fel Le Guen, Le Mat, Le Meur, Le Balc'h, Le Coant, Scouarnec, Lagadec.<sup>1</sup>

Wedyn, o ddisgyn cam neu ddau, gwelwn yr enw "Rollant Horloger" ar un o drithy oedd yno. Cerdded at y drws agored, a ddangosai'r llawr pridd oddimewn, a churo arno. Daeth i'm herbyn wraig fechan, wyneb melynddu fel Eidales, yn anghymen ei gwisg, ond yn gwenu'n garedig. Gwahoddodd fi i'r tŷ gan ddywedyd bod ei gŵr, y bardd Charles Rolland, yno. Troi ar y dde, ac i ystafell arall, hon hithau yn bridd bawlyd ei llawr, a bwrdd bychan am y drws a ni. Yno'n eistedd gan yfed coffi du, yr oedd y bardd. Ysgwyd dwylo, a chyfarch gwell i'n gilydd. Dywedais wrtho mai bachgen o Gymru oeddwn, yn ysbïo'r wlad, oherwydd fy niddordeb a'm hawydd i ddysgu'r iaith. Rhoes hynny ei feddwl yn dawel, a gwahoddodd fi i eistedd i lawr ac i wisgo fy nghap. Fy nghap? Nid oedd gennyf i y fath beth di-angenrhaid, er syndod i'r bardd. Ni chollwyd amser gyda'r glebar ofer hon, ac aed yn ddisyfyd i sôn am Lydaw, ei llên a'i chên, ei llenorion a'i phrydyddion. Buom yn sôn am Daldir a Berthou, Botrel ac Anatole le Bras, Calloc'h a Le Moal, Ar Garrek a Gourvil, ac, yn fwy na neb am Brospër Proux. Canys i Rolland, y mae Proux yn rhagori llawer ar bob bardd arall, ac ni thybïa y daw neb i'w ddisodli. Yn wir, canu fel Proux ydyw ei uchelgais ef ei hun. Iddo ef, Proux am awen; Proux am y digrifwch y mae'n rhaid i'r Llydaw'r wrtho; Proux

<sup>1</sup> Gwyn, Mad, Mawr, Balch, Caredig, Clustiog, Llygadog.

am gyrraedd y galon; Proux hefyd am danio cariad at Lydaw. Oherwydd un tanllyd ydyw Rolland. Oddiyno ei gryfder â'i wendid; oddiyno angerdd ei gerddi; oddiyno hefyd eu meithter direswm, a'u hail-adrodd anghynnïl. Nid yw'n anodd ei godi i hwyl fawr, lle byddo'n llefaru'n uchel. Dyna'r funud ichwi hoffi golwg ei ddau lygad direidus yn dygyfor o'r un direidi ag eiddo'r Athro Edward Edwards. Ni chofiwch yna am asferwch y lle, am wisg anhrefnus y bardd, am y tri phlentyn wyneb-frwnt, am yr aelwyd lychlyd, nac am y poeri cyson i gynted y llawr. Fe welwch y cwbl hyn, wrth reswm, o bydd gennyich lygaidd; ond ni bydd gennyich na'r awydd na'r duedd i feddwl dim amdanynt. Byddwch yn holi Rolland ddiddorol, neu ynteu yn ei droi'n ôl a'i wrth-ddywedyd. Digwyddais sôn wrtho am Daldir, ac o'r braidd y gellais gael ganddo ei adael wedyn. Geill Rolland drin a thrafod Taldir am oriau, am a wn i. Ni chydnebydd ynddo nemor un rhagoriaeth fel bardd. Bydd yn cydio mewn llyfr neu ddau o'i waith, ac yn eu beirniadu'n ddireol, yn bendramwnwgl. "Nid yw'n boblogaidd; ni eill fod; ni bydd byth. Y mae'n defnyddio geiriau anadnabyddus a syniadau disynnwyr bron. Nid yw "*Bro goz ma Zadou*" werth dim, heblaw nad Taldir ydyw ei thad. Ac y mae mor annoeth a chyhoeddi rhyw bentwr o bethau cwbl ddifudd." Wele farn groyw Rolland am Daldir. Proux ydyw'r unig fardd y geill ef barhau i'w glodfori. Ac y mae ystwythter ar ei dafod wrth ganmol Proux, a hwyl anarferol ar y poeri, bellter oddiwrtho. Cystal

a dim ganddo ydyw sôn amdano ef ei hun. Yr oedd y syniad imi gerdded mwy na naw milltir yn un swydd i'w weled yn ei oglais yn fawr. Nid oedd ddim na chawn i ganddo. Yr oedd yn rhaid gwneuthur coffi imi ar unwaith, a dwyn imi lond coffi o gramwyth. Cododd yntau am rai o'i gerddi ac un o'i lyfrau. Pan oedd ef allan o'r gegin ymddiddanwn â'i wraig,—ei ail wraig, y mae'n debyg. Dywedodd hi na fedrai na darllen nac ysgrifennu, na'r Llydaweg na'r Ffrangeg, ac na chawsai ddim ysgol o gwbl. Edmygai ei gŵr yn ddirfawr a gwrandawai'n geg-agored arnom yn ymgomio, gan ddirfawr ryfeddu'n hynod. Ail gychwynnodd yr ymgom yn union, canys daeth y bardd yn ôl fel yr awel. Darllenodd imi ragair Anatole le Braz i'w lyfr ei hun ar feddwod, "*Ar Vezventi*" gan ymogoneddu yn y clodfori a wnai hwnnw arno. Yna dangos ei gerddi eraill, weithiau yn erbyn rhyfel, bryd arall lawn mor benboeth a hynny o'i blaid. Dibynnai hynny'n gwbl ar ba bobl oedd yn ymladd. Yr oedd ar dân o blaid y rhyfel diwethaf, a diau iddo grafu ei gernau yn galed i gael gafael ar yr holl eiriau a bentyrriai ar yr Almaenwyr, ac ar eu Hymerawdr. Molodd Wilson am ddyfod i bleidio Ffrainc, â rhigymau cân mewn Ffrangeg a Llydaweg.

*Salut à Wilson en Bretagne* y galwodd hon, lle y cyfarch y Llywydd yn iachawdwr y Ffrancod, a dymuno hir oes iddo:—

"*Buhez hir da Wilson, Salver ar Fransijen*"<sup>1</sup>

<sup>1</sup> Hir oes i Wilson, Iachawdwr y Ffrancod.

Aeth i Frest i'w chanu, gan ei gwerthu'n ddiraffferth. Nid oedd ddim na wnaethai er mwyn Ffrainc, y dyddiau hynny. Yr oedd yn hael ei fawl i Boincairé, ac i Glemenceau. Nid oedd namyn Berlin amdani, ac yr oedd ei elynion gynt yn gyfeillion gorau weithian. Hir oes i'r cynghreiriaid, ac i'r Saeson hyd yn oed, a'r Ffrancod:—

*Bue d'ar Belj! d'ar Franz  
D'ar Russ a da Vro-Saoz  
Ag holl a bez, trec'h, dreist ar Rhin!  
Saillomp beteg Berlin.*<sup>1</sup>

Y trydydd dydd o Awst, 1914, gwnaeth gerdd, a alwodd *La Marseillaise Bretonne de 1924* yn galw'r Llydawiad i'r gâd, a'i harwyddo:—

"*Ch Rolland, Prest dont d'ar brezel*"<sup>2</sup> gan fel yr aethai'r rhyfel i'w ben. Ar y testunau hyn, a'u cyffelyb, yr ysgrifennodd yn unig yn ystod y rhyfel—a hynny bob amser gyda llawer mwy o danbeidrwydd nac o awenyddiaeth, heb sôn am gymedroldeb a doethineb. Tystiant yn dda am ei galon, ond yn gymharol wahanol am ei ben. Felly ei gerddi braidd bob un, megis *Gwerz Ernest Renan*, gyda'i syniadau

<sup>1</sup> Hir oes i'r Belgiaid, i Ffrainc  
I'r Rwsiaid ac i Brydain  
A phawb mewn buddugoliaeth hwnt i'r Rhein  
Neidiwn hyd Ferlin.

<sup>2</sup> Parod i fynd i'r rhyfel.

digyswilt; *Ar Brezel ru-vraz, La Guerre des Balkans*. Blwyddyn union cyn galw i'r drin y canodd y gerdd olaf hon, ac y mae ynddi yr un angerdd yn erbyn rhyfel ag yn y lleill o'i blaid. Yr adeg honno, gellid meddwl mai un gelyn yn unig oedd, sef Rhyfel, a bod dyfodol dynoliaeth yn ddiogel, od osgöid ef. Dyna a ddôsg ei "*Chants D'Avenir*" hefyd, megis y dengys:

*Quand nous aurons tranché la Guerre,  
Quelle autre force et quel essor!  
Nous vaincrons les maux de la Terre:  
Triomphe en Tout; c'est l'age d'or!  
Vers l'harmonie universelle  
Nous ferons merveille demain  
Pour le bonheur du Genre Humain  
Digne ainsi dans l'œuvre éternelle.*

¶ Buasai'n iechyd i Rolland ystyr peth o ddoethineb arch-amheuwyr ei gyfnod—Anatole France—ond ni wnaeth, a'r un ddysgeidiaeth yn union a geir yn ei *Les Trois Temps*. Iddo ef, yr oedd tri chyfnod: y gorffennol—cyfnod barbareidd-dra; heddiw—cyfnod anhrefn; a'r dyfodol—cyfnod cynghanedd. Gormes a dioddef a wél ef yn y cyntaf, gyda thri math ar bobl yn gyfrifol amdano—brenhinoedd, arglwyddi ac offeiriaid. Yna dyfod goleuni mwy yn yr ail gyfnod, a datblygu dyn trwy ddysg a gweriniaeth. Yma, y mae yn gyfangwbl dan ddylanwad athrawon datblygiad y ganrif ddiwethaf, a beirdd tlotaf Ffrainc, a'i

beirdd gorau, Hugo a Lamartine, pan fyddont ar eu tlotaf; ac fel pe bai'n tybio fod perffeithio yn arfaeth pethau i ddynoliaeth. O ganlyniad, y mae'r trydydd cyfnod yn sicr iddo, ac, yn hwnnw, nid oes na brenin nac arglwydd, ond yn unig y llafurwyr yn teyrnasu. Dysg fydd yn cymryd lle crefydd; cariad le disgyblaeth. Mor hawdd yw dymuno hyn i gyd, ac yna dybio ar unwaith ei ddyfod eisoes. Haws dymuno na diwygio! Tuedd Rolland yw tybio mai'r un peth yw gobeithio a gweithredu. Yn anffodus, nid felly ddim. Nid felly y bu. Nid felly y bydd, fe ymddengys. Nid prydyddu paradwys ydyw ei sylweddoli. Credodd Rolland hynny, a chyn diwedd ei gerdd yr oedd y wynfa eisoes wedi dyfod! Mor swynoll Cyn pen blwyddyn, fe welodd nad felly yr oedd, ac nad oedd ei ddymuniad ef wedi cyfnewid dim ar y ffaith greulon galed mai drwg yw dyn. Aeth yntau at ei ddiwygio y waith hon trwy ryfel. Pa sawl gwaith y twyllwyd Hugo a Lamartine yn yr un modd? Eithr nid gan Rolland y mae ymorol am egwyddorion sefydlu cymdeithas. Disgybl cyfundrefnau fel a ffôl Fourier a Marx ydyw. Enillasant ei galon, gan ddallu ei lygaid yr un pryd. Dyna'r perygl sydd barod i lynu wrth bawb ohonom. Beth oedd ddigrifach—ie, dristach—na'i glywed yn dywedyd, y dylid rhoddi i bob dyn berffaith rhyddid. Rhyddid at ddaioni; rhyddid at ddygioni! Felly y drygodd Rousseau ei feddwl ei hun. Am y rheswm hwn, torrodd Rolland allan o'r Eglwys Gatholig, a chladdodd ei wraig gyntaf gyda'r Protestaniaid. Priododd yr

ail, nid yn yr Eglwys, ond yn swyddfa'r wladwriaeth, ac y mae ei bum plentyn yn aros heb eu bedyddio. Yn ôl gair yn Llydaw, y bedydd ydyw'r unig wahaniaeth rhwng dyn ac anifail. Ac aeth Rolland at yr offeiriad i ddywedyd wrtho bod ei blant ef, er heb eu bedydd, yn medru llefaru. Nid oeddynt anifeiliaid wedi'r cyfan!

Ceir y syniadau hyn drosodd a throsodd yng ngwaith Rolland ac heb gynildeb nac ymatal, nac iaith findlos na chelfyddyd manwl. Ni fedrai eu torri allan am mai ei blant ef oeddynt. Mewn gair, diffyg mawr Rolland ydyw na fedr ei feirniadu ei hun. Nid oes ganddo'r amynedd na'r ddawn i orffen cerdd. Y maent bob amser fel mwdwl, heb ben arno.

Canodd lawer, ac i bob math ar destun braidd. Canmol gweriniaeth a heddwch y byddai gan amlaf, a dyludo ar offeiriad, ac arglwydd a brenin. Canai ei gerddi ei hun ar ben ffair i bob cyfeiriad cyn y rhyfel, â'u gwerthu. Gwerthodd fwy fyth yn ystod y pedair blynedd hynny, ond nid ennill iddo ydoedd barddoni yn Ffrangeg. Nid ysgolhaig mohono; a dywedai hynny ar ei ganeuon yn yr iaith ddieithr. Cofier mai torrwr cerrig ydoedd ei dad, ac na chafodd yntau nemor ddim addysg ag eithrio mymryn ym Montroulez. Sut y daeth yn fardd ynteu? Yr oedd mam ganddo, ac er na fedrai nac ysgrifennu na darllen, yr oedd ugeiniau o faledi a cherddi ar ei chof. Canai hwy wrth siglo'r crud, ac wrth baratoi cinio a golchi llestri. Canai hwy wrth fedi yn y maes, wrth wau, ac wrth wnio. Yn y crud hwn y siglwyd ei mab i

ganu. Aeth am bedair blynedd a hanner ar y môr, a bu hynny yn ddisgyblaeth iddo. Yno'n ddiau, y dysgwyd ef i garu Llydaw. Oblegid er mai Sosialydd ydyw, ni bu hynny yn ddigon i foedro ei ben yn lân, ac ni cholodd ei gariad naturiol at ei wlad ei hun. Y mae'n fwy cadarn ar y pwnc hwn nac ar un arall. Y mae o'i gof yn erbyn y difaterwch sydd yn merwino'r Llydawiaid. O'i anfodd y gwél hwy'n marweiddio, yn lle ysgwyd llwch sy'n rhydu amdanynt. "Beth yw'ch barn am y *Breiz Atao*, ynteu?" meddwn wrtho. "Iawn. Ond y mae'n rhy ddiweddar. Y mae'n rhy ddiweddar! Ydych chi'n meddwl y gwna Llydaw fel Iwerddon? Na wna ddim. Na wna fyth." Ac nid oedd gyfnewid arno. Gweled y Llydawiaid yn gadael eu moesau a'u harferion, eu gwisgoedd a'u hiaith, yr oedd ym mhobman. Ac ni fynnai obeithio er ei waethaf. Nid oeddwn innau am droi ymaith oddiwrtho heb ei gysuro ar y pen hwn. Ni wn a lwyddais. Euthum o'r diwedd i'm ffordd, a throdd yntau at gyweirio'r degau clociau oedd yno'n disgwyl wrtho. Dywedais mai cyweiriwr clociau ydyw ef, ac eithaf prin y mae ei grefft yn ennill iddo ddigon i ddwyn i fyny ei dŷaid plant. Wrth ei adael, gadael yr oeddwn y math hwnnw ar fardd Llydewig sy'n prinhanu'n gyflym. Hen fardd iawn, un o deulu'r glêr gynt; bardd Llydaw y ganrif o'r blaen ar ei orau. Disgybl cywir i Brospier Proux ei hun.

Heblaw'r manion a enwais o'r blaen y mae ef yn awdur amryw o bethau manylach a meithach. Ef ac Ar Garrek a roes *Ar Pevar Mab Emon* ar gân.

Drama mewn pedair act ydyw, a chwaraeid weithiau cyn y rhyfel. Ef biau'r drydedd act, ac Ar Garrek y ddwy gyntaf, a'r olaf. Drama arall o'i eiddo ydyw *Ar Vezventi*. At y rhain gellir enwi *Kaniri neve Bro Vreiz; An Dud a Iliz; Ar Votadegou; Da Gornic Ducheme; Da Fanch Luzel*. Bu unwaith yn daer yn erbyn meddwdod, gelyn mawr ei genedl. Erbyn heddiw, y mae yntau wedi ei drechu gan y gelyn cenedlaethol, ac y mae gan seidir ormod blŷs iddo. Un bai ydyw hwn ar ddyn y mae'n iawn inni ei ganmol yn hael, am ei gariad at ei bobl, am ei awen a'i angerdd, am ei galon agored, a'i lafurio'n galed yn erbyn amgylchiadau durfing. Beirniader a fynner arno, ond nid heb gofio y beichiau y bu yn eu dwyn. Hawdd canfod gwall yn ei gerddi. Y maent yn sefyll, er hynny, yn waith mynwes gynnes. Ynddynt y mae'n curo'n waedlawn gyfran o orau Llydaw, a gorau ei gwerin wâr. Nid oes yr un ohonynt yn rhagori ar y *Paotr Breiz*; ac am honno y mae'n werth dyfynnu rhai penillion ohoni o leiaf. Wele:—

*En eul lann vraz, war lein ar mene  
En gwarez an ivin, ar fo,  
Dirag an avel, hag an arne  
En kornic eul lochen kolo  
Ia, eno, tud keaz, 'n eur gwele kaled  
E tridaz ma c'halon o tond war ar bed,  
Ia, eno, 'on bet ganet,  
Luskellet ha maget.*

*Eno 'meuz sonj mad, pa oan bugel,  
Meuz bet aliez tom ha ien,  
Gwisket fall, divotou, diskabel  
Renken mond en dro vel peb den,  
Ma, eno tud keaz, en kreiz ma zruillou  
Ma c'halon lampe o redek ar parkou,  
Ia, eno, me'n em gare  
En kreiz ma faourente.<sup>1</sup>*

Edrydd hanes y bywyd agored hwn gydag angerdd un a fu yn ei fyw bob mymryn ohono. Felly dri phennill arall, ac yna diwedda gyda dau ddiddorol wedyn:—

*Me c'houlen achui ma deiou  
Pa na vin ken mad da netra  
Eno, pell pell deuz trouz ar c'heriou,  
Ha brazoni ar bed paour-ma*

<sup>1</sup> Mewn eithin bras, ar gopa'r mynydd  
Yng nghysgod y pren, ar ffo  
O flaen yr awel a'r dymestl  
Yng nghongl y caban gwellt,  
Ie, yno, dud annwyl, mewn gwely caled  
Y curodd fy nghalon wrth ddod i'r byd  
Ie yno, y ganed fi,  
Y'm siglwyd, y'm maged.

Yno y bu i'm freuddwyd fâd, pan o'wn blentyn,  
Y bu i'm fynych dwym ac oer,  
Y'm gwisged yn wael, yn droednoeth, bennoeth,  
Dewis mynd am dro fel pob dyn,  
Os yno, dud hoff, yng nghanol fy ngharpiau  
Fy nghalon lamai o redeg y Percydd,  
Ie, yno mi ymhoiffwn  
Yng nghanol fy nhlodi.



*Eno c'hoaz tud keaz, lec'h ma ren bepred  
Gant gizioù hon zadou an evurusted,  
Ar peoc'h ha ar garante  
Em bro ar baourente!<sup>1</sup>*

*Brema, tud keaz, o pa vin galvet  
Da vond lec'h eo eat hon zud koz  
Grit, 'n han Doue, ma vin douaret  
En bered vihan ar barro!z  
Eno c'hoaz e lec'h drido ma c'halon  
O klevet biniou ar mesaer o son  
Han an holl meuziou karet  
Deuz ma Bro binniget<sup>2</sup>*

<sup>1</sup> Mi geisiaf ddiweddu fy nyddiau  
Pan na byddwyf dda i ddim  
Ym mhell, bell, oddiwrth dwrf y trefi  
A gadael y byd tlawd yma,  
Yno, mae mwy o dud hoff, lle teyrnasa beunydd,  
Gydag arferion ein tadau, ddedwyddwch  
Heddwch a thirionwch  
Ym mro tlodi.

<sup>2</sup> Yn awr, dud hoff, O pan elwir fi  
I fynd i'r lle aeth ein tud hen,  
Perwch yn enw Duw fy naearu  
Ym meddrod bychan y plwyf!  
Yno, eto, lle cura fy nghalon,  
O glywed biniw bugail yn swnio  
Enw yr holl leisiau hoff  
Yn fy Mro fendigaid.

"A darllen llawer sydd flinder i'r cnawd."

## GWERTHU LLYFRAU YN LLYDAW

WEDI imi ddeall bod M. le Queré, cludydd Beiblau'r Genhadaeth Brotestannaidd yn ymyl Tremel, yn cerdded y wlad gan werthu Beiblau a cherddi a Thestamentau, awyddwn yn fawr gael ganddo fodloni imi fyned yn gwmni iddo ar un o'r teithiau hyn. Bodlonodd yntau, a phenodi'r Dydd Gwener cyntaf at y gwaith. Yr oedd hynny yn fy nharo i'r dim. Codais yn fore, a cherdded i dŷ'r Cludydd ymhell cyn ei fod yn barod. Am ddeg o'r gloch yr oeddem ar ben y ffordd. Yr oeddwn i yn ddilyffethair fy ngwala, ond yr oedd ef â baich o lyfrau ar ei gefn, yn Destamentau Llydewig, ac yn Bedair Efengyl a'r Actau mewn Ffrangeg. Yr oedd ganddo hefyd dair cerdd wedi eu gosod ar un ddalen. I werthu'r rhain, i bregethu'r Efengyl, "i ddwyn y bobl i'r goleuni," fel y dywedai, yr aem ein dau y bore-ddydd hwnnw. Yr oedd cyfeiriad y daith wedi ei dewis ymlaen llaw. Doeth ydoedd myned i'r lleoedd nad ymwelsai a hwy ers ysbaid hir. Ac i dueddau'r Mene Bihan a ni. Cerddasom ryw ddwy filltir o wlad anwastad, dlôs, heb gynnig llyfr i neb, na phregethu, na myned i dŷ ond yn unig ymddiddan â'n gilydd am ein rhagolygon. Wedi

dringo'n galed, daethom i fan yr oedd darn glâs o dir i'r dde inni, gyda chamfa i fyned i mewn iddo, a phinwydd yn ei harddu. Trwy eu dail cyson, gwelem gapel, un o'r Capeli hynny sydd ddigon mynych yn Llydaw ac y cynefina'r ymwelydd â hwy yn fuan iawn. Nid temlau ydynt i fyned i addoli ar y Sul. I'r Eglwysi y rhoed yr oruchafiaeth honno. Yn hytrach, lleoedd cysegredig ydynt i ymweled â hwy unwaith mewn blwyddyn, ac i gynnal gwyliau ynddynt ac o'u cwmpas. Byddant wedi eu codi i un o'r Seintiau sydd bron yn ddirifedi yn Llydaw, ac yn dwyn ei enw. Capel St. Laurens ydoedd hwn, ond yr oedd, fel llawer eraill, wedi dadfeilio'n druenus. Trwy ddiffyg gofal yr offeiriaid, i raddau, y mae amryw ohonynt yn syrthio, nes bod, weithiau, yn ddim namyn hen olion murddyn. Aethom i mewn iddo gan ei gael yntau'n llawn tlotach ei gyflwr oddimewn nag oddiallan. "Rown i'n dweyd wrthyf chwi, eu bod yn ofergoelus. Y maent yn addoli'r Sant hwn, er bod yr Ysgrythur yn bendant. 'Na wna iti dduwiau eraill ond myfi. Na wna iti ddelw gerfiedig.' Ond y maent hwy yn addoli'r Sant hwn." Fel hyn y dywedai fy nghyfaill wrthyf gan bydru trin y Llydawiaid. Pobl oeddynt iddo ef yn byw'n llwyr yn y tywyllwch, heb wybod am y goleuni yr oedd ef yn ei feddiannu. Aeth a mi ymlaen at yr allor, a dangos y twll odditani, lle y dylid cerdded ar ben glin er mwyn iachau o ddolur yn y cefn. Dywedodd gwraig fy llety wrthyf y nos honno iddi hi benlinio felly tan yr allor. Ac yr oedd hi weithian mor syth

a'r saeth! Troisom allan o'r capel, y cludydd yn parhau o hyd i ryfeddu at ddallineb ei gydwladwyr.

Yn union tu hwnt yr oedd ffynnon, oedd hithau'n meddu meddyginiaeth at yr un clefyd. Ynddi yr oedd geneth ieuanc, wedi dyfod a dillad y cartref i'w golchi. Oherwydd, mewn ffynhonnau ac afonydd dyfroedd y golchir pob dilledyn yn Llydaw, yr un fath ag yn Ffrainc, a'u golchi'n gannaid lân hefyd. Aethom ati hi i sôn wrthi am yr Efengyl. Dywedodd wrthym fod yr offeiriad yn cadw iddo ei hun yr arian a dderbynai at edrych ar ôl y capel, ac mai hynny a gyfrifai am ei ddadfeilio. Tynnodd M. le Queré lyfr neu ddau allan, ond yr oedd yr eneth wedi prynu Testament Newydd o'r blaen. Holais a fedrai ddarllen Llydaweg, a mynegodd y gallai. Er hynny, mynnodd fy nghyfaill ddarllen rhan o'r Efengyl iddi, a sôn wrthi am farw Crist, ac am ei aberth er ein mwyn. Dwy neu dair o'r adnodau cyntaf o'r bumed bennod o Fathew a ddarllenodd, a darllenais innau'r rhai sy'n dilyn. Wele hwy fel y'u darlennasom gan eistedd ar ymyl y ffynnon, yn efengylwyr gwlad efengylaidd:—

1. *Hogen o oueled an holl bobl-ze, hen a biniaz var ur menez; hag o veza azezet, e zisgibien a dostoaiz outan:*
2. *Hag o tigeri e c'henou, e kelenez anezei, en eul lavaroud,*
3. *Eurus ar re baour er spered: rag rouantelez an envou a zo dezei.*

4. *Eurus ar re oueil; rag hei a vezo consolet.*
5. *Eurus ar re gun: rag hei a herito an douar.*
6. *Eurus ar reo deus naoun ha sec'hed eus ar justis: rag hei a vezo rassaziet.*
7. *Eurus ar re trugarezus: rag hei a gavo trugarez.*
8. *Eurus ar re bur a galon: rag hei a ouelo Doue.*
9. *Eurus ar bec'herien: rag hei a vezo galvet bugale Doue.*

I ddiweddu, canodd ef un o'i gerddi. Ei dad ydoedd ei hawdur, ac, yn ôl a gredai ef, hi oedd y fwyaf poblogaidd o'r tair oedd ganddo. Gelwid hi: "*Chanson an Efer guin*," a chân yn erbyn y "peth yfed" ydoedd. Cynhwysai bymtheg o benillion pedair llinell, yn adrodd hanes yr yfwr gwin. Nid oedd arni gelfyddyd yn y byd, na chreffft, na dawn. Eithr adroddai hanes ar gân, a hynny ydoedd yr unig ragoriaeth a feddai. Sef oedd yr hanes hwnnw, am "*ar potr yaouank*"—y mab ieuanc—oedd yn byw'n gysurus, efô, a'i dad a'i chwaer. Un dydd, cyferfydd a gŵr bonheddig yn cynnig iddo dri amod er mwyn ymgyfoethogi'n anferth ac yn ebrwydd. Y cyntaf ydoedd lladd ei dad, yr ail, taro ei chwaer, a'r trydydd, yfed gwin, a *gouin mad*<sup>1</sup> hefyd. Ei ddewis iddo, a dyfod *pinvik dispar*<sup>2</sup>. Gwrthyd y mab ieuanc y ddau gyntaf gyda dirmyg ond *evit kaout ho harhant*, er cael yr arian, bodlona yfed y gwin. Ac yfed, oni thristaodd ei dad, a thynnu dagrau i'w ddau lygad tyner. Diwedd y gyfranc ydyw i'r bachgen guro'i

<sup>1</sup> Gwin da.

<sup>2</sup> Cyfoethog ddigymar.

dad a'i fwrw'n farw, taro yn anhrugarog y chwaer oedd annwyl ganddo gynt, a'i ddwyn yntau i'r carchar. Dyna gyfle'r awdur, ac fe'i defnyddia:—

*Brema tadou ha mamou, pere sav bugale,  
Disket dei ho fedennou, reit d'ei komzou Doue,  
Grit d'hei lenn an Aviel, guir denzor ar furnez,  
Ha guillotin Breiz Izel, na grenno den james.*

*Ar gwin, hag ar gwin ardant, goust arc'hant hag  
aour,  
Hag e rent an den mechant hag ar familiou paour,  
Eun den meo a zo noazuz d'he vreg d'he vugale  
Hag eun den goal danjirus atao e pep contre.*<sup>1</sup>

Felly yr oedd y gerdd ar unwaith yn erbyn y gwin a wna gymaint o ddifrod yn Llydaw, ac o blaid yr Efengyl. Nid oedd dim ynddi nad allai Catholic ei ganu, yntau, canys nid yw'r Efengyl eiddo Protestant yn fwy na'r Catholig. Nid oedd M. le Queré yn rhyw gerddor gwych iawn, ac yr oedd ei ganu yn rhyfeddol o undonog. Yr oedd mynych leisio yn yr awyr agored wedi erlid y rhyw gymaint o felyster<sup>2</sup> a allai fod ganddo. Ond<sup>3</sup> yr oedd yn

<sup>1</sup> Yn awr dadau a mamau, a gyfyd blant, Dysgwch iddynt eu paderau, rhoch iddynt air Duw, Perwch iddynt ddarllen yr Efengyl, gwir drysor doethineb, A chroc'bren Llydaw ni ladd neb fyth.

Fe gyst gwin a brandi arian ac aur,  
A gwnant ddyn yn ddrwg, a theuluoedd yn dlawd,  
Y mae dyn meddw'n niwed i'w wraig a'i blant,  
A cyn ddyn drygionus, peryglus, beunydd ym mhob gwlad.

ddwys gan ddwyster dyn yn teimlo mai eiddo ef y goleuni, bob mymryn ohono. Wedi myned trwy'r gân, paciodd ei lyfrau'n ôl eilwaith yn ei ysgrepan du, ac ymaith a ni oddiwrth y ffynnon a'r eneth oedd ar ei gliniau'n golchi.

Ganllath i ffwrdd, yr oedd tŷ, a gwraig yng nghanol ei phum plentyn yn *ober stann*, yn gwnio,—ar garreg y drws. Soniodd Le Queré wrthi am y Crist a groeshoeliwyd er ein mwyn, ac am y prynu a wnaeth arnom. Gwrandawai hi'n ddistaw, a gwibiai'r plant o'i chylch, gan neidio i ben y mur oedd yno, ac ymaffonyddu'n gyson megis haid o rai gwylltion. Yr oeddynt yn eiddigus am lyfr, ac yn llon wrth glywed sôn am y cerddi. Canodd yntau hanes yr yfwr gwin er dirfawr ddigrifwch iddynt, a boddhad. Bodlonodd y fam brynu'r Efengyl yn y Ffrangeg. Paham? Am na fedrai hi na'r plant ddim darllen o gwbl yn eu hiaith eu hunain!

Buom amser cyn dyfod i'r tŷ nesaf. Yr oeddem wedi cymryd lôn gul, oedd a dau glawdd anferth amdani, ac a barai imi gofio am rai o "wtregydd" Sir Drefaldwyn. Yr oedd oriau er y bore, a ninnau ag awydd i fwyd arnom. Gwyddai fy nghyd-gerddwr am amaethdŷ y ffordd honno, ac yno yr aethom. Yr oedd y gŵr a'r wraig, y ddau'n gymharol ieuanc, wrth eu cinio ar y pryd, ac fe'n gwahoddwyd i mewn heb godi o'u lle. Hwylodd y wraig i ferwi llaeth inni, a chawsom bob un lond bowlen ohono yn y man, gyda bara gwenith a rhŷg ddigon, ac ymenyn da. Am y gŵr, buasai ef, yn iau, yn ysgol M. le Coat yn Uzel,

a dysgodd ddarllen ei iaith ei hun yno. Gadawsai'r ysgol wedyn, a myned yn ôl at y Catholigion. Ni welai fawr ddiben mewn cyffesu, ond nid oedd amcan chwaith, meddai, i dorri ymaith oddiwrth ei Eglwys ag yntau yn gystal Cristion yno ag oddiallan. Adwaenai Le Queré yn dda, a chyd-y addeddant fel brodyr heb ddadlau dim, na dannod eu ffydd i'w gilydd. Yna, wedi ciniawa, cydymuno i ganu. Canwyd pob un o'r tair cân oedd gennym, honno i'r yfwr gwin yn gyntaf, a'r ddwy arall wedyn, y naill i *Iez ar Breton*,<sup>1</sup> a'r llall, *Kentellion ar Verred*.<sup>2</sup> Canu i'r bedd oedd yr olaf, gan ddysgu, fel Ieuan Fardd:—

Y bedd yw diwedd y dyn  
A dirfawr yw ei derfyn.

Yno y mae'r ffel unwedd a'r ffôl, y cefnog fel y cardotyn, bob un:—

*E gorff breman d'ar prenved.*<sup>3</sup>

y tlawd a'r un pridd amdano ag am y pendefig:

*Douar a bep tu d'ezan  
Evel ar Rouane  
Douar a zo dindan-han,  
Ha douar var c'horre.*<sup>4</sup>

<sup>1</sup> Iaith y Brython. <sup>2</sup> Gwersi y Beddrod. <sup>3</sup> Ei gorff weithian i'r pryfed.

<sup>4</sup> Daear o bob tu iddo  
Hafal i'r Brenhinoedd  
Daear sydd odditano  
A daear oddiarno.

Cydraddoldeb creulon y bedd—dyna destun y bardd, ac yn hynny yr ymfodlonai. Am y llall, cân yn canmol iaith y Llydaw'r ydyw, weithiau yn Ffrangeg, weithiau yn Llydaweg, bob yn ail linell, megis:—

*Ar brezonnek a zo eur iez,  
Qui touche le coeur des Bretonnes.*

A diweddu gyda thri phennill pedair llinell yn y Llydaweg, a'r rheini'n gorlifo o'r cariad ati a losgai yng nghalon M. le Coat:—

*Iez brezonnek, iez beniget  
Aboe pell zo komzet n'hon c'hreiz  
Na vezi ket c'hoaz douaret  
Gant holl enebourien breiz.<sup>1</sup>*

Gellid gwaeth na dyfynnu'r pennill nesaf ato:—

*En keit ma pado da vein galet,  
Da wez dero koz, da warimou,  
Te choumo stard he za, bepret,  
Rag te, iez koz, eo iez ho bro.<sup>2</sup>*

<sup>1</sup> Iaith frythoneg, iaith fendigaid  
Er ymbell y'i llefarid yn ein plith  
Ni bydd eto dy ddaearu  
Gan holl elynion Llydaw.

<sup>2</sup> Cyhyd ag y byddo dy fain celyd,  
Dy wydd derw hên, dy ffriddoedd  
Tŷ arbosi yn gadarn bob pryd  
Can's ti, iaith hên, yw iaith ein bro.

Buom awr a hanner, neu fwy, yn eistedd gyda'n gilydd, gan ganu ac ymddiddan. Wedi talu firanc a hanner yr un, am y llaeth a'r bara a'r ymenyn, troisom oddiyno gan ddiolch i'r ddeuddyn dda. Yr oeddem eilwaith ar ein cerdded, ac eilwaith yn dringo ymylon y Mene Bihan, oni ddaethom i fferm a'r domen dail yn gywir o flaen y drws. Ac arni hi yr oedd merch, afuniaidd ei dillad o angenrheidrwydd, yn llanw'r tail i gart. Ac o bob llanw ar dail, y llanw mwyaf clogyrnaidd a wn i amdano ydyw hwnnw a welir yn Llydaw. Llenwir nid gyda fforch neu bicwarch, eithr â chramp, a'i bedwar pig yn camu'n ôl atoch. Anfynych iawn y bydd gennych lond eich *bach*, fel y gelwir yr offeryn hwn yn Leon, am y bydd wedi colli cyn cyrraedd y gart. Gwaith caled ydyw llanw dom ar y gorau; ond, i ferch, gydag offeryn mor ddi-afael, y mae'n rhaid ei fod yn llethol. Yr oedd hithau wrthi'n ddygn, onid oedd ei dwyfoch yn rhuddgochion. O'r braidd y codai ei phen i edrych arnom, ac i'n hysbysu y medrai ddarllen Llydaweg. Cafodd ei hepgor, canys, ar hynny, daeth ei mam yno, yn glebar i gyd, gyda genau a wnaed i rywbeth heblaw cnoi bwyd yn unig. Holai ni fel un am wybod holl hanes y cread. Pa oed oeddwn i? Ai ugain, ai mwy? Ai priod, a'i dibriod? Bodlonais hi gyda'm hatebion; ac yna yr oedd yn prysuro i gynnig ei merch imi, nes bod honno'n gochach nag o'r blaen. Ond odid na byddai'n dda ganddi gael ei llyncu gan y domen. Lluniais ateb y bodlonwn, od oedd hynny yn ei swyno gymaint,

er mai aniogel o beth fyddai imi ddewis neb allan o'm cenedl fy hun, a hynny heb wybod dim amdani! Nid cyn mynd a ni trwy'r greadigaeth, y llonyddodd i wrando sôn am yr Efengyl; ac, wedyn, i arbed gwrando'n hwy ar bwnc mor anniddorol a hwnnw, cytunodd brynu'r Testament. Gadawsom hi a'i thafod rhydd, ac yna, gwneuthur am dyddyn bychan arall, oedd wrth law. Ac i'r drws daeth y ferch, yn llipa ei phryd, ac yn llwydaidd ei philyn. Ni fedrai hi ddarllen mewn unrhyw iaith. Ei mam a hithau oedd yn byw yno'n unig, ac ni fedrai'r fam fwy na'r ferch. Rhibyn hir o gerdded yna, a thynnu ar i fyny'n ddiwyd cyn cyrraedd y lle nesaf. "*Tud 20?*"<sup>1</sup> meddai Le Queré ar garreg y drws, gan gychwyn ei ffordd i mewn cyn gorffen y ddeuair. Annifyr o dŷ ydoedd, a gwraig ddiddannedd yn magu baban yn ymyl yr aelwyd lawn lludw. Aeth yr efenglydd rhagddo'n ebrwydd i sôn wrthi am y Crist a fu, yntau'n faban, ac a fu dlawd fel ei heiddo hi. Gwrandawai gan siglo'r plentyn yn ei chofl, a chodi arnom lygaid gofidus a draethai wae dynoliaeth, a'i chyflwr diamddiffyn hi. Darllenwyd iddi hanes geni Iesu Grist, a cheisiwyd ei chysuro. Ni fedrai ddarllen, ac ofer oedd cynnig Beibl iddi. Gwnai ymgeledd lês mwy o lawer iddi. Yn drist ninnau, ac yn siomedig, fe'i gadawsom, gan gyfeirio at ddau dŷ arall oedd yno'n cydio bron wrth ei thŷ hi. Yno yr oedd dwy wraig ganol oed ar eu gliniau yn glanhau rhychiau moron a ffa. Gyda hynny, daeth dwy arall yno, hwy'n iau

<sup>1</sup> A oes rhywun yma?

o'r hanner, yn gymaint llŷn llawenydd a'u cymdoges yn llŷn gofid, ac wedi byw y ddwy ym Mharis. Yno yr oedd un o hyd yn forwyn mewn lletŷ, ac yn gweithio oriau meithion iawn, o'i choelio. Ni fedrai ddarllen Llydaweg, ac nid oedd ganddi hamdden ym mywyd diwyd y Brifddinas. Dywedodd wrthyf fod myfyrwyr yn lletŷa yn y lle y gwasnaethai hi, a bod un o Brydain yn eu plith. Am y ferch arall, fe fedrai hi ddarllen ychydig, ac, o'r diwedd, bodlonodd brynu un o'n llyfrau. Canodd Le Queré, wedyn, ddwy o'r cerddi crefyddol, ac yr oedd hynny wrth fodd y merched. Chwarddent yn iach, a dywedyd:—

"Beth pe gwelsai'r offeiriad ni!"

"Pam, beth sydd allan o'i le?"

"Ni byddai'n fodlon, wrth reswm. Byddai o'i go' weled y llyfrau hyn gennym."

"Na fyddai!"

"Byddai, byddai. Ni byddai hynny wrth ei fodd, o gwbl."

"Na hidiwch ddim. Ni wna ddim niwed ichwi."

"O, na wna. Ond. . . ."

Wedi gadael ymddiddan dibaid y merched, a'u chwerthin minfalch, mindlws, disgynasom i lawr trwy gaeau erw a dau erw, oni ddaethom i'r tŷ nesaf. Yr un holi, "*Tud 20?*" a'r un gweiddi, "*Entrez.*" Ac i mewn a ni i'r gegin hon oedd yr un fath a phob cegin arall, ac wedi ei haddurno'n hynod o unwedd. Yno, yn ymyl y pentan, yr oedd gwraig fawr daliadaidd, a phlentyn bach yn ei chofl hithau eto. Magu plant ydyw gwaith yr hen wragedd

a'r rhai canol oed yn Llydaw—magu plant eraill, sydd, am eu bod yn ieuainc, yn gorfod llafurio ar y meysydd. Ar ôl blynyddoedd o'r gweithio hwnnw yn yr agored, daw eu hamser hwythau i fagu plant pobl eraill, tra bydd y rheini, yn eu tro, yn gweithio allan gyda'r haul. Cafodd hithau eto glywed yr un "newyddion da," fel y galwai'r pregethwr hwy y waith hon. Newyddion da, yn wir, oedd arni hi eu heisiau, canys cwynai rhag offeiriad na fedyddiai ei phlant am nad âi hi i'r Eglwys. A myned i'r Eglwys oedd bron yn annichonadwy iddi gan fel y pwysai ei gwaith arni, ac fel yr oedd yn fawr ei thlodi. Bu unwaith, pan oedd yn meithrin ei phlant, mor dlawd oni bu orfod arni gardota bara. Ni fedrai ddarllen, ac, wrth reswm, nid oedd lyfr yn ei thŷ, mwy nag yn un tŷ arall y buom ynddo.

Cefnasom arni, gan barhau disgyn trwy'r caeau culion, a heibio i goeden ryfedd, yr oedd ei thri gwreiddyn wedi tyfu i fyny'n dynn am garreg enfawr, cyn ffurfio'r boncyff, ac ymuno o hynny hyd y cangau. Buan o waith ydoedd cuddio'r ddaear i lawr y goriwaered hwnnw, a chyraeddasom mewn munudau byrion i'r fferm nesaf. Yr oedd yn bedwar o'r gloch, ac yr oedd y "*tud a zo*" yno bob un am y bwrdd. Yr oedd dau ddyn yn yfed eu coffi cryf, a'u hatiau tolciog, liw'r mwswm, am eu pennau, eu cylllyll poced yn eu dwylo yn torri'r tocynnau bara bob yn ail a'i guddio ag ymenyn, a'i godi i'r genau. Tŷ oedd hwnnw eto, â'i lonaid o blant, a'r ieuengaf ohonynt ym mreichiau ei fam. Gwahoddyd ni i eistedd ar y

ddwy fainc, ac agorodd Le Queré ei enau i draethu ei neges, i bwysleisio gwirionedd oedd gynefin iddo erbyn hyn. Rhoddent hwythau glust iddo, heb yngan gair yn ôl, ond ambell "*Ya . . . ha, ya*" a "*Ma*" amhersain fel y gallai geneuau'n llawn bara a chaws eu gwneuthur. Cai'r dorth a'r ymenyn fwy o sylw na'r pregethwr am y deng munud cyntaf; ond, yn ôl gorffen â'r rheini, a chau eu cylllyll, a'u gosod yng ngwaelod eu llogell, cafodd yntau sylw, heb amau ar ddim a ddywedai. Dim namyn syllu ym myw ei lygaid, gan synnu clywed am greulonder Herod, ac am dlodi'r Mab bach, ac am ei ddianc i'r Aifft. Cystal ganddynt y stori honno ag un ar a glywsant; a'r modd o fynegi hynny ydoedd cymell yr un dorth a'r ymenyn i'n sylw ninnau. A sylw a gafodd, a chan ei gael, ei gael, 'rwy'n meddwl, yn hael. Eu tro hwy, bellach, ydoedd adrodd stori, ac am inni fod mor ymadroddus, buont hwythau yr awrhon. Hanes y caeau, a'r twf oedd ynddynt, a gawsom, os nad eu henwau hyd yn oed.

O ganol yr adrodd hwn, y bu inni ymadael, heb werthu'r un llyfr, na chanu yr un gân, na llwyddo i ddim ond peri synnu ein gwrandawyr â hanes marw Un na chlywsant iddo fod yn wael, chwedl y bugail hên hwnnw o'r Berwyn. Dringo a fu wedyn, led deg neu ragor o'r eiddilod caeau, a cherdded drachefn tros lônnydd dyfnion, culion. Yr oeddem ar le go unig a diarffordd pan welsom gaeau maip a gwenithdu ar y bronnau ymhell. Tuag yno a ninnau, a gweled merch yn bugeilio'r gwartheg, *diwall ar saout*,

ac yn gwnio'n gyson yn ymyl y tŷ. Nid oedd neb yn y tŷ, na neb yn y buarth. Yr oedd y drws wedi ei gloi, ac yr oedd ei mam a'i chwaer allan yn plannu'r *kol glas*, yr *irvin* a'r *betraives* ar gae serth i fyny dipyn oddiwrth y tŷ. Aethom yn ein blaen hyd atynt, a hawdd oedd deall mai gwir a lefarai'r fam nad oedd amser i ddarllen. Tair oedd yno o ferched, ac yr oeddnt bob un yn gorfod gweithio yn y pridd coch. Bu farw'r gŵr o'i glwyf yn y rhyfel, ond yr oedd un o'r ddwy ferch yn briod er mai deunaw oed ydoedd. Ni fedrai hi na'r un ohonynt ddarllen onid y Ffrangeg, a phrynasant gopi o'r Efengylau. Eu prynu er ein mwyn ni, oblegid yr oedd yn amlwg nad yn rhwydd iawn y gellid cael hamdden i'w hedrych. Efallai y cai'r gŵr ieuanc, canys yr oedd ef ag elfen darllen ynddo hefyd, a dysgasai ddarllen Llydaweg ohono ei hun.

Meddwl yr oeddwn i wrth droi oddiwrth y merched hyn mor galed oedd bywyd iddynt. Ar eu gliniau'n teneuo maip, neu yn eu plŷg yn plannu bresych oriau meithion Mai a Mehefin, ac yna troi, yr hwyr llwyd dywyll, i'w tŷ digysur, didrefn. Hynny, ddydd ar ôl dydd, wythnos wedi wythnos. Haf a gaeaf, caledwaith y bore, caledwaith yr hwyr. Hawdd sôn am ddrygfyd merched yn y Canrifoedd Canol, ond nid oes ddim a brawf ei fod yn waeth nag a welir heddiw. Os nad iawn i'r rhain fwynhau eu Sul, a mynd i'w Gŵyl, yna nid er mwyn dyn y gwnaed y Sabath, ond dyn er mwyn y Sabath.

I ffwrdd a ni tros lwybr cerbyd oedd yn tynnu'n gam am ochr y ffriddoedd. Yr oedd gwlad o weir-

gloddiau, o nentydd aml, a gweunydd, yn ymagor islaw inni, a ffermydd a ffriddoedd, a meysydd a meillion yn britho ei godreion. Pellhau oddiwrthi yr oeddym ni, a pharhau i ddringo'n uwch. Yn niwedd y dringo hwnnw, daethom i ddau dyddyn oedd eto'n elino wrth ei gilydd. Wynebai cefnau'r tai tuag atom, ac ymddangosent yn ddiraen ddigynnig. Oddiyno yr oedd yr olwg orau arnynt, o beth ofnadwy. Pan gyraeddasom i'r buarth, gwelsom anhrefn fwy ddwywaith, ac afterwch digyfelyb. Yr oedd yr holl le'n domennydd tail hyd nad oedd ddiogel sengi ond fel iar ar wyau. Daeth dwy fenyw i'r golwg yn fuan, y ddwy yn gymharol ieuanc, a'r ddwy am yr hacraf ac am y butraf, fel pe bai gamp mewn cystadleuaeth aflendid. Dywedodd un na fedrai ddarllen, a'r llall na fynnai. A oedd raid iddynt ddywedyd cymaint a hynny? Llefarai eu diwyg mor huawdl a dim.

Ni buom hwyrffrydig i gyfeirio am y ffordd fawr. Yr oedd ymhell yn y dydd, a ninnau ymhell o dref. Cyfeirio mwyach, gan hynny, tua Thremel, a gosod ein traed yn y tir. Adroddai'r cyfaill wrthyf beth o'i brofiad yn ystod y bedwaredd ran o ganrif y bu ef yn gwerthu Beiblau. Yr oedd rhagfarn yn ei erbyn ef a'i gyd-grefyddwyr ar y cyntaf, a digwyddodd unwaith neu ddwy i'r bobl awgrymu mai diawliaid oeddnt, a bod cyrn am eu pen—peth a allwn ei ddeall yn ddiraferth wedi gweled hanes cyffelyb am y Crynwyr yng Nghymru yn Hunangofiant Richard Davis, Cloddiau Cochion. Yr oedd ambell offeiriad yn gyndyn yn eu gwrthwynebu, ac yn peri i'w blwyf



beidio a phrynu llyfrau ganddynt. Eithr un yn unig a welodd yn gas wrtho ef ei hun. Aethai ddydd-gwaith i ynys y tu hwnt i Frest, ac yno, yn ôl ei arfer, i dŷ yr offeiriad. "A brynwch chwi lyfr gennyf?" ebr ef wrtho.

"Pa lyfr sydd gennyf?" ebr yr offeiriad.

"Yr Efengyl a'r Beibl."

"Chwi a'ch Beibl! 'Does gennyf ddim hawl i'w werthu. Nid yw eich Beibl yn Feibl iawn."

"O'r gorau! Dangoswch i mi ym mhle y mae ar gam. Nodwch un anaf ynddo."

"O, nid oes gennyf amser at hynny."

"Fe rof wythnos i chwi, a byddaf yn falch iawn os gellwch ddangos un gwall. Cewch bythefnos, os mynnwch. Fe adawaf Feibl ichwi, ac fe ddeuaf yma ymhen pythefnos."

"Allan a chwi. Nid oes gennyf amser i foddran a chwi. Ymaith a chwi, ac o'r Ynys hefyd. Onidê, fe'ch erlidiaf chwi oddiyma."

"Fe âf i maes. Ond y mae gennyf yr un hawl a chwithau i fod yn yr Ynys."

Aeth o dŷ'r offeiriad heb fod ddim gwaeth, a pharhaodd ei waith yn yr Ynys, oni ddewisodd ei gadael ohono ei hun.

Hwn oedd yr unig offeiriad a welodd ef yn galed eto. A hynny, er y byddai'n myned i dai pawb ohonynt ble bynnag y teithiai. Byddent, er hynny, yn annog eu praidd i beidio a phrynu llyfrau ganddo. Digwyddodd, dro arall, i un ohonynt, wedi prynu Beibl ganddo, ei rwygo'n ddarnau mân yng ngwydd

y gwerthwr a'r bobl a dyrrai amdano, er dangos iddynt ddyfined ei ddigofaint. Hynny ydoedd y cyfan o'r gwrthwynebiad a brofodd, ac nid oedd olion ohono'n aros wedi'r rhyfel diwethaf. Yr oeddynt, weithian, yn hawddgar, ac yn dirion, a gwelodd un o leiaf, yn garedig flynyddoedd maith yn ôl. Yn ymyl Brest yr oedd y waith honno eto, ac wedi myned i dŷ'r offeiriad. Nid oedd i mewn ar hynny o bryd, a phan ddaeth, yr oedd M. le Queré ar werthu Beibl i'w chwaer-yng-nghyfraith. Cyfarch gwell i'r gŵr dieithr, a gofyn iddo ba neges oedd ganddo, a pha werthu llyfrau a oedd arno.

"Beiblau a'r Pedair Efengyl."

"Rhowch weled un imi."

"Cewch yn y man. Dyma Feibl ichwi."

"Dros y Protestaniaid yr ydych yn eu gwerthu?"

"Ie. Yr wyf yn Gludydd Beiblau iddynt."

"Dowch i mewn, ynteu, i'm hystafell. Dowch. Fe ymddiddanwn â'n gilydd."

"Na: dim diolch. Yr wyf am fynd yn union deg."

"Nid ewch chwi ddim. Y mae'n rhaid ichwi giniawa gyda mi, heddiw."

Ofer yr ymbiliodd yntau. Ciniawa ynghyd oedd raid, ac ymddiddan yn hawddgar a wnaethant. Nid aeth oddiyno heb gael ei groesawu'n gynnes i alw gydag ef bob tro y digwyddai ddyfod i'r ardal. Ac felly y bu hyd heddiw. Y mae'r cludydd ac yntau ar delerau ardderchog. Felly hefyd âg offeiriad Tremel. Hafal i hynny lawer eraill. A fyddai ein pregethwyr ni a'n hoffeiriad gwbl gyn addfwyned? Tueddwn fy

*Llydaw*

holi fy hun yn ddiwyd y diwedydd hwnnw. A'r un modd, laweroedd o weithiau wedyn. Nid hawdd i Eglwys sydd ben mewn gwlad, a wreiddiodd yn ddwfn yno, gan ganghennu'n gadeiriog, a blodeuo a ffrwytho, oddef dyfod un arall i elino am le yn serch y bobl. Buom yn rhy barod o lawer i gondemnio cyndynrwydd y Catholigion. Wedi'r cyfan, onid prawf o'u difrifwch?

## XII

"Bywyd yw fy unig lyfr i."  
—MUSSOLINI.

## TRO ARALL GYDA'R GWERTHWR BEIBLAU

Yr oedd bod yng nghwmni'r Gwerthwr Beiblau yn ddiddorol imi, am iddo fod wrth y gwaith hwnnw am amser mor faith, ac am fod cerdded y wlad gydag ef yn gyfle heb ei ail i weled y bobl fel y maent, nid yn y trefi mawr a'r dinasoedd, ond ym mherfedd y wlad, ac yn eu cartrefi. Hon ydoedd y ffordd orau o ddigon, ac yn wir, yr unig un i wybod eu cyflwr, a chael deall pa ddiwylliant a ffynnai yn eu plith—os un o gwbl. Siomedig ydoedd i'r eithaf fel y dengys hanes y dydd cyntaf. Yr oedd profiad y cyfaill ar hyd y blynyddoedd wedi dangos iddo mai yr yn fath ydoedd dros y wlad bwy gilydd. Buasai'n ddiweddar ym Mhont l'Abbe yn y de, ac o'r cant namyn chwech o lyfrau a werthodd, pedwar yn unig oedd mewn Llydaweg. O'r gwerthu a wnaeth yn y ffair fawr ar ben y Mene Bre, yr oedd deugain llyfr Ffrengig, ond tri neu bedwar Llydewig.

Yr oeddwn i'n awyddus iawn am fyned unwaith yn rhagor, er cael gweled ai yr un fath ydoedd mewn cyfeiriad gwahanol. Syrthiodd ein coelbren ar Blouaret y dydd hwnnw. Gwyddwn yn dda mai yno y ganed Luzel, ac o fyned yno, y cawn ar unwaith weled ei golofn a'r tŷ y ganed ef ynddo. Ardderchog! Lladd dau aderyn â'r un garreg!

Yr ydoedd yn un o'r dyddiau tesog, digwmwl hynny a geir weithiau ym Mehefin a Gorffennaf yn Llydaw. Dygai'r wlad amdo hŷd, a mi'n gyrru'r march haearn am yr orsaf i Blounerin. Gyda'r gair, yr oedd Le Queré yntau yno, a chawsom y trŷn i'n dwyn ar amrantiad i Blouaret, hi'n wlad hardd fwyn-dlos yn hytrach nag yn llawn rhamant mynyddoedd a rhaeadrau. Cerddasom tan y tŷ cynnes hyd y pentref sydd ryw bum can llath i fyny, ar le uchel, fel y mwyafrif o'r trefi a'r pentrefi yn Llydaw. Y mae lle agored eang ar ganol y pentref, ac yno y mae'r Eglwys yn ei chelfyddyd Othig orwych yn arglwyddiaethu ar y tai gwynion, tlysiion, gyda cherrig ystlysau eu drysau a'u ffenestri megis du perffaith yn gweu'n swynol am wŷn y gweddill. Ar y dde, cyn cyrraedd hyd ati, y mae colofn hardd i'r bechgyn aml a fu farw yn y rhyfel, a'r ysgrifen arni bob tamaid mewn Ffrangeg. Yn nes at yr Eglwys, dan gysgod dwyres o goed deiliog gwelwn y golofn i Luzel. Un gron ydyw, loywddu, ddisglair, gyda delw o'i ben arni. Euthum i ati a chodi'r ysgrifen oedd arni, ac eisteddodd fy nghyfaill ar y fainc yn ymyl, i ymgomio â'r ddeuddyn ysmala oedd yno eisoes yn trin eu diogi. Egluro iddynt baham y copiwn yr ysgrifen yr oedd ef, a dywedyd bod yn annwyl gennyf Lydaw a'i hiaith. Wele ysgrifen y wyneb:—

“FRANÇOIS MARIE LUZEL.  
NÉ À PLOUARET, LE 6 JUIN, 1821.  
DÉCÉDÉ À QUIMPER, LE 25 FÉVRIER, 1895.”

A honno i'r dde:—

“CE MONUMENT LUI A ÉTÉ ÉRIGÉ SUR  
L'INITIATIVE DES BLEUS DE BRETAGNE  
PAR LES BRETONS RECONNAISSANTS, LE  
2 SEPT., 1906.

Ar y cefn:—

“BEPRED BREIZAD,” (enw un o'i lyfrau).

Ac i'r chwith:—

“GUERZIOU BREIZ IZEL: SONIOU BREIZ  
IZEL: LÉGENDES CHRÉTIENNES ET  
CONTES POPULAIRES DE LA BASSE  
BRETAGNE: SAINTE TRIPHYNE ET LE  
ROI ARTHUR. LA VIE DE SAINTE  
GWENOLE.”

Euthum oddiwrthi am ennyd, i ymofyn am ei llŷn, a llŷn yr Eglwys, a'r golofn arall. Holais hefyd ba ffordd a'n harweiniai i'r lle y ganed Luzel ynddo. Ond nid oeddynt yn rhy sicr, nac ychwaith a oedd neb o'i deulu'n byw yn rhywle'n agos. Adwaenai Le Queré ŵr yn ymyl a weithiai gerrig beddau, ac at ddrŷs ei dŷ ef yr aethom, yn gyntaf peth. “*Tud a zo?*” ac i mewn ag ef, ar yr un anadl. Holodd y wraig am ei gŵr, a dywedodd hithau ei fod yn y gweithdŷ, a oedd yr ochr arall i'r ffordd; ac yno y gwelsom Emile Nicol, ŵr byr, cadarn, cydnerth, gydag

wyneb meddylgar, a thalcen llydan. Dyn araf ydoedd—araf ei osgo, araf ei lafar—ond yn gwybod ei feddwl ei hun, er heb fod yn rhy barod i'w fynegi. Naddu cerrig a wnai, a gwelais rai croesau llathraidd o'i waith. Meddylw'n â mi fy hun mai dyma batrwm nid annheilwng o'r penseiri hynny a gododd gestyll Llydaw, a'i heglwysi a'i chroesau, sydd bron bob rhai yn wrthrych rhyfeddod. Yr oedd delwau yno hefyd, ac fel pe bai eu cynllunydd yn gwybod meddwl Le Queré, cydiodd mewn un ohonynt a dywedyd wrtho: "Ni byddwch chwi'n gwneuthur dim â'r rhain?"

"Na byddwn," meddai yntau. "Yr ydym yn cael ein gwahardd gan ein Creawdwr: 'Na wna iti ddelw gerfiedig, na llun dim ar y sydd yn y nefoedd uchod, nac ar y ddaear isod . . .'"

Ni ddywedodd y cerflunydd ddim yn ôl, er y gwelwn ei ateb yn y wyneb penderfynol hwnnw. A'r munud nesaf yr oedd Le Queré yn tynnu fy sylw ato, gan ddywedyd ei fod yn fardd.

"Chwi'n fardd?"

"Ydwyf."

"Y mae'n dda geni glywed. A fyddwch yn prydyddu hefyd?" Cododd ei ddwy ysgwydd i fyny, fel y gwna'r Llydawiaid weithiau'n llawn cystal a'r Ffrancod. Gosgo'r corff a'i ystum yw'r ateb cyntaf yn Ffrainc bob amser, yna'r llais.

"Ydwyf. Hynny yw, pan fo amser gennyf."

"Yn wir?"

"Ydwyf. Fe rof lyfryn bychan ohonynt ichwi os mynnwch."

"Diolch yn fawr iawn. Yn llawen!"

Heb wastraffu geiriau, yr oedd yn ein harwain yn ôl i'r tŷ, ac i ystafell ddel, lân, gwbl annhebyg i'r rheini a welswn yn Nhremel, ac yn debycach i'm hatgofio am y rheini oddiallan i Baris. Eisteddasom am y bwrdd crwn, a daethpwyd a seidir yno, ac i bob un ei wydr. Yn ymddiddan yno y buom am hanner awr, bob yn ail ag edrych y casgliad cerddi a roisid imi, a'u trîn a'u trafod.

*Kanaoueno neve a fentuz, Gret gant ar Barz Tad ar Wirione (Emile Nicol), Ouz Plouaret. Kenta Levr oedd enw'r llyfryn; a chynhwysai ryw ddwsin o'r Kanaoueno hyn. Zôn gad ar Zeiz-Sant, Zôn Skeuden Luzel, Daou Devez C'hent C'houarn, Kanaoueu ar Barz, Kanaouen Nevez War sujet ar Votadek, ydoedd rhai ohonynt, a nodweddid hwy gan yr un ymatal tawel â wyneb eu hawdur. Canu i hela ac i helwyr, i ddigrifwyr ac i wleidyddion y mae. Ac y mae honno i Ervoanig ar Manac'h yn llawn meddwl tyner, a hoffter gwir at fywyd yr heliwr. Oherwydd paham, ac nid am ddawn yr awdur na'i awen y dyfynnaf bennill neu ddau:—*

*Ma mignon kez Ervoanig, nan eo brao koza,  
Koulskoude te zo chomet, demeus an dud nerssa,  
Da lagad zo bepred lem, reut ha hiz dre an hent,  
Piou rofe did Ervoanig, pemzek a triugent?*

*En toez ar chasseurien, c'hout breman ar c'hossa,  
Dalc'h mad he meuz da welet, atao ar joaussa.*

*Deus da glevet, ma c'halon, a vez laouen bepred,  
Pa gontis din hon c'hoarzin, taolio ker tremenet.*<sup>1</sup>

Ond y mae Ervoanig, weithian, wedi marw, chwith meddwl nad ydyw mwy yn bennaf gyda helwyr yr ysgyfarnog. Yr unig ysgrifen deilwng ohono weithian ydyw:—

*"Aman ew kousket en peuc'h, tad ar chasseerienn."*<sup>2</sup>

Dyna ddarn o un o gerddi'r bardd gwlad yr ymgomiem ag ef.

"A fyddwch yn canu rhai o'ch penillion mewn ffeiriau neu wyliau weithiau?"

"O, na byddaf i. Ni cherais erioed. Ond nid oes na phardwn na ffair yma na bydd canu ar un neu'i gilydd o'm caneuon."

Yna newid y chwedl.

"A welsoch chwi Luzel erioed?"

"Naddo ddim. Anaml iawn y byddai'n dod yn agos i Blouaret, a phan ddeuai, i'w gartref, sydd bellter oddiyma, yr âi."

<sup>1</sup> Fy nghyfaill hoff Ervoanig, nid yw'n braf heneiddio, Er hynny yr wyt yn aros o fysg y tud nerthaf, Dy lygad sydd bob pryd yn llym, cadarn ar yr hynt, Pwy a'th roddai, Ervoanig, bymtheg a thrigain?

Ym mlaen yr helwyr, clywi'n awr yr arogl, Beunydd fe'th welaf, bob amser y llawenaf, Wrth dy glywed, fy nghalon a fydd lawen bob pryd, Pan adroddi in gan chwerthin gampau'r dyddiau gynt.

<sup>2</sup> Yma yn cysgu mewn heddwch y mae tad yr helwyr.

Yr oedd yn gyfarwydd â Charles Rolland ac yn fawr ei fawl iddo, fel cymeriad hynod a digrif. Darllenasai rai o gerddi Prosper Proux, a chwynai rhag ysgafnder llawer ohonynt a rhag eu moesau amheus. Dywedai y byddai'n arfer gan Broux ddanfôn popeth o'i eiddo at Luzel, fel yr edrychai ef trostynt cyn eu cyhoeddi.

Aeth yn ymddiddan am yr iaith yna, ac awgrymodd Le Queré y byddai farw, nid yn fuan efallai, ond ymhen canrif neu ddwy.

"Na," ebr yntau, yn ei ffordd gynnil, "nid wyf i'n meddwl hynny."

Holais ef a fyddai'n gosod ysgrifen Lydewig ar y cerrig beddau ambell waith.

"Byddaf, o dro i dro, ond yn anfynych iawn."

"Cael eich gorchymyn? Pwy yw'r bobl a ofyn hynny gennych?"

"Nage, nid hynny. Gwneud rhai o'm dewis fy hun fyddaf."

"Ni bydd neb yn gofyn am hynny?"

"Na fydd neb, fyth."

"Trueni." Cytunai yntau, a dywedyd bod ei iaith yn annwyl yn ei olwg. Yr oedd merch iddo ym Mharis, a phlentyn ganddi. "Fe ysgrifennais benillion iddi, yn ei chymell i ddysgu'r Llydaweg iddo." Ac yn ddisymwth aeth ati i'w canu, un neu ddau ohonynt, â min fel min menestrel ganrifoedd gynt. Sôn ychydig wedyn am y drwg, bod braidd rywun o bob teulu o'r ardaloedd ym Mharis. Yna ymwahanu.

Yn ôl i ymyl yr orsaf y dygai ein ffordd ni, ac oddiyno,

tros wlad yn goleddu'n gyson, o dwmpath i dwmpath, o warglawdd i warglawdd, heb godi'n fryn yn unman, na dangos na chraig na chlogwyn. Bro anwastad ydoedd heb fod yn fryniog, yn amrywio'n ddiddiwedd heb wahaniaethu'n ddwfn. Nid oedd gystal ei daear ag yn ymyl Tremel; nid oedd gyn amlled ei meysydd, gyn rhywioced ei choflaid cnydau. Eithin a rhedyn ydoedd tŵf ei chloddiau, a banadl a'i cuddiai yn lle derw a chyll, masarn ac ynn. Meddai swyn arbennig, a hawdd oedd teithio trosti gyda sawr pêr y perthi banadlog yn llanw'r awyr denau, yn gymysg â'r sawr dihafal arall hwnnw a godai'n gawodydd o'r gwair meillionog a orweddai'n ystodau breision ar ôl y pladuriau. Nid oedd y tai mor agos i'w gilydd ag yn Nhremel; eithr ni buom hir cyn dyfod at y cyntaf un bychan. Troisom i mewn ato, ar unwaith â'r gertwain a ddygai lwyth o wair i'r buarth. Tŷ tlawd ydoedd, diddestl, diaddurn, er wedi ei wyngalchu drosto oddimewn. Am y pared yr oedd bwrdd crwn, a dwy wraig yn eistedd o'i amgylch—y naill tua'r deugain oed, a'r llall, oedd a napcyn gwyn yn dŷn am ei phen, rywle o'r trigain i fyny. Yfed coffi a wnaent, a thaclau coffi, a sospan oedd ar y pentan. Adwaenai'r ieuengaf o'r ddwy M. Le Queré, a gellid adnabod ar unwaith fod ganddi feddwl uchel ohono. Bu'n cymell seidir yn daer arnom, ac yna goffi. Er inni wrthod, mynnu gosod dwy fowlen ar y bwrdd a wnaeth, ac arllwys y coffi iddynt. Rhaid oedd eistedd, ac yfed hefyd.

Yn union ddeg holais a fedrai ddarllen Llydaweg.

"Medraf erbyn hyn."

"Newydd ddysgu yr ydych?"

"Na . . . Ie. Yn ystod y rhyfel y dysgais. Medrai fy ngŵr cyn hynny, a phan oedd ef yno y dysgais i. Y mae ef wedi marw erbyn hyn. Cafodd ei ladd."

Yr un hanes trist am ladd ym mhobman, ym mhob teulu, un, weithiau ddau a thri, a mwy. Yr oedd hithau bellach yn unig. Dywedodd i'w gŵr brynu Beibl gan Le Queré ryw ddwsin o flynyddoedd yn ôl, ac iddo ei ddwyn ganddo i'r gâd i'w ddarllen yno. Darllenai hithau ef yr awrhon, ef a "Buhez ar Zent," braidd bob hirnos gaeaf. Wedi diolch iddi, a myned oddiyno, adroddodd fy nghyfaill hanes ei gŵr yn llawnach. "Y mae hanes i'r Beibl hwnnw" meddai.

"Oes?"

"Ar ôl ei brynu, fe'i darllenai bob nos, ac yr wyf yn meddwl iddo ddyfod o hyd i'r goleuni. Deuai hefyd i'n cyfarfodydd ni i Dremel."

"I Dremel, o'r fan yma?"

"Yr oedd yn byw yn nês yr adeg honno. Dyfod weithiau fyddai, nid yn aml. Ond dyna yr oeddwn am ei ddweud. Yr oedd yn hoff o'i Feibl, a chadwai ef mewn man cyfleus wrth ymyl y fantell. Byddai wedyn yn ei gymryd gydag ef i'r ffermydd lle gweithiai yn awr ac yn y man, oblegid yr oedd ei le ef yn rhy fach i'w gadw i lafurio arno'n wastad. Darllenai ef yno i'w feistr a'r teulu. Ond, un diwrnod, pan oedd allan wrth ei waith, digwyddodd i'r offeiriad

fyned i'r tŷ. Ac fe welodd y Beibl. Cymerodd ef, a'i edrych. Yna dywedodd wrth y wraig: 'A! beth yw'r llyfr yma? Beth y mae hwn yn ei wneud yma?'

"Atebodd hithau:—

"Rhyw lyfr y mae'r meistr yma'n hoff iawn ohono. 'Wn i ddim beth ydyw yn iawn, a dweud y gwir.'

"Wyddoch chwi nad oes dim hawl ganddo i'w ddarllen?'

"Dim hawl i'w ddarllen? Pam?'

"Nid wyf yn caniatáu i neb ei ddarllen. Ni chaiff yntau ychwaith. Mi âf ag ef gennyf.'

"O na, peidiwch. Canys y mae'n hoff ohono—yn fwy na hoff ohono. Bydd yn siwr o weled pan ddél adre nad ydyw yma. Bydd yn holi wedyn. Bydd yn rhaid imi ddywedyd. A myfi ga'r bai.'

"Bai neu beidio, 'rwy'n mynd a'r llyfr.'

"Ac y mae, wyddoch chwi, awdurdod mawr gan yr offeiriad ar y merched o hyd, ac ni fedrai hithau ei rwystro."

"Be' ddigwyddodd yna?'

"Wel, daeth y gŵr adre, ac aeth, yn ôl ei arfer, i chwilio am ei Feibl. Holodd y wraig, a rhoddwyd ar ddeall iddo sut y bu."

"Ac yna?'

"Ac yna aeth at yr offeiriad i'w fynnu'n ôl. Gwrthododd yntau, gan ddywedyd nad oedd hawl ganddo i ddarllen llyfr fel hwnnw."

"'Dowch chwi a'r Beibl yna'n ôl imi,' meddai yntau.

'Nid oes gennych hawl i bigo dim yn fy nhŷ i, a'i gymryd. Os na chaf ef yn awr, bydd raid ichwi ddod ag ef eich hun i'r tŷ.'

"Aeth i fwrdd heb y Beibl, ac at gyfreithiwr."

"Beth wedyn?'

"Cyn pen wythnos, yr oedd y Beibl wedi ei ddwyn yn ôl, a hynny gan yr offeiriad ei hun."

Ar ganol yr hanes hwn yr oedd pan droisom at dŷ to gwellt yn ymyl. Ar ganol y llawr yr oedd hên wraig gam, yn felyn a rhychiog ei hwyneb hên, a'i phwys yn drwm ar ei ffon. Dywedodd y pregethwr wrthi:—

"Dysgu'r ffordd i Baradwys yr wyf i. Ac i fynd yno y mae'n rhaid adnabod Iesu Grist. Bu Ef farw yn ein lle."

"Ya, Ya." ebr hithau.

Yr un oedd ei hawydd a M. Le Queré, a'r un un ei gobaith, yr un un ei ffydd yng Nghrist, yr un, yn sicr, ei bwriad am Baradwys. Gwahaniaeth geiriau yn unig!

"Ya, Ya" ebr hi, yn galon i gyd.

Cynigiwyd llyfr iddi, ond atebodd: "*Me ne lennan ked.*"<sup>1</sup>

Aethom allan, a hithau'n diolch inni, yn dymuno iechyd da, a ffawd dda. Yr hen wraig ddisyml, ddiniwed, ddiddrwg! Paham ceisio newid ei Ffydd hi, a'i Phurdan, a'i Pharadwys?

Gam neu ddau oddiyno, ac ar ymyl arall i'r ffordd, yr oedd ffynnon i Ioan Fedyddiwr a meini wedi eu

<sup>1</sup> Ni fedraf ddarllen

codi'n betryal, a cholofn i'r proffwyd hwnnw, gyda delw ohono. Ar y llawr yr oedd delw arall, honno heb ben arni fel arwydd o ddiwedd Ioan. Y tu ôl i'r meini petryal yr oedd dwy wraig yn brysur eu gwala'n golchi dillad dan gnwd o helyg. Esgynnodd Le Queré i ben y meini, i edrych yr ysgrifen annealladwy oedd arnynt. Yna annerch y merched. Ioan oedd y testun y waith hon, Ioan y torrodd Herod ei ben er mwyn ufuddhau i'r forwyn ieuanc, Ioan a fu yng ngharchar, a'r Ioan hwnnw a ragfynegodd Grist. Yr oeddynt yn lled agored eu cegau wrth wrando ar hanes mor alaethus, mor newydd, ac eto mor hên; a chafodd y dillad hamdden tra bu adrodd arni. Y stori oedd orau; nid oedd cymaint o swyn mewn llyfr. Ni fynnent yr un, ac ni ddywedasant a fedrent ddarllen a'i peidio.

Yr oedd gweddau'r wlad yn amryfal, gyda'i dolydd culion a'i ffriddoedd, ei llennyrch gleision a'i llethrau llawndwf. Agorai weithian ddyffryn eang ffrwythlon o'n blaen, a brithai prennau ei holl gyntedd. Ar y dde, yr oedd ffordd lās gyda rhesi ynn a chyll trosti, ac ar ei phen a hi i amaethdŷ, a fuasai unwaith yn gastell neu'n blastŷ. Guernechione ydoedd ei enw, ac anelu amdano a wnaethom tros y lasffordd dewgoed awelog. Gwelem mor fawr ydoedd wrth nesu ato, a gweled ei gadernid a'i gelfyddyd. Eang ydoedd, a llydan, gyda phorth mawr, ag amddiffynfeydd heirdion yn ystlysau iddo. Yr oedd twll hwnt ac yma yn ei welydd diadlam, ac yno y byddid yn saethu gynt pan fyddai ymryson pendefig ac arglwydd

yn galw am hynny. A ni'n sylwi, gan synnu braidd at y gwaith cryf oedd arno, daeth pedwar dyn hyd atom, yn llewys eu crysau oherwydd gweithio gyda'r gwair gwyndwn. Cyfeirient am y castell am nad castell mohono mwy, ond amaethdŷ. Wedi iddynt gyrraedd atom, dywedodd M. le Queré ba gerdded oedd arnom, a chynigiodd lyfr iddynt. Nid oedd ganddynt hamdden i aros, ac atebodd un ohonynt, "*ni lenann ket*" yn ddiserch os nad yn sarrug, ac fel pe bai ganddo awdurdod tros y tri arall. Dilynasom hwy i mewn trwy'r porth, ac i'r buarth lle'r oedd ci anystywallt yn cyfarth nerth esgyrn ei ben.

Yr oedd un rhan o'r castell yn cymryd lle tŷ byw, ac o flaen y drws yr oedd gwraig yn gwasgar eu bwyd i haid o ieir a chywion. Ynglŷn wrtho yr oedd y wanws yn llawn certi, a'r crut i'r lloi, a beudŷ a bingodd. Tomen dail, a thasau gwair a choed oedd yn llanw'r rhelyw o'r buarth. Nid oedd amcan inni oedi'n hwy, a chillasom ymaith er dirfawr fodlonrwydd i'r ci anosbarthus. Camu'n ofalus yna trwy'r waun wair wlyb am y colomendŷ oedd ar gnwc ynddi. Ac eilwaith i'r ffordd fawr, ac yna ymlaen tan gysgod y coed tewddail oni ddaethom i felin. Yr oedd grisiau i fyny at y tŷ, a rhôs cochion yn tyfu'n rhydd hyd y ganllaw oedd iddynt. Dringasom i fyny at y drws, a throedio i mewn. Aeth Le Queré i'w ddisgrifio ei hun yn balmentydd y ffordd o ganol byd i ganol nef, o ganol gofid i ganol gwynfyd. Agorodd ei ysgrepan gan ddangos llyfr "*Buez ar*



Zalver hag ar Ziskiblen," a'i gynnig i wraig y tŷ. Ond ni fedrai hi ddarllen na'r Ffrangeg na'r Llydaweg, ac ni fedrai ei gŵr, yntau. Diolchodd inni wrth droi ein hwynebau oddiyno, a hwyliasom ninnau ar yr undaith ag o'r blaen. Nid oedd pwysau'r ysgrepan yn lleihau nemor ddim, ac o'i waethaf braidd y caniatodd fy nghyfaill imi ei dwyn yn ei le. Yr oedd yno dyle, ond rhwng cysgod y coed, ac amheuthun awel falmaidd, nid oedd anodd myned i'w ben. Ni bydd y rhiwiau yn Llydaw nemor un amser yn serth nac yn faith. Bydd eu caffael yn ddywenydd i deithiwr bob tro. Torrant ar unfurfaith y briiffordd, a thalant ar y ganfed am eu dringo, yn yr eangderau bröydd a phlwyfi a ddangosant iddo. Honno oedd ein gwobr ninnau, gwobr fwy na gwerth yr aberth. Canys llennyrch yn swyn i gyd ydoedd y rheini a ymestynnai hyd ymhell islaw inni; swyn y goedwig fechan; swyn y caeau pob lliw, swyn hŷd y gwenith, swyn brig y ceirch; swyn y pridd coch yn cyfnewid lliw a'r perthi mân, swyn bysedd y cŵn a llygaid y dydd; swyn y cae pori am y clawdd a'r gwair a ymdonnai'n loyw lathraidd gan nôdd y ddaear, gan dês yr haul, gan chwŷth dyner yr awel.

Ar y chwith inni yr oedd tyddyn arall, a gwraig go sipsiaid yn torri brigau ar bren teircoes. Yn ei hymyl yr oedd crwtyn go aflonydd ei wedd; ac yna, y gŵr, yn ei lusgo'i hun yn drafferthus o ymyl yr aelwyd i garreg y rhiniog. Yr oedd ef yn glaf a golwg druenus arno. Aed i lefaru wrthynt am *hent mond*

d'ar Baradoz,<sup>1</sup> ac am y Done, Zalver ar Bed.<sup>2</sup> Yna, tynnu sylw at y Beibl, llyfr *Histoïr Adda, Noe, Jacob, Joseff hag e vreuder, an den santel Job, Joshua, ha Buhez ar Ebestiel*,<sup>3</sup> ac amryw eraill. Eur skoet<sup>4</sup> oedd y cwbl. Torrai'r wraig y brigau'n barhaus, aflonyddai'r llanc, a phwysai'r gŵr yn drwm ar y drws, ei ddwy law yng ngwaelod isaf ei bocedi, ei geg yn agor i lafoerio, a'i ddau lygad bron cau. Y wraig oedd yn cynrychioli'r tri, a dywedodd na fedrai hi na'r gŵr ysgrifennu. Am y mab, newydd ddechrau myned i'r ysgol ydoedd, Ac, wrth reswm, nid oedd prynu Beibl yr "*un skoet*" i fod. Eithr ni chwynai'r cludydd ddim. Yn hytrach, troi allan o'r eiddilyn ffald i lawr at dyddyn arall am y mur ag ef. Peth digon cynefin yn Llydaw ydyw dau dŷ fferm neu dri yn cyffwrdd a'i gilydd fel y penelin a'r llaw, megis olion yr hen fywyd maenor gynt.

Yr oeddem yn y nesaf yn ddisyfyd, ac aethom i mewn iddo. Llawn pridd oedd iddo yntau, wrth gwrs: ac, yn eistedd am y bwrdd anwastad a lochesai y tu cefn i ddodrefn a gyfeiriai ymaith oddiwrth y drws, yr oedd gwraig ganol-oed, a bachgen tua deg a'r hugain. Yr oedd yn ymyl pump o'r gloch, ac yr oeddynt hwythau wrth eu coffi. Yr oedd hwnn'n burddu ac yn boeth mewn bowlen o flaen pob un, a'i arogl chwaethus yn llond y lle, ac yn ei ymyl, yr oedd

<sup>1</sup> Hynt mynd i Baradwys.

<sup>2</sup> Duw, Iachawdwr y Byd.

<sup>3</sup> Hanes Adda, Noe, Jacob, Joseff a'i frodyr, y dyn santaidd Job, Josua, a Buchedd yr Apostolion.

<sup>4</sup> Tair ffanc: rhyw wyth geiniog yr adeg honno.

llond llestr arall o laeth wyneb-felyn, hufenog. Y dorth gron anferth oedd yno wedyn, ac, ar ei phwys, ymenyn a seidir, dwy gyllell boced a llwy neu ddwy. Darllennai'r mab y papur dyddiol, a than hwnnw yr oedd llyfr mawr, a digon budr ei lewych i fod wedi ei ddefnyddio'n ddiwyd am ganrif. Tybiais ar y cyntaf, mai "*Buhez ar Zent*" ydoedd, ond deallais cyn hir mai Geiriadur Larrousse oedd. Uwchben y bwrdd yr oedd *Kig sal*<sup>1</sup> ddigon, ddwy ystlys ohono, os nad tair, pledren lawn bloneg a saim, ac offeryn pwrpasol, a'i lonaid o lwyau pren, ac ar ystyllen gŵl wrth y mur, bedwar canister neu fwy. Nid oedd deugain modfedd o gornel y bwrdd i ben y pentan, oedd a'r fantell fawr yn ymestyn i lawr yn isel amdano. Nid tân ond lludw oedd yn yr aelwyd, ac yn cadw cwmni iddo, sospan fach. Ar y chwith, gyferbyn a'r bwrdd, yr oedd y gwely clôs, dodrefnyn derw, cloc hir, a gwely arall, gyda llenni tewion, cochion, yn dô uwch ei ben. Yn y pen isaf, yr oedd cunogau llaeth, crochanau a phedyll. Felly yr oedd y gegin gymharol fechan hon ar unwaith yn dŷ byw, yn ystafell fwyta, yn lle cysgu ac yn llaethdŷ. Ac nid ydoedd hi na gwell na gwaeth na'r ceginau eraill yn y wlad. Neu'n hytrach, ceid digon o'i gwaeth, yn haws na'i gwell. Pa fodd, ynteu, fod yn gymen a glân?

Dechreuodd Le Queré trwy gynnig Beibl i'r mab, ac yna Destament. Ond ni fynnai o gwbl. Ni chredai mewn na Beibl na Chrefydd. Buasai yn y rhyfel, a chollasai yno ei ffydd gynt. Yr oedd yn

<sup>1</sup> Cig hallt.

amheuwyr, yn gwadu bod Duw, na dim. Aeth yn ddadl ddygn rhyngddo â'r pregethwr. O epa y daethai dyn. "A'r epa, o ble y daeth hwnnw?" oedd ateb y cenhadwr.

"Wedi datblygu trwy ddamwain ohono ei hun. Nid oes yr un prawf bod Duw, ac ni fedr neb ddangos hynny."

"Medrir" ebr yr efengyllydd.

"Na fedr neb,—*den e bed!*<sup>1</sup> *Penos?*"<sup>2</sup>

Daliai Le Queré fod y prawf yn y Beibl, ond nid oedd mor rhydd ei dafod a'r bachgen ieuanc, nac mor huawdl. Byrlymai hwnnw ei ymadroddion, gan geisio profi bod y ddaear ar y cyntaf yn *yen*,<sup>3</sup> a dyfod yr *heol, loar, stered*<sup>4</sup> ohonynt eu hunain. Damwain a digwydd oedd y cyfan, meddai, gan boethi yn ei barabl. Tawai weithiau a rhoddi cyfle i'w wrth-ddadleuydd gael gair i mewn ar gornel.

I hwnnw, yr oedd hanes y cread yn y Beibl, llyfr y dylid credu pob gair ohono am ei fod *skrivet gant tud Zantel Doue*.<sup>5</sup>

Mwynheai'r fam y ddadl yn iawn, a pheth diddig a diddorol yn wir ydoedd dilyn dadl y bachgen ieuanc, yr unig enghraifft o ddysg a gawsom ar ein holl deithiau. Llefarai'r fam "*Ya, Ya*" o dro i dro, bob yn ail a chnoi'r bara rhŷg. Tawodd y ddadl cyn hir, a rhoes y mab le i'w fam, hithau, draethu ei llên. Bu hi â'r gŵr dieithr yn sôn yna am y byd a'i bethau, a hi'n poeri'n groes i'r bwrdd wrth ymdrechu siarad ar unwaith a bwyta.

<sup>1</sup> Neb!

<sup>2</sup> Sut?

<sup>3</sup> oer.

<sup>4</sup> haul, lloer, sêr.

<sup>5</sup> Wedi ei ysgrifennu gan wŷr santaidd Duw.

"War an donar n'eus ket an justus"<sup>1</sup> ebr ef wrthi a chytunai hithau: "Ond fe'i ceid yn y byd arall, maes o law."

"Gwir" ebr yntau, "ond bod yn rhaid adnabod Crist a chredu ynddo. 'Y neb sydd yn credu ynof fi a gaiff fywyd tragwyddol.'"

"Ya, Ya" oedd ei hateb hithau, a awgrymai fod ei hadnabyddiaeth hi o Grist mor helaeth a'i eiddo ef.

Ac yna: "Ond, welwch chwil! Ni wneuthum i niwed i neb erioed. Nid wyf yn dwyn oddiar neb, ac ni laddaf neb. Gweithiaf yn galed bob dydd. Ac yna, yr wyf yn sicr o *Vond da'r Baradoz!*"<sup>2</sup>

Dywedodd y bachgen y medrai ddarllen y ddwy iaith gystal a'i gilydd. Yna, gofynnais iddo a ddarllenasai rywbeth yn Llydaweg.

"Do. Yr ydwyf wedi darllen peth."

"A ddarllenasoch ryw lyfr?"

"Do: darllenas *Pevar Mab Aymon* a . . . 'rwy'n methu cofio ei enw."

"*Buhez y Zent, efallai?*"

"Naddo ddim o hwnnw."

"Gwaith Luzel? Brizeux? Proux?"

"Nage" a chrafu ochr ei ben â'i ddwy law . . .

"'Rwy'n methu'n deg a chofio'i enw . . . llyfr. . . ."

"O waith pwy?"

"Renan."

"Hanes Iesu? Hanes ei Ieuenctid ei hun?"

<sup>1</sup> Ar y ddaear nid oes gyfiawnder,  
<sup>2</sup> Mynd i Baradwys,

"Nage: rhyw lyfr a ysgrifennodd yn Llydaweg . . . 'Rwy'n ddwl na buaswn yn cofio ei enw.'"

"Nid ysgrifennodd yr un mewn Llydaweg."

"Do. Llyfr Llydaweg o'i waith ef ydoedd."

"Y mae'n rhaid eich bod yn camgymryd. Canys nid ysgrifennodd ddim yn ei iaith ei hun. Cyfieithiad o'r Atgofion bore oes ydoedd."

"Roedd e yn Llydaweg, a disgrifio rhywle yn Llydaw yr oedd."

"Y mae'n rhaid mai'r Atgofion oedd, wedi ei gyfieithu."

Ond, ni fynnai ef goelio nad yn y Llydaweg yr ysgrifenasai Renan y llyfr oedd yn ei feddwl.

Yna, dywedodd y fam wrthyf fod iddi naw o blant, bod dau ohonynt wedi marw, a phump ym Mharis. Pump ym Mharis! Nid bob dydd y ceir yn Llydaw deulu heb orfod ymfudo o un neu fwy o'i aelodau i'r Briffddinas bell. Felly y mae hi'n sugno bywyd y wlad iddi ei hun, ac yna yn ei wenwyno. Y mae canolbwyntio ar awdurdod ynddi hi yn tlodi'r taleithiau, ac yn gwneuthur bywyd anturiaethus, o ddatblygu a llwyddo, yn amhosibl ynddynt. Gorfodir cannoedd o Lydawiaid i ymfudo o'u gwlad eu hunain bob blwyddyn, naill ai i Baris i gael eu cymryd ymaith gan genlli'r symud yno, neu i rannau eraill o Ffrainc, Fersái, Havre a'r Deheudir pell, lle y byddant yn aml yn ffurfio math ar wladfa Lydewig, yn glynu'n daer wrth eu hiaith a'u harferion. Nid oes fodd iddynt ddatblygu diwydiant annibynnol eu hunain, na ffrwythloni, i'r hanner, y ddaear gyfoethog a roddwyd

i'w bro. Y mae'r awdurdodi o Baris yn lladd pob anturiaeth newydd yn y bôn, ac yn cadw'r bobl rhag defnyddio hyd yr eithaf adnoddau eu gwlad. Gwerthodd y Llydawiaid druain eu hannibyniaeth mwy i wneuthurwyr Chwyldro'r pedwerydd o Awst 1789.

Y Chwyldro oedd un o'r mellithion mwyaf a ddisgynnodd ar Ffrainc. Iddi hi, bu fel llaw farw; i Lydaw bu megis angau ei hun. Bu brenhinoedd Ffrainc yn elynion parhaus iddi, ond yr oedd eu gelyniaeth yn agored, a gadawsant i Lydaw ei Senedd i'w diogelu. Bu'r Chwyldro yn ddamnedigaeth. Twyllodd y Llydawiaid i werthu eu genedigaeth fraint, ac ni adawodd iddynt eu Senedd gynt i am-ddiffyn eu bywyd. Byth wedi noson y brad hwnnw, y mae hi'n ddiymadferth, ac at drugaredd gwleidyddion diegwyddor fel Gambetta, Combes, Briand a'u gwehelyth.

Pan oeddwn i'n meddwl am ddyrgwaith y Chwyldro'n estyn ei grafanc hyd y teulu hwn, yr oedd y bachgen yn bodloni o'r diwedd i brynu Beibl. Canwyd iddynt gyfranc yr Yfwr Gwin, y dôn i gydraddoldeb y bedd, a honno i Iaith y Brython. Cydnabyddai'r fam mai'r gwir oedd yn y ddwy gyntaf, ac ymfodlonai'n amlwg wrth glywed canu:—

*Iez brezonnek, iez beniget  
Aboe pell zo komzet n'hon c'hreiz  
Na vezi ket c'hoaz douaret  
Gant holl enebourien Breiz.*

*En keit ma pado da vein galet  
Da wez dero koz, da warimou,  
Te choumo stard he za, bepred  
Rag te, iez koz eo iez ho bro.*

Yna darllenodd Le Queré iddynt y saith adnod gyntaf yn yr Efengyl yn ôl Ioan, fel hyn:

1. *Er pen-kenta e oa ar Ger, hag ar Ger a oa gant Doue, hag ar Ger a oa Doue.*
2. *He-ma a oa er pen-kenta gant Doue.*
3. *An holl draou a zo bet gred drezan, hag hephan n'eo bet grit netra hag a zo bet gret.*
4. *Ennan e oa ar vuez hag ar vuez a oa goulou an dud.*
5. *Hag ar goulou a sclera en devalien, hag an devalien n'e deus ked e reseuet.*
6. *Bez e oa un den caset gant Doue, hanvet Ian.*
7. *He-ma a zeuaz da desteni, evit rei testeni diwarben ar goulou, evit ma credche an holl drezan.*

"Yr un yw'r hanes ag yn ein llyfrau ni" ebr hi, gan ddal o hyd i dybio nad oedd dim gwahaniaeth rhwng ei chrefydd hi ag eiddo'r gŵr a ddaethai yno a'i fryd i'w goleuo—gan na eglurai ef fyth mai Protestant ydoedd nes ei holi. "Ya" ebr yntau; "N'eus ket diou Aviel" "nid oes dwy Efengyl!"

Gadawsom hi a'i mab gan droi i'r lan am y trydydd tŷ fferm oedd yn gwlwm am ei gilydd. Buasai hwnnw, yntau, yn fath ar blastŷ bychan rywbyrd, ac yr oedd ysgrifen annarllenadwy ar garreg y drws. Aethom

i mewn i'r un math ar gegin, a chael gwraig yn digroeni tatw erbyn cawl cinio'r hwyrddydd. Ni chymerth hi nemor sylw ohonom, ac ni chawsom ganddi onid "Ya, Ya, a Nan, Nan"<sup>1</sup> swta, swta. Ni fedrai ddarllen, ac ni fedrai ei gŵr. Ni fynnent wrando arnom ychwaith. Dewisach gennym ninnau droi ymaith. Yr oeddem eilwaith ar ein cerdded, eilwaith ar lasffordd gul, eilwaith rhwng y coed uchel, eilwaith uwchben y cymoedd culion, y bencydd a'r bronnydd. A ni'n ymddiddan am ein ffawd, daeth gŵr bychan i fyny atom, gan arwain caseg mewn cebystr. Edrychai ef yn fwy meddylgar na mwyafrif y bobl yr ymddiddanasom â hwy. Medrai ddarllen, ac yr oedd barod am lyfr. Ond "*n'eus ket arc'hant*,"<sup>2</sup> meddai, wedi edrych ei logellau, ac nid oedd ei wraig yn y tŷ. Dywedodd wrthym fod y lle y ganed Luzel yno ar bwys.

"Ewch ymlaen i'r groesffordd lydan acw. Trowch i'r chwith, a byddwch yng ngolwg y tŷ."

A gwir a ddywedodd. Ar ben y groesffordd, yr oedd tŷ newydd mawr yn ein hwynebu, ond fe'n rhybuddiwyd nad yn hwnnw y ganed Luzel. Y naill ochr iddo yr oedd ffermdŷ arall, yn llai gryn dipyn, ond yn meddu tai-allan cymharol newydd. Yr oedd dwy ferch ieuanc goesnoeth a glân yn dwyn llaeth o'i odro i'r tŷ hwnnw. Eu dilyn a wnaethom ninnau, oni welsom eu mam, oedd hithau'n wraig lanwaith, luniaidd, gymen ryfeddol. Hysbysodd ni mai hi a'i gŵr oedd yn dal y tŷ lle ganed y bardd. Nid tŷ byw mohono bellach ond lle i gadw gwŷn a

<sup>1</sup> Ie, ie; Nage, nage.

<sup>2</sup> Nid oes gennyf arian.

thaclau a chelfi. Aeth i gyrchu'r agoriad, a'n harwain ni hyd ato. Tŷ bychan ydoedd, hynafol i'w ryfeddu. Wedi agor y drws, gwelem y trawstiau duon mawrion, hwythau'n traethu eu hyned; ac yna, y fantell lydan fyddai'n cysgodi'r cantwr baledi neu'r adroddwr chwedlau a groesawai Luzel ar ei aelwyd. Yna i'r ystafell, y lle santiaidd hwnnw y meddyliai ef, y myfyriai, ac yr ysgrifennai. Gynifer o *soniou* swynol ac o'r *gwerziou* gorau a gynhullodd ef yma, i'w cyhoeddi yn ei "*Chants populaires de la Basse Bretagnes*" a'i "*Veillees bretonnes!*" Casgenni gwŷn oedd yno weithian, a thatw'n egino ar y llawr. Ac nid oedd neb o'i deulu yno, na'i chwaer Perrine a fu'n gymaint cymorth iddo gyda'i gasgliadau. Gwir oedd hi yma fel gydag Ifor Hael:—

Y llwybrau gynt lle bu'r gân,  
Yw lleoedd y ddylluan.

Ac ni ellid llai nag adrodd geiriau eraill, o'r un natur:—

*O'u sont-ils, Vierge souveraine ?  
Mais ou sont les neiges d'antan !*

Aethom i fyny i'r llofft, a'r wraig yn dangos inni bob ystafell. Yna i lawr ac allan, gan ei dilyn hi i'w thŷ. Sw'n y *dienez* oedd yno erbyn hynny, yn gwahanu'r hufen oddiwrth y llaeth arall. Wrthi yn troi hwnnw, a chodi'r llefrith iddo yr oedd y merched. Ond

buan y daethant oddiwrtho i sylwi ar y bobl ddieithr, ac i ddarganfod pa neges oedd ganddynt. Gwelsai eu mam M. le Queré o'r blaen, rai troeon, ac ymddidd-anai'n rhydd ag ef. Siarad am y prynu a'r gwerthu, am y gwair a'r cnydau eraill. Aeth yntau i sôn wrthi fy nyfod i yno i ymweled â chartref Luzel, ac i ymorol am beth o'i hanes. Ar y pwnc hwnnw y llefarodd hithau wedyn. Ni welodd hi ef erioed; ond fe'i gwelodd ei gŵr. Ar y gair, wele yntau i mewn,—gŵr hŷn lawer na'i wraig, yn daclus ei wisg, ac yn lân ei wyneb. Collasai y rhan fwyaf o'i wallt, ond edrychai ar y cyfan yn weddol ieuanc ei bryd, gyda'i ddau lygad direidus yn chware yn ei ben. Aeth yntau'n ebrwydd i sôn am Luzel, oblegid deallodd ar unwaith mai hynny oedd pwnc ein siarad. Dywedodd i'r bardd fod ddeng-mlynedd-ar-hugain oddicartref, heb glywed gair oddiwrth ei deulu, ac heb ddanfôn, yntau, yr un adre. "Pam? Beth oedd yr achos?"

"Dyma lle'r oedd y drwg" ebr yntau. "Yr oedd wedi bod am bum mlynedd ar hugain yn yr ysgol. Paratoi i fod yn offeiriad oedd. Ac yna, wedi'r holl flynyddoedd hyn, fe aeth rhyw awydd arall i'w ben. Ni byddai'n offeiriad, wedi'r holl drafferth a gymerasai ei dad gydag ef. Siomodd hwnnw'n ddirfawr. Yr oedd y mab ar ddrysu ei holl gynlluniau. Ac fe'i gadawodd i'w gydwybod ei hun. Diangodd yntau oddicartref. Bu oddiyno am ddeng-mlynedd-ar-hugain heb i neb glywed na bwm na bo amdano."

"A sut wedyn?"

"Fe edifarhaodd ei dad. Ac, wrth farw, fe roddodd iddo ei gyfran. Ond anfynych iawn y deuai ef yma. Anfynych iawn."

Felly hanes Luzel. Pan oedd y gŵr yn siarad, aeth y wraig ymaith at ei gwaith. Daeth â bowlen o laeth i'r plant, a bara ac ymenyn, a *chrampoez*—crempog. Bu'n daer am i ninnau gymryd laeth a *chrampoez*, ac felly y bu. Ond yr oedd fy nghyfaill gyda'i waith erbyn hyn, a hi yn rhywyr ganddo ddechrau ar ei genhadaeth. Aeth i ganu cerdd yr "*Ever Gwin*." Yr oedd dau neu dri o'r plant ar eu traed yn ei ymyl, ac yn mwynhau'n hyfryd. Yr oedd eraill, dri neu bedwar ohonynt, yn eistedd gyferbyn ag ef, ar y fainc y tu hwnt i'r bwrdd. Hwyl fawr oedd bwyta *crampoez*, a gwrando ar gân hanes y gwerthwr llyfrau. Ar un fainc yr eisteddai'r gŵr hefyd, gan wrando yntau'n astud. Canys nid oedd y cenhadwr na'r genhadaeth yn ddieithr iddo ef ychwaith. Prynasai brawd y wraig Feibl, flynyddoedd maith yn ôl. Daeth offeiriad ar ei draws, a'i orfodi i'w losgi trwy rybuddio nad oedd nefoedd iddo am ddarllen llyfr fel hwnnw. Yn erbyn ei brawd yr oedd hi yr adeg honno. Ond newidiodd. Os nad oedd hi a'i gŵr weithian yn Brotestaniaid, yr oeddynt yn fawr eu parch iddynt, ac yn eu pleidio. Prynasant Destament Llydewig, oherwydd medrai'r penteulu a rhyw ddau o'r plant ddarllen.

Hoffed gan y Llydawr holi! Ond nid cyn iddo osod ei ymddiried a'i ffydd ynoch. Yna, holi'n ddiramgwydd, a holi pob math ar bethau. Felly'r

gŵr caredig hwn. Wedi imi ddywedyd mai ym Mharis yr oeddwn, dyma ei air buan: "Fe ddo'i Baris i'ch gweled!" "O'r gorau."

Ac aeth rhagddo i ddywedyd fel y dymunai fyned yno. Buasai dau o'i fechgyn yno yn ystod y rhyfel, a chlywsai hwy'n sôn am ryfeddodau di-wedd y Brifddinas. Ni byddai'r daith yn ddrud, ychwaith. Yr oedd ganddo lawer o blant, ac un-ffranc-ar-ddeg fyddai'n rhaid iddo dalu am ei daith yno. Un ffranc-ar-ddeg! Am ryw bum can milltir! Gofynnais iddo faint o blant oedd ganddynt. "Naw sy'n fyw. Fe gladdasom ddau. Ond yr ydym wedi cymryd dau arall atom i'w magu." Gwroldeb! O'r America y daethai'r ddau blentyn hynny.

Y munud y daeth hynny i'w cof, cofio hefyd iddynt gael dau lythyr oddiyno flwyddyn a hanner yn ôl. Yn Saesneg yr oeddynt, ac ni fedrent eu darllen. Yr oedd athrawes mewn ysgol yn ymyl, a honnai wybod y Saesneg. Ond, er dangos y llythyrau iddi, ni roes iddynt fawr oleuni ar eu cynnwys. "Dewch a'r ddau lythyr yma," ebr fi. "Ydych chiwi am imi eu darllen ichwi, a'u cyfieithu?" "Ydym, goelia'i!" meddai'r fam. A'u rhoddi imi, y ddau lythyr, gwael eu hysgrifen. Yna ffurfio'n "gwmwl tystion" amdanaf, y wraig a'r plant un ochr imi, y gŵr a'r mab, y tu hwnt i'r bwrdd. Darllenais innau'r llythyrau, a'u cyfieithu air am air. Mam y ddau blentyn oedd wedi eu hysgrifennu, a'i chariad atynt a'i gofal trostynt oedd ym mhob llinell ohonynt. A oeddynt iach? Yn gysurus? Yn gartrefol? Wrth eu bodd? A

oeddynt yn yr ysgol? Gobeithio eu bod. Yr oedd yn rhaid wrth addysg. Ac efallai y gallent fyned yn y blaen gyda'u dysg. Dylent wneuthur y gorau o'u cyfle. Yr oedd hi'n danfon rhyw gyfran fechan o arian iddynt, ac i'w tad a'u mam newydd.

Melys iawn ydoedd diolch dibrin y teulu cyfan, a fynegid yng ngeiriau dwysion y rhieni, ac yn llygaid tanbaid y tŷaid plant, y rhai glanaf a mwyaf eu cymhendod a welais na chynt na chwedyn yn Llydaw.

Daeth y gŵr i'n hebrwng ysbaid go dda, gan ein tywys hyd lwybrau buanach yn ôl at Blouaret. Yr oedd diwedd "yr ail daith genhadol" wedi dyfod, heb ddim yn aros ond hwylio'n ôl i Blounerin ac i Dremel, ac yna myfyrdod mwy ar genhadaeth y Protestaniaid ymysg y Llydawiad.

### XIII

"Mae'n Sabbath—am unwaith eto, Sian,  
A chanu mae cloch y llan."

GADAEI TREMEL

BORE Sul ydoedd yr olaf imi fod yn Nhremel, a bore hyfryd, yn gloywi gan haul oedd newydd gyni-wair yn y gorllewin yr ymestyn Llydaw yn olaf o wledydd y cyfandir i'w gyfair. Yr oedd symud yn y pentref pan ddeffrois, a'r peth cyntaf a glywais ydoedd y sŵn mwyaf cynefin yn y wlad hon—dwmp-di-damp yr esgidiau pren yn cloncian ar y ffordd fawr. Yr un mor gynefin yr arogl hefyd, arogl coffi newydd ei falu yn berwi erbyn y pryd cyntaf. Arwydd oedd y cyfan, mai i lawr y dylwn innau fod fel fy ngwestywyd cynnar. Cefais yr un cyfarchiadau cynnes ag arfer, i ddechrau gan y wraig fechan, wyneblân a hirben, oedd yn y gegin bob amser, yn ddiflino yn symud o'r bwrdd at y tân, i dorri'r bara, i edrych ar y coffi'n berwi gan lenwi'r gegin a'i sawr hyfryd—y sawr hwnnw a ddyry obaith newydd mewn dyn, yn ôl un o ddeddfau Freud, ond sydd heb ei chyhoeddi o'i Fynydd Seina ef eto. Torchi ei grŷs oedd Monsieur Fustec, yn ôl ei arfer bob Sul, i olchi ei ddwylo a'i wyneb yn y diferyn dwfr a ddiferynai'n araf i damaid o badell yn ymyl y drws fel pe bai ganmil drutach na'r gwinoedd a ddefnynai'n gyflymach tros ei fin blysiog. Yr oedd

### Gadael Tremel

cwpanaid o ddwfr yn hên ddigon at y gwaith hwnnw, a diau y byddai bowlenaid ohono yn ddigon i ymdrochi ynddo pe gallai'r fath syniad ddod i'w feddwl. Siarad trwy ei drwyn fel arfer yr oedd ef, a hongian symud, ac edrych fel pe bai braidd yn rhy ddiog i wneuthur cymaint a hynny. Ond os oedd yn ddiog, yr oedd yn ddi-ddig hefyd, ac ni ellid cwyno rhagddo, a bod yn ffyddlon i athroniaeth y wraig honno, a arferai ddywedyd beunydd: "Os yw'n oer y mae'n sych," ac yna bryd arall: "Os yw'n wlyb, y mae'n dyner." Yn rhinwedd meddu'r un athroniaeth, nid oedd neb yn y tŷ yn meddwl am edliw ei ddiogi i'r pen teulu;—ac efallai yn hytrach oherwydd meddu'r un ddawn, nag oherwydd meddiannu athroniaeth ar y pwnc. Canys, yn wir, os oedd ddiog y tad, yr oedd yn llawn mor ddiog y mab hefyd, a'r ferch. Ar ben y drws a wynebai'r ffordd yr oedd hi heddiw, am mai yno y treuliai gyfran dda o'i hamser—ni ddywedaf, hamdden—bob dydd, a'u breichiau yn drontolion ym mhleth, gan sylwi ar rywun neu'i gilydd yn myned i un o ugain tai y pentref. Rhoddai hynny iddi hi yr un mwyniant ag eistedd o flaen tŷ coffi ar y prif-heolydd i ferch ym Mharis. Deuai'n ôl wedyn, naill a'i i weinyddu ar rywun a gerddai i mewn i'r siop am rywbeth neu'i gilydd, neu ynteu i sefyllach yn ymyl bwrdd y gegin tra byddai ei mam yn arllwys y coffi imi, i arllwys, hithau, holl gynnwys cŵd ei chwedlau a'i chlap, oedd yn ddiddorol bob amser, ac yn ddifyrrus yn aml. Allan yn y poptŷ yr oedd y mab yn cynorthwyo'r pobydd i osod yn eu lle y celfi yno, ac i roddi'r torthau



bara i'r bobl a ddeuai yno'n gynnar i'w hymofyn cyn yr offeren. Gwyddent bob un fy mod i fynd oddiyno yn ystod y dydd, a mynnent imi ddeall nad da ganddynt hynny. Erfyn aros wythnos arall y buont eu pedwar, a mi'n yfed y coffi, ac yn torri'r bara canrhyg o'r dorth anferth oedd bob amser ar ben arall y bwrdd, weithiau gyda'r gath folwen fawr yn rhodio'n araf a thawel drosti, onid ai'r fam heibio, ambell dro, i'w chymell i newid ei rhawd—peth nad oedd o gwbl yn ôl ei graen, fel y profai'r naid nesaf yn ôl o'r llaw drachefn i'r bwrdd, a'r waith hon i gael llonydd mwy, am i bawb anghofio amdani yn yr ymgom am destunau pell ddigon oddiwrthi hi. Pan euthum allan i'r briffordd, yr oedd pawb eisoes wrth ei orchwyl yn ôl galwadau'r dydd. Aml oedd y bobl o'r wlad yno—nid wedi dyfod i'r eglwys, am nad oedd hi'n bryd eto. Dyfod a wnaent i wneuthur eu negeseuon, y naill i brynu bwyd am y dydd, arall i ymfyn ei dorth o'r poptŷ mewn berfa, arall wedyn ar ei farch gwyn ar yr un neges. Danfonasai hwnnw does pedair torth i'r pentref ac i ymfyn am y pedair torth y daethai. Gosodai'r pedair mewn sach oedd ganddo, gan ei chau'n ddiogel, a gosod dwy dorth un pen i'r sach, a'r ddwy arall y pen arall. Yna, gosod y ffetan ar y march o'i flaen ef ei hun, diolch i'r pobydd a hwylio tua thre, i ddod yn ôl yn y man, yn ei ddiwyg Sul i'r offeren. Cyn deg yr oedd y clychau'n galw, a'u sŵn cerddgar yn boddi pob sŵn arall yn y pentref ac o'i gwmpas, gan gyrraedd hyd gyffiniau'r plwyf a myned i mewn i'r tyddyn

pellaf. Yn ebrwydd yr oedd y plwyfolion yn ateb yn ufudd, gan ddyfod o bob cyfeiriad hyd y priffyrdd, y ffyrdd llai, a'r llwybrau a arweiniai at Dremel. Dyfod yr oeddynt megis ar alwad cloch nad oedd o'r byd hwn, ond a alwai yn enw'r gorffennol, ac eto yn enw'r dyfodol. Deuai'r hên am mai mewn byd arall yr oedd llawer o'u meddwl eisoes ac am mai'r gloch a'u galwai'n awr a alwodd eu teidiau i'w gorffwysfa, ac, efallai, am y tybient y byddai'n fuan yn eu galw hwythau i'r unfan. Deuai'r ieuainc, hefyd, i ateb galw'r gloch a ganai mor gadarn ag erioed er pan arferodd eu galw cyn eu cof cyntaf. Gallai dyn fod yn ddifeddwl, yn ddifater, yn ddiffaith hyd yn oed, ac yn feddwyn, ond dyfod a wnai, yr un pryd. Daethai cerdded tua'r eglwys yn rhan naturiol os nad gorfodol, o'u bywyd, ac nid oedd hawdd anufuddhau. Heblaw hynny, rhoddai gyfle i'r ardal gyd-gyfarfod i drin helynt y tir er y Sul cynt; i'r ieuanc ymgyfathrachu; i'r hoff o'i win hamdden i lymeitian, ac yna i feddwi, os byddai'n ddibrin ei geiniogau, neu gyfaill yn hael iddo. Caffai'r merched a'r bechgyn ddawnsio yn y prynhawn yn sŵn piano gwindŷ'r *libre penseur* sy'n byw'n union o flaen yr eglwys, a chai'r hên ymuno i chwarae *boulou* ar y cwrt bychan sydd ganddynt y naill du i'r pentref. Mwy na dim, ond odid, cai pawb ddangos eu parch i'r gorffennol—sy'n grefydd ynddo ei hun yn Llydaw—yn y weddi fér ar fedd y teulu, ac yn y dŵr saintaidd a daenid trosto er bendithio'r bobl a roes olau dydd iddynt, a hyfrydwch bywyd, a llawenydd Llydaw.

Euthum innau gyda'r llif i'r tabernacl, o gywreinarwydd efallai, ac eto am na fedrwn wneud dim byd amgenach, ac am fod hynny'n amlwg yn bodloni'r trigolion. Yr oedd yr eglwys, fel arfer, yn burion llawn, gyda'r dynion yn eistedd yn y pen blaen ac yn y ddau gapel i dde ac i aswy'r groes a ffurfia'r eglwys, a'r gwragedd y tu ôl iddynt, fel bodau ail-raddol, yng nghorff yr eglwys gyda'r penwisg gwyn amdanynt, yn wynnach, hefyd, yn herwydd du'r rhelyw o'r dillad. Cynganeddai'r gwyn hwnnw'n brydferth â melyn golau y colofnau, â rhudd fflamgoch y ffenestri lliwiog, â'u glâs glasaf, a'u gwyrdd, ac â'u melyn, fel y llewyrchai'r haul i mewn arnom, i ddisgleirio'r allorau yn lle'r canhwyllau a'u goleuai â'u golau aflonydd yn yr hwyr. Chwaraeai'r lliwiau gorwych ag amlwg gwisg yr offeiriad tan danbeidrwydd haul a fynnai gadeirio'r gwasanaeth, gan yrru ei belydr a'i dês i'r canol. Cawsom bregeth fér, mewn Llydaweg, yn ôl rheol yn Nhremel, ac anogaeth i fyned i Bardwn neu'i gilydd. Wedi talu'r ddimai orfod am y gadair, a diwedd y canu tirion, aeth pawb allan, eithr yn araf iawn. Buasai angladd yn ystod yr wythnos a mynnai pawb fyned at y bedd hwnnw, gan daenu'r dwfr santaidd arno, cyn myned, bob un, i benlinio ar gerrig caled eu beddau eu hunain, i badera ennyd yno, ac i ymgroesi'n unwedd. Arfer oedd hon a welswn droeon ond a'm tarawodd heddiw fel y dydd cyntaf oherwydd ei dwyster syml, oherwydd ei defosiwn diragrith, oherwydd y parchu—os na ddywedaf addoli—ar y gorfennol. Y mae'n ddiamau yn cyffwrdd dyn, er

ei waethaf, weled yr hên, yn wŷr a gwragedd, yn anystwyth a chrimpil, yn ymostwng ar eu deulin ar garreg galed, i dalu gwrogaeth i'r rhieni a'u cenhedlodd, i'r ysbryd a annedda'r fan, ac i'r Duw a'u cynnail. Gwahanol hollol yr arfer a ddilynodd! Sef oedd hwnnw, troi allan o'r fynwent i'r ffordd i wrando cyhoeddi'r newyddion crefyddol a bydol, o ben clawdd y fynwent, gan gyhoeddwr cyhoeddus y pentref, na pherthynai ddim i'r eglwys. Yr oedd ganddo, fel bob Sul, goflaid o bapurau tan ei fraich aswy, y cyfan yn Ffrangeg. Ond, yn Llydaweg y darllenai ef hwy, a hynny'n syndod o gyffym, er nad oedd ysgolhaig yn ystyr academig y gair hwnnw. *Dansiou* a *phardonieu* ydoedd y pethau cyntaf a gyhoeddodd. Yna, y gwerthu ar anifeiliaid a thir a thai, a chelfi a thaclau, dodrefni a cherbydau yn yr un un dull â phob un Sul o'r flwyddyn. Yn ymyl porth y fynwent yr oedd cerbyd yn gwerthu cacenni a da-da, a moethau amryw, ac un arall yn gwerthu pysg. Yno yr oedd y plant, wrth reswm, ac yno yr aeth llawer o "blant brâs," ys dywedir weithiau, a rhai hên. Troi i ffwrdd yna bawb, y gwragedd am eu cartrefi, y gwŷr am lymaid yn gyntaf, ac am glep neu fwy.

Sôn am yr offeren, am y gynulleidfa oedd yno, am a ddywedodd hwn ac arall, am bregeth yr offeiriad ac am ei wybodaeth—sydd ambell dro yn Llydaw yn cynnwys medru lledrithio—y buom wrth giniawa. Ac yr oedd un neu ddau o ddieithriaid yn cyd-giniawa a ni, fel y digwyddai braidd bob Sul. Yn union

wedyn ar ôl yfed y coffi du twym, aeth y mab i roddi'r gaseg yn y cerbyd i'm hebrwng i Blestin. Oherwydd yr oeddynt am fy hebrwng fel gŵr bonheddig, os oeddwn yn penderfynu troi ymaith. Yr oeddynt i gyd allan ar ben y drws a mi'n esgyn i'r cerbyd, y fam yn fechan ond yn dafod-rydd a pharod, y gŵr o hyd yn ddiog ddiotal, ac, i ychwanegu ansoddair arall Goronwy, yn ysmala, yn llewys ei grŷs, yn ôl arfer oedd annwyl ganddo, yn pwyso ar yr ystlysbost, a'i ddwylo'n dynn yn llogell ei lodrau ond am y munud pan estynnodd hi ataf, gan lefaru o hyd trwy ei ffroenau. Felly y gadewais hwy, gan fyned trwy'r pentref, lle'r oedd amryw eraill yn canu'n iach imi, neu fel y dywedent hwy, "*kenavo, kenavo emberr!*" Ac allan a ni o'r dref gan adael wynebau hoff ar ôl a theulu caredig, a bro oedd dĕg imi.

Yr oedd gennym ryw bedair milltir neu bump, o Dremel i Blestin, lle y cawn drĕn am Fontroulez (Morlaix). Gwastad oedd y wlad ar y dechrau, ac yn cael ei chuddio'n fwy gan eithin na gwenith. Ond, gan y defnyddir eithin yma fel ŷd, yr heuir hyd yn oed, a'i dorri bob tair blynedd i'w roddi i'r anifeiliaid yn dorion mân, y mae bron yr un mor werthfawr a gwenith, ac yn llawer mwy didrafferth. Nid hynny yw'r unig ddefnydd a wneir ohono. Ym mrŷydd ymylon y môr, megis o gwmpas Rosco a Chastell Paol, fe'i heuir ar bennau'r cloddiau, i dyfu'n gysgod i'r llawnder tatw, erfin a maip, moron a phŷs a ffa, yn y wlad ddigysgod honno; a gwelais y gwragedd hĕn, yn Nhreger, yn dyfod i

lawr o'r bryniau o fod yn hĕl hadau'r eithin. Yn olaf i gyd, nid oes ei well am fflagl, am gynnau'r tân yn y bore, ac am wresogi cegin y tyddynnwr yn y gaeaf. Hawdd oedd deall y pris a roddir arno, wrth weled amllder y tasau eithin, *berniou lann*, yn ymyl pob tŷ ar ein ffordd. Yr oeddynt yno mor sicr a thŷ uwchben, neu'r cloc hir-felyn gloyw, ac yn amlach o lawer na theisi gwair. Y mae'r eithin yn eiddo pawb—eiddo'r perchen tir yn unig y gwair. Yr oedd tâs arall, wedyn, bron yn ddieithriad yn gwllwm wrth bob tŷ. Tâs o goed a brigau wedi eu torri'n ddarnau ydoedd honno, a rhaid cyfaddef ei bod yn gymen bob amser, ac, yn wir, yn gelfydd yn fynych, yn llawer cymhennach na'r teisi gwair. Y mae'r Llydaw'r yn ddeheuig bob cynnig gyda gwneuthur tâs o goed, ond nid yw nemor fyth gyda thâs o wair, fwy na chyda sopyn o ŷd, neu helem.

Ychydig o dramwyo oedd ar ein ffordd ni y prynhawn Sul hwnnw. Nid aeth yr un cerbyd heibio. Ond yr oedd cerdded er hynny, yn y wlad oedd ar wahan i hynny, yn hynod o lonydd a thawel. Weithiau cyfeiriai tair neu bedair o ferched eu hwynebau tua rhyw bardwn neu'i gilydd, a chyflymu fel pe bai brŷs beth arnynt. Nid gormod brŷs i ddywedyd wrthym, ei bod hi'n deg am nad mud neb ar y ffordd fawr yn Llydaw, ac am mai eu dull o ddymuno dydd da ydyw dywedyd gair am y tywydd, am y cerdded sydd arnoch, neu am rywbeth a ddigwydd. Ar bennau eu tai yr oedd y mwyafrif o'r bobl, a'r plant yn enwedig, gan wibio trwy ei gilydd a rhedeg yn wylltion i'r tŷ i

fynegi bod rhywun ar fyned heibio. Eisteddai ambell un arall ar garreg y drws, neu ar y pren y torrid brigau arno, neu, ar ddamwain, hen wreigan friglas ar stôl drithroed, gan ddywedyd gair wrth y teithwyr bob gafael, a'i "*brao e*" a'i "*mond da bourmen?*"<sup>1</sup>

Newidiodd y wlad ei gwedd cyn hir, gan adael golwg drist y rhôs eithin, am un brydferthach o'r hanner, yn ymagor yn eangder rhyfeddol o'n blaen yn union odditanom, ac ymestyn ar y dde at y môr—y môr a ddywed gymaint wrth y Llydaŵr, ac a fwrw'n gyson am draethau a chreigiau ei fro—a ffurfio dôl dlôs a dynnai eich llygaid o'ch pen gan awydd i edrych arni, i'w gwneuthur yn eiddo ichwi, ac i borthi'r golwg arni wedyn mewn atgo. Yr oeddem yn myned ar i waered yna, ac yn disgyn yn ddiatreg i Blestin. Aeth fy nghyfaill yn ôl yn y man, a gadawyd finnau'n unig i gerdded y dref fechan honno. Saif yn weddol agos i'r môr, gyda niferoedd o feysydd bychain, cloddiau uchel, yn cau o gwmpas iddi. Cerddais i mewn i'w heglwys, sydd yn gymharol brydferth, yn cynnwys delwau tlyision o hen seintiau Llydewig, heblaw bedd Sant Eflam. Wrth gymryd coffi yn un o'r gwindaï yno, gwelais na fedrid darllen yn Llydaweg yma eto, na ddarllenid *Buhez ar Zeni*, ac y cyfrifai'r forwyn a weinai arnaf y Llydaweg yn berthynas agos i'r Saesneg, a'r Llydawiaid o'r un gwaed a'r Saeson!

Daeth yn amser i'r trê'n gychwyn o'r diwedd, a gofynnais innau i'r ferch oedd yno'n rhannu'r tocywnau

<sup>1</sup> mynd am dro

oherwydd gwna merched lawer y gwaith hwnnw yn Llydaw fel yn Ffrainc—am un, mewn Llydaweg pur, peth a'i bodlonodd yn ddirfawr, fel y profai'r wên a ddaeth yn heulog i'w hwyneb. Yna i'r trê'n bychan, i ddisgwyl ennyd arall iddo gychwyn, yr hyn a wnaeth yn ei amser ei hun heb wylltio dim, er nad cyn canu ei gorn fel gwedd o asynod anynad ar faes y cynhaeaf ym Meaux. Yr oedd yr un mor huawdl wedi dechrau'r daith, ac yn drafferthus hyd yr eithaf, wrth rwydo igam-ogam tua'r de. Symudai, ar y cyntaf, trwy'r dyffryn a welswn cyn dyfod i Blestin, nes ei ddisgyn i fro wastatach a thlotach—bro'n cynnwys caeau ceirch llwyd a gwyn, gwenith du, a thatw ac erfin, caeau eithin mân a mawr, heblaw rhedyn hirlas. Am y cloddiau, tyfai grug a banadl, y naill yn dlws gan ei ruddwawr golau, a'r llall yn ddewinol ddeniadol yn ei felyn cyfoethog. Rhoddasai'r poplys glâs-olau oedd yn aml ar ben y dyffryn, le i'r derw a'r helyg, a hwythau yn y man, i dderw llai, ac i eithin lawer, a rhedyn, erwau aneirif ohonynt, gan amgylchu'r capeli mosymog sydd yn britho daear Armor. Gorfod diflannu, hwythau, fel y dynesai atom y wlad a welem ers meityn, yn y pellter, a oedd yn dlôs o hyd, ac a ymgollai mwyach i mewn i'r fro oedd yn nesaf atom. Yna, ddyffryn dwfn, yn agos at lannau afon a ymdreiglai'n araf i lawr hyd-ddo. Yr oedd ffordd un ymyl i lwybr y trê'n, ac arni yr oedd plant lawer yn gosod eu traed yn y ddaear i gystadlu a'r tren, gan lwyddo i'w ddilyn ambell waith. Weithiau cymerai ceffyl

haearn, "march houarn" y Llydaŵr, at yr un gorchwyl, a llwyddo'n llawer iawn gwell, gan guro'r trê, eithr heb godi cywilydd arno, nac awydd i gyflymu'n gynt. Pe mynnem, caem fyned allan ohono, i hêl blodeuglwm o rôs, a dod eilwaith yn ôl iddo. Wedi ein dyfod at yr afon, ai'r dyffryn yn gulach, gulach, ac yn ddyfnach, a myned rhagddo mewn rhamant a ddodai'r creigiau arno, ac a goronid yn union dêg gan y tŵf tlysaf o goed a fu erioed. Yno yr oedd y *Dourduff-en-Mêr*—enw'n awgrymu lliw tywyll y dwfr—a'r môr ei hun, a llongau hwylbrennog arno, megis yn Harlech y dydd y daeth Matholwch, brenin Iwerddon, i geisio llaw Branwen ferch Lyr gan ei brawd, Bendigeidfran. Ac er nad oedd yr un uchter i'r creigiau, na'r un olwg ysgithrog, yr oedd y dyffryn islaw yn bertach nag y gallai gorlif "lliw du," chwedl y Llydaŵr am inc, ei ddisgrifio. Y dyffryn hwnnw o'r Dourduff i Fontroulez ydyw un o'r rhai harddaf yn Llydaw. Tŵf coed ydyw hanner gogoniant dyffryn, gan amlaf, ac y mae'r tŵf yma gyda'r mwyaf dymunol i'r llygad—yn dew yn gyson, yn amrywiol ei brennau hyd y bryn a gyfyd odditano, yn drwch ei ddail—a addurna'r brigau â lliw, â hud, ac â bywyd. Felly bob cam hyd at y tai a ddywed fod y dref hithau ei hun yn ymyl. Ac nid oedwch edrych ymlaen, os byddwch yn gwybod am y bont sydd yno, y fwyaf yn Llydaw, ac yn Ffrainc achlân, ac un a ddengys ôl celfyddyd manwl, amgyffred mentrus, a medr i gyflawni a gorffen. Hi, gyda'i dwyres gantau uchel,

celfydd, sydd yn arglwyddiaethu ar y dref, ac fe edrych yn rhyfeddol, yn aruthr, ac eto mor gywrain a phe bai dlŵs bychan. Er gwaethaf y colofnau mawr, ond bonheddig, sydd iddi, ac, yn sicr ddigon, yn ei chydio wrth y ddaear, nid ydych yn sicr, ar yr olwg gyntaf, pa un ai'n hongian o'r nwyfre fel rhyw fath ar enfys y mae, ai'n cyfodi o'r ddaear. Y mae i'r rhês isaf o'r cantau naw, ac i'r uchaf bedair-arddeg, nes ffurfio cyfanwaith sydd yr un pryd yn briwfaith, yn orchestwaith saernïo. I sylwi ar y bont yr euthum i'n union wedi disgyn o'r bitw trê, fel y gwna pob teithiwr call yn ôl cyrraedd Montroulez. Ac i droi'r sylwi'n fuan yn syndod, yn rhyfeddod, ac, yn ddiwethaf oll, yn edmygedd. Digwyddai hynny bob un o'r dyddiau nesaf hefyd, ac er imi ddod yno flwyddyn a dwy a thair yn ddiweddarach, rhaid oedd gwneuthur yr un fath bob tro. Oblegid gogoniant Montroulez, heb ddim amheuaeth, ac er gwaethaf ei heglwysi hynod o brydferth, ydyw ei phont amlgant ardderchog. Yno, yn y gwaelod, y mae'r tai'n bentwr yn nyfnder y dyffryn, ac yn drwch i fyny'r ymylon, eithr heb ddim namyn tô'r tai yn y golwg, nes rhoddi i'r dref o bell agwedd gwaith llechi ar y llethrau serth, gyda'r bont o hyd yn harddu'r cyfan, ac yn rhoddi iddo wedd arddunol. Arni'n fynych byddai trê yn tynnu ei gorff sarffaidd gan ychwanegu golwg erch, beryglus, at un nad oedd ond celfydd cyn hynny.

Yr oedd gennyf gyfaill y dymunwn ei weled ym Montroulez ac euthum i ymholi amdano ar fy union.

*Llydaw*

Eithr rhaid oedd aros hyd drannoeth cyn ei weled. Ei enw ydyw Monsieur Gourvil ac y mae ei siop lyfrau—*Ti Breiz*—yn adnabyddus i bob Llydawr a gymer ddiddordeb yn ei wlad, ei llên a'i hanes, ac i bob Cymro a daria yn y ddinas a haedda ar lawer cyfrif ei hystyried yn Brifddinas Leon.

## XIV

Que ne puis-je sentir ce qu'il y a de divin dans tous les temples? Je le pourrais, mais lentement; il faut qu'une sincérité se forme, S'amasse en moi."—BARRÈS.

YM MRO LEON

WEDI cytraedd Montroulez yr oeddwn mewn rhan gwbl wahanol o Lydaw. Nid ar unwaith y bydd y teithiwr trwy Armorica yn ymwybodol o newid bro, a phobl ac iaith, a thraddodiadau. Ym Morlaix, nid oeddwn yn Nhreger mwyach, ond yn Leon—yn Llydaw *par excellence*, yn y rhan honno ohoni sydd fwyaf Llydewig o ran iaith, moesau, arferion, crefydd, a gwisg hyd yn oed. Yma am yr eglwysi amlaf a chywreiniaf, yma am y Calfariau mwyaf gorffenedig, yma y pulpudau tlysaf, y pyrth hynotaf, y baneri drutaf, a'r bedyddfain cyfoethocaf. Yn Nhreger nid yw'r Calfariau, gan amlaf, yn ddim namyn croesau, heb fod yn gelfydd iawn, a heb anelu bod yn ddim cyflawnach a manylach na chroes syml. Yn Leon, y maent yn waith celfyddyd gywrain, os nad gorffenedig, yn lluosog eu ffigyrau a'u manion gwaith, ac weithiau, yn adrodd, mewn gwenithfaen caled, holl hanes bywyd y Crist o'i eni i'w farw, o'r ffo i'r Aifft i'r trengi ar Galfaria. Felly, er enghraifft, yn Guimiliau, ym Mhlougastell Daoulas, ac ym Mhleyben, ac i raddau llai, yn Saint Thegonnec. Yng Nghastell Paol, y mae un o Eglwysi cadeiriol Llydaw, ac un

deilwng o'r rhai gorau, gyda hynny. Y mae'r Kreisker yn yr un dref, y tŵr uchaf yn Llydaw, ac yn Ffrainc oll, yn destun balchter pob Llydaŵr; a chafodd, gan y pensaer Vauban, ei foli fel y gwaith gorau a ddaeth allan o ddwylo dyn. Llai o lawer ydyw'r ddwy eglwys yn Saint Thegonnec a Guimiliau, ond nid llai hynod ddim. Canys, am bulpud y naill, ac am fedyddfaen y llall, ac am ei baneri, y maent yn gwbl ddiguro. Ond odid nad yw cyfangorff yr adeilad yn Saint Thegonnec, gan gynnwys yr Eglwys, y porth, y Galfaria, a'r esgyrndŷ, yr hynotaf yn Llydaw. Ac y mae Calfaria Guimiliau, os nad yr orau yn y wlad, yn cystadlu'n dŷg a dwy arall, ym Mhleyben un, ym Mhlougastell y llall, am y llawryf. Ac nid yw Guimiliau a Saint Thegonnec namyn ychydig filltiroedd allan o Forlaix!

I wlad crefydd a chelfyddyd, ynteu, y daethwn wrth gyrraedd Morlaix. Fe'i brithodd yr un defosiwn hi âg ysgolion sydd yma yn brwydro mor daer yn erbyn ysgolion y llywodraeth, ac a elwir yn aml, yn Ysgolion Cristnogol a phryd arall yn Ysgolion Rhyddion. Parodd eto i'r bobl lynu'n daerach wrth eu hiaith, a'i darllen, hyd yn oed, wrth fod yn ffyddlon i'w Beibl hwy, "Buhez ar Zent," a ddarllenir ganddynt y bore weithiau, a'r hwyr yn gysonach fyth. Y mae Morlaix yn ddinas hên, ac yn cyrraedd yn ôl i ddyddiau'r Rhufeiniaid fel yr awgryma ei henw Llydewig—Montroulez, sydd yn perthyn yn o agos i'r Mons Relaxus. Wedi dyfod yr ymfudwyr o Brydain yma, aeth yn eiddo dugiaid Leon, yn ddiweddarach

yn eiddo pendefigion Llydaw; ac yna bu ymryson amdani gan y Saeson, a'i meddiannu. Galwodd y dywysoges dlôs o'r Alban, Marie Stuart, yma ar ei ffordd i lŷs Ffrainc i briodi'r tywysog ar ôl dianc o grafangau ewythr y brenin Edward VI. Rhoes olau dydd i rai dynion enwog, i ambell ddiwinydd mawr, i forwyr dewr fel y sydd yn aml yn Llydaw, eithr, yn arbennig, i Albert le Grand, awdur hyglood "Buchedd y Saint" Llydewig, ac i Emile Souvestre, un o'r dyrnaid ysgrifennwyr galluog a welodd Llydaw yn y ganrif o'r blaen, a rhagredegydd Charles le Goffic ac Anatole le Braz.

Gwelais feini i rai o'r gwŷr hyn y noson gyntaf ar ol cyrraedd. Cerddais wedyn i mewn i ddwy o'r tair eglwys sydd yno. Y mae un ohonynt—St Melaine—i lawr yng ngwaelod y dref, wrth droed y bont. Y mae rhai grisiau yn cyfeirio ati o'r gwaelod isaf, a thai hirion hynafol, yn dynn amdani fel na thybiai dyn, ar y cyntaf, ei bod yno o gwbl. Cawsw'n gyngor gan fy nghyfaill o Baris i fyned i'w gweled hi yn anad un, ac, os byddai modd, i fod mewn gwasanaeth ynddi. Yr oedd yr olaf yn hollol allan o'r pwnc, ond ni pherai dim fy llesteirio rhag myned iddi; oblegid o'r tair sydd yn y dref, hi, yn ddiau, ydyw'r fwyaf diddorol. Yr oedd yn hwyr ar y pryd, a'r nôs ar ddyfod. Adeg i weled eglwys ar ei gorau! Canys y mae ceiniogau'r Cristionogion wedi peri britho'r allorau â niferoedd canhwyllau canwelw, weithiau'n hirion, weithiau'n fyrion, eithr beunydd yn eithriadol o brydferth, tan eu goleuadau gloywon-

gochion, wrth droed delw i Grist, i Fair, i Sant bwy'i gilydd, o flaen allor o aur ac o arian, o liw'r gwaed, neu o liw'r mêl neu eto, o liw'r gwenith, pan fo'n gawod sidanaidd ar dês heulog, ac yn gyfoethocaf ei felyn. Felly yr oedd hi oddimewn i eglwys St Melaine nes codi rhyw hiraeth annirnad ym mynwes dieithryn, a gwyleidd-dra gormod i gerdded o golofn loyw i allor ddisgleirwych, a pharch na fedr ei fynegi ei hun, wrth sylwi ar y tri neu bedwar oedd yno'n arllwys pwysau eu pechodau o flaen y Crist sydd yn eiriol ar eu rhan, neu eto o flaen Mair y Wryf a gydymdeimla'n llwyr â gwendid gwraig. Nid oedd fodd imi ymuno yn y ddefosiwn, ond yn unig barchu'r eneidiau oedd yno'n ymbil; a dymuno efallai am gael fy nghynnwys ymhlith eu gweddïau hwy a'u seintiau. Nid allwn i, bagan,—pagan yn nhyb y crefyddwyr oedd yno, yn ddiâu—lai na theimlo rhyw awydd i addoli mewn lle oedd mor gydnaws â gweddi, â myfyrdod, â meddwl dwys am ddirgelion y byd o'n deutu, ac am gyfrinach y greadigaeth ei hun. O'ch gwaethaf, yr oedd yn deml santaidd, yn deml nid o waith dwylo, ac er dymuno mwynhau ceinderau'r allorau a'r ffenestri, y delwau a'r darluniau, fel celfyddyd pur, ni fedrech o gwbl. Yr oedd y meddwl, yn hytrach, yn ei gynefin yn hofran am y sylweddau a awgrymai'r adeilad a'i drysorau, ac yn bwhtwman, megis, yn fwy gyda'r delweddau nac efo'r delwau. Ni byddai'n hir pe cai ddilyn ei fympwy cyn dilyn ffordd oedd gynefin i'r addolwyr a gynullai yno'n gannoedd i glywed offeren a phader, neu'n

ddeuoedd yn unig i weddio, yn y dirgel "ymhell o sŵn y byd a'i boen," ymhell o drŵst cloncian yr esgidiau pren ar y grisiau oddiallan i'r porth, oedd mor agos yn wir ac eto mor bell. Unwedd yw rhinwedd addoli yn Morlaix ag ym Mabilon y Doethion a ddaeth o'r Dwyrain ac a ddisgrifir mor gampus mewn darlun ar fur yr eglwys'hon.

Cerddais allan cyn bo hir, yn synfyfyrgar ddigon, yn fy holi fy hun yn ôl y cyngor "holed dyn ef ei hun," ond a'm meddwl fyryn yn wahanol i'r fel y sonia'r Syr O. M. Edwards amdano ef yn mynychu'r eglwysi hyn. Ni fynnai ef weled namyn rhith o grefydd neu goelgrefydd, neu ragrith. Ni fynnai, a ddywedais, ac fe dybiaf mai yn hynny y mae'r eglurhad. Gwnaeth ei addysg hi'n annichonadwy iddo ddirnad y gallai fod gwirionedd gan Gatholig, na dwyster, ond odid, na difrifoldeb. Ni fynwn i amddifadu neb sydd Gatholig o deimlo, mewn gwirionedd, fod ganddo yntau y rhinweddau gwerthfawr hyn. Am ddiffyg y Syr O.M., rhôf y bai, nid yn gymaint ar addysg ei ddyddiau boreaf, ag ar addysg Rhydychen. Buasai ef wedi deall Llydaw a'i chrefydd yn anhraethol well pe cawsai flwyddyn neu ddwy ym Mharis i ddechrau—er nad yw hynny'n hollol sicr hefyd am fod dylanwad Renan ar ei uchaf yr adeg honno, ac mai uchelgais pob brigewdyn o ddyn oedd ei ddynward ef, neu'n well, gan mai gwyddoniaeth epâod ydoedd gwyddoniaeth y dydd, ei epâu. Er hynny i gyd, busasai'n ddiâu yn gymorth eithriadol i ddyn fel y Syr O.M., oedd a'i galon yn gywir bob amser,



ac a gyweiriai ei ben o'i herwydd yn hwyr neu'n hwyrach. Buasai gwybod y Ffrangeg yn unig yn fwy nag a feddyliai o help iddo. O'i anwybodaeth ohoni hi y mae'n sicr gennyf y tarddodd amryw o'i gam farnau am Lydaw, ac y dyfnhaodd ei ragfarnau amdani. Na ddywedwn ddim yn wael amdano, er y cyfan, canys y mae ein dyled iddo yn ormod.

A mi allan o Eglwys St Melaine, yr oeddwn yn ddisyfyd yn ôl yng ngwaelod y dref lle y mae'r mwyafrif o'r tai, y masnachdai a'r siopau, Neuadd y Dref, yr hen amgueddfa lawn trysorau o bob math, y cwfaint hên, a'r gwestyau a'r lleoedd cyhoeddus, lle y bydd standingoedd ar ddydd marchnad, a gwerthu ar ddillad a llestri, ar deganau a gwisgoedd, ar gortenni ac edafedd. Yno wedyn, yr arferai'r clerwr o'r wlad gynt werthu ei faledi a daenai'r newyddion o fro i fro, o Ffrainc i Lydaw. Ond ysywaeth, rhoes ef weithian ei le i'r papur newydd yn unig ac, yn amlach na hynny, i ddim o gwbl, am na ddarllain y tyddyawyr y papurau, ag eithrio'r rhai goleuaf ohonynt, a thrigolion Finistere sydd, bron bob teulu, yn derbyn un papur o leiaf bob wythnos, am fod colofnau rai ynddo yn Llydaweg. Y mae colli'r glêr o'r tir yn fwy colled i Lydaw nag a ellir ei ddywedyd. Bu'n ddefnyddiol am ganrifoedd, yn taenu newyddion pan nad oedd foddion eraill at hynny, yn cerdded o dyddyn i dyddyn gan gael ei groeso ym mhobman, hyd at y manordâi a'r plastâi. Gallai fod yr un mor ddefnyddiol eto. Nid drwg o beth i'r rheini yn Llydaw a fydd sôn am ddeffro'r ymwybyddiaeth

genedlaethol yn y bobl fyddai cymryd dysg oddiwrth hanes y bardd crwydr. Ni ellid dim amgenach heddiw eto, os am gyrraedd yr amcan hwn, na chyfansoddi cerddi cenedlaethol, neu faledi, a'u gwasgar ar dafod leferydd y glêr a fâi o bardwn i ffair, o wyl i ddawns, o fôr i fynydd. Hon yw'r ffordd a ddewisodd rhai o'r Protestaniaid yma, ac, od oes llwyddiant i fod, nid yw'n annhebyg nad o'r cyfeiriad hwn y daw. Yn dew am y ddau le cyhoeddus—y Place Thiers a'r Place Souvestre—y mae'r tai'n codi hyd y llethrau, nid yn rhês y tu ôl i'w gilydd ond yn bentwr, ac yn uwch y naill na'r llall, er mai uchel ydynt bron bob un. Yn eu plith y mae amryw sydd yn hên iawn, wedi eu codi yn y bymthegfed ganrif, yn ddeutu heol ohonynt—os heol, hefyd. Oblegid y mae mor gul a llwybr dafad, ac yn gulach fyth fel yr ymgyfyd y tai i fyny. Y rheol ydyw bod pob llofft yn bellach i'r ffordd na'r un odditani, ac felly am dair neu bedair llofft nes bod bron yn cyffwrdd yn y pen uchaf, a pheri ichwi feddwl mai trwch blewyn yn unig sydd rhyngddynt yn y tô. O'r braidd y gall y gronyn lleiaf o awyr ddyfod i mewn. Ond nid hynny oedd pryder y rhai a'u hadeiladodd ar y dechrau, nac eto y rhai a drig ynddynt heddiw. A phe bai eisiau prawf arall o wirionedd yr ymadrodd, y mae wrth law i'r sawl a fentro godi ei olwg i edrych ar y ffenestri, os geill eu gweled—y rhai bychain bach a hwy!—ond eto'n gaead, beunydd yn gaead. Bron nad ydyw dyn yma yn anadlu awyr y bymthegfed ganrif, lawn cymaint a'i hawyrgylch. Er nad wyf hoff o ddinistrio,

fy nhyb ydyw mai da a fyddai dinistrio'r hendai hyn ac, os oes da yn eu celfyddyd, fel y mae yn ddigon mynych, ei ddynwared wrth godi rhai iachach yn eu lle, a rhoddi pwys mwy o lawer nag o'r blaen ar awyr iach, ac ar lendid. Byddai'n rhaid bod yn ofalus eto rhag gadael i'r ambell ddelw sydd ar eu conglaun fyned i ddwylo'r dinistrydd. Haeddant hwy dynged ragorach na hynny, a'u trysori'n hytrach na'u tafu o'r neilltu, fel y gwelir gwneuthur yn llawer rhy aml.

Oedais ddigon yn yr heolydd hyn i sylwi ar gelfyddyd swynol y naill dŷ hynafol ar ôl y llall, nes gweled braidd bob un ohonynt, a blino ar yr amgylchiadau, er nad ar y gelfyddyd, oedd heb ddim amheuaeth yn amgenach na honno heddiw. Dymunwn awyr rydd a golau dydd. Ac fe'i cefais eto wedi ail ddisgyn i'r gwaelod yn dŷ, i gerdded y Place Thiers, gyda Neuadd y Dref, ac i fyny at y man y cyrhaedda'r afon iddo. Cerdded hyd ei glannau am ysbaid byr yn unig, er gwaethaf fy nghyweinrwydd, er tanbeitedd fy mrwdfrydedd i'm bodloni ag un olwg eang, gyfan, ar y dref gyda'i gilydd. Ceisiais droeon, eithr heb lwyddo, er dringo'r llethrau. Un modd yn unig sydd i weled Morlaix, sef yw hwnnw, bod ar y bont anferth ei hun. A chan na ellir bod yno heb fod yn y trê, ni roed imi y nos honno ei gweled. Gorfod bodloni heb gael yr olwg a fynnw, er imi roddi ystyfnigrwydd lawer yn fy amcan. Ni byddaf fyth yn fodlon ar fy syniad am dre, heb allu ei gweled o rywle amlwg i gyd gyda'i gilydd. Wedi imi fethu, dringais y

grisiau a wna Morlaix mor drafferthus i deithiwr, ac mor anhwylyd i'r trigolion. Yn y gwaelod y mae'r bywyd bron i gyd, ac yno, fel y dywedais, y mae'r marchnatai a'r siopau. Yno wedyn y gwinda gorau, a'r mwyafrif o'r gwestyau. Ond i fyny fry y mae'r brif-orsaf am Baris ac am Frest. Heb fod nepell oddiwrthi y mae un arall o'r eglwysi. Eglwys Saint Martin, a'm hatgofiodd o edrych arni o hirbell, ac o'r tu allan, o'r Madelaine ym Mharis. Euthum i mewn iddi hithau eto. Y mae darnau ohoni yn gymharol ddiweddar, a'i thŵr wedi ei adeiladu ganol y ganrif ddiwethaf yn unig. Ei hynodrwydd pennaf ydyw ei chyfres colofnau crynion, yn gochion a gloywon i gyd, ac yn hyfryd iawn i'r llygad, ei phrif allor, hithau o farmor rhudd a disglair, llun Disgyn oddiar y Groes, a'r Gosod yn y Bedd, a Sant Corentin yn gosod y garreg gyntaf i Eglwys Gadeiriol Quimper.

Yr oeddwn bron a diwedd fy ngherdded am y nos, bellach, pan gododd awydd eilwaith arnaf droedio allan i mylon y dref. Ac fel yr agosawn i'w maestrefi clywn Lydaweg yn ddigon mynych, gan y gwagedd ar bennau'r tai gan amlaf, gan y cwmni a welid o fan i fan yn eistedd ar feinciau hirion o flaen bowleni seidir, gyda'r ddwyfraich yn pwyso'n drwm ar y bwrdd, ac, yn olaf, gan y plant a chwaraeai. Siaredais innau Lydaweg ag un o'r gwagedd hynny, a fywiocaodd yn ddioed wedi clywed rhywun, nad ystyriai o'i dosbarth hi, yn siarad yr iaith, oedd wedi'r cyfan, yr anwylaf iddi hi, yr unig un a lefarai leferydd ei chalon, a'r unig un a wyddai'n weddol o dda. Adnabu wrth

reddf nad yr un fel y siaradwn i a hi, a mynnai mai "Brezonek fall," Llydaweg au, oedd yr iaith a ddefnyddiwn i. Felly y mynegai hi falchter naturiol ei hardal, am mai i breswylwyr Leon, gau pob Llydaweg ond yr un a lefarant hwy. Ac wrth lefaru felly ni ddychmygai lai na Llydaŵr oeddwn—ond Llydaŵr nid o Leon, Llydaŵr nid o Finistere. Fe'i heglurodd ei hun yn ebrwydd, gydag ychwanegu mai o Forbihan yr oeddwn. Ni ddangosais fod hynny nac yn fy modloni nac yn fy anfodloni, ond yn unig ei hysbysu'n gywir nad oeddwn na'r naill na'r llall, nad oeddwn, yn wir, yn Llydaŵr o gwbl. Ond er pwysleisio hynny, a dangos fy mod o ddifrif heb geisio ei thwylo, ni'm credai ddim. Yn ei thywyllwch y gadewais hi am nad ar amrantiad y tynnir oddiwrth y Llydaŵr syniad a â unwaith i'w ben. "*Têtu comme<sup>1</sup> un Breton*" meddai'r Ffrancwr am a fo ystyfnig. "*Tud kalet*" ebr y Llydawiaid amdanynt eu hunain, gan ymhyfrydu yn y disgrifiad. Cofiaf yn dda untro i'r peth fy nharo'n fwy nag arfer. Yn y wlad fymryn oddiallan i Baris yr oeddwn, yn cerdded culffordd gynefin imi gyda glan afon Marne, pan welwn, encyd o'm blaen, dyrfa o bobl yn sefyll yn gylch gyda'i gilydd, a deall, yn ôl cyrraedd, mai sefyll oddiamgylch i ryw bererin anffodus a yfasai fwy nag a ddigonai i droi ei ben, ac a dorrasai ei goes bren oherwydd hynny. Yr oedd yno dri neu bedwar o ddynion ar eu gorau glas yn ceisio ei gynorthwyo i godi ar ei draed, ac i'w gludo rhyngddynt, pan brofai pob

<sup>1</sup> Ystyfnig fel Llydaŵr

ymdrech yn ofer, oherwydd diogi neu ddiotalwch neu fedd-dod y meddwyn. Yna, meddai un ohonynt yn ddiniwed berffaith ac yn ddifeddwl-ddrwg hollol: "*Mais alors est-ce que tu es un Breton ?*" (Ai Llydaŵr ydwyt?) "*Tu es têtue comme lui*" (Yr wyt ystyfnig fel ef). Ac ni allai sant Llydewig lai na chwerthin.

Gadewais y wraig dda gan fyned rhagof allan o'r dref a chodi fy ngolygon ar y wlad o gwmpas, a'm traed i ben un o'r cloddiau uchel i weled yn well, ac ymhellach. Wedi'r cerdded hwnnw, a'r ysbïo ysbaid i'r de ac i'r gogledd, i fyny ac i lawr, trois yn ôl i Forlaix i gysgu hun y teithiwr blin mewn gwesty bychan ganllath i lawr oddiwrth y brif-orsaf.

XV

YM MONTRouLEZ

ER cymaint a rodiais y nos gynt, er y niferoedd heolydd a gerddais, dechrau darganfod Morlaix yr oeddwn. Gan na fwriadwn rodni mwy nag undydd arall at y darganfod hwnnw, penderfynais godi'n fore, a bod yn brysur o ben bwy'i gilydd i'r dydd. Yr oedd fy rhaglen yn gymharol gyflawn. Yn gyntaf oll, yr oeddwn am weled Gourvil ac ymddiddan ag ef; yna Mr. Jenkins y cenhadwr, y cofia'r darlennydd i'r Syr O. M. Edwards, yntau, ymorol amdano, a methu a'i gael; ei feibl-gludydd, Monsieur Ropars; ac un o feirdd gorau Llydaw—Le Garrek. Digon am undydd cyfan, a bod yn brysur fel "gwenynen dawel" Wiliam Llŷn. Yn enwedig, pan gofier mor anodd ydyw cerdded Morlaix, y ddinas sydd a'i thraean ar uchaf dyffryn dwfn, a'i deuparth yn y gwaelod isel; ac eto, bod un o'r cyfeillion a fynnw ynweled ag ef, yn trigo wrth draed y bont, un arall yn ymyl yr orsaf, a'r ddau arall i fyny ymhell, oddiallan i'r ddinas.

Dysgais ryw gymaint am y dref cyn myned allan o'm llety: sef bod yno fwy o siarad Llydaweg nag a oedd ugain mylnedd yn ôl, bod swyddogion a

*Dydd arall ym Montroulez*

meddygon yn cyflogi Llydawesau'n forwynion, i ddysgu'r Llydaweg i'w plant. Yn ddiweddarach, dywedodd siopwr wrthyf na thalai iddo farchnata yn y dref oni wyddai Lydaweg, er mai ychydig iawn ohoni a sieredid yn y dref ei hun. Y rheswm ydoedd ddyfod y bobl o'r wlad yno i brynu ac i werthu, a hwy, gan amlaf, yn llefaru Llydaweg yn unig. Mewn gwirionedd, gellid yn hawdd ddywedyd, ac heb fod ar gam, mai'r amaethwyr a'r tyddynwyr, preswylwyr y wlad, a gadwodd y Llydaweg yn fyw hyd yn hyn. Cefais gyfle i ysgrifennu o'r blaen mai'r gwladwyr, mewn un gair yn gystal ag mewn mil, ydyw cefn Llydaw ers rhai canrifoedd. Eu glynu hwy wrth yr iaith—os mynnwch, eu hanwybodaeth o bob iaith arall—a achubodd y Llydaweg. Pob clod i'r Eglwys, pob clod i'w hoffeiraid, pob clod i lenorion Llydaw yn y ganrif o'r blaen—ac y mae clod yn ddyledus iddynt—y pennaf clod yw eiddo'r gweithwyr ar y tir. Y mae'n wir am bob gwlad mai ei thyddynwyr ydyw ei chefn a'i chynhaliaeth. Ymddengys imi ei fod yn ddwywaith wir am Lydaw. Gallant fod yn arw—ac y maent yn ddiddadl—ac yn wyllt a chreulon, yn hollol anlythrennog neu'n amddifad o bob mireinder a moesau mwyn, ond ni all amheuaeth fod nad iddynt hwy y mae diolch am gadw'r Llydaweg y peth ydyw heddiw—yn iaith farbaraid, medd ei gelynion, yn iaith wyllt, heb ddisgyblaeth, na datblygiad, ond yn iaith, er y cyfan, ac yn iaith cenedl hoff o gerdd ac o ddawns, sy'n llawn hiraeth am gynghanedd rhwng bywyd a

breuddwyd, yn ffynhonnell ddi-hysbydd o farddoniaeth a chân.

Gellir dywedyd am Forlaix, yn o debyg, ei bod y fwyaf Llydewig o drefi mawr Llydaw. Y mae'n fwy o faint na Gwengamp, ac fe glywir ar ei heolydd iaith y wlad mor aml ag yno. Nid yw'n llawer llai na Chemper (Quimper), ac fe siaredir Llydaweg fwy nag yno—er mai yng ngenau yr un dosbarth o bobl y clywir hi amlaf yn y ddwy dref, y bobl o'r wlad yn y farchnadfa, y trefwyr eu hunain yn y maestrefi, a'r gwragedd golchi a welir yn ugeiniau ar ei gliniau yn y bythynnod golchi ar lan yr afon, bob un a'i cheg yn barod i'r barabl rydd, ddigrif, a'i phren golchi yn bwrw'r dillad a gyfyd o'r dwfr oer, ac a ddaw yn fuan, mor wyn a'r eira. Dosbarth arall ydyw'r hên, a welir yn lluosog yn y Place Theirs, yn eistedd ar y meinciau yno, yn sôn am gampau eu dyddiau cynnar, am wrhydri tad a mam, am fywyd caled eu hieuenctid. "*Tom e*"<sup>1</sup> meddai un o honynt wrth un arall a eisteddai yno, a'r haul ar ei uchelfannau. "*Re dom e*"<sup>2</sup> meddai'r llall. Hynny fyddai'r rhagymadrodd i oriau o glebran am y byd a'r betws.

Buan y gwelais M. Gourvil, ac y cefais ymddiddan diddan ag ef yn y Gymraeg sydd mor hoff ganddo, ac a sieryd mor hynod o dda. Yr wyf yn gyfarwydd iawn ag ef erbyn hyn, ac yn ei gyfrif yn un o'm cyfeillion gorau yn Llydaw. Ond y peth a'm synna'n fwyaf ynddo ydyw ei wybodaeth o'r Gymraeg, a'i fedr

<sup>1</sup> Twym yw: h.y. Y mae'n dwym, yn dég.

<sup>2</sup> Rhy dwym yw:

i'w llefaru. Un peth gwybod gramadeg iaith; hollol wahanol, ac anos, medru ei llefaru'n dda, a rhugl. Y mae'r ddau gan fy nghyfaill Gourvil, ac i raddau na all lai na synnu a swyno'r Cymro a'i cyferfydd. Nid ef ydyw'r unig Lydaŵr a fedr y Gymraeg yn dda. Y maent yn bump, o leiaf. Yn gyntaf, y mae'r hen Vallée —*le pere Vallée*, fel y mynn ei gydwladwyr ei alw. Yn nesaf, Taldir, sydd yn ei siarad yn llawn cystal â Gourvil, ac efallai, gyda llai o ymdrech, er mi dybiaf, heb feddu'r un feistrolaeth o'r gystrawen. Yna M. Gros, sydd yn byw yn Fersai ac a ddysgodd y Gymraeg yn Llundain, gyda'r Cymry yno—heb fod nemor wythnos yng Nghymru. Ond am dano ef, y mae'n rhaid ychwanegu y medr hanner dwsin o ieithoedd yn dda, a bod ganddo ddawn gwbl eithriadol at eu dysgu. Cof gennyf glywed M. Dottin, Prifathro'r Brifysgol yn Rennes yn dywedyd, na welodd yntau mo'i gyffelyb. Cofiaf ei gyfarfod am y waith gyntaf ym Mharis bedair blynedd yn ôl, ar y Place St. Michel, Sul yn Nhachwedd. Crwydro gyda'r afon Seine y buom, i fyny at y Bastille, gan siarad Cymraeg bob cam o'r daith. Cofiaf yn llawn cystal a hynny fy rhyfeddod o'i glywed yn medru'r Gymraeg ragored. Aethai deng mlynedd heibio er pan fuasai yn Llundain, ac yn ystod y cyfnod hwnnw ni chyfarfu â'r un Cymro, hyd y Sul hwn ym Mharis. Llefarai'n araf, i ddechrau, gan gael peth trafferth i afael yn y gair iawn. Y syndod ydoedd sylwi fel y gwelhai'n barhaus, bron na ddywedaf, o funud i funud, nes llefaru cyn bo hir mor rhwydd â'r un Cymro. Byddai'n fendith i lawer

ohonynt fod yno yn ei glywed, i godi gwrid o gywilydd i'w hwynebaw. Gwelais M. Gros laweroedd o weithiau wedi hynny, a synnwyd fi yr un mor aml.

Yr olaf imi sôn amdano fydd Mocaer, sydd, 'rwy'n meddwl, gystal ei Gymraeg a'r un ohonynt, fel y gŵyr y Cymry oedd yn y Gynhadledd Geltaidd yng Mghemper yn 1924. Y mae ei glod ef yn llawn mwy. Ni wyddai Lydaweg i ddechrau, am ei eni ym Mharis, i Lydawiaid na welent ddiben iddo ei gwybod, ac, yn wir, na fyddent iddo ei gwybod, rhag i hynny ei dynnu oddiwrth efrydiaeth oedd yn anhepgor iddo. Gorfu'r bachgen ar yr anhawster. Ac, i orffen ei addysg, dysgodd Gymraeg. Credaf ei fod hyd heddiw yn ddarllenwydd cyson o'r "Darian" ac o'r "Cymru."

Cymaint a hyn am y Llydawyr a wŷr y Gymraeg. Yn anffodus, nid oes yr un nifer o Gymry yn gwybod y Llydaweg er bod cadair i efrydiaeth Geltaidd ym mhob un o'n Colegau Cenedlaethol. Digoned dywedyd na bydd yn gyflawn ddysg neb Cymro o ieithydd heb wybodaeth o'r Llydaweg.

Weithian ni bydd y darllenwydd yn rhyfeddu dim imi oedi yng nghwmni Gourvil. Yr oeddwn i'w gyfarfod yn hwyrach yn yr un dydd. Gan hynny, cyfeirio ymaith am y cyfeillion eraill, ac, yn gyntaf oll, am Mr. Jenkins, y Cenhadwr sydd ym Morlaix ers blynnyddoedd mawr iawn, ac a adwaenir gan bawb yno, yn naturiol. Nid oedd gartref ar y pryd ond fe'i gwelais, dro arall. Yr oedd yn hên ac eiddil, wedi colli pob rheol ar ei gôf, ac eto'n dywysogaidd

ei olwg. Cadwai'r corff mawr o hyd ryw ronyn o'r cymeriad pendefig oedd ganddo, y mae'n rhaid gennyf, yn ei flynyddoedd gorau. Erbyn heddiw y mae wedi marw, ar ôl bod yn ddiwyd gyda'i lafur, yn gyson gyda gwaith ei galon, yn ddi-arbed yng ngwinllan ei Arglwydd.

O dŷ Mr. Jenkins, esgynnais i fyny i uchaf ystlys y bryn sydd yno, a myned am dipyn yn llwyr allan o'r dref, gan igam-ogamu gyda'r ffyrdd ceinion am ymylon y meysydd mân rhwng cloddiau, oedd bob pryd i fyny'n uchel o'm deutu. Eisteddais ysbaid i ddarllen y swynwr, Anatole le Braz, cyn troi'n ôl am y dref. Cyfodi yna a disgyn i'r dref, i ymorol am dŷ'r beibl-gludydd, a'i gael, wedi digon o holi a chwalu. Yn ofer eto. Nid oedd Mr. Ropars yno, eithr y wraig yn unig. Eisiau gwybod helynt gwerthu Beiblau yn ardal Morlaix yr oeddwn. Gwyddwn oddiwrth M. le Queré, ac, yn well fyth, oddiwrth beth profiad personol, sut yr oedd hi ym mro Treger. Disgwyliwn wahaniaeth dirfawr yn Leon. Na chamddealler fi. Nid disgwyl yr oeddwn y byddai mwy o werthu ar Feiblau'r Protestaniaid yn y fro sydd, uwchlaw pob un, yn gadernid y Babaeth, yn Dir yr Offeiriaid, *La Terre des Prêtres*, fel y galwodd Yvres le Febvre hi yn ei lyfr sydd yn ddiddorol ac eto'n ofnadwy, ac, fe obeithiaf, yn rhy galed ac annheg. Disgwyl yr oeddwn, os byddai gwerthu o gwbl, mai ar y beiblau Llydewig y byddai'r gwerthu mwyaf ac nid ar y rhai Ffrengig. Dangosodd Madame Ropars imi lyfr cyfrifon ei gŵr, a gwelais ar unwaith mai yn ôl fel y disgwyliwn

yr oedd pethau. Gwerthid tri yn y Llydaweg am bob un yn y Ffrangeg—y gwrthwyneb yn union i Dreger.

Adroddodd Madame Ropars wrthyf yn nesaf, ei hanes hi a'i gŵr, fel y troisant eu cefnau ar yr Eglwys Gatholig, ac y derbyniasant y ffydd Brotestannaidd. Ffrances, hi, ac ni thymiaf ei bod yn rhy hoff o'r Llydawiaid. Cwynai'n arw rhag y plant yn myned yn ôl adre o'r ysgol, gan anghofio'r cwbl a ddysgasant yno, a'r Ffrangeg o flaen dim: a myned, fel y dywedai hi, "mor fudr a'u rhieni, mor ddiotal a difalch." Dywedai i'w gŵr gael cryn dipyn o wrthwynebiad, yn enwedig oddiwrth y rhai mwyaf dysgedig, ac, wrth reswm, oddiwrth offeiriaid. Ffaith ydyw hon i gymryd sylw ohoni, am ei bod yn wir, fwy neu lai, tros Lydaw ben bwy gilydd. Y dosbarth mwyaf anwybodus sydd yn prynu'r Beiblau gan amlaf—efallai am mai haws ymwneuthur â phobl felly, neu, yn debycach, am na wyddant bob amser ba beth a brynant. Gellir ychwanegu eto nad ydynt mewn sefyllfa i wybod y gwahaniaeth rhwng y ddwy ffydd, i amddiffyn eu heiddo eu hunain, ac i'w phleidiu'n danbaid. Wele'r gwahaniaeth yn ddirfawr rhwng y Mudiad Brotestannaidd yn Llydaw heddiw, a'r peth ydoedd yng nghyfnod y Diwygiad. Yr adeg honno, yr uchelwyr a'r pendefigion a'i mabwysiadodd hi, gan ddilyn yn hynny o beth, bendefigion a thywysogion Ffrainc, am i ymddiwgio ddyfod fwy neu lai, *a la mode*. Heddiw, y dosbarth isaf, y tyddynwyr bychain, a'r pysgotwyr gyda glannau'r môr yn y de,

sydd, ni ddywedaf yn ei derbyn yn ffydd iddynt hwy—canys gor-ddywedyd fyddai hynny—ond yn prynu'r Beiblau, ac yn gwrando ei phregethwyr. Nid wyf o gwbl yn sicr mai arwydd dda i'r achos Brotestannaidd ydyw hynny. Hoffach gennyf gredu mai ennill ei harweinwyr ydyw ennill gwlad, mai Protestaneiddio ei gwŷr bonheddig a'i thywysogion ydyw ei Phrotestaneiddio drwyddi draw. Amser a ddengys.

Yr oedd ymhell ymlaen yn y dydd erbyn hyn, a disgynnais innau o'r uchelder eilwaith yn ôl i waelod y dref, gan gerdded, yn union ddeg, allan ohoni i fyny gyda'r afon a'i dyffryn tlŵs hyd Bloue-jean, ac i ymyl y Dourduff unwaith eto. Hardd y ddôl o hyd, a choediog a chreigiog ei hochrau, gyda'r briffordd bob ymyl i'w gwaelod, a bryn tu ôl iddynt yn dŵf coed, efô, ac yn swynol, yn disgyn i lawr at yr afon droeog yn y canol. Yr oedd yr holl le'n ddistaw, ag eithrio sŵn pladur, untro'n suo wrth dorri'r wanaf wair, eildro'n seinio'n hyfrytach fyth pan godai'r pladurwr hi ar ei ysgwydd gan lenwi'r fangre dawel â sain hoff ac annwyl y pren hogi. Yn y tawelwch hwnnw, gellid clywed o hirbell y wraig ar y ffordd haearn yn tynnu'r glaswellt a'r borfa i'w ffedog, yn fwyd ei chwbiaid cwningod. O'r braidd na thymiech glywed ymson yr hen ŵr unig, barfwyn, a eisteddai ar fainc mewn cysgod dan ddail y pin a'r masarn. Nid oedd amheuaeth ddim na chlywid clec y gwair yn crino tan gyffwrdd tanbaid haul yn hirlfelynaf ei dês. Ac onid oedd arogl cyfarwydd y gwair newydd

ei ladd, yntau'n ymddangos ar y pryd yn gymaint o bersain ag o bersawr? Yr oedd rhôs ar y perthi mân, ac ymddangosai'r awyr, hithau, yn rhôs i gyd weithian. Mwyn oedd eistedd ar glogwyn yno, a mwyn oedd oedi, a mwyn myfyrio; a mwyned codi i'r cof atgofion y gorffennol, y rhai chwerw yr un fel a'r rhai melys! Tynnai mwynder y lle y colyn allan ohonynt, a deuent yn hoff fel y lleill. Edrych-ai'r bwthyn bach tô gwellt—tô banadl a ddylwn ddywedyd—oedd yn ymyl, yn batrwm o hedd a thawelwch gan atgofio dyn am ei hafal yng ngodre gerddi Fersâi, a'i breswlydd arglwydddaidd, y dirion Farie Antoinette, neu wedyn mewn lle arall, yr un mor swynol, yn Chantilly. Unpeth oedd eisiau i berffeithio'r olygfa a'i lledrithio. Ac fe'i ceid yn ddiatreg, ond yn unig godi pen i sylwi ar y ffyrdd yn ymgolli i ganol y coed, hyd ystlysau'r bryn, a diflannu'n dlyision fel byddin o dylwyth teg, a'ch arwain chwithau hyd lwybrau brialluog sifalri'r oes-oedd canol, yn un o farchogion Arthur a'r Ford Gron.

Yn ôl a mi o'r fro hudol hon, eildro gydag ymyl gwaelod y dyffryn, gan rwydo'n araf hyd lwybr oedd eto yn ymblethu am y briffordd, ac yn chwarae megis a dail y ddwyres coed oedd i honno. Gwelwn fwthyn unffenstr weithiau, a phlastý moethus ffenestrog waith arall, yn wyneb-heulo'n dæg yn ei nythfa gynnes yng nghanol y goedwig, ond o hyd y tri chyfaill—yr afon, oedd, ar dro yn "*ddwr du*" yn wir, y ddôl ddeil-oludog, a'r llethrau serth.

A chyrraedd Morlaix, a myned i'r "*Ti Breiz*" am

fy nghyfaill, Gourvil, i siarad Cymraeg am oriau, ac i ymddiddan am Lydaw, am Gymru, ac i ganu eu cerddi hoffaf. Wedi talm byr, aethom allan i windŷ, lle y cawsom dê iawn—iawn fel nad yw'n rheol ei gael oddiallan i Brydain, na phob amser oddimewn iddi ychwaith. Canu ydyw hoff waith Gourvil, a cheidw draddodiad y bardd crwydr yn ei flaen, trwy fyned o fan i fan tros Lydaw benbaladr i ganu. Untro ym Morlaix, dro arall mewn pardwn neu wyl yn y gymdogaeth, dro arall wedyn yn nhueddau pellaf Llydaw, ym Mhaimpol yn y Gogledd, yng Nghemper yn y De, yn St Malo neu yn Naoned (Nantes), a thrachefn dro, oddiallan i Lydaw, ym Mharis i'r Llydawiaid sydd ar wasgar yno yn gannoedd ohonynt ac yn filoedd, ym Melgium a Holland, ac yn Neheudir eithaf Ffrainc, ond bob tro yn canu am Lydaw, am Gymru, am yr Alban ac am Iwerddon. Y mae mor hyfryd ganddo'r naill le a'r llall, ond iddo gael canu'r cerddi sydd mor annwyl ganddo. Y mae mor gyfarwydd a chaneuon Cymreig ag odid neb yng Nghymru, ac ni wn i ddim ba sawl un a wŷr ef ar ei gof, y geiriau fel y farddoniaeth. Yr wyf braidd yn sicr eu bod yn ddegau. Cyfieithodd ambell un ohonynt i'r Ffrangeg, er enghraifft: "Yr Eneth Ddall," a "Merch Megan." Y nos honno, canodd imi rai o'r cerddi doniol a genir ym Morlaix ddydd marchnad neu briodas megis: *Ar boutouer Koat, Kapiten Sant Malou, Disul vintin, Klemmou groeg al loukes*. Dydd neu ddau'n gynt, canasai ym Mrest: *Ma Douce Annette, Dafydd y Garreg Wen, L'Epouse*



*du Roy D'Alvalloch* (cân Albanaidd), *Sur le Pont de Treguier* (cân Lydewig), *Barbara Allan* (balad Albanaidd), *Quand celui qui t'adore* (cân Wyddeleg).

Yr oedd ein hymddiddan yn frŵd a llawen fel y gellid disgwyl, a chynwysai bopeth braidd a ddwg gysylltiad â Chymru ac â Llydaw, yn fyd ac yn fetws. Buasai Gourvil am rai misoedd ym Methesda, Sir Gaernarfon, ac ni thawai a chanu clod i ramant a swyn y lle hwnnw, ac i garedigrwydd ei breswylwyr. Yno y dysgodd Gymraeg, ac yno yr ai gyntaf eto, pe cawsai'r cyfle. Adwaen yr Athro Parry-Williams, heblaw bod yn gyfarwydd a'i brydyddiaeth ef, ac eiddo Gwynn Jones. Eddyf swyn "Tro yn Llydaw" ond gan dystio bod gwallau lawer ynddo, a rhagfarnau mor aml a hynny, ac ambell ymddiddan mwy neu lai annichonadwy. Nid Pabydd tanbaid, brwdfrydig, mohono, a chyfeddyf nad yw'r offeiriaid mor danllyd o blaid y Llydaweg ag y gallent fod. Er hynny, y mae'r dyb ganddo iddynt, a'u cymryd at ei gilydd, wneuthur mwy o'i phlaid na neb arall. Yn anffodus, ni ddysgir Llydaweg ddim yn yr ysgolion, na hanes Llydaw. I'r gwrthwyneb, yn gyfangwbl. Am a ddysgir o gwbl ar y naill neu'r llall, yn ysgolion yr Eglwys y gwneir hynny—nid ym mhob rhai, ond mewn cyfran yn unig—ac yno, gan amlaf, yn rhyfeddol o amherffaith. Y mae'n gam yn y blaen er hynny, ac yn beth i'w ganmol, yn ôl gwirionedd yr ymadrodd, bod peth yn well na dim.

Ac felly, â blâs gwin ar ein min y dirwynai ein hymgom o destun i destun gan symud o'r naill i'r

llall, fel yr hêd iar fach yr haf—y glöyn byw, mewn geiriau eraill—o flodeuyn i'w gymar, gan ddiflannu yn y diwedd, pan ddelo'r hwyr arni, a'r "gwlythyn gorwyn," chwedl Islwyn, ar y blodeuyn. Cyn ymadael, cyd-ganu'n hwyliog, "Hen Wlad fy Nhadau," a "Myfi'n bugeilio'r Gwenith Gwyn." Yr oedd yn ymylu ar hanner nos arnom yn diweddu'r ymddiddan, ac yn gadael y tŷ coffi bob un am ei gyfair. Dringo, dringo, wedyn, i fyny'r aneirif risiau at ymyl yr orsaf, lle'r oedd gennyf ystafell am unnos arall.

XVI

"Truth is beauty, beauty truth."

EGLWYS ARDDERCHOG

CODAIS yn blygeiniol drannoeth wedyn, gan fy mod am wneuthur y gorau o'r amser oedd yn aros imi. Yr oeddwn am fyned i Frest, nid am fod dim Llydewig yng nghymeriad y dref honno, ond am fod yno'n byw ddau neu dri Llydaŵr y mynnwn ymweled â hwy. Ac nid digon gennyf fyned i Frest. Dymunwn, yn gyntaf oll, fyned i Saint Thegonnec i weled yr eglwys sydd yno, a'r Galfaria, yr esgyrindŷ, â'r porth.

Gadawn Forlaix gydag un o'r trenau boreaf, a chael yr olwg gyflawn arni o ben y bont uchel, ac edrych i lawr ar ei thai'n dew yn ei gilydd, ar ymylon y dyffryn, ac eto ar ei godreon. Yna, yn glau, allan a ni i'r wlad gymharol anwastad sydd o gwmpas, lle'r oeddem yn gyfeillion i'r amaethwyr oedd ar eu gliniau yn chwynnu maip, ac yn eu teneuo, i'r merched â'r plant oedd yn bugeilio'r gwartheg rhag eu myned i bori'r ŷd neu'r meillion. Bychain iawn yw'r ffermydd, ac ni ellir caniatáu i'r gwartheg gae pori o gwbl. Eu cyfran hwy fydd, beunydd, y dalar gul gydag ymylon y caeau ŷd a gwair, tatw ac erfin, ac yna, wedi torri'r gwair, y lle rhydd rhwng mwdwl a mwdwl.

Eu heiddo hwy, hefyd, ambell rôs rhwng eithin a banadl, grug a rhedyn, ochrau'r cloddiau, ymylon y lonydd a'r priffyrdd, mannau oll a ofyn am blant neu ferched i'w gwylio'n gyson. Yr un fath gyda'r ddwy ddafad neu dair fydd ambell waith yn perthyn i'r mân dyddynnod hyn. Bydd rhaff am ben y fuwch, neu'r ddafad, o gorn i gorn, ac yna deirllath neu bedair ohoni yn nwylo bugail o blentyn neu ferch. Nid rhyfedd, ynteu, gael yn Llydaweg yr un gair—"bugel"—am blentyn ag am fugail.

Y mae'n arferiad sydd yn rhoddi cyfle ddigon i'r sawl a fugeilia freuddwydio y faint fyd a fynno, a thueddu i'w ddiogi yr un modd. Ni chyst ddim, ychwaith, i'r amaethwr, pan fyddo plant ganddo, fel y mae'n rheol yn y wlad epilgar hon. Nid felly i'r ddeuddyn ieuanc fydd newydd briodi. Bydd yn rhaid talu i'r ferch fechan a edrych ar ôl y gwartheg, ddeugain franc y mis—nid yw'n llawer yng nghyfnawid y bunt, wyth swllt yn unig—a'i bwyd a'i lletŷ. Wele paham y gwelir rhai ohonynt, yn enwedig yn y De, tua Phont l'Abbe (*Pont an Abbad*),—man y mae Llydawiaid medrusach na'i gilydd—yn lle cyflogi merch, yn gosod haearn wrth naill ben y rhaff fydd am y fuwch, ac yn ei wthio droedfedd neu ddwy yn y ddaear. Gellir, yn y modd hwnnw, adael deg ohonynt, neu fwy hyd yn oed, yn yr un cae â gwair fydd yn ei fydyllau, neu ŷd yn ei fychod neu ei stacanau, heb bryder yn y byd. Yno y byddant am y dydd yn pori'r cylch pedwar cam oddiamgylch i'r haearn, hyd oni ddelo'r laethferch, fin nos, i'w 'mofyn i odro.

Rhai munudau'n unig oedd ddigon i'm dwyn i orsaf Saint Thegonnec, yng nghanol gwlad drist, bruddglwyfus, yn amlach ei chymylau na'i haul, a glâs tywyll ei ffriddoedd eithin, na melyn ei gwenith. Y mae'r dref ei hun ryw dair milltir i ffwrdd, a gwelais fod eraill heblaw myfi am eu cerdded. Os oedd drist y fro, ac unffurf, yr oedd yn hawdd brasgamu gan ysgafned awel dyner y bore. Ceffid hefyd, wrth rodio'r ddaear, olwg swynol ddigon ar wlad wastad, gaeau mân, aml, yn dwyn eu llonnaid o geirch llwyd a thatw ac erfin, o eithin a grug a banadl. Prawf o ddyfalwch y Leonad gweithgar oedd ar y tir ym mhobman. Eithr nid hynny'n unig. Nid ar fara'n unig y bydd ef byw, fel y tystiai'r Chalfariau a welwn bob yn hyn a hyn. Deuthum, yn ddiarwybod imi bron, ar draws y dystiolaeth bennaf o bob un, pan welais gip ar y dref.

Yr wyf yn camgymryd; nid tref a ddylwn ddweud, ond pentref. Ac eto, yn y pentref hwnnw y gwelais yr arwydd bennaf o gymundeb defosiwn a chelfyddyd a welais yn unlle. Newydd droi heibio'r drofa nesaf ato a wnaethwn pan synnyd fi gan yr olwg oedd o'm blaen. Gweled yr oeddwn eglwys a'i thŵr yn hardd a thêg, a'i phorth yn bendefigaidd, a'i Chalfaria o'i blaen, a'i hesgyrnyd i'r chwith, y cyfan gyda'i gilydd yn odiaeth o effeithiol. Yr oedd fel myned i eisteddfa Eglwys Gadeiriol mewn dinas. Ac eto, yng nghanol gwlad yr oeddwn, cerdded i mewn i bentref bychan! Yr olwg honno a gefais ar Saint Thegonnec yw'r un a erys yn fy mryd bob amser wrth

feddwl amdani, a'r un a drysoraf, er bod yno droeon wedi hynny.

Nesawn i gael gweled, bron na ddylwn ysgrifennu i *addoli*, yng nghysegr celfyddyd a defosiwn. Yn sicr dyna ydyw, pan gofier mai llaw llafurwyr gwlad a'i cododd. Dywedodd Georges Sand, yn ôl darllen *Barzaz Breiz*, y dylai pob Ffrancwr dynnu ei gapan i Lydaw'r. Wrth edmygu celfyddyd ei heglwysi a'i chalfariau yn hytrach y daw yr un meddwl i minnau. Dyneswn at Saint Thegonnec—ond gyda gwyleidd-dra, gyda pharch, gyda'r edmygedd sydd yn deilwng o fangre mor hynod. Y mae'r porth i'r fynwent yn un o'r rhai gorau yn Llydaw, ac er ei leied, yn tynnu sylw ato ar unwaith. Canys y mae'n rhyw fath ar borth buddugoliaeth, *arc de triomphe*, gyda thyrau bychain, ar lun clychau, a chroes uwchben. Yn union wedi cerdded trwyddo, y mae, ar y chwith, esgyrnyd, un o'r rheini lle'r arferid gynt gadw esgyrn y meirw ynddynt, wedi eu codi o'r bedd. Y mae'r rheswm yn eglur. Bychain yw'r mynwentydd yn Llydaw, ac, fel rheol, yn gae am yr eglwys, yn hên fel hi, ac yn hîn, lawer tro. Yno y cleddid pawb yn y plwyf, ac y claddesid hwy er canrifoedd. I lynu wrth y fynwent, a ddaethai felly, mewn rhyw ystyr, yn santaidd yng ngolwg pawb, ac i gladdu pawb ynddi, rhaid oedd cynilo ar le. A'r ffordd? Agorid y beddau bob rhyw nifer o flynyddoedd—pump yn ôl gair gwragedd Guimiliau, sydd yn ymyl Saint Thegonnec—a gosod yr esgyrn yn yr esgyrnyd. Go brin y mae unlle yn cadw'r traddodiad ymlaen heddiw. Crynhoir

yr esgyrn a'u gosod gyda'i gilydd, ond nid, fel cynt, yn yr esgyrndŷ, eithr, weithian, yn ôl yn y bedd. Mymryn o le'n unig sydd eisiau arnynt felly. Dyna hepgor yr esgyrndŷ, ac eto gynilo daear y fynwent yr un pryd.

Hwn yn Saint Thegonnec ydoedd y cyntaf a welswn hyd hynny, a cherddais i mewn iddo. Y mae'n fwy o gapel heddiw nag o ddim arall. Cerddais i lawr i'r gell sydd tano, gan ddarllen yr ysgrifen Lydaweg sydd yno, a'i thorri i lawr mewn du a gwyn, fel hyn:—

*“ O ma c'halleme dre va souffrançon prene e vuez d'an Salver caran Jezuz, pehini a velan maro; me garve souffr mil merzerinti evit rei ur moment a vuez dezan, da viana e conduin pelloc'h ur vuez a varo e creis an daelou hac an huanadou.”*<sup>1</sup>

Islaw, ysgrifen arall, honno yn y Ffrangeg, ac yn darllen fel hyn:—

*“ Tu le vois mort, pecheur, ce Dieu qui t'a fait naître; sa mort est ton ouvrage, et devient ton appui: a ce trait de bonté tu dois au moins connaître que s'il est mort pour toi, tu dois vivre pour lui.”*

Cyfeirio yr oedd y ddwy ysgrifen at y cerfiad byw, oedd islaw yn arwyddo gosod Crist yn y bedd, gyda'i

<sup>1</sup> O na allwn i, drwy fy nioddefiadau, brynu ei fywyd i'r Iachawdwr annwyl a welaf wedi marw; mi garwn ddiodef mil merthyrdod er mwyn rhoddi munud o fywyd iddo, imi arwain ymhellach ei fywyd a fu farw yng nghanol dagrau a griddfannau.

gyfeillion olaf o'i gwmpas, y cyfan mewn derw lliwiedig ac yn rhyfeddol o effeithiol. Uwchben, yn y nen, Duw yn edrych i lawr.

Allan o'r capel a mi, i sylwi ar y Galfaria, hithau yr orau a welswn yn Llydaw, er bod gwell eto i'w cael fel y cefais weled rai dyddiau'n ddiweddarach yng Nghuimiliau, a dwy flynedd ar ôl hynny, ym Mhleyben. Dangos y mae Sant Thegonnec, a ddeisyfir gan y trigolion o blaid ceffylau, a'r bustach, a ddŷg, yn ôl traddodiad, ddeunydd yr Eglwys at ei gilydd, ag ef yn y trwmbel yn tynnu ei orau. Yn uwch i fyny, dangosir y gosod yn y bedd, a'r Gwragedd Santaidd wrth droed Croes wedi ei haddurno a thair cangen. Yn uchaf i gyd, dau angel yn derbyn y gwaeid a rêd o ddwylo'r Crist, dwy groes arall eto, a'r ddau leidr. Diddorol o Galfaria heb ddim dwywaith, ond israddol o'i chymharu a'r dair neu bedair arall sydd yn ddigon gwell na hi, yn gyflawnach o addurniadau, ac yn gelfyddach, geinach.

Y mae'r Eglwys ei hun yn wemp ddfai, a'i thŵr, a'i chlochdŷ yn wympach wedyn. Nid yw'n uchel, ar wahan i'r tŵr, am nad hynny oedd cymeriad arbennig eglwysi Llydaw. Y rheol ydoedd eu bod yn isel, yn fynych yn isel iawn, i gael cysgod rhag y gwynt a fwrw beunydd ar Arvor o'r môr sydd wregys iddi. Nid felly'r tŵr. Gyda'i gyfodi ef, dangosid medr a dewredd anghyffredin, a'i adeiladu'n rhyfeddol o uchel ambell dro, ac yn aruthr unwaith o leiaf, wrth godi tŵr y Kreisker yng Nghastell Paol de Leon. Newidir y drefn heddiw, a chodi eglwysi cymharol

uchel bob tro, er nad gyda llwyddiant mawr, ac nid glaned hwy wrth a godid gynt.

Agorais y drws, a symud yn araf i mewn, a'm cael fy hun oddimewn i eglwys a aroglai o henaint, ond a oedd dlos yr un pryd. Y peth cyntaf i dynnu sylw ydoedd y pulpud rhagorol, un o'r goreuon, yn Llydaw o leiaf. Y mae o dderw da, ac yn un rhyfeddod o gerfiadau, ac o waith aml a manwl. Aneirif y ffigyrau sydd yno, a pherffaith eu pryd a'u gwedd, mor fyw ag yn y cread ei hun, nes gwneud y pulpud yn gwbl ddihafal, yn destun gorhoffedd cyfiawn y trigolion. Gwaith dau bensaer o Landivisiau, yn dâd a mab, ydyw, ond ni wyddys dim amdanynt. Uwch ben y pulpud, y mae gortho dlôs yn fath ar gaead gwych iddo, a'r angel anhepgor. Ar y mur gyferbyn, gwelwn ddelw gerfiedig i Saint Thegonnec, ac i'r Wryf Fair. Yn ymyl, taflen brydferth i'r meirw, o waith un M. Nicholas o Gastell Paol, newydd ei gosod i fyny, ac yn disgleirio yn ei laer newydd. Yn hanner cylch, uwchben yr enwau yr oedd y geiriau:—"*Doue hag ar vro.*"<sup>1</sup> Ac ar y gwaelod, y lleill:—"*O Iesu Trugarezus. Roit deo ar vuez peurbaduz.*"<sup>2</sup>

Rhyngddynt yr oedd enwau tua saith ugain o'r bechgyn a fu farw yn y rhyfel, nifer ofnadwy mewn plwyf mor fychan. Gwelwn fod enw bron o bob teulu yno, ac ugain o'r pentref ei hun. Yr oedd yn drist, oedd, meddaf i chwi, yn dorcalonnus o drist. Deuai'r tristwch trosoch yn gawod lethol, wrth

<sup>1</sup> Duw a'r Fro.

<sup>2</sup> O Iesu Trugarog, dyro iddynt y bywyd di-ddiwedd.

ddarllen yr enwau, a meddwl am a olygai i'r teuluoedd gyfnod y rhyfel, gyda'r newyddion erchrystlon yn dod iddynt ddydd ar ôl dydd. Teg yw dywedyd na ddioddefodd yr un rhan o Ffrainc fel Llydaw, a gollodd yn agos i chwarter miliwn. Achosodd beth chwerwder hefyd, canys clywais amryw Lydawiaid yn honni mai hwy fyddai beunydd ar flaen y rhengoedd, yn cymryd weithiau le y rhai a gwypai, weithiau wedyn le'r rhai a ffoai. Ni wn a'i llythrennol wir hyn a'i peidio. Ond gwn ei gael o enau Llydawiaid mwy na'r cyffredin o ddysgedig. Nid rhyfedd iddynt gasglu mai'r Llydawiaid ydyw milwyr gorau Ffrainc, na safai hi ddim hebddynt, ac y digonent i fynnu i Lydaw ei hannibyniaeth yn wyneb Ffrainc ehangach, er amled ei phobl. Hynny, yn wir yw hyder mwy nag un o arweinwyr cenedlaethol Llydaw heddiw.

Wedi darllen yr enwau, darllenais enwau cartrefi'r bechgyn, sydd, yn ddiau gennyf, yn enwau ffermydd y fro; a'u torri i lawr yn ofalus. Nid ym mhob eglwys y byddys mor ffodus a'u cael, ac am hynny, nid ymddiheuraf am eu hysgrifennu yma. Wele hwy, yn ôl eu trefn ar y daflen:—

"Bailleguen, Bodiniry, Bonrepos, Botbalan, Bouges, Coat ar C'hastel, Coat Bras, Coasout, Keranot, Keraleoc'h, Hellin, Guernevez-Saveol, Guelebara, Gozallan, Fers, Creac'hmorvan, Coulart, Cougin, Cost y Men, Cosrouet, Cosqueric, Goslen, Goshofneg, Lespodou, Lescot, Leinlouet, Laharena, Kerzepre, Kervilit, Kerverz, Kerven, Kerquiriou, Kerorven,

Kerzela, Kerincuff, Kergalan, Kerffulz, Kerbrat, Taolarc'hoat, Tiriennou, Rohellou, Poullin, Pont Glaz Penfo, Pennaneac'h Saveol." Debyced, lawer ohonynt, i enwau ffermydd yng Nghymru, yn enwedig pan ddoder "Caer" yn lle "Ker," "Coed" yn lle "Coat," "Maen" yn lle "Men," "Llys" am "Les"!

Yr oeddwn weithian yn ymylu at yr allorau, sydd yn ffrwyth dawn lawer, a chelfyddyd, a gofal, yn gerfiadau llawnion ar bren, yn cynrychioli Efengylwyr a Saint, a phersonau eraill, hygloed yng ngolwg yr Eglwys. Oedais i edrych ar bob un ohonynt, ac yn enwedig ar y brifallor, sydd yn waith rhudd a melyn drosti, yn odidog o'r llawr i'r llofft, gyda phump ffenestr liwiog bert y tu ôl. Ba gelfyddyd! Ba ddefosiwn! Ba gasglu ar gyfoeth cyn gallu trysori defnyddiau mor ddrudion! Clywais ddywedyd yn ddiweddar gan gyfaill imi ym Mharis i ddyn a adwaen ef, gael ei ennill i'r ffydd Gatholig yn unig wrth weled Eglwys Gadeiriol Chartres. Rhaid imi gyfaddef y byddai honno yn Saint Thegonnec yn debycach o gyflawn-i'r unrhyw wyrth arnaf i, er ei bod yn llawer llai ei maint, yn anamlach ei chreiriau a'i delwau, ac yn amherffeithiach ei gwydrau a'i hallorau. Eithr, ar wahan i bob cymhariaeth o'r math hwnnw, y mae iddi ryw ystyr, ryw ymgysgriad amgenach hyd yn oed nag i eglwys fawreddog Chartres.

Allan o eglwys, allan o gysegr myfyrdod. Felly'n union yr oedd hi pan adewais yr eglwys y bore hwnnw. Yr oedd y ffordd yn ymyl yn llawn sŵn a symud meirch ac ebolion, a'ch atgofiai mai dydd ffair ydoedd

hi. Nid oedd gennyf mo'r amser i aros yn hwy yno, i gerdded y pentref. Ac, o ran hynny, fe'i gwelwn bob tamaid o'r fynwent, y tu cefn i'r eglwys.

Eithr cyn troi i ffordd, bernais hi'n ddoeth fyned i mewn i westy yn ymyl am ymborth cyn cerdded am yr orsaf, a chymryd y trên am Frest. Cefais fowlenaid iawn o lefrith melyn, a bara cartref gydag ef, heblaw fy ngwala o ymgom â'r lliaws a wibiai i mewn ac allan o hyd. Yr oeddwn gryf yna, i gychwyn fy ngherdded oedd yn fwy nag arfer o ddiddorol oherwydd y teithio tua'r farchnad yn y pentref. Deuent yn lluoedd, yn llinyn hir ohonynt, bob yn gwmni, gyda'r ebolion a'r ebolesi, y cesyg a'r meirch. Gwŷr Leon oeddynt i gyd, fel y profai'r hetiau llydain, mawrion, weithiau o wellt, weithiau o felfed du, ond bob tro gyda rhubanau duon amdanynt, bob rhuban yn cau a bwcwl gloyw, ac yna'n hongian yn fonheddig y tu ôl. Cotiau ysgeifn byrion oedd amdanynt, ac yna, llodrau golau, y rheini, fel arfer, yn dynn am y goes, ac fel pe'n dynnach fyth am ben y glin. Am y traed, esgidiau oedd ganddynt fynychaf, ac nid y clocs. At y tŷ a'r maes, y beudy a'r buarth, y rheini. Esgidiau lledr ar ddyddiau arbennig, ar ŵyl neu briodas, offeren neu bardwn—er y bydd llawer o ddefnyddio ar yr esgidiau pren hwythau ar yr amgylchiadau a enwyd, yn enwedig gan y gwagedd, a'r rhai tlotach na'i gilydd. Gwybydder er hynny, y gellir cael esgidiau pren fydd yn fonheddig a phrydferth, wedi eu gloywi a'u goreuro'n hafal i ddim esgid a wnaeth Manawydan ben eurych erioed.

Hirdal o ddyn yw preswylwr Leon fel rheol, ac yn dwyn golwg go galed, go gâs ar ei wyneb di-farf, glân. Sieryd lai na'i gymrodor yn Nhreger, a chwery lai na'i gymrodor yng Nghernyw<sup>1</sup>. Crefydd ddistaw, galed sydd ganddo, a chymeriad penderfynol, garw fel creigiau'r ddaear a ddyry faeth iddo. Mewn gair, "tud kaled" chwedl Brizeux. Ond ni rwystrodd na'i grefydd na'i gymeriad iddo ymgyfoethogi'n gystal â neb yn ei wlad. Ni ellid llai na chasglu oddiwrth edrych arnynt nad tlawd mohonynt. Ac am y ceffylau a fagant, hwythwy ydyw'r goreuon a geir yn Llydaw, ac y mae'n fawr y galw amdanynt yn Ffrainc. Nid ânt yno heb dalu cyflawn werth, am nad oes gyndynnach gwerthwr na'r Llydaŵr ar bum cyfandir. Cymer arno fod yn fûd weithiau, neu'n methu a deall Ffrangeg y porthmon, a gofala nad aiff ei geffyl o'i law cyn bod y geiniog yn ei ddwrn cadarn. Bydd ei bris bob amser yn eithriadol o uchel, ac yn raddol raddol y daw i lawr i'r pris rhesymol. Rhwng ei brofiad a'i reddf, dysgodd mai yn y modd hwnnw y caffai fwyaf. Nid yn rhwydd, ychwaith, y gallai gael yr arian a haeddai, heb sôn am ragor na hynny, am fod ei borthmon, y Norman law-gyfewin, gyn gywreinied ag yntau.

Er fy arafu i sylwi ar yr ymgynnull i'r farchnad, cyrhaeddais orsaf Saint Thegonnec yn ddigon clau, ac yn ebrwydd yr oeddwn eilwaith yn y trêrn, a'r waith hon am Frest. Felly, mewn trêrn cyflym, a'm dygai'n wyllt ar draws gwlad o' gaeau gwair, bach bob un, ond a'u llond o weithwyr, yn wragedd mor

<sup>1</sup> Ffrangeg *Cornouaille*: Llydaweg, *Kerne*.

aml a gwŷr. Rhyfedd y gwahaniaeth rhyngddi a Chymru! Yno, ffermydd mawrion gyda meysydd breision, ond heb hanner digon o ddwylo. Pedwar dyn neu bump yn gweithio tyddyn anferth, hyd yn oed adeg y cynhaeaf gwair a llafur. Yn Llydaw, dwsin, pymtheg, a mwy o bobl, ar damaid o gae erw neu ddau. Hynny yw'r fantais o fod yn genedl epilgar, doreithiog. Y mae gweithio caled yn rheol yma, a gweithio oriau meithion, ond nid mor galed ag yng Nghymru, yr un pryd. Neu, i fod yn gywirach, ni wna'r un nifer o bobl y gwaith a wnant yng Nghymru. Wedi ymweled bedair gwaith a Llydaw y mentraf y sylw hwn.

Ni ddisgrifaf y golygfeydd ar ein taith, er eu bod ar dro yn brydferth iawn, yn neilltuol tua Landvisiau, lle'r oedd coed derw cwta, dillad yn amdo gwyn ar berthi, a berni o brennau a brigau. Arhosem funud go hael yn La Roche, a gwelem ei chraig sy'n gyfuwch a chlochtŷ'r eglwys, y rhês merched yn gwnio o flaen eu tai, a'r gwragedd yn golchi'r dillad yn yr afon untro, mewn nant dro arall, ac yna, mewn pwll o ddwfr ar ganol cae. Yn Landerneau yr oedd afon ar ein chwith, ac ynysoedd gleision ynddi, a'r wlad yn anwastataú ac yn ymharddu. Cyrraedd Kerhuon yn nesaf, dyfod at y môr, cyflymu gyda'i lan megis yng Nghymru o Landyfi i Aberdyfi, ymlaen hyd gyrrau Brest, y darn tlysaf oll.

Wedi myned allan o'r orsaf, cerddais trwy'r pyrth i'r tu mewn i'r caerau cedyrn, i ganol heolydd y cyfyd eu tai fry ymhell, ac y sydd gulion yn aml,

a diddorol yn llai aml. Parchodd Brest y Llywydd Wilson, oblegid Place Wilson ydyw'r lle cyhoeddus a welir nesaf, gydag amryw dai heirdd o'i gylch, a gwindai da, a neuaddau masnach. Yn yr un lle y mae'r "Credit Lyonnais" lle y gweithia M. Crocq, un o'r cyfeillion yr oeddwn am eu gweled. Yr oedd yno, yn ŵr byr, bochgoch fel y gwnaeth awelon Llydaw a gwin Ffrainc ef, a serchog a llon. Y mae tua deugain oed, ac yn un o'r ychydig ysgrifennwyr rhyddiaith sydd yn Llydaw. Y mae ef, a M. le Moal ymhell ar y blaen ar bawb arall. Un o Gernyw ydyw, yn meddu'n naturiol ar hoes ac asbri ei thrigolion. Perthyn i amryw o gymdeithasau Llydewig, ac ysgrifenna i'r cylchgronau, yn fwy na'r un arall, i'r "*Buhez Breiz*" a olygir gan M. Mocaer. Yn wir, danfonai chwedl i'r cylchgrawn hwnnw y dydd y cyfarfum ag ef. Ennyd go fyr y buom gyda'n gilydd ond ennyd oedd ddigon i ymddiddan yn ddiwyd am Lydaw, ei hanes a'i hiaith, ei beirdd a'i barddas. Canmolai lawer ar Vallée, Taldir a Mocaer, a chyfaddef dawn Rolland a'i gof, ysgafnder Proux, medr Lajat, ac awen Le Garrek. Digalon ydoedd wrth sôn am yr iaith, ac yn darogan ei marw, peth a'm synnodd gryn lawer, yn enwedig gan iddo fynegi ei ffydd ynddi mor galonnog a hyderus yn rhai o'i gerddi. Nid anobaith, yn sicr, sydd yn y geiriau hyn:—

*Ar Brezoneg a glever a beb tu o tiston  
Tre diouz pelder Beg-ar-Raj betek doar Redon<sup>1</sup>*

<sup>1</sup> Clywir y Llydaweg ym mhobman  
O eithafoedd Penrhyn Raz hyd dir Redon.

Yr un fath am lawer o rai eraill y gellid eu dyfynnu o'i brydyddiaeth. Eithr nid mewn dinas fel Brest y mât yr un Llydaŵr ffydd yn nyfodol ei iaith.

Mocaer oedd y dyn arall y deuthum i ymweled ag ef y dydd hwnnw. Y mae ef yno yn fawr ei barch, yn aelod o Gyngor y Dref, ac yn swyddog pwysig yn llywodraeth y llongau. Nid am hynny ddim yr euthum i'w weled, ond am ei fod yn un o'r blaenaf o'r tô ieuanc o Lydawiad eiddgar o blaid eu gwlad a'i bywyd. Mwyaf oll oedd fy siom o ddeall nad oedd yno ar y pryd, ac na byddai modd o gwbl imi ei gyfarfod ar y daith gyntaf hon yn Llydaw. Nid ar yr ail daith, ychwaith, ond ar y drydedd, y cefais y fraint honno, ac yna, nid ym Mrest, ond yng Nghemper, adeg y Gynhadledd Geltaidd.

Oherwydd paham, cerddais y ddinas ar ôl gadael M. Crocq, neu, a'i alw'n ôl ei enw barddol, Eostig Kerinek. Y mae Brest heddiw yn un o borthladdoedd mwyaf Ffrainc. Cyn hynny, buasai'n gadarn, ym mhlith y mwyaf cadarn o ddinasoedd castellog Tywysogion Llydaw. Y mae'r castell a godwyd yno yn y drydedd-ganrif-ar-ddeg i gymryd lle hwnnw oedd yno o'i flaen, yn aros o hyd, ac yn fawr ei ddefnydd i swyddfeydd y fyddin heddiw eto. Y mae'n helaeth a chryf yn ei gelfyddyd pedryfal, gyda'i gonglau crynion, cedyrn. Yn naturiol, y mae dwy eglwys neu dair yn y ddinas, er nad oes dim neilltuol iawn yn nodweddu'r un ohonynt. Oddimewn i un yn unig y bum, sef eglwys St. Louis, a welais yn fawr ac yn dég, yn ardderchog ei phrif-allor, yn wychion



ei darluniau, yn newyddion ei gwydrau, ac yn newyddach fyth ei horganau.

Nid llawer o ddim arall sydd yn eithriadol o ddiddorol ym Mrest i ddieithryn. Dinas filwrol ydyw hi weithian, fel y dëellir oddiwrth y llaweroedd milwyr yn eu glâs, a grwydra tros ei heolydd cymharol ddigymeriad, a difywyd. O ran a glywir o Lydaweg yno, ag eithrio'r cyrrau, gallai'n hawdd beidio a bod yn Llydaw. Ac am y plant, llefarant Ffrangeg truenus, nad yw, mewn gwirionedd, na Ffrangeg na Llydaweg. Cefais y ffawd dda o fyned i mewn i siop lle'r oedd y fam a'r ferch yn medru Llydaweg—a'i darllen hyd yn oed. Ymddangosent imi mor falch o'm clywed yn parablu'r Llydaweg ag oeddwn i o'u clywed hwy. Diau gennyf bod cyfran dda o'r gweithwyr yno yn gwybod yr un iaith, er mai Ffrangeg tlawd a glywid ganddynt ar yr heol. Er hynny, y mae Brest yn ddinas sydd ag amryw o siopau llyfrau iawn. Ac yno wedyn y mae'r unig bapur wythnosol sydd a rhai o'i golofnau mewn Llydaweg. Cyfeirio yr wyf at y "Courier de Finisterre," a ddarllenir yn lled helaeth yn y dalaith hon. Fe'i gwelais yn ddiweddarach, yn nwylo'r hen wragedd yng Nguimiliau, a eisteddai i maes gyda'i gilydd i'w ddarllen, ac mewn gwindai yng Nghastell Paol. Nid hwyrach nad ydyw mor ysgymun ym Mrest ag yw'r "Darian" yn Aberdâr.

Ym Morlaix y cysgais y nos honno wedyn, er mwyn darganfod mwy o'r berfeddwlad, cyn myned i lawr i'r De— i Gernyw ac i Forbihan.